

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

14 Chwefror 2024

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 8)**
- 5. Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
- 6. Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
- 7. Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
- 8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 9 - 170)**

- 9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Caffael Contract Trin Gwastraff Gweddilliol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 171 - 174)**

- 10. EITEM EITHRIEDIG (Tudalennau 175 - 180)**
Nid yw'r adroddiadau (Atodiadau A a B) ar yr eitem uchod ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

Wrth ddelio â'r eitem hyn, gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt am gau'r cyhoedd a'r wasg allan o'r Cyfarfod.

- 11. Nodi'r Adborth gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb
ER GWYBODAETH (Tudalennau 181 - 196)**

- 12. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 24/25
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 197 - 260)**

- 13. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2024/25
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 261 - 278)**

- 14. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Comins Coch
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 279 - 322)**

- 15. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 323 - 372)**

- 16. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gynradd Plascrug
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 373 - 440)**

- 17. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 441 - 472)**

18. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Enw Swyddogol yr Ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 473 - 474)**
19. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 475 - 476)**
20. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Corfforaethol Drafft
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 477 - 520)**
21. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER GWYBODAETH (Tudalennau 521 - 536)**
22. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
23. **Agenda Atodol – Cyllid a Chaffael - Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Eitem 12 (Tudalennau 537 – 556)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 25 Ionawr 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 1 Chwefror 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 2 Chwefror 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd a Caryl Roberts.

(10.00am- 12.52pm)

141 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymadau eraill y Cyngor.

142 Materion Personol

- i. Diolchwyd i'r staff am eu hymdrechion i helpu pawb yr effeithiwyd arnynt gan y tywydd gwael yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Stevie Williams ar ei lwyddiant yn y 'Tour Down Under' yn Awstralia.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r Dr Rhodri Llwyd Morgan ar ei benodiad yn Brif Weithredwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- iv. Estynnwyd y dymuniadau gorau i Sulwyn Jones, Gweithiwr Amgylcheddol ar ei ymdddeoliad yn dilyn 44 mlynedd o wasanaeth i'r awdurdod lleol.

143 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Hen Ysgol Gynradd Cribyn yn eitem 149 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

144 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

145 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

146 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

Tudalen 6

- 147 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
Dim.
- 148 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 2024/25 a'r rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn**
PENDERFYNIAD:
1. Nodi bod y codiad arfaethedig yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn debygol o olygu pwysau costau o £497k ar Gyllideb 24/25 y Cyngor (sy'n cyfateb i gynnydd o oddeutu 1.1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer trigolion Ceredigion).
 2. Cynnig y Cabinet parthed Premiymau Treth y Cyngor yw:
 - a) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl addaliadau/ costau Treth y Cyngor) yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod na fydd lefel y cyllid sy'n cael ei ddal yn y Cynllun Tai Cymunedol yn mynd y tu hwnt i £2.0m, a bod unrhyw gyllid y tu hwnt i hyn mewn blwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
 - b) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl addaliadau/ costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
 3. Nodi mai Gofyniad Cyllideb ddrafft 24/25 ar hyn o bryd yw £192.470m.
 4. Nodi y byddai Gofyniad Cyllideb drafft 24/25 yn arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (o ran cyfran Cyngor Sir Ceredigion) o £4.15 yr wythnos (£17.99 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
 5. Pan gyhoeddir Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25:
 - a) Bod gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu cyfeirio i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
 - b) Y dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
 - c) Y rhoddir sylw i unrhyw newid arall i'r AEF drwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
 6. Nodi y byddai'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddarau ymhellach ar ôl Cyllideb y Canghellor yn y Gwanwyn, ar 06/03/24.
 7. Nodi rhaglen arfaethedig y Ffioedd a Thaliadau drafft fel y nodir yn Atodiad 8, ystyrir y rhain yn ffurfiol gan y Cabinet ar 20/02/24.
 8. Argymhell bod y Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn, fel y'i nodir yn Atodiad 10, yn cael ei chymeradwyo.
 9. Argymhell bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y'i nodir yn Atodiad 11, yn cael ei chymeradwyo.
 10. Nodi y dylid ystyried unrhyw opsiynau newydd neu amgen ar gyfer Cyllideb ddrafft 24/25 yn ystod y cyfarfodydd i Graffu ar y Gyllideb ac y byddai angen digon o amser ymlaen llaw ar y Swyddog Adran 151 i fodelu'n llawn unrhyw effeithiau posib ac i roi barn ar gadernid unrhyw gynnig.
 11. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn at sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y gall y Cabinet ystyried eu hadborth ffurfiol nhw ar 20/02/24, fel y gall

Tudalen 7

y Cabinet wedyn gyflwyno'u hargymhellion terfynol nhw ar Ofyniad Cyllideb 24/25 a maint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 24/25 i'r Cyngor Llawn ar 29/02/24.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod y gwaith o baratoi Cyllideb 2023/24 yn gallu mynd rhagddo.

149 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Bwriad i werthu asedau

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r egwyddor o waredu/ gwerthu'r asedau canlynol:
 - i. Hen Ysgol Gynradd Cribyn
 - ii. Hen Ysgol Beulah
 - iii. Hen Ysgol Gynradd Cilcennin
2. Gohirio'r egwyddor o waredu/gwerthu Hen Waith Trin Carthion, Pontgarreg er mwyn caniatáu ystyriaeth bellach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Creu derbyniadau cyfalaf o asedau nad oes mo'u hangen mwyach.

150 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Ail-gomisiynu'r Grant Cymorth Tai

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo:

- 1) yr egwyddor o ddyfarnu contract Cymorth TA Brys Grant Cymorth Tai
- 2) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i bob un o'r canlynol ar y cyd i gymeradwyo dyfarnu/cymeradwyo'r cytundeb i'r tendr llwyddiannus:
 - Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd
 - Aelod Cabinet, Cyllid a Chaffael
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael (a Swyddog Adran 151)
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar

Y rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau y gall y Cyngor ddyfarnu contract Grant Cymorth Tai ar gyfer Cymorth Llety Dros Dro Brys mewn modd amserol a sicrhau bod y darparwr yn gallu ymgymryd â'r contract newydd o 1 Ebrill 2024.

151 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
20 Chwefror 2024**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Tudalen 8

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Pwrpas yr adroddiad: Diweddaru'r Cabinet o ran canlyniad proses yr Ymgynghoriad, a gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu Polisi diwygiedig Rheoli Harbyrau Ceredigion

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cyngorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Cyflwyniad

Cymeradwywyd Polisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010, ac mae wedi darparu fframwaith clir, defnyddiol a phriodol ar gyfer cyflawni a rheoli'r gweithgarwch yn Harbyrau'r Cyngor yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd.

Ystyriwyd ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol i adolygu'r polisi presennol i gydnabod ac adlewyrchu bod yr Harbyrau yn gyfleusterau aml-ddefnydd a rennir a bwriad cyffredinol y Cyngor yw cryfhau'r Polisi fel y gellir parhau i reoli'r rhain mewn ffordd deg, dryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

Paratowyd Polisi drafft wedi'i ddiweddaru (Atodiad A), ymgynghorwyd yn ei gylch, a rhoddwyd adroddiad amdano i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Mae copi o'r adroddiad a gyflwynwyd wedi'i gynnwys fel papur cefndir.

Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023, argymhellodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus y dylid cymeradwyo Polisi diwygiedig Rheoli Harbyrau Ceredigion i'w roi ar waith wedi hynny yn amodol ar ddiwygiad y caniateir i ddeiliad pob angorfa fasnachol (gan gynnwys angorfeydd pysgota masnachol a theithwyr masnachol) werthu eu cwch gyda'r opsiwn i drosglwyddo'r angorfa a neilltuwyd iddo ar hyn o bryd, pe bai angen. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau etifeddu sydd eisoes yn cael eu rhoi i angorfeydd masnachol yn y polisi drafft wedi'i ddiweddaru.

Pe bai'r Cabinet o blaid derbyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu, yna byddai Swyddogion yn awgrymu bod y geiriad canlynol ar dudalennau 7 a 14 y polisi drafft wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddiwygio yn fersiwn terfynol y polisi fel a ganlyn:

Tudalen 7:

6.2 Nid yw'r ddau fath o angorfeydd masnachol, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy.

Tudalen 10

Tudalen 14:

Trosglwyddo Angorfeydd a Chyfleusterau

18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag angorfeydd neu gyfleusterau o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

I ddarllen fel:

Tudalen 7:

6.2 Nid yw'r ddau fath o angorfeydd Masnachol, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy i drydydd parti heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Bydd unrhyw drosglwyddiadau yn unol â 18.2 y polisi hwn.

Tudalen 14:

Trosglwyddo Angorfeydd a Chyfleusterau

18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag Angorfeydd neu gyfleusterau Hamdden o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

18.2 Mae trosglwyddiadau sy'n ymwneud ag angorfeydd Masnachol yn amodol ar gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Bydd unrhyw gydsyniad a roddir yn amodol ar y cwch a neilltuwyd ar hyn o bryd i'r angorfa yn aros ar yr angorfa ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad.

Lle rhoddir cydsyniad, bydd y Cyngor yn codi ffi trosglwyddo angorfa ar yr ymgeisydd sy'n cymryd yr angorfa (gweler 'Ffioedd a Chostau' cyfredol). Yn ogystal â'r ffi trosglwyddo, bydd y ffioedd angori llawn sy'n berthnasol i'r cwch am y tymor hefyd yn berthnasol (gweler 'Ffioedd a Chostau' cyfredol). Dim ond ar ôl cael taliad llawn o'r ffioedd hyn y bydd y trosglwyddiad yn cael ei gwblhau.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Fe'i darperir yn Atodiad B.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

- Hirdymor:** Mae'r Polisi arfaethedig yn cydbwysu gofynion byrdymor a hirdymor y rhanddeiliaid.
- Cydweithio:** Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu ac yn cydweithio â rhanddeiliaid mewn gwahanol ffyrdd, fel y nodir yn yr ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad.
- Cynnwys:** Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys mewn gwahanol ffyrdd, fel y nodir yn yr ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad.
- Atal:** Mae datblygu Polisi clir yn atal risgiau a allai godi fel arall, a hynny drwy ddarparu fframwaith clir, tryloyw a theg ar gyfer rheoli'r harbyrau
- Integreiddio:** Mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi'i integreiddio yn rhan o'r Cyngor Sir. Mae hyn yn sicrhau fod y systemau, polisïau a phrotocolau corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith.

Argymhelliad / Argymhellion:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.
2. Cymeradwyo Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion (Atodiad A), yn amodol ar y newidiadau canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad:

Tudalen 7:

“6.2 Nid yw'r ddau fath o angorfeydd Masnachol, ar ôl eu dyrannu, yn drosglwyddadwy i drydydd parti heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Bydd unrhyw drosglwyddiadau yn unol â 18.2 y polisi hwn.”

Tudalen 14:

“Trosglwyddo Angorfeydd a Chyfleusterau

18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag Angorfeydd neu gyfleusterau Hamdden o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

18.2 Mae trosglwyddiadau sy'n ymwneud ag angorfeydd Masnachol yn amodol ar gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Bydd unrhyw gydsyniad a roddir yn amodol ar y cwch a neilltuwyd ar hyn o bryd i'r angorfa yn aros ar yr angorfa ar ôl cwblhau'r trosglwyddiad.

Lle rhoddir cydsyniad, bydd y Cyngor yn codi ffi trosglwyddo angorfa ar yr ymgeisydd sy'n cymryd yr angorfa (gweler 'Ffioedd a Chostau' cyfredol). Yn ogystal â'r ffi trosglwyddo, bydd y ffioedd angori llawn sy'n berthnasol i'r cwch am y tymor hefyd yn berthnasol (gweler 'Ffioedd a Chostau' cyfredol). Dim ond ar ôl cael taliad llawn o'r ffioedd hyn y bydd y trosglwyddiad yn cael ei gwblhau.”

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Mabwysiadu a gweithredu Polisi Rheoli Harbyrau sy'n cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o reoli'r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw er budd holl ddefnyddwyr yr harbyrau.

Trosolwg a Chraffu:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Fframwaith Polisi:

Amherthnasol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Amherthnasol

Goblygiadau cyfreithiol:

Amherthnasol

Goblygiadau staffio:

Amherthnasol

Tudalen 12

Goblygiadau eiddo / asedau:

Amherthnasol

Risg(iau):

Amherthnasol

Pwerau Statudol:

Pwerau'r Cyngor fel Awdurdod Harbwr ac o dan Ddeddfau Harbwr cysylltiedig perthnasol

Papurau Cefndir:

Adroddiad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach 18.12.23

Atodiadau:

Atodiad A- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Atodiad B- Asesiad Effaith Integredig

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:

Katy Spain / Owen Morgan

Dyddiad:

28 Ionawr 2024

Eitem Agenda 3

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r</u>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
<u>Dyddiad y Cyfarfod:</u>	18 Rhagfyr 2023
<u>Teitl:</u>	Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion: Ymgynghoriad
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Rhoi'r diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor ar ganlyniad y broses Ymgynghori

Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth: I adolygu polisi**1.0 Cefndir**

Cymeradwywyd Polisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010.

Mae'r Polisi wedi darparu fframwaith clir, defnyddiol a phriodol ar gyfer cyflawni a rheoli'r gweithgarwch yn Harbyrau'r Cyngor yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd. Fodd bynnag, erbyn hyn ystyrir ei bod hi'n briodol ac yn amserol adolygu a diweddarau'r Polisi i adlewyrchu'r newidiadau perthnasol ers i'r Polisi gael ei roi ar waith. Hefyd, i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng y Polisi a gweithgarwch presennol yr Harbyrau sydd wedi'u nodi neu sy'n deillio o brofiad.

Mae'r newidiadau a gynigir yn adeiladu ar y Polisi presennol sydd wedi gwasanaethu'r rhanddeiliaid yn dda ers dros ddegawd. Mae'r newidiadau yn cydnabod ac yn adlewyrchu bod yr Harbyrau yn gyfleusterau aml-ddefnydd sy'n cael eu rhannu, a bwriad cyffredinol y Cyngor yw cryfhau'r Polisi fel y gellir parhau i reoli'r rhain mewn ffordd deg, dryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

2.0 Y Sefyllfa Bresennol

Mae Polisi drafft diweddaredig wedi'i baratoi ac fel rhan o'r broses o newid polisi, cynhaliwyd ymgynghoriad gan roi cyfle i randdeiliaid roi eu barn.

2.1 Y Broses Ymgynghori

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 20 Medi 2023 ac roedd ar agor hyd 20 Hydref 2023.

Gellir gweld mwy o wybodaeth am y broses yma: [Ymgynghoriad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion](#) ac fe'i darperir yn **Atodiad 1** er hwylustod.

Yn gyfangwbl cafwyd 108 o ymatebion (105 ar-lein a 3 chopi caled/papur) drwy'r broses ymgynghori benodedig.

Yn ogystal â'r adborth a gafwyd drwy'r broses ymgynghori benodedig, cafwyd a nodwyd adborth drwy ffyrdd eraill.

Tudalen 44

I roi'r cyd-destun, mae'r canlynol yn disgrifio nifer a mathau'r deiliaid angorfeydd yn y tri harbwr:

Aberystwyth

Deiliaid Angorfeydd Hamdden 72
Deiliaid Angorfeydd Pysgota Masnachol 4
Cyfanswm: 77

Aberaeron

Deiliaid Angorfeydd Hamdden 88
Deiliaid Angorfeydd i Deithwyr Masnachol 3
Cyfanswm: 91

Ceinewydd

Deiliaid Angorfeydd Hamdden 168
Deiliaid Angorfeydd i Deithwyr Masnachol 4
Deiliaid Angorfeydd Pysgota Masnachol 6
Deiliaid rac caiac: 84
Cyfanswm: 264

Cyfanswm at ei gilydd: 432

2.2 Adborth i'r Ymgynghoriad

- i. Darperir tablau i grynhoi ymatebion y rhanddeiliaid yn ôl eu nifer (ar-lein a chopi caled/papur) yn **Atodiad 2**.
- ii. Darperir yr adborth ansoddol a gafwyd gan y rhanddeiliaid (ar-lein a chopi caled/papur) yn **Atodiad 1**.
- iii. Darperir gohebiaeth ysgrifenedig, a gyflwynwyd y tu allan i'r broses ymgynghori benodedig, yn **Atodiad 2**.
- iv. Darperir ymatebion y Gwasanaeth Harbyrau i'r adborth ansoddol yn **Atodiad 3**.

2.3 Crynodeb o'r Adborth

Fel y gwelir, roedd peth o'r adborth a gafwyd yn benodol neu'n bersonol ei natur tra bod rhai eraill yn fwy cyffredinol.

Yng nghyd-destun cyffredinol y Polisi gellir ystyried y newidiadau arfaethedig fel addasiadau bach yn hytrach na rhywbeth trawsnewidiol, ond mae'r adborth wedi canolbwyntio'n bennaf ar dri phrif fater.

Y materion a oedd yn berthnasol i'r Polisi ac a gynhyrchodd yr adborth mwyaf oedd y cynigion canlynol (gan nodi'r rhesymeg y tu ôl iddynt):

- Peidio â chynnig hawlenni parcio gyda'r angorfeydd (bernir bod hynny'n fudd amhriodol ac anghymesur)
- Tynnu'r hawl i drosglwyddo trefniadau angori (i fod yn fwy tryloyw a theg a gwella'r cyfleon o gael angorfa)
- Tynnu'r hawl i etifeddu trefniadau angori (i wella'r cyfleon o gael angorfa)

Hefyd cafwyd adborth ynghylch materion megis ffioedd a thaliadau a sut maen nhw'n cael eu gosod a'u gweinyddu. Er nad yw'r rhain yn uniongyrchol berthnasol i'r adolygiad o'r Polisi Rheoli Harbyrau - gan eu bod yn rhan o brosesau a systemau ehangach sy'n berthnasol i holl wasanaethau'r Cyngor - rhoddwyd ymatebion i egluro hyn.

2.4 Newidiadau yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad

Yn dilyn yr adborth a gafwyd drwy'r broses ymgynghori, gwnaed newidiadau i ddrafft diweddaraf y Polisi newydd. Mae'r fersiwn hon i'w gweld yn **Atodiad 3**. Darperir y newidiadau ar ffurf 'marcio newidiadau' er hwylustod.

3.0 Casgliad

Mae'r adborth a gafwyd wedi cael ei nodi a'i ystyried. Mae rhywfaint yn ymwneud â'r hyn y gellir ei ystyried yn faterion rheoli o ddydd i ddydd a dylid ymdrin â nhw yn y modd yna. Mae adborth arall yn mynegi safbwyntiau neu farn bersonol a nodwyd y rhain hefyd.

Fel gydag unrhyw ymgynghoriad sy'n ymwneud â newid polisi, ni fydd yn bosib ymateb yn gadarnhaol i'r holl adborth ac awgrymiadau a sylwadau a ddaw i law. Yn wir, gall amcanion, dyheadau a disgwyliadau'r gwahanol randdeiliaid wrthdaro â'i gilydd.

Y bwriad yw cael fframwaith polisi eang sy'n cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o reoli'r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw gan gydnabod amrywiaeth y rhanddeiliaid sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Derbynnir na fydd pawb yn cymeradwyo nac yn cytuno â'r manylion a'r goblygiadau. Fodd bynnag, cyfleusterau a weithredir gan y Cyngor yw'r rhain, ac yn y pen draw mater i'r Cyngor yw penderfynu sut orau i'w rheoli nhw a'r gweithgarwch sy'n digwydd ynddynt.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.

Fe'i darperir yn **Atodiad 4**.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Mae'r Polisi arfaethedig yn cydbwyso gofynion byr-dymor a hirdymor y rhanddeiliaid.
Cydweithio:	Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu ac yn cydweithio â rhanddeiliaid mewn gwahanol ffyrdd, fel y nodir yn yr ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad.
Cynnwys:	Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys mewn gwahanol ffyrdd, fel y nodir yn yr ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad.
Atal:	Mae datblygu Polisi clir yn atal risgiau a allai godi fel arall, a hynny drwy ddarparu fframwaith clir, tryloyw a theg ar gyfer rheoli'r harbyrau.
Integreiddio:	Mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi'i integreiddio yn rhan o'r Cyngor Sir. Mae hyn yn sicrhau fod y systemau, polisiau a phrotocolau corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith.

Argymhelliad:

Bod y Pwyllgor yn

- i. nodi cynnwys yr adroddiad.
- ii. argymhell i'r Cabinet bod y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi drafft Rheoli Harbyrau Ceredigion, sy'n ymgorffori'r newidiadau a wnaed yn dilyn y broses ymgynghori, yn cael ei chymeradwyo er mwyn ei gweithredu wedi hynny.

Rheswm dros y penderfyniad:

Mabwysiadu a gweithredu Polisi Rheoli Harbyrau sy'n cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o reoli'r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw er budd holl ddefnyddwyr yr harbyrau.

Enwau Cyswllt: Gerwyn Jones, Katy Spain, Owen Morgan

Swyddi: Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Amgylcheddol;
Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Trafnidiaeth;
Rheolwr Harbyrau Ceredigion

Dyddiad yr Adroddiad: 1 Rhagfyr 2023

Acronymau:

Ddim yn berthnasol

Atodiad 1

Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae'r Harbyrau yn asedau sy'n dra hoff a gwerthfawr iawn, o amrywiaeth o safbwyntiau masnachol a hamdden ac sydd â rôl bwysig wrth gyfrannu at Amcan Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor o:

Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth

Ymgwymerir â rheolaeth yr Harbyrau gan Dîm Gwasanaethau'r Harbwr. Mae Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion yn rhoi'r fframwaith strategol sy'n sail i sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau fel Awdurdod Harbwr a sut rydym yn darparu'r Gwasanaeth. Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Polisi presennol gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010 ac, o'r herwydd, mae adolygiad bellach yn amserol.

Mae eich barn yn bwysig i ni, felly manteisiwch ar y cyfle i ddweud eich dweud ar y Polisi drafft drwy ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd hyn yn sicrhau y gellir coladu eich ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad o'r ymateb i'r ymgynghoriad.



Y Cynghorydd Keith Henson

Aelod y Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

1) Pam ydym ni'n adolygu ac yn diweddarau Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion?

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Polisi presennol gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010 ac, o'r herwydd, mae adolygiad bellach yn amserol.

Wrth adolygu'r Polisi, rydym wedi ceisio cadw'r elfennau sydd wedi gweithio'n dda dros y blynyddoedd, tra'n cynnig newid a diweddarau rhai agweddau i adlewyrchu profiad ac adborth. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng y Polisi a gweithgareddau cyfredol sy'n ymwneud â'r Harbwr sydd wedi'u hadnabod a/neu yn deillio o brofiad.

Gellir ystyried y newidiadau arfaethedig fel mân addasiadau yn hytrach na thrawsnewidiol, gan adeiladu ar y Polisi sydd wedi gwasanaethu rhanddeiliaid yn dda ers dros ddegawd. Mae'r Polisi cyffredinol a'r newidiadau arfaethedig yn cydnabod ac yn adlewyrchu bod yr Harbyrau yn gyfleusterau aml-ddefnydd a rennir a bwriad cyffredinol y Cyngor yw cryfhau'r Polisi fel y gellir parhau i reoli'r rhain mewn modd teg, tryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

2) Cyfranogwyr a Sefydliadau a Wahoddwyd

Gwahoddir unrhyw randdeiliaid sydd â buddiant yn yr Harbyrau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

3) Dod o hyd i Bolisiâu Rheoli Harbyrau Ceredigion

Gallwch chi ddarllen y Polisi sydd ar waith ar hyn o bryd drwy fynd at:

[Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion](#)

Gallwch chi ddarllen y Polisi arfaethedig drwy fynd at:

[Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion](#)

Hefyd, mae copïau papur o'r dogfennau hyn ar gael yn y manau a nodir isod

4) Trefniadau'r Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn bellach wedi cau.

Mae modd i chi weld arolwg yr ymgynghoriad drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

[Adolygiad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion Arolwg Ymgynghoriad](#)

Os byddwch chi'n llanw'r ffurflen ar-lein, bydd modd i ni gasglu'r ymatebion ynghyd a'u hadolygu mewn modd effeithlon. Serch hynny, os nad oes modd i chi wneud hynny, gallwch chi hefyd lanw'r arolwg sydd i'w weld yn Atodiad 1 a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad canlynol, Ymgynghoriad y Polisi Rheoli Harbyrau, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE.

Hefyd, gallwch chi gael copïau o'r arolwg yn y manau canlynol.

Swyddfeydd yr Harbyrau (oriau agor yn dibynnu ar y staff sydd ar gael)

Aberystwyth

Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Aberystwyth, Harbwr Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1JX

Aberaeron

Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Aberaeron, Harbwr Aberaeron, Traeth y De, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0BE

Cei Newydd

Tudalen 99

Cyfeiriad: Swyddfa Harbwr Ceinewydd, Harbwr Ceinewydd, Y Pier, Ceinewydd, Ceredigion, SA45 9NW

Gellir cysylltu â holl swyddfeydd yr harbwr drwy:

Rhif Ffôn: 01545 570 881

E-bost: cllc@ceredigion.gov.uk

Swyddfeydd y Cyngor/Llyfrgelloedd (yn ystod oriau agor)

Mae amseroedd agor Swyddfeydd y Cyngor/Llyfrgelloedd i'w gweld ar dudalen [Lleoliadau Canghaiu](#).

Aberaeron

Cyfeiriad: Neuadd y Sir, Stryd y Farchnad, Aberaeron, SA46 0AT

Rhif Ffôn: 01545 572500

E-bost: llyfrgell@ceredigion.gov.uk

Aberystwyth

Cyfeiriad: Canolfan Alun R. Edwards, Sgwâr y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2EB

Rhif Ffôn: 01970 633717

E-bost: llyfrgell@ceredigion.gov.uk

Aberteifi

Cyfeiriad: Swyddfa'r Cyngor, Stryd Morgan, Aberteifi, SA43 1DG

Rhif Ffôn: 01545 574110

E-bost: llyfrgell@ceredigion.gov.uk

Llanbedr Pont Steffan

Cyfeiriad: Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DR

Rhif Ffôn: 01570 423606

E-bost: llyfrgell@ceredigion.gov.uk

Llandysul

Cyfeiriad: Canolfan Ceredigion, Llandysul, SA44 4QS

Rhif Ffôn: 01545 574236

E-bost: llyfrgell@llandysul.cymru

Cei Newydd

Cyfeiriad: Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd, Ystafell 4, Neuadd Goffa, Ffordd Towyn, Ceinewydd, Ceredigion, SA45 9QQ

Rhif Ffôn: 01545 560803

E-bost: newquaylibrary@gmail.com

Ar ôl llanw'r arolygon papur, gallwch chi eu cyflwyno yn y manau hyn.

5) Gyda phwy i gysylltu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch cyn cwblhau'r arolwg

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg neu os oes angen y wybodaeth arnoch mewn fformat arall, gallwch chi gysylltu â Rheolwr yr Harbyrau drwy anfon neges i cllic@ceredigion.gov.uk neu drwy ffonio 01545 570881 neu fel arall drwy'r post i Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE.

Atodiad 1 – Arolwg Ymgynghoriad Adolygiad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Adolygiad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion Arolwg Ymgynghoriad

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Defnyddir eich gwybodaeth i fod yn sail i adolygiad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

Mae'n bwysig iawn bod Cyngor Sir Ceredigion yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir er mwyn darparu ein gwasanaethau a chynnal hyder y cyhoedd. Rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018.

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich gwybodaeth yw cyflawni tasg er budd y cyhoedd a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Eich hawliau Diogelu Data

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau ac i gael manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data, ewch i [wefan Cyngor Sir Ceredigion](#) a chwiliwch am 'Hysbysiad Preifatrwydd' neu ewch i'r [dudalen Hysbysiad Preifatrwydd](#).

Manylion Arolwg yr Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn agor ar *start date* ac yn cau ar *end date*. Gellir dychwelyd ffurflenni arolwg wedi'u cwblhau drwy e-bost at cllic@ceredigion.gov.uk neu fel arall drwy'r post i, Cyngor Sir Ceredigion Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE.

Atodiad 2

Ydych chi'n ymateb fel:	Nifer
Defnyddiwr yr Harbwr	5
Defnyddiwr yr Harbwr - Pysgota Masnachol	6
Defnyddiwr yr Harbwr - Pysgota Masnachol a Chludo Teithwyr Masnachol	3
Defnyddiwr yr Harbwr - Pysgota Masnachol a Chludo Teithwyr Masnachol a Defnyddiwr y Cyfleusterau	1
Defnyddiwr yr Harbwr - Cludo Teithwyr Masnachol	4
Defnyddiwr yr Harbwr - Hamdden	75
Defnyddiwr yr Harbwr - Hamdden a Defnyddiwr y Cyfleusterau	6
Arall	5
Cyfanswm	108

Pa harbwr (harbyrau) ydych chi'n ei ddefnyddio?	Nifer
Aberaeron	11
Aberystwyth	10
Ceinewydd	51
Aberaeron ac Aberystwyth	1
Aberaeron a Cheinewydd	22
Aberystwyth a Cheinewydd	1
Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd	9
Aberaeron a harbwr arall sydd ddim yn cael ei reoli gan y Cyngor	1
Aberaeron, Ceinewydd a harbwr arall sydd ddim yn cael ei reoli gan y Cyngor	1
Aberaeron, Aberystwyth, Ceinewydd a harbwr arall sydd ddim yn cael ei reoli gan y Cyngor	1
Cyfanswm	108

Wyddech chi fod yna Bolisi yn bod cyn gweld yr ymgynghoriad yma?	Nifer
Ie, gwyddwn	75
Na, wydden i ddim	32
Dim ymateb	1
Cyfanswm	108

Tudalen 22

	Bodlon iawn	Bodlon	Niwtral	Anfodlon	Anfodlon iawn	Cyfanswm
I ba raddau ydych chi'n fodlon â Pholisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion sydd wedi bod ar waith ers 2010?	5	18	31	29	25	108

I ba raddau ydych chi'n fodlon â Pholisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion sydd wedi bod ar waith ers 2010?						
Wyddech chi fod yna Bolisi yn bod cyn gweld yr ymgynghoriad yma?	Bodlon iawn	Bodlon	Niwtral	Anfodlon	Anfodlon iawn	Cyfanswm
Na, wydden i ddim	2	3	5	17	6	33
Ie, gwyddwn	3	15	26	12	19	77
Cyfanswm	5	18	31	29	25	108

	Bodlon iawn	Bodlon	Niwtral	Anfodlon	Anfodlon iawn	Cyfanswm
I ba raddau ydych chi'n fodlon â Pholisi diwygiedig/arfaethedig Rheoli Harbyrau Ceredigion?	0	6	13	25	64	108

I ba raddau ydych chi'n fodlon â Pholisi diwygiedig/arfaethedig Rheoli Harbyrau Ceredigion?						
I ba raddau ydych chi'n fodlon â Pholisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion sydd wedi bod ar waith ers 2010?	Bodlon iawn	Bodlon	Niwtral	Anfodlon	Anfodlon iawn	Cyfanswm
Bodlon iawn	0	0	0	1	4	5
Bodlon	0	2	2	5	9	18
Niwtral	0	2	10	6	13	31
Anfodlon	0	1	1	10	17	29
Anfodlon iawn	0	1	0	3	21	25
Cyfanswm	0	6	13	25	64	108

Tudalen 23

	Nifer
Anfodlon neu Anfodlon iawn â'r Polisi presennol ac Anfodlon neu Anfodlon iawn â'r Polisi arfaethedig	51
Anfodlon neu Anfodlon iawn â'r Polisi presennol a Niwtral, Bodlon neu Fodlon iawn â'r Polisi arfaethedig	3
Niwtral, Bodlon neu Fodlon iawn â'r Polisi presennol ac Anfodlon neu Anfodlon iawn â'r Polisi arfaethedig	38
Niwtral, Bodlon neu Fodlon iawn â'r Polisi presennol a Niwtral, Bodlon neu Fodlon iawn â'r Polisi arfaethedig	16
Cyfanswm	108

Atodiad 3

Yr ymatebion i faterion a godwyd fel rhan o'r ymgynghori ar Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

1.0 Braslun

1.1 Y Broses Ymgynghori a'r Amserlenni

Ystyrir bod proses ac amserlen yr ymgynghoriad wedi bod yn gymesur ac yn briodol yng nghyd-destun y Polisi presennol a'r un arfaethedig.

Roedd y broses ymgynghori ar agor rhwng 20 Medi a 20 Hydref. Rhoddwyd amrywiol weithgareddau ar waith i godi ymwybyddiaeth gan gynnwys datganiad i'r wasg a chysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr yr harbwr.

Dyluniwyd yr ymgynghoriad gyda'r nod o gael adborth a mewnbwn ystyrlon, perthnasol a chymesur y gellid ei ystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r polisi. Mae'r trefniadau wedi bod yn gyson â'r hyn a weithredwyd mewn prosesau eraill i ddatblygu polisi ac roeddent wedi elwa o gael mewnbwn gwasanaeth corfforaethol sy'n arbenigo mewn gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu.

Mae'r 108 o ymatebion a gafwyd yn awgrymu fod y broses wedi'i gweithredu'n gadarnhaol.

Roedd llawer o'r adborth ansoddol a dderbyniwyd yn disgyn i nifer o themâu neu feysydd cyffredinol. Felly rhoddir yr ymatebion i'r rhain isod.

Hefyd derbyniwyd sylwadau eraill y tu allan i'r broses benodedig. Er mwyn bod mor agored a chynhwysol â phosib, fe nodir y rhain isod. Fel gyda'r adborth ansoddol a gafwyd drwy'r broses ymgynghori benodedig, roedd y materion a godwyd yn disgyn i nifer o themâu neu feysydd cyffredinol ac ymatebir iddynt isod.

Mae'r Awdurdod wedi ceisio ymateb i'r materion a godwyd p'un a ystyriwyd eu bod yn berthnasol i bwnc penodol yr ymgynghoriad ai peidio, neu'n berthnasol i faterion ehangach eraill sy'n ymwneud â'r harbyrau a'r dull o'u rheoli. Mae'r ymateb i'r adborth wedi'i strwythuro er mwyn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, ni fyddai'n bosib, yn briodol, yn berthnasol nac yn fuddiol ymateb yn unigol i'r holl sylwadau ac adborth a roddwyd, yn ogystal â'r datganiadau a wnaed, er bod y rhain wedi'u nodi.

I roi blas o'r adborth a roddwyd, dywedodd 33 o'r ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y polisi presennol ond gwnaethant roi barn arno serch hynny (dywedodd 23 o'r 33 nad oedd yn ymwybodol o fodolaeth y polisi presennol eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn ag ef).

2.0 Adborth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Ymgynghoriad

2.1 Etifeddiaeth

Gwnaed y cynnig i gael gwared ar y trefniadau etifeddu er mwyn gwella cyfleon y cyhoedd o gael angorfa yn yr harbyrau a reolir gan y cyngor sir.

Nid yw'r trefniadau etifeddu yn ddarpariaeth a roddir gan y cyngor sir mewn sefyllfaoedd tebyg eraill (e.e. deiliaid trwyddedau preifat mewn meysydd parcio, prydlesau eiddo sydd yn enw rhywun).

Bernir bod cadw'r trefniadau etifeddu yn cefnogi'r canfyddiad bod cael mynediad i wasanaethau ac angorfeydd yr harbyrau yn dipyn o 'siop gaeëdig'.

Cydnabyddir yn y broses ymgynghori fod gwahaniaeth rhwng yr angorfeydd masnachol a hamdden yn yr ystyr bod busnesau wedi cronni cyfalaf o gael mynediad parhaus i'r angorfeydd hyn, a hynny dros gyfnod hir mewn ambell i achos. Gyda hyn mewn golwg, y bwriad yw cadw'r trefniadau etifeddu ar gyfer angorfeydd masnachol ond eu tynnu ymaith o'r angorfeydd hamdden.

Bydd y Cyngor, fel rhan o'r broses o bennu Ffioedd a Thaliadau, yn adolygu a yw'r strwythur codi tâl ar gyfer gweithrediadau masnachol yn yr Harbwr yn parhau i fod yn berthnasol, yn ddilys ac er budd pennaf y Cyngor.

Pan fydd profedigaeth yn digwydd mewn perthynas ag angorfa hamdden, bydd y Gwasanaeth Harbyrau yn ymdrin â hyn mewn modd sensitif. Caniateir cyfnod o dri mis i gwblhau trefniadau.

2.2 Trosglwyddo Angorfeydd

Mae'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo cychod yn cael eu hystyried yn amhriodol erbyn hyn ac felly bwriedir eu dileu. Mae'r trefniant yn tanseilio'r rhestrau aros a gallai arwain at dalu premiymau sylweddol am gychod y credir eu bod yn cael eu prynu gydag angorfa bresennol.

Bernir bod cadw'r trefniadau o ran trosglwyddo angorfeydd yn cefnogi'r canfyddiad bod cael mynediad i wasanaethau ac angorfeydd yr harbyrau yn dipyn o 'siop gaeëdig', neu eu bod yn cyfyngu mynediad i'r rheiny sy'n gallu ac yn barod i dalu'r premiwm.

2.3 Parcio Ceir

Ni ystyrir ei bod hi'n briodol bellach i ddarparu hawlenni parcio am ddim i ddefnyddwyr yr harbyrau yn y meysydd parcio a reolir gan Gyngor Sir Ceredigion a hynny fel rhan o'r trefniadau angori tymhorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gwerth sylweddol i'r ddarpariaeth parcio am ddim.

Nid yw hyn yn ddarpariaeth a roddir gan y cyngor sir mewn sefyllfaoedd tebyg eraill (e.e. rhandiroedd, prydlesu adeilad sydd heb lefydd parcio preifat).

2.4 Rhestrau Aros

Mae angen deall y trefniadau fel y maent ar hyn o bryd. Mae'r adborth a gafwyd o'r ymgynghori, a'r trafodaethau yng nghyfarfodydd mwyaf diweddar Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau, yn awgrymu'n gryf nad yw pobl yn eu deall.

Yn awr cynigir:

- cyflwyno ffi - na chaiff ei ad-dalu - fel tâl i ymuno â'r rhestr aros briodol. Pennir y ffi fel rhan o broses ehangach pennu ffioedd a thaliadau.
- dim ond caniatáu un cofnod i bob person ar unrhyw restr aros unigol.
- dileu'r cyfyngiadau ar y nifer a ganiateir ar y rhestrau aros.

Gellir darparu fersiynau (heb enwau) o'r rhestrau aros ac maent wedi'u rhannu fel rhan o'r pecyn dogfennau ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol diweddar Defnyddwyr yr Harbyrau. Bwriedir i hyn fod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd yn y dyfodol.

2.5 Tîm yr Harbyrau

Gellir darparu'r Disgrifiadau Swyddi a'r Manylebau Person ar gyfer swyddi'r Tîm Harbyrau ac maent wedi'u rhannu fel rhan o'r pecyn dogfennau ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol diweddar Defnyddwyr yr Harbyrau.

Rydym yn ffodus o gael gweithwyr cymwys ac ymroddedig o fewn y Gwasanaeth Harbyrau sydd yn ymroi i ddatblygiad personol parhaus.

2.6 Cyfleusterau

Dylai'r cyfleusterau y mae'r Cyngor yn gallu eu darparu gael eu hadlewyrchu yn y taliadau a godir. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn wir ac mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn derbyn cymhorthdal sylweddol. Er ein bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn, rhaid nodi bod yn rhaid trosglwyddo i ddefnyddwyr y gwasanaethau unrhyw gynnydd mewn costau neu ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Harbyrau eu gwneud megis y Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.

2.7 Gwasanaethau Dewisol

Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr harbyrau, a'r telerau cysylltiedig, yn ddewisol yn yr ystyr bod gan bobl ddewis i'w defnyddio ai peidio. Mae'r Cyngor yn parchu hawl y cyhoedd i arfer hyn.

2.8 Cyfleusterau a ddefnyddir ar y cyd

Mae'r harbyrau yn gyfleusterau a ddefnyddir ar y cyd a bwriad y Cyngor yw eu rheoli mewn ffordd deg a chyson i'r holl randdeiliaid. Derbynnir na fydd pob rhanddeiliad yn cytuno â hyn. Er bod ganddynt hawl i'r rhain, nid yw'n golygu y dylent gael dylanwad amhriodol neu anghymesur drostynt.

2.9 Y Polisi Presennol a'r un Newydd

Roedd y farn am y newidiadau rhwng y polisi presennol a'r un newydd yn amrywio'n fawr. Roedd rhai o'r farn nad oedd fawr o newid o gwbl ac eraill yn credu bod y newid yn fawr.

2.10 Angorfeydd Dŵr Dwfn

Cynigir tynnu'r cyfyngiad ar angorfeydd dŵr dwfn yn y Polisi newydd.

3.0 Materion Eraill

3.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'n briodol ac yn amserol adolygu ac addasu safbwyntiau a disgwyliadau mewn perthynas â rheoli'r harbyrau a'r rolau a chyfrifoldebau.

Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn rhan o'r Cyngor Sir yn ehangach. Mae'n destun yr un polisïau, protocolau a rheolau sefydlog â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â'r strwythur rheoli, rheoli perfformiad, archwilio ac atebolrwydd gwleidyddol.

Er y gallai fod gan randdeiliaid, gan gynnwys cwsmeriaid a phartïon sydd â budd yn y maes, eu barn, eu hamcanion a'u dyheadau eu hunain, nid oes gan y rhain flaenoriaeth na dylanwad dros y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli a chyflawni gwasanaeth sy'n rhan o'r Cyngor Sir. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â llywodraethu, derbyn ac ymateb i ohebiaeth, prosesau sy'n gysylltiedig â thrafodion ariannol gan gynnwys anfonebu a gwaith cysylltiedig – mae'r rhain yn cael eu gweithredu ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac nid ydynt yn berthnasol yn unig yng nghyd-destun yr harbyrau.

Deallir na fyddai rhai rhanddeiliaid yn cytuno neu'n croesawu rhai elfennau o sut mae'r harbyrau'n cael eu rheoli ac er bod hyn yn cael ei barchu, ni fydd yn cael dylanwad uniongyrchol dros y ffordd y caiff y cyfleusterau eu rheoli.

Defnyddir y polisïau presennol ac arfaethedig fel dull o reoli ar gyfer Rheolwr yr Harbyrau a'r Gwasanaeth Harbyrau. Rôl Rheolwr yr Harbyrau yw gweithredu'r Polisi a hynny gyda'r disgresiwn a ddiffinnir. Ceir rhagor o fanylion yn y Disgrifiadau Swyddi ar gyfer rolau'r Gwasanaeth Harbyrau.

3.2 Pennu Ffioedd yr Harbyrau

Pennir ffioedd a thaliadau'r harbyrau fel rhan o'r broses ehangach o osod ffioedd a thaliadau yng nghyllideb flynyddol y Cyngor. Mae'r rhain yn amodol ar drosolwg a chraffu a chymeradwyaeth wleidyddol cyn eu gweithredu.

Mae gan y Cyngor Bolisi Cynhyrchu Incwm ac Adennill Costau a ddylai fod yn berthnasol mewn perthynas â'r Harbyrau. Ar hyn o bryd nid yw'n darparu ar gyfer adennill y costau'n llawn ac mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn cael cymhorthdal gan nad yw'r incwm a gynhyrchir yn ateb y costau o ddarparu'r gwasanaethau.

Nid yw'n briodol i'r Cyngor sybsideiddio gwasanaeth dewisol tra ei fod yn gorfod ad-drefnu a chwtdogi gwasanaethau craidd a statudol eraill. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth Harbyrau yn cyrraedd sefyllfa lle mae o leiaf yn talu am ei hun.

Gosodir y ffioedd ar gyfer angorfeydd hamdden ar sail metrau yn hytrach na'r math o gwch. Nid oes rheswm dros newid y trefniant hwn.

3.3 Tymhorau

Y tymhorau, yng nhyd-destun yr harbyrau a reolir gan Geredigion, yw:

- Haf 1 Ebrill – 30 Medi

- Gaeaf 1 Hydref – 31 Mawrth

Mae hyn yn cynnig eglurder a chysondeb ac nid oes rheswm dros newid y rhain.

3.4 Disgwyliadau realistig, cymesur, perthnasol a phriodol

Mae angen i ddisgwyliadau rhanddeiliaid fod yn realistig, yn gymesur, yn berthnasol ac yn briodol gan ystyried mai gwasanaethau dewisol yw'r rhai a ddarperir gan y Gwasanaeth Harbyrau.

Gall cwsmeriaid ddewis p'un ai i ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir.

3.5 Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau

Yn eu ffurf bresennol, bernir nad yw'r rhain yn addas i'r diben ac maent wedi ymbellháu - o ran aelodaeth a mynychwyr - oddi wrth y trefniadau cyfansoddiadol sy'n sail iddynt. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o gyrraedd at rywbeth mwy priodol, perthnasol, cynhyrchiol a buddiol.

3.6 Barn a Safbwyntiau

Mae'r Gwasanaeth Harbyrau yn parchu ac yn gwerthfawrogi barn a safbwyntiau rhanddeiliaid yn eu cyd-destun fel ag y mae.

Mae rhywfaint o'r adborth yn cyfeirio at safbwyntiau goddrychol unigolion gydag ychydig neu ddim tystiolaeth i'w cefnogi. Roedd y sylwadau yn gwrthddweud ei gilydd mewn rhai achosion (e.e. dim yn ymwybodol o'r Polisi presennol ond yn nodi ei fod yn dda/drwg).

3.7 Ymgysylltu

Mae'r canlynol yn crynhoi prif ffyrdd y Gwasanaeth Harbyrau o ymgysylltu â rhanddeiliaid:

- Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau (dwywaith y flwyddyn)
- Cymorthfeydd yr Harbyrau (misol)
- Presenoldeb rheolaidd Tîm yr Harbyrau yn yr Harbyrau (yn rheolaidd a pharhaus) gyda dull / polisi 'drws agored'
- Dyfroedd Tawel (cyhoeddi dwywaith y flwyddyn)
- Cyswllt drwy Clic (llythyron, e-byst, galwadau ffôn, ffurflenni adborth)
- Hysbysiadau i Forwyr
- Negeseuon e-bost grŵp at Ddeiliaid Angorfeydd
- Tudalennau pwrpasol ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys mynediad i'r Polisi Rheoli Harbyrau.

Mae'r uchod yn mynd y tu hwnt - o dipyn - i lefel yr ymgysylltu y mae'r Cyngor yn ei gynnig i ddefnyddwyr gwasanaethau dewisol tebyg eraill (e.e. cwsmeriaid meysydd parcio, cwsmeriaid gwastraff masnach, cwsmeriaid rhandiroedd).

3.8 Gweithredu'r Polisi

Mae'r Polisi yn rhoi fframwaith cyffredinol i Dîm yr Harbyrau ar gyfer rheoli'r harbyrau o ddydd i ddydd, gwaith sy'n cael ei arwain a'i reoli gan Reolwr yr Harbyrau. Mae'r Rheolwr yn cael ei gefnogi ac yn ymgynghori ag uwch reolwyr o fewn y gwasanaeth

yn ehangach er mwyn cyflawni'r dyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas ag unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir neu gyfarwyddiadau a roddir. Mae hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadir mewn meysydd gwasanaeth eraill.

4.0 Materion Gweithredol

4.1 Mynediad i'r Anabl

Mae Harbyrau Ceredigion yn harbyrau gwaith hanesyddol ac mewn rhai achosion, yn seilwaith rhestredig.

Er ein bod yn ceisio ystyried ffyrdd ymarferol a fforddiadwy o wella mynediad, fe allai'r cyfle i wneud hyn fod yn gyfyng. Byddwn yn parhau i fynd ar ôl, ystyried a chyflawni cyfleoedd yn hyn o beth.

4.2 Carthu

Caiff carthu (dredjo) ei wneud yn ôl yr angen, yn ôl barn Rheolwr yr Harbyrau ac os bydd cyllid ar gael.

4.3 Materion Gweithredol Penodol ac Unigol

Cyfeiriwyd at rai materion gweithredol penodol neu unigol - nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Polisi - yn y sylwadau a gafwyd fel adborth i'r ymgynghoriad. Byddai'n fwy priodol mynegi'r rhain yn bersonol i'r Gwasanaeth Harbyrau, megis yn y cymorthfeydd rheolaidd, yn swyddfeydd yr Harbwr neu drwy Clic.

4.4 Neilltuo Angorfeydd a chyfleusterau eraill i bobl

Gwneir hyn yn unol â'r Polisi a gyda'r nod o wneud y mwyaf o'r capasiti sydd ar gael.

Bydd y Polisi arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn gwella argaeledd yr angorfeydd ym mhob harbwr. Gan fod y Cyngor yn cynnig dileu'r darpariaethau ar gyfer trosglwyddo angorfeydd (rhai masnachol a hamdden) ac etifeddiaeth (ar gyfer angorfeydd hamdden), bydd y rhestrau aros ym mhob harbwr yn fwy symudol.

4.5 Diogelu Bywyd Gwyllt Morol

Mae'r Gwasanaeth Harbyrau wrthi'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r egwyddorion a'r ffyrdd o weithio a nodwyd ar gyfer Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.

Atodiadau

Atodiad 1

Yr adborth ansoddol a gafwyd gan y rhanddeiliaid (ar-lein a chopi caled/papur).

Atodiad 2

economi a'r portffolio twristiaeth yng Ngheredigion, bydd Awdurdod yr Harbwr yn gweithredu polisi "ei ddefnyddio neu ei goli". Os na fydd perchennog cwch masnachol yn rhoi cwch ar y cyfleuster angori dynodedig erbyn 31 Mai a/neu nid yw'n gweithredu cwch yn fasnachol, ar 1 Mehefin caiff y cyfleuster angori ei ddyrannu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

6.4 Dim ond un cofnod fesul person fydd yn cael ei dderbyn ar unrhyw restr aros unigol.

6.54 Gellir cynnig lle parcio ceir ar lithrfa harbwr Ceinewydd a'i ddyrannu dim ond i fusnes masnachol sydd nesaf ar restr aros manau parcio masnachol Ceinewydd ac yn amodol ar addasrwydd y cerbyd a'r busnes y gwneir cais amdano yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr. Bydd angen talu ~~blaendalffi na ellir ei had-dalu;~~ (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') i ymuno â'r rhestr aros, ~~a bydd y rhestrau'n cau pan fyddant yn cyrraedd pum enw am yr ystyrir wedyn iddynt fod wedi eu gordanysgrifio.~~ Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 o'r polisi hwn.

Nid yw lleoedd parcio ceir yn drosglwyddadwy ac ni all unrhyw gerbydau eraill eu defnyddio ac eithrio'r cerbyd sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y gofod hwnnw.

Rhestr Aros am Angorfa Dŵr Dwf

7.1 Oni bai am y cychod hamdden hynny y dyrannwyd iddynt angorfa dŵr dwfn yn flaenorol ac sy'n dewis parhau i'w defnyddio yn dilyn cyflwyno tâl amdani, caiff pob angorfa dŵr dwfn a fydd ar gael yn y dyfodol eu dyrannu i gychod masnachol yn unig.

7.2 Gellir cynnig a dyrannu angorfa dŵr dwfn i fusnes masnachol sydd nesaf ar y rhestr aros am angorfa dŵr dwfn yn unig. Bydd angen talu ~~ffi na ellir ei had-dalublaendal;~~ (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'), cyn y gellir ymuno â'r rhestr aros, ~~a chaiff y rhestr ei chau pan fydd 10 busnes ar y rhestr am yr ystyrir iddi wedyn fod wedi ei gordanysgrifio.~~ Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y rhestr aros a'r modd y defnyddir y blaendal i'w gweld yn Atodiad 1 isod.

7.3 Dim ond un cofnod fesul person fydd yn cael ei dderbyn ar unrhyw restr aros unigol.

Hyd Cytundebau Angori, Lansio a Chyfleusterau

Angorfeydd Tymor Hir

8.1 Mae hyd y cytundeb angori yn dibynnu ar y tymor y gwneir cais amdano.

Hyd tymor yr haf yw 1 Ebrill – 31 Hydref bob blwyddyn.

Hyd tymor y gaeaf yw 1 Tachwedd – 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Codir ffioedd angori'r gaeaf ar unrhyw gwch sy'n eiddo i ddeiliad angori tymor hir sydd ar angorfa neu ar lawr caled ar safle'r harbwr/Cyngor ar ôl 1 Tachwedd.

Angorfeydd Hamdden Ymwelwyr Tymor Byr

8.2 Cyfnod hwyaf cytundeb angori hamdden ymwelwyr tymor byr yw pythefnos yn cychwyn ar y dyddiad arhosiad cyntaf. Gellir ymestyn hyn yn ystod tymor y gaeaf yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Angorfeydd Masnachol Ymwelwyr Tymor Byr

8.3 Cyfnod hwyaf cytundeb angori masnachol ymwelwyr tymor byr yw pythefnos yn cychwyn ar y dyddiad arhosiad cyntaf. Gellir ymestyn hyn yn ystod tymor y gaeaf yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Lansio Tymor Hir

8.4 Mae hyd y cytundeb lansio blynyddol yn dechrau gyda phob blwyddyn ariannol ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Ni chynigir Cytundebau Lansio Blynyddol ar sail pro rata, mae ffioedd llawn yn gymwys waeth beth fo'r dyddiad lansio.

Nid oes unrhyw hawliau parcio ceir yn gysylltiedig â'r Cytundeb Lansio Blynyddol.

Nid yw'r Cytundeb Lansio Blynyddol yn benodol i'r harbwr ac mae'n ddilys ar gyfer lansio yn unrhyw un o harbyrau Ceredigion a gwmpesir gan y polisi hwn.

Lansio Tymor Byr

8.5 Mae hyd y cytundeb lansio tymor byr yn dibynnu ar anghenion y defnyddiwr ac yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

Nid oes unrhyw hawliau parcio ceir yn gysylltiedig â'r Cytundeb Lansio Tymor Byr.

Nid yw'r Cytundeb Lansio Tymor Byr yn benodol i'r harbwr ac mae'n ddilys ar gyfer lansio yn unrhyw un o harbyrau Ceredigion a gwmpesir gan y polisi hwn.

Cytundebau Cyfleuster

8.6 Hyd Cytundeb y Cyfleuster yw 11 mis yn dechrau 1 Mai ac yn dod i ben 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Rhaid i bob eitem/offer **gael ei symud** oddi ar y rhesel ar gyfer mis Ebrill er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw/ail-rifo gofynnol. Gall y Cyngor symud unrhyw offer/eitem sy'n parhau i fod ar y cyfleuster yn ystod mis Ebrill heb rybudd.

Costau a Rheolau Angori, Cyfleusterau a Lansio

9.1 Mae pob mater yn ymwneud â chodi tâl am angorfeydd hamdden, angorfeydd masnachol, ffioedd lansio, ymweld, stondin bwrdd hwylyrddio a chaiacio, mannau parcio cychod a chyfleusterau eraill i'w gweld yn llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'.

9.2 Os na fydd deiliad angorfa/cyfleuster wedi talu'r ffi ofynnol yn llawn erbyn 31 Mai, yna o 1 Mehefin caiff yr angorfa/cyfleuster ei ailddyrranu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

9.3 Os na fydd deiliad angorfa/cyfleuster yn rhoi cwch ar y cyfleuster angori penodol erbyn 31 Mai, yna o 1 Mehefin caiff yr angorfa ei hailddyrannu i'r ymgeisydd priodol nesaf ar y rhestr aros yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

9.4 Ni chynigir angorfeydd ar sail pro rata, mae ffioedd llawn yn gymwys bob tymor ni waeth pryd y dyrannwyd yr angorfa neu bryd y cafodd ei meddiannu.

9.5 Codir tâl ar gwch ar sail hyd cyffredinol wedi'i fesur mewn metrau (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r metr agosaf), a fydd yn cynnwys unrhyw bolyn blaen, rheilen ôl, camlath starn a phlatfform ymdrochi.

9.6 Os nad yw deiliad yr angorfa/cyfleuster yn rhoi ei gwch/bad dŵr/offer ei hun ar yr angorfa awdurdodedig am gyfnod o flwyddyn, bydd y cyfleuster yn cael ei fforffedu a'i ailddyrannu o'r rhestr aros briodol.

Adnewyddu Angorfa/Cyfleuster a Ddyrannwyd

10.1 Bydd y Cyngor yn ceisio anfon ffurflen gais at bob deiliad angorfa/cyfleuster presennol yn gofyn am Gytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster i'w chwblhau a'i dychwelyd cyn dechrau pob tymor. Os bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn dychwelyd y ffurflen yn nodi nad yw am adnewyddu'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster, caiff yr angorfa/cyfleuster ei dyrannu i'r person nesaf ar y rhestr aros briodol, a bydd y Cyngor yn anfon ffurflen gais ac anfoneb fel uchod. Ar ôl derbyn y Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster bydd y Cyngor yn anfon anfoneb at ddeiliad yr angorfa/cyfleuster.

10.2 Os na fydd y Cyngor yn derbyn cais angori wedi'i gwblhau erbyn 30^{ain} Ebrill, ystyrir nad yw deiliad yr angorfa am adnewyddu ei gytundeb angori a bydd yn cael ei ddyrannu i'r person nesaf ar y rhestr aros briodol.

10.3 Ar ôl derbyn y tâl bydd y Cyngor yn dyrannu angorfa/cyfleuster i'r ymgeisydd mewn lleoliad ar gyfer yr harbwr penodol y gwnaed cais amdano. Rheolwr yr Harbwr fydd yn penderfynu ar union lleoliad yr angorfa.

Canslo Cytundebau Ffurflen Angori a Gwrthod Ceisiadau Rhestr Aros

11.1 Gall deiliad yr angorfa ganslo'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster unrhyw bryd trwy roi rhybudd o 14 diwrnod yn ysgrifenedig i'r Cyngor. Fodd bynnag bydd y ffi ~~a/neu'r blaenda~~ a dalwyd eisoes yn cael ei chadw gan y Cyngor.

11.2 Gall y Cyngor ganslo'r Cytundeb Ffurflen Angori/ Cyfleuster ar unrhyw adeg trwy roi 1 mis o rybudd ysgrifenedig i fanylion cyswllt hysbys diwethaf deiliad yr angorfa sydd gan yr Awdurdod. Gellir canslo angorfa/cyfleuster am nifer o resymau, a gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, dyled ddrwg, methu â chydymffurfio â pholisi'r harbwr, rheoliadau, cyfarwyddiadau, ymddygiad di-hid, ymddygiad afreolus a cham-drin staff yr harbwr.

11.3 Ni fydd ad-daliadau llawn neu pro rata yn ddyledus os mai'r rheswm dros ganslo yw ymddygiad deiliad yr angorfa/cyfleuster o ran cydymffurfio â'r polisi hwn a/neu unrhyw gyfarwydddebau neu ofynion cyfreithiol eraill y Cyngor. Bydd y Cyngor yn mynd ar ôl unrhyw ddyled sydd heb ei thalu, ni waeth a yw deiliad yr angorfa/cyfleuster wedi gadael yr angorfa/cyfleuster neu wedi cael ei symud o'r angorfa/cyfleuster.

11.4 Bydd ceisiadau rhestr aros yn cael eu gwrthod o ganlyniad i unrhyw achosion o gam-drin staff yr harbwr.

Risg, Atebolrwydd, Gofynion Yswiriant ac Argymhellion

12.1 Yr ymgeisydd sy'n ysgwyddo'r risg pan gaiff pob cwch/bad dŵr ei angori, ei lansio, ei symud a'i dynnu allan o'r dŵr ac nid yw'n gyfrifoldeb y Cyngor. Felly gofynnir i'r ymgeisydd sicrhau fod ei gwch/bad dŵr a'i eiddo wedi ei yswirio'n ddigonol yn erbyn pob risg. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo am ba bynnag reswm yr achoswyd ef.

12.2 Bydd yn rhaid i berchennog y cwch/bad dŵr/offer adfer a symud o'r harbwr unrhyw gygod/badau dŵr/offer a ystyrir yn niweidiol i amwynder yr harbwr fel y'i diffinnir isod. Os methir â symud eiddo o'r fath o'r harbwr o fewn y cyfnod a nodwyd gan Reolwr yr Harbwr yn ôl ei ddisgresiwn llwyr (gan gynnwys hysbysiad symud ar unwaith) bydd y Cyngor yn adfer ac yn symud yr eiddo gan godi tâl priodol am wneud hynny. Nodir ffioedd o'r fath fel dyled sy'n ddyledus i'r Awdurdod gan ddeiliad y Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster. Felly argymhellir yn gryf y dylai unrhyw bolisi yswiriant gynnwys symud drylliad.

12.3 Bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn indemnio'r Cyngor, ei weithwyr a'i asiantau yn erbyn unrhyw achosion, hawliadau, costau a gorchmynion mewn perthynas â niwed neu farwolaeth unrhyw berson yn ogystal ag unrhyw ddifrod i eiddo o ganlyniad i feddiannaeth a defnydd yr ymgeisydd o gyfleusterau'r harbwr, gan gynnwys llithrfeydd, grisiau, glanfeydd a llwyfannau, ac i'r perwyl hwn bydd yn cynnal polisi atebolrwydd cyhoeddus yn erbyn risgiau o'r fath. Os methir â chynnal y polisi yswiriant priodol caiff yr hawl i ddefnyddio'r angorfa, yr hawl i lansio a defnyddio cyfleusterau eraill ei thynnu yn ôl.

12.4 Disgwylir i ddeiliad pob angorfa/cyfleuster sy'n defnyddio unrhyw ran o gyfleusterau'r harbwr gan gynnwys llithrfeydd, grisiau, glanfeydd a llwyfannau am ba bynnag reswm sy'n gysylltiedig â'r cais hwn, ac os yw hynny yn ôl gwahoddiad y Cyngor neu beidio, gwneud hynny gan ystyried ei ddiogelwch ei hun a'r risg i'w hunan hefyd.

12.5 Bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster bob amser yn gyfrifol am ddiogelwch ei gwch/bad dŵr/offer a bydd yn atebol am unrhyw ddifrod a wneir i eiddo'r Cyngor, sut bynnag y'i hachosir, wrth i'r ymgeisydd neu ei weithiwr neu asiantau fordwyo unrhyw long/bad dŵr, neu dra bod cwch/bad dŵr yr ymgeisydd wedi'i angori, neu ei lansio, neu wrth i'r cwch/bad dŵr adael ei angorfa, ei angori neu ei ollwng yn rhydd, a bydd yn talu i'r Cyngor ar gais unrhyw hawliad am iawndal o ran difrod o'r fath.

12.6 Ni fydd Rheolwr yr Harbwr y Cyngor a swyddogion a gweithwyr eraill ag awdurdod, wrth ymgymryd â'u gwaith, yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a all godi o ganlyniad i gydymffurfio neu geisio cydymffurfio ag unrhyw orchymyn neu gyfarwydddeb gyfreithiol gan Reolwr yr Harbwr, neu swyddogion neu weithwyr eraill, ac ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi yn sgil cydymffurfio neu geisio cydymffurfio â gorchmynion cyfreithiol y swyddogion. Ni fydd y Cyngor, ei weithwyr, ei asiantau neu ei swyddogion yn atebol am niwed i unrhyw berson oni bai y digwydd niwed o ganlyniad i esgeulustod y Cyngor.

12.7 Rhaid i unrhyw ddeiliad angorfa sydd am gadw cwch yn yr harbwr dros y gaeaf neu ymweld â harbwr Ceredigion arall heblaw'r un y gwnaed cais amdano/a ddyrannwyd iddo, wneud cais am yr harbwr hwnnw. Rhaid i ddeiliad yr angorfa sicrhau bod ei gwch wedi'i yswirio'n ddigonol ar gyfer yr harbwr hwnnw.

12.8 Mae deiliad yr angorfa/cyfleuster yn gyfrifol ac yn atebol am unrhyw gadwyni, rhaffau, [ffrwynau](#), dolenni, taclau neu unrhyw ddyfeisiadau angori eraill a ddefnyddir i angori ei gwch/bad dŵr/offer i unrhyw bwynt ar stad yr harbwr neu eiddo'r Cyngor.

Cychod a Badau Dŵr Eraill neu Offer sy'n Niweidiol i Amwynder yr Harbwr

13.1 Os na fydd Awdurdod yr Harbwr yn fodlon am unrhyw reswm fod cwch drylliedig neu strwythur neu offer sydd wedi ei angori neu'n gorwedd yn y dŵr neu ar flaendraeth yr harbwr neu eiddo arall y Cyngor mewn cyflwr fel y byddai'n debygol o achosi niwed difrifol i amwynder y rhan honno o'r harbwr neu eiddo'r Cyngor lle y mae wedi ei angori, yn gorwedd neu'n sefyll, gall Awdurdod yr Harbwr roi hysbysiad i'r perchennog o fewn cyfnod o amser penodol a nodwyd yn yr hysbysiad i gymryd camau fel y bo'n angenrheidiol i leihau unrhyw niwed i'r amwynder. Gall yr Awdurdod ystyried cwch neu unrhyw fath arall o fad dŵr neu offer yn niweidiol i amwynder yr harbwr neu eiddo arall y Cyngor am resymau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fod yn ddadfeiliedig, yn hyll oherwydd esgeulustod, yn ddifrifol flêr, yn anaddas i'r môr a/neu mewn perygl o suddo, ac ati.

13.2 Bydd methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath a gyflwynir gan Awdurdod yr Harbwr yn golygu y bydd yn rhaid i gamau gael eu cymryd yn uniongyrchol gan Awdurdod yr Harbwr a'r costau priodol yn cael eu codi. Bydd costau o'r fath yn ddyled sy'n ddyledus o ddeiliad Cytundeb Ffurflen Angorfa/cyfleuster i'r Awdurdod.

13.3 Caiff unrhyw dendars a threilars nad oes arnynt enw'r fam gwch eu symud heb unrhyw rybudd.

13.4 Bydd badau dŵr eraill yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gaiacau, canŵod, hwylyrddau, padfyrddau, dingis neu unrhyw ddisgrifiad arall o fadau dŵr. Bydd offer yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dreilars, cerbydau, offer pysgota neu unrhyw eiddo neu eitemau eraill y mae'r defnyddiwr yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio.

Gwahardd Aseinio/Is-osod Angorfeydd/Cyfleusterau

14.1 Mae'r angorfa/cyfleuster wedi'i ddyrannu i ddeiliad yr angorfa/cyfleuster ac ni ellir ei rannu, ei aseinio, ei drosglwyddo, ei is-osod neu ei ddefnyddio mewn modd arall neu ei roi i unrhyw un heblaw deiliad yr angorfa. Os darganfyddir bod deiliad angorfa/cyfleuster yn is-osod yr angorfa neu'n caniatáu iddi gael ei defnyddio gan rywun arall, caiff yr angorfa/cyfleuster ei dynnu nôl ar unwaith.

Etifeddiaeth

15.1 [Angorfeydd Masnachol](#)

[Pan fo aelod neu aelodau o deulu yn dymuno parhau i ddefnyddio'r cwch a enwir ar yr angorfa a neilltuwyd ar ôl marwolaeth neu analluogrwydd y deiliad/deiliaid presennol, rhaid iddynt gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor i wneud hynny.](#)

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, Font color: Auto, Welsh, Pattern: Clear

15.2 [Angorfeydd Hamdden](#)

Nid oes dim hawliau etifeddiaeth mewn perthynas ag angorfeydd [hamdden](#) neu gyfleusterau [hamdden](#) o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

Formatted: Font:

Dull Adnabod

16.1 Rhaid i bob cwch/bad dŵr ac offer gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dreilars a thendars a ddefnyddir o fewn yr harbyrau ac eiddo'r Cyngor gael eu henwau wedi'u harddangos yn amlwg i foddhad Rheolwr yr Harbwr. Dylai deiliad yr angorfa hefyd sicrhau bod enw'r cwch a rhif yr angorfa i'w gweld yn glir ar unrhyw fwi angori. Rhaid i dendars gael eu marcio gydag enw'r fam gwch. Rhaid rhifo/enwi caiacau/hwylfyrddau ac offer arall fel y'u diffinnir uchod i foddhad Rheolwr yr Harbwr.

Newid Cwch, Bad Dŵr neu Offer Arall

17.1 Os bydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn gwerthu neu'n gwaredu fel arall ar y cwch/bad dŵr a awdurdodwyd i ddefnyddio'r angorfa/cyfleuster, bydd y partïon i'r newid yn sicrhau bod hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llawn yn cael ei roi ar unwaith cyn gwerthu neu waredu i Reolwr yr Harbwr.

17.2 Pan fydd perchennog presennol am newid ei gwch/bad dŵr/offer bydd rhaid cyflwyno cais newydd ar gyfer y cwch/bad dŵr/offer newydd. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i benderfynu lle mae deiliad angorfa/cyfleuster yn rhoi ar angorfa/cyfleuster gwch/bad dŵr/offer arall nad yw'n addas ar gyfer yr angorfa/cyfleuster a ddyrannwyd, gan ystyried maint a natur y cwch/bad dŵr/offer, a gall wrthod y cais. Lle na chymeradwyir ceisiadau, bydd ymgeiswyr yn gallu ail-ymuno â'r rhestr aros berthnasol ar y cyfle nesaf sydd ar gael (yn amodol ar adrannau 5 a 6 ac Atodiad 1) neu gadw'r cwch/bad dŵr/offer presennol ar yr angorfa/cyfleuster hwnnw.

Trosglwyddiadau Angori a Chyfleusterau

18.1 Nid oes dim hawliau trosglwyddo mewn perthynas ag angorfeydd neu gyfleusterau o fewn Harbyrau a reolir gan Geredigion.

Partneriaethau

19.1 Bydd yn rhaid cofnodi partneriaethau gydag Awdurdod yr Harbwr pan gafodd/gaiff yr angorfa ei dyrannu am y tro cyntaf. Ni chydabyddir unrhyw newid perchnogaeth neu bartneriaeth yn dilyn hyn ac ni fydd ychwaith yn cyfrif tuag at ddyrannu'r angorfa.

Defnyddio Angorfeydd

20.1 Gellir defnyddio angorfeydd at y pwrpas a nodwyd yn y cais gwreiddiol yn unig (hynny yw, hamdden, masnachol neu ddŵr dwfn).

20.2 Ni ellir defnyddio angorfeydd at bwrpas preswyl, hynny yw, ni ellir byw ar y cwch ac ni ellir ychwaith ei ddefnyddio fel unig neu brif fan preswyl ar gyfer unrhyw unigolyn neu grŵp. Ni ddisgwylir i gwsmeriaid gysgu yn eu cychod oni bai fod gan y cwch danc priodol gan wneuthurwyr penodol ar gyfer dal dŵr llwyd a charthffosiaeth. Caiff yr angorfa ei thynnu'n ôl oddi wrth unrhyw ddefnyddwyr yr harbwr sy'n torri'r amod hwn.

Llenwi ac ail-lenwi â thanwydd

21.1 Ni chaniateir cadw unrhyw danwydd na deunyddiau fflamadwy ar yr angorfa ddynodedig neu oddi fewn iddi oni bai am danciau a chynwysyddion storio awdurdodedig. Ni chaniateir ail-lenwi â phetrol o ganiau na chynwysyddion wrth ochr yr harbwr, pontynau, grisiau, ar lithrfeydd nac angorfeydd. Yr unig eithriad i hyn yw offer pwmpio/seiffon cymeradwy y cytunwyd gan Reolwr yr Harbwr i'w ddefnyddio. Rhaid adrodd am unrhyw ollyngiad tanwydd i Reolwr yr Harbwr, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a Chyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith.

Llygredd a Gwastraff

22.1 Ni ddylai deiliaid angorfeydd/cyfleuster lygru'r harbwr trwy ollyngiadau, gwaredu gwastraff, elifiant, gwastraff dynol, glanedydd a/neu danwydd nac ychwaith gadael sbwriel neu sgrap ar stad yr harbwr, yn nŵr yr harbwr neu ar waelod yr harbwr. Rhaid i holl ddefnyddwyr yr harbwr gadw at y Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd diweddaraf.

Ymddygiad Di-hid ac Ymddygiad Afreolus

23.1 Ni fydd deiliad yr angorfa/cyfleuster yn defnyddio'r angorfa/cyfleuster mewn modd di-hid fel yr achosir perygl i ddefnyddwyr eraill yr harbwr neu ddifrod i'w heiddo. Ni fydd deiliad yr angorfa/cyfleuster (gan gynnwys unrhyw berson ar y cwch/bad dwr ar yr harbwr o fewn terfynau'r harbwr) yn achosi sŵn afresymol, niwsans na phoendod i ddefnyddwyr eraill yr harbwr. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr yr harbwr ddilyn Cod Ymddygiad neu Gyfarwyddeb y Cyngor bob amser. Gall unrhyw ymddygiad o'r fath olygu bod y Cyngor yn terfynu'r Cytundeb Ffurflen Angori/Cyfleuster.

Cydymffurfio â Deddfau, Is-ddeddfau a Chyfarwyddiadau Rheolwr yr Harbwr

24.1 Rhaid i ddefnyddiwr yr harbwr a phawb sydd â rheolaeth neu sydd â gofal neu sydd ar fwrdd ei gwch/bad dŵr/offer gydymffurfio a chyflawni'r holl rwymedigaethau statudol ac eraill sy'n ymwneud â'r harbwr, gan gynnwys yr holl is-ddeddfau a rheoliadau a wneir gan y Cyngor, a'r cyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion yr Harbwr.

24.2 Os bydd deiliad y Cytundeb Ffurflen Angori/ Cyfleuster yn methu â chydymffurfio ag amodau'r Cytundeb Angori/Ffurflen Cyfleuster, polisi neu unrhyw gyfarwyddeb arall gan y Cyngor, gall y Cyngor roi hysbysiad i symud y cwch/bad dŵr/offer. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad hwn neu os na chaiff yr amodau eu bodloni o fewn 14 diwrnod (neu o fewn y cyfnod o amser a nodir yn yr hysbysiad) o ddyddiad yr hysbysiad a anfonwyd i gyfeiriad hysbys diwethaf defnyddiwr yr harbwr, gall yr Awdurdod symud y cwch i unrhyw fan arall ac ar ôl cyfnod o 14 diwrnod caiff ei waredu os na chaiff ei adfer gan ddefnyddiwr yr harbwr. Bydd defnyddiwr yr harbwr yn atebol i dalu costau symud, storio, angori neu waredu o'r fath lle bo'n berthnasol. Bydd ffioedd o'r fath yn ddyled sy'n ddyledus i'r Awdurdod gan ddefnyddiwr yr harbwr.

24.3 Ni chaiff unrhyw un o fewn unrhyw harbwr caeedig ddefnyddio rhaffau codi nofiadwy ar angorfeydd.

24.4 Ni fydd meist'r y cwch yn achosi nac yn caniatáu i'r cwch symud, dod i angori neu gael ei angori neu ei osod mewn modd a fyddai'n rhwystro'n fwriadol mewn unrhyw fodd symud cychod i mewn ac allan o'r harbwr.

24.5 Ni chaiff unrhyw un ganiatáu i unrhyw gwch rwystro unrhyw bontynau, grisiau na llithrfeydd heb ganiatâd Rheolwr yr Harbwr.

Contractwyr

25.1 Rhaid i unrhyw fusnes sydd wedi'i gontractio gan ddefnyddiwr yr harbwr i wneud unrhyw waith ar stad yr harbwr wneud cais am drwydded ystadau ddilys a chael caniatâd ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar yr harbwr megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, waith codi, atgyweirio/cynnal a chadw cychod, gwaith eiddo neu

unrhyw ddigwyddiadau eraill a allai effeithio ar briffyrdd cyhoeddus a/neu eiddo cyhoeddus neu breifat.

Bydd unrhyw fusnes a gonacontractir gan ddefnyddiwr yr harbwr ar gyfer unrhyw fân atgyweiriadau ar gychod, badau dŵr, angorfeydd neu offer arall nad ydynt yn effeithio ar drefniadau sy'n ymwneud â'r uchod yn sicrhau'r canlynol:

- Mae yswiriant atebolrwydd trydydd parti ac yswiriant indemniad cyhoeddus digonol yn ei lle.
- Mae datganiad dull priodol ac asesiad risg yn eu lle.
- Nid yw'r gwaith yn gweithredu'n groes i'r polisi, unrhyw gyfarwyddeb y Cyngor neu ddeddfwriaeth arall.
- Mae'r contractwr yn indemnio'r Cyngor, ei weithwyr a'i asiantau yn erbyn pob gweithred, hawliad, cost a gorchymyn mewn perthynas ag unrhyw anaf neu farwolaeth unrhyw berson ac unrhyw ddifrod i unrhyw eiddo sut bynnag y'i hachoswyd yn ystod unrhyw waith ar stad yr Harbwr.

Glanio Teithwyr

26.1 Yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr, gall cychod sy'n ymweld sy'n dod o'r tu allan i Sir Ceredigion adael i deithwyr fynd ar ac oddi ar gwch o unrhyw un o'r tri harbwr yng Ngheredigion, yn amodol ar gais, talu'r tâl perthnasol (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') a phrawf o yswiriant. Mae'n ofynnol i gychod o'r fath roi hysbysiad i'r Awdurdod, mwy na phythefnos os oes modd.

Glanio Nwyddau

27.1 Yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbyrau, gall Cychod Masnachol sy'n ymweld laniu teithwyr neu nwyddau o unrhyw un o dri harbwr Ceredigion yn amodol ar gais, talu'r tâl perthnasol (gweler llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau') a phrawf o yswiriant ac ardystiad perthnasol. [Nodir y tâl hwn yn llyfryn cyfredol 'Ffioedd a Thaliadau'](#). Mae'n ofynnol i gychod o'r fath roi digon o rybudd i'r Awdurdod, mwy na phythefnos os oes modd.

Dogfennau

28.1 Gellir dod o hyd i'r dogfennau cysylltiedig canlynol ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r Awdurdod yn cllic@ceredigion.gov.uk neu ar 01545 570881.

- Ffioedd a Thaliadau.
- Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.
- Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Cynlluniau Angori Harbyrau.
- Is-ddeddfau a Deddfau Harbyrau.
- Cyfansoddiad yr Harbyrau.
- Cofnodion Cyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr.

- Ymgynghoriad Cyhoeddus Byw.
- Unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r harbwr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Manylion Cysylltu

289.1 Os dymunwch gysylltu â'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud â'r harbwr gallwch wneud hynny trwy'r dulliau canlynol:

E-bost: cllc@ceredigion.gov.uk

Ffôn: 01545 570881

Neuadd Cyngor Ceredigion

Penmorfa

Aberaeron

Ceredigion

SA46 0PA

DRAFT

Atodiad 1

Gweithdrefn Rhestrau Aros Hamdden, Masnachol, Dŵr Dwfn a Chyfleusterau.

1) Rhoddir manylion am y ffioedd rhestr aros yn llyfryn 'Ffioedd a Thaliadau' y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar ôl derbyn y ffi briodol a'r ffurflen gais, bydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu rhoi ar y rhestr aros berthnasol. Mae'r taliad yn unol â'r cyfarwyddyd wrth ymgeisio.

2) Bydd y dyddiad ar y rhestr aros yr un dyddiad â'r amser y derbynnir y ~~blaendalffi~~.

3) NI ELLIR AD-DALU NA THROSGLWYDDO'R ~~blaendal ffi ond bydd yn cael ei gredydu i'r tâl angorfa/cyfleuster os, a phryd, y dyronnir angorfa/cyfleuster addas.~~

4) Dim ond un cofnod fesul person fydd yn cael ei dderbyn ar unrhyw restr aros unigol.

54) O dan amgylchiadau arferol dim ond un cynnig i gael angorfa/cyfleuster gaiff ei roi i ymgeisydd.

65) Pan fydd angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig a'i dderbyn, gellir ei ddyrannu i'r person/busnes sydd â'i enw ar y rhestr aros briodol yn unig, ac yn amodol ar addasrwydd y cwch/offer y gwneir cais amdano yn ôl disgrisiwn Rheolwr yr Harbwr.

67) Pan fydd angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig a'i dderbyn, ac nid yw cwch/offer ar gael ar unwaith, rhaid i'r ymgeisydd dalu'r ffi lawn am faint y cwch/offer y gwneir cais amdano, ac yna mae ganddo dri mis i roi ei gwch/offer ar yr angorfa/cyfleuster. Os yw'r angorfa/cyfleuster yn cael ei gynnig yn ystod tymor y gaeaf, gellir rhoi'r cwch/offer erbyn dechrau tymor yr haf canlynol os yw'r cyfnod hwn yn hwy.

78) Yn aml iawn caiff rhestr aros ei bandio yn unol â maint yr angorfa/cyfleuster. Felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn hollol sicr beth yw maint y cwch/offer. Mae'n bosibl y bydd yr hyd a nodir ar y ffurflen rhestr aros yn cael ei newid cyn i'r cynnig o angorfa gael ei wneud, fodd bynnag, gallai hyn arwain at drosglwyddo i fand newydd gyda dyddiad newydd.

98) O dro i dro gofynnir i ymgeiswyr ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'u dymuniad i aros ar restr aros benodol. Bydd lle'r ymgeisydd ar y rhestr aros yn cael ei fforffedu a'i fanylion yn cael eu dileu o gofnodion y rhestr aros os na ddarperir cadarnhad ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i anfon y cais am gadarnhad at fanylion cyswllt hysbys diwethaf yr ymgeisydd.

910) Bydd yn gyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i hysbysu Awdurdod yr Harbwr o unrhyw newid ym manylion yr ymgeisydd, yn enwedig os bydd newid yn y manylion cysylltu.

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt, Font color: Auto, Welsh, Pattern: Clear

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig	Ymgynghoriad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion
----------------	--

Maes gwasanaeth	Gwasanaethau Harbyrau	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Rhodri Llwyd	Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees
-----------------	-----------------------	---------------------------------	--------------	-----------------------	------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Chay Sanders	E-bost	clic@ceredigion.gov.uk	Ffôn	01545570881
----------------------------------	--------------	--------	------------------------	------	-------------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion yn darparu'r fframwaith strategol sy'n sail i ac yn llywio sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau fel Awdurdod Harbwr Statudol a sut rydym yn darparu'r Gwasanaeth. Cafodd y Polisi cyfredol ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010 a barn y Gwasanaeth yw bod adolygiad yn amserol ac yn briodol.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Deiliaid angorfeydd presennol ac yn y dyfodol, hamdden a masnachol. Defnyddwyr llongau sy'n ymweld â chyfleusterau'r Cyngor neu'n eu lansio ohonynt. Aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r harbyrau. Contractwyr sy'n gwneud gwaith yn yr Harbyrau Mae'r Polisi yn berthnasol i harbyrau Aberystwyth, Aberaeron a Chei Newydd ac mae hefyd yn darparu y bydd yn cynnwys unrhyw gyfleuster arall y gall Gwasanaeth yr Harbwr ei reoli yn y dyfodol.

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Chay Sanders	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	1	30/11/23	

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?				
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	<p>Mae'r harbyrau yn asedau gwerthfawr iawn, gan ddarparu lleoliad ar gyfer ystod o weithgareddau masnachol a hamdden sydd â rôl bwysig wrth gyfrannu tuag at Hybu'r Economi, cefnogi Busnes a galluogi cyflogaeth.</p> <p>Nod y polisi rheoli yw hyrwyddo'r harbyrau fel porthladdoedd sy'n gweithio ac ar gyfer hamdden a hamdden yn y dŵr, gan ystyried yr angen am fynediad diogel a hawdd i bob aelod o'r cyhoedd. Trwy reoli'r harbyrau mewn modd cyson a theg byddant yn parhau i fod yn ddeniadol i ddeiliaid angorfeydd presennol a darpar ddeiliaid angorfeydd a defnyddwyr eraill yr harbwr.</p>			
Creu cymunedau gofalgar ac iach	Amherthnasol			
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a chaniatáu i bobl o bob oed ddysgu	Amherthnasol			
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	Cyfrannu'n gadarnhaol at reoli amgylchedd naturiol ac adeiledig yr harbyrau, sy'n cynnwys cadw at yr holl Reolau a Deddfwriaeth Amgylcheddol berthnasol.			

Tudalen 150

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*



- Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'
- Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
<p>Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Ysgrifennwyd y Polisi Rheoli blaenorol yn 2010 ac mae'r mwyafrif helaeth o'r Polisi wedi'i gadw gan y credir ei fod yn addas i'r diben ar gyfer y tymor hir.</p> <p>Un newid yn y cyfleuster yw ychwanegu'r paragraff: os bydd unrhyw Harbyrau eraill neu gyfleusterau cysylltiedig yn dod yn gyfleusterau a reolir gan y Cyngor yn y dyfodol, bydd y Polisi hwn yn ymestyn yn awtomatig i gwmpasu'r cyfleusterau hynny.</p>	<p>Mae'r harbyrau'n parhau i fod yn boblogaidd gyda deiliaid angorfeydd (tystiolaeth yw rhestrau aros ar gyfer angorfeydd/cyfleusterau) ac ymwelwyr. Dylai darparu fframwaith rheoli sy'n sicrhau bod y cyfleusterau'n cael eu rheoli a'u cynnal mewn ffordd ddiogel, deg olygu eu bod yn parhau i ffynnu.</p>	<p>Os bydd unrhyw newidiadau mawr i'r harbyrau neu ddeddfwriaeth, rheolau neu ganllawiau cysylltiedig, gellir adolygu'r Polisi yn ôl yr angen fel y bo'n briodol. Gellid ystyried bod adolygiad o'r Polisi yn cael ei gynnal ar amserlen strwythuredig i sefydlu a yw'n dal yn addas i'r diben.</p>
<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p>	<p>Yn ogystal â'r Harbyrau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Ceredigion, mae trefniadau cydweithredu / trydydd parti ar waith mewn perthynas ag aber yr afon Teifi (ATFL) a Marina Aberystwyth.</p> <p>Yn ychwanegol at yr ohebiaeth / trefniadau cyswllt arferol, gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn y cymorthfeydd misol ym mhob Harbwr a hefyd trwy gyfarfodydd y Pwyllgor</p>	<p>Gohebiaeth barhaus a threfniadau a chofnodion cyfarfodydd pwyllgor ymgynghorol.</p> <p>Mae cydweithio wedi digwydd mewn perthynas â phrosiectau penodol gyda rhanddeiliaid a'r Cyngor, gan gynnwys y trefniadau diweddar ar</p>	<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	<p>Ymgynghorol sy'n cael eu cynnal bob dwy flynedd.</p>	<p>gyfer y llwyfan symudol yng Nghei Newydd.</p>	
<p>Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn</p>	<p>Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori rhwng 20 Medi a 20 Hydref 2023 yn gofyn am adborth gan ddefnyddwyr presennol yr harbwr a phartion eraill â diddordeb.</p> <p>Mae'r trefniadau wedi bod yn gyson â'r rhai a gymhwysir mewn prosesau datblygu polisi tebyg eraill ac wedi elwa o fewnbwn Gwasanaeth Corfforaethol sy'n arbenigo mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.</p> <p>Derbyniwyd sylwadau eraill y tu allan i'r broses ragnodedig hefyd. Gyda golwg ar fod mor agored a chynhwysol â phosibl mae'r rhain wedi cael eu coladu a'u cynnwys.</p> <p>Yn ogystal â'r ymgynghori ar y polisi drafft hwn, mae'r Gwasanaeth Harbwr hefyd yn ymgysylltu â defnyddwyr mewn nifer o ffyrdd eraill.</p> <p>Cafwyd nifer uchel o ymatebion a oedd yn dangos ymgysylltiad a chyfranogiad.</p>	<p>Yn dilyn derbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyflwynwyd newidiadau i rai elfennau o'r polisi drafft mewn perthynas ag etifeddiaeth ar gyfer angorfeydd masnachol a hefyd trefniadau rhestrau aros.</p> <p>Danfonwyd yr ymgynghoriad hwn at ddefnyddwyr yr harbwr, a oedd ar gael yn swyddfeydd a llyfrgelloedd yr harbwr a gellid ei gyrchu ar-lein. Cafodd ei hyrwyddo gan dîm cyfathrebu'r Cyngor Ceredigion.</p> <p>Bydd adborth o'r ymatebion a gafwyd yn cael ei ddadansoddi a'i gyflwyno o fewn dogfennau a ddefnyddir i ffurfio'r polisi terfynol.</p> <p>Er na fyddwn yn ymateb i bawb yn unigol, bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r rhai a nododd, fel rhan o'r broses</p>	<p>Posibilrwydd o adolygu strwythuredig ac arolwg efallai bob 5-10 mlynedd.</p>



		<p>ymgynghori, yr hoffent dderbyn adborth. Mae'r Gwasanaeth Harbwr hefyd yn ymgysylltu â'i ddefnyddwyr trwy:</p> <p>Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau (dwywaith y flwyddyn) Meddygfeydd Harbyrau (misol) Presenoldeb rheolaidd gan Dîm Harbyrau yn yr Harbyrau (rheolaidd a pharhaus) gyda dull / polisi drws agored Dyfroedd Tawel (dwywaith y flwyddyn) Cysylltiad drwy Clic (llythyrau, e-bost, ffôn, ffurflenni adborth) Hysbysiadau i Forwyr Negeseuon e-bost grŵp at Ddeiliaid yr angorfa Tudalennau pwrpasol ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys mynediad i'r Polisi Rheoli Harbwr.</p>	
<p>Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu</p>	<p>Er mwyn atal problemau parhaus gyda throsiant araf y rhestr aros ac i ddarparu mwy o fynediad i angorfeydd, mae'r newidiadau arfaethedig canlynol i'r polisi wedi cael eu cyflwyno:</p>	<p>Yn gyffredinol, ychydig iawn o symud / dyraniad angorfeydd sydd wedi bod ar gael i bobl ar y rhestr, yn enwedig yng Nghei Newydd, gyda rhai pobl</p>	<p>Cydnabuwyd o'r broses ymgynghori bod gwahaniaeth rhwng yr angorfeydd masnachol a hamdden yn yr achosion hynny mewn rhai achosion dros gyfnod estynedig, mae busnesau wedi cronni cyfalaf ar ôl cael defnydd parhaus a</p>



	<ul style="list-style-type: none"> • Dileu'r gallu i drosglwyddo angorfeydd i barti arall. • Cael gwared ar hawliau etifeddiant ar gyfer deiliaid angorfeydd hamdden. • Tynnu'r Parcio Ceir am ddim i ddeiliaid angori. • Dileu'r cap ar bob rhestr aros. • Caniatáu un cofnod yn unig y pen ar unrhyw restr aros unigol o'r dyddiad gweithredu. <p>Mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer trosglwyddo llongau bellach yn cael ei ystyried yn amhriodol ac felly bwriedir eu dileu. Mae'r trefniant hwn yn tansilio'r trefniadau rhestrau aros a gallai arwain at dalu premiymau sylweddol am longau ar angorfa. Ystyrir hefyd bod cadw trefniadau trosglwyddo angorfeydd yn cefnogi'r canfyddiad bod cyfleoedd i gael mynediad i wasanaethau a angorfeydd yr harbwr, yn enwedig, yn rhywbeth o siop gaeedig a/neu gyfyngu mynediad i'r rhai sy'n gallu talu'r premiymau.</p> <p>Gwneir y cynnig i ddileu'r trefniadau etifeddiant ar gyfer defnyddwyr hamdden gyda'r bwriad o wella</p>	<p>wedi bod ar y rhestr ers dros 10 mlynedd.</p> <p>Mae lefel o drosglwyddiadau angori bob blwyddyn sy'n digwydd ac, os caiff trosglwyddiadau eu hatal, yna dylai angorfeydd ddod ar gael i'r rhai ar y rhestr aros (nid yw'n digwydd ar hyn o bryd).</p> <p>Bydd caniatáu un cofnod yn unig fesul unigolyn fesul rhestr aros ar unrhyw adeg benodol yn atal unigolyn rhag blocio rhestr aros / yn cael ei ddyrannu nifer o angorfeydd cyn i eraill ar y rhestr aros. Bydd hyn yn gwella mynediad ac yn lleihau'r amser ar y rhestr aros i unigolion sicrhau angorfa.</p> <p>Mewn rhai achosion, gall darparu trwydded parcio gyfredol olygu bod gwerth y drwydded a roddir yr un fath neu'n fwy na chost yr angorfa e.e. Mae trwydded yn cynnig parcio am ddim am gyfnod o 8 mis pan fydd modd codi tâl ar y</p>	<p>mynediad i'r angorfeydd hynny. Gyda hyn mewn golwg, y bwriad yw cadw'r trefniadau etifeddiant ar gyfer angorfeydd masnachol ond eu tynnu o'r angorfeydd hamdden.</p> <p>Bydd y Cyngor, fel rhan o'r broses pennu Ffioedd a Thaliadau, yn adolygu a yw'r mecanwaith a'r strwythur codi tâl ar gyfer y gweithrediadau masnachol yn yr Harbwr yn parhau i fod yn berthnasol, yn ddilys ac er budd gorau'r Cyngor yn gyffredinol.</p> <p>Pan fydd profedigaeth yn digwydd mewn perthynas ag angorfa hamdden, bydd y Gwasanaeth Harbwr yn delio â hyn mewn modd sensitif. Bydd cyfnod o dri mis yn cael ei ganiatáu i drefniadau gael eu cwblhau.</p>
--	--	---	---



	<p>cyfleoedd i'r cyhoedd gael cyfle rhesymol i gael mynediad i angorfa hamdden yn yr harbyrau a reolir gan CCC.</p> <p>Ni fernir bellach ei bod yn briodol darparu budd trwyddedau parcio am ddim ym meysydd parcio a reolir gan CSC i ddefnyddwyr porthladdoedd fel rhan o'r trefniadau angori tymhorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gan y ddarpariaeth parcio am ddim werth sylweddol ynddo'i hun.</p> <p>Mae'r cynnig i ddileu'r cap ar bob rhestr aros wedi cael ei ystyried yn briodol i wella hygyrchedd rhestrau aros.</p> <p>Bydd mewnosod un cofnod yn unig fesul person yn cynyddu'r cyfleoedd i rywun gael angorfa pan fydd un ar gael, a thrwy hynny wneud yr harbyrau'n fwy hygyrch i ystod ehangach o bobl.</p>	<p>meysydd parcio tra bod tocyn tymor parcio 6 mis ar gyfer Cei Newydd Stryd yr Eglwys a South Beach Aberaeron yn costio £267, sydd yr un fath â angorfa hamdden ar gyfer llong 4m.</p>	
<p>Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill</p>	<p>Nod cyffredinol y polisi yw rheoli'r Harbyrau mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant cyffredinol, wrth ystyried bod barn, dymuniadau ac anghenion rhanddeiliaid amrywiol, ynghyd â'r ymwybyddiaeth bod darparu angorfeydd yn wasanaeth dewisol.</p> <p>Mae newidiadau i'r polisi yn bwriadu cynyddu argaeledd a throsiant</p>	<p>Gwelwyd bod y polisi yn gyffredinol yn cefnogi'r trefniadau yn yr Harbyrau mewn modd cadarnhaol, fodd bynnag, bernir ei bod yn briodol ar hyn o bryd i wneud newidiadau i'r polisi er mwyn cael effaith gadarnhaol pellach ar y rhai sy'n dymuno cael mynediad i angorfeydd yn</p>	<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>



	angorfeydd a fydd yn eu tro yn effeithio'n gadarnhaol ar y bobl hynny sy'n ceisio sicrhau angorfa.	yr harbyrau. Mae hyn yng ngoleuni profiad gweithredol trwy faterion sydd wedi codi ac adborth a gafwyd yn gyffredinol a/neu fel rhan o'r broses ymgynghori.	
--	--	---	--

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	Nod y Polisi yw parhau i hyrwyddo gweithgarwch masnachol yn yr harbyrau yn ogystal â'r economi ehangach sy'n gysylltiedig â thwristiaeth sy'n elwa'n rhannol o'r atyniad a ddarperir gan yr Harbyrau.	Mae rhan fawr o'r polisi yn benodol i reoli angorfeydd masnachol, cydnabyddir y gellid darparu angorfeydd pellach fel rhan o unrhyw gyfleoedd datblygu yn y dyfodol neu lle bydd capasiti ar gael yn y dyfodol. Gan fod galw sylweddol am yr angorfeydd hyn, mae'r Cyngor yn gweithredu polisi defnydd neu golli, gan sicrhau, os nad yw angorfeydd yn cael eu defnyddio, yna bydd menter arall yn cael cyfle.	Diwygiwyd y polisi drafft yn dilyn adborth yr ymgynghoriad mewn perthynas â threfniadau etifeddiaeth ar gyfer angorfeydd masnachol i barhau i gefnogi eu gweithrediad parhaus yn achos marwolaeth neu analluogrwydd deiliad y angorfa.



<p>3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)</p>	<p>Nid oes unrhyw newidiadau yn y polisi sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ac ecosystemau, fodd bynnag, roedd materion amgylcheddol gan gynnwys mater llygredd a gwastraff a gynhrychir gan ddefnyddwyr yr harbwr eisoes yn rhan o'r polisi.</p> <p>Mae'r Polisi eisoes yn cynnwys bod yn rhaid i ddefnyddwyr yr harbwr ddilyn Cod Ymddygiad Bae Ceredigion a chyfarwyddiadau eraill y Cyngor bob amser.</p>	<p>Rhaid i ddefnyddwyr yr harbwr gadw at y Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladd ac adrodd am unrhyw olyngiadau tanwydd.</p> <p>Mae'r Cod Ymddygiad yn cynnwys rheoliadau ar ryngweithio â bywyd gwylt, mynd â sbwriel adref a chadw at is-ddeddfau.</p> <p>Mae gwybodaeth am y Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladd a'r Ardal Cadwraeth Arbennig ar gael ar wahanol lwyfannau megis gwefan y Cyngor, yng nghylchlythyr yr Harbwr, Dyfroedd Tawel, mewn manau strategol yn yr Harbyrau ac ym mhob Swyddfa'r Harbwr.</p> <p>Mae mentrau sy'n ymwneud ag argaeledd pecynnau arllwys wedi cael eu datblygu drwy gyllid grant ym mhob un o'r harbyrau gan y Cyngor.</p>	<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>
<p>3.3. Cymru iachach</p>	<p>Nod y Polisi yw parhau i hwyluso'r defnydd o'r Harbyrau ar gyfer</p>	<p>Mae'r angorfeydd hamdden ym mhob harbwr</p>	<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd</p>	<p>Gweithgareddau hamdden yn seiliedig ar ddŵr sy'n helpu i gefnogi iechyd a lles yn ogystal â bod yn ardaloedd y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer teithiau cerdded hamdden. Maent hefyd yn lleoliadau deniadol sy'n cyfrannu at yr amgylchedd cyffredinol ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.</p>	<p>yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n dda. Mae'r ardaloedd yn brysur ac yn fywiog yn enwedig yn ystod y tymhorau twristiaid brig gyda nifer o ymwelwyr i'r ardaloedd.</p>	
<p>3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</p>	<p>Nod y Polisi yw parhau i reoli'r Harbyrau mewn ffordd sy'n cefnogi'r gymuned ehangach gan ystyried y gwahanol ddymuniadau ac anghenion rhanddeiliaid a all fod yn aml yn gwrthdaro.</p>		<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>
<p>3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol</p>	<p>Nod y Polisi yw parhau i hwyluso'r defnydd o Harbyrau mewn ffordd sy'n gyfrifol ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.</p>		<p>Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.</p>

<p>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p> <p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd</i></p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p> <p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth</i></p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p> <p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac</i></p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn</i></p>
---	--	---	---

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p><i>neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>				<p><i>mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p><i>yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p><i>trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>												
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p> <table border="1"> <tr> <td>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</td> <td>Cadarnhaol</td> <td>Negyddol</td> <td>Dim/Fawr ddim ✓</td> </tr> <tr> <td>Pobl 18-50</td> <td>Cadarnhaol</td> <td>Negyddol</td> <td>Dim/Fawr ddim ✓</td> </tr> <tr> <td>Pobl hŷn 50+</td> <td>Cadarnhaol</td> <td>Negyddol</td> <td>Dim/Fawr ddim ✓</td> </tr> </table>				Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	<p>Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.</p>		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓															
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓															
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓															
<p>Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)</p> <table border="1"> <tr> <td>Nam ar y clyw</td> <td>Cadarnhaol</td> <td>Negyddol</td> <td>Dim/Fawr ddim ✓</td> </tr> <tr> <td>Nam corfforol</td> <td>Cadarnhaol</td> <td>Negyddol</td> <td>Dim/Fawr ddim ✓</td> </tr> </table>				Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	<p>Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Fodd bynnag, mae ychydig o ymatebion yn sôn am y diffyg cyfleusterau cyfeillgar i bobl anabl ar gyfer cael mynediad i'r harbwr a'i gyfleusterau.</p>	<p>Mae Harbyrau Ceredigion yn harbyrau gwaith hanesyddol ac mewn rhai achosion seilwaith rhestredig.</p>	<p>Er ein bod yn edrych ar ffyrdd pragmatig a fforddiadwy o wella mynediad, gall y cwmpas i wneud hyn fod yn gyfyngedig. Byddwn yn parhau i chwilio, ystyried a datblygu cyfleoedd yn hyn o beth.</p>				
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓															
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓															

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Fodd bynnag, nid mater i'r polisi yw hwn.		
			✓			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n		
---	--	--	--	---	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Ni fydd y polisi yn cael unrhyw effeithiau sy'n benodol i'r nodwedd warchoddedig hon.		
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

- Trwy gael gwared ar drosglwyddo trefniadau angori bydd yn cynyddu tryloywder, tegwch ac yn gwella cyfleoedd i gael mynediad i angor.
- Drwy gael gwared ar etifeddiaeth trefniadau angori hamdden, bydd yn cynyddu cyfleoedd i gael mynediad i angorfa hamdden.
- Drwy gael gwared ar gap y rhestr aros bydd yn cynyddu cyfleoedd i bobl fynd i mewn i'r rhestrau aros lle mae'r rhain wedi cael eu gordanysgrifio yn flaenorol.
- Trwy ei gyfyngu i un cofnod y pen ar unrhyw restr aros unigol, bydd yn cynyddu cyfleoedd unwaith y bydd pobl ar y rhestr aros i gael angorfa.



3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos:

- Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol
- Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol
- Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Amherthnasol- Nid yw'n amlwg y bydd y newidiadau i'r polisi yn arwain at unrhyw effaith benodol ag unrhyw un sydd a unrhyw nodwedd benodol.

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn :

- Mynd i'r afael â rhagfarn
- Hybu dealltwriaeth

Trwy gynyddu cyfleoedd i gael mynediad i angorfeydd, dylai alluogi grŵp ehangach o bobl i gael angorfa ac o ganlyniad lleihau tensiynau / canfyddiadau sy'n codi sy'n gysylltiedig â theimladau o annhegwch a bod cyfleoedd i gael mynediad i angorfeydd yn cael eu seilio ar y gallu i dalu premiwm am long i ennill angorfa.

Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.

3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys.

Amherthnasol – ni fernir bod unrhyw newidiadau arfaethedig a fydd yn arwain at bobl yn byw mewn amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd llai ffafriol.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Mae'r newidiadau a gynigir yn gysylltiedig â darpariaeth ddewisol ac nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith benodol ar unrhyw grŵp cymdeithasol neu economaidd penodol.

Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Dim a nodwyd yng nghyd-destun y newidiadau arfaethedig.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Mae'r Polisi a'r Gwasanaeth eisoes yn cael eu darparu'n ddwyieithog.	Mae'r holl ddogfennau a chyfathrebu yn glynu wrth ganllawiau Cymraeg y Cyngor. Gall defnyddwyr gael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.	
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Mae'r Polisi a'r Gwasanaeth eisoes yn cael eu darparu'n ddwyieithog.	Mae'r holl ddogfennau a chyfathrebu yn glynu wrth ganllawiau Cymraeg y Cyngor. Gall defnyddwyr gael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.	
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Mae'r Polisi a'r Gwasanaeth eisoes yn cael eu darparu'n ddwyieithog.	Mae'r holl ddogfennau a chyfathrebu yn glynu wrth ganllawiau Cymraeg y Cyngor. Gall defnyddwyr gael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.	
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim		Mae'r holl ddogfennau a chyfathrebu yn glynu wrth	

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?			✓	Mae'r Polisi a'r Gwasanaeth eisoes yn cael eu darparu'n ddwyieithog.	ganllawiau Cymraeg y Cyngor. Gall defnyddwyr gael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.	
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Mae'r Polisi a'r Gwasanaeth eisoes yn cael eu darparu'n ddwyieithog.	Mae'r holl ddogfennau a chyfathrebu yn glynu wrth ganllawiau Cymraeg y Cyngor. Gall defnyddwyr gael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.	

✓

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Mae newidiadau i'r cynnig fel yr amlinellwyd eisoes wedi'u gwneud i'r polisi drafft yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori gan gynnwys mewn perthynas ag etifeddiaeth a'r rhestr aros.	Polisi drafft eisoes wedi ei ddiwygio i'w ystyried	Gwasanaeth Harbwr	Polisi drafft eisoes wedi ei ddiwygio i'w ystyried a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i'w hystyried.

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Amherthnasol

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Bydd yn cael ei fonitro'n amodol ar gymeradwyaeth o ran trosiant y rhestrau aros, profiad ar ôl ei weithredu ac adborth a chyfathrebu parhaus gan randdeiliaid.

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg		Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)	
Dim wedi'i nodi					
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Amherthnasol					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Owen Morgan		08/02/24
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Rhodri Llwyd		06/02/24
Cyfarwyddwr Corfforaethol	Barry Rees		06/02/24
Deiliad y Portffolio	Cllr Keith Henson		08/02/24

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Argymhelliad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar ganlyniad proses ymgynghori Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 18 Rhagfyr 2023

Cefndir:

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ganlyniad proses ymgynghori Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion yn y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023.

Rhoddodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod o'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar ganlyniad proses ymgynghori Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion. Cymeradwywyd Polisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010 ac roedd wedi darparu fframwaith clir, defnyddiol a phriodol ar gyfer cyflawni a rheoli'r gweithgarwch yn Harbyrau'r Cyngor yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd. Fodd bynnag, erbyn hyn ystyriwyd ei bod yn briodol ac yn amserol i adolygu a diweddarau'r Polisi i adlewyrchu'r newidiadau perthnasol ers i'r Polisi gael ei roi ar waith. Hefyd, i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng y Polisi a gweithgarwch presennol yr Harbyrau oedd wedi'u nodi neu oedd yn deillio o brofiad. Roedd y newidiadau a gynigwyd yn adeiladu ar y Polisi presennol oedd wedi gwasanaethu'r rhanddeiliaid yn dda ers dros ddegawd. Roedd y newidiadau yn cydnabod ac yn adlewyrchu bod yr Harbyrau yn gyfleusterau aml-ddefnydd oedd yn cael eu rhannu, a bwriad cyffredinol y Cyngor oedd i gryfhau'r Polisi fel y gellid parhau i reoli'r rhain mewn ffordd deg, dryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

Roedd Polisi drafft diweddaredig wedi'i baratoi ac fel rhan o'r broses o newid polisi, cynhaliwyd ymgynghoriad gan roi cyfle i randdeiliaid roi eu barn. Lanswyd yr ymgynghoriad ar 20 Medi 2023 ac roedd ar agor hyd 20 Hydref 2023. Yn gyfan gwbl, cafwyd 108 o ymatebion drwy'r broses ymgynghori benodedig. Cafwyd a nodwyd adborth drwy ffyrdd eraill hefyd. Cafwyd trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd. Yn dilyn yr adborth a gafwyd drwy'r broses ymgynghori, gwnaed newidiadau i ddrafft diweddaraf y Polisi newydd. Fel gydag unrhyw ymgynghoriad oedd yn ymwneud â newid polisi, nid oedd yn bosib ymateb yn gadarnhaol i'r holl adborth ac awgrymiadau a sylwadau a ddaeth i law. Yn wir, gall amcanion, dyheadau a disgwyliadau'r gwahanol randdeiliaid wrthdaro â'i gilydd

Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson a Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol-Gwasanaethau Amgylcheddol mai'r bwriad oedd cael fframwaith polisi eang oedd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o reoli'r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw gan gydnabod amrywiaeth y rhanddeiliaid oedd yn defnyddio'r cyfleusterau. Derbyniwyd na fyddai pawb yn cymeradwyo nac yn cytuno â'r manylion a'r goblygiadau. Fodd bynnag, cyfleusterau a weithredwyd gan y Cyngor oedd y rhain, ac yn y pen draw

mater i'r Cyngor oedd penderfynu sut orau i'w rheoli nhw a'r gweithgarwch oedd yn digwydd ynddynt.

Ychwanegodd Gerwyn Jones fod camddealltwriaeth wedi bod ynghylch amserau aros a bod hyn wedi'i adlewyrchu yn yr adborth. Hefyd os oedd cwch ar werth gydag angorfa, y gallai hyn greu premiwm artiffisial. O'r 108 o ymatebion, rhoddodd 33 eu barn ar y polisi er iddynt ddweud nad oeddent yn ymwybodol o'i fodolaeth, felly roedd yn bwysig cael dull cytbwys o ymdrin â'r mater.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd yr Aelodau'n gefnogol i dynnu ymaith yr hawliau trosglwyddo ac etifeddu o'r trefniadau angori ar gyfer deiliaid hamdden yn y polisi diwygiedig.
- Nid oedd y polisi yn cwmpasu'r ffioedd a'r taliadau a byddai'r rhain yn cael sylw ar wahân yn ystod y broses flynyddol o osod y gyllideb.
- Nodwyd bod yr awdurdod lleol yn berchen ar seilwaith yr harbwr a bod Ystâd y Goron yn berchen ar yr arfordir ac yn gyfrifol amdano.
- Roedd y Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd, yn fwy nag y mae gwasanaethau eraill yn medru ei gynnig a'i gynnal. Roedd yr ymgysylltu yn cynnwys cymorthfeydd misol, cylchlythyr 'Dyfroedd Tawel' a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a Phwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau a oedd yn cwrdd ym misoedd Mawrth a Hydref yn draddodiadol. Wrth i bwyslais y Pwyllgor esblygu, bydd angen adolygu'r Cyfansoddiad.
- Yn hanesyddol cyflawnwyd gwaith carthu yn harbyrau Aberaeron a Cheinewydd bob blwyddyn, a phob tair i bum mlynedd yn Aberystwyth, lle mae'r dasg lawer yn fwy. Roedd angen ystyried y sefyllfa ariannol.
- O ran 'Egwyddorion Gunning', nodwyd bod esboniad eglur wedi'i roi dros gyflwyno newidiadau yn y polisi.
- Mynegwyd pryderon ynghylch cael gwared o'r polisi y broses o drosglwyddo angorfeydd masnachol, gan fod hyn yn allweddol i ddiogelu busnesau yng nghyd-destun treftadaeth forwrol y sir. At ddibenion dilyniant, roedd hi'n hanfodol cael rhywfaint o hyblygrwydd o ran trosglwyddo angorfeydd masnachol. Nodwyd bod trosglwyddo angorfeydd wedi'i dynnu o'r polisi yn sgil adborth dros y blynyddoedd fod y rhestr aros yn dipyn o 'siop gaeëdig'.
- Roedd nifer benodol o angorfeydd ym mhob un o'r 3 harbwr ac roedd y galw yn amrywio, ond yn gyffredinol roedd llai ar gael yng Ngheinewydd o ran hamdden a masnach. Ar hyn o bryd, roedd terfyn ar y nifer ar y rhestr aros ar gyfer angorfeydd hamdden a masnachol, ond byddai'r terfyn yn cael ei ddileu yn y polisi diwygiedig.
- Yn dilyn ymholiad ynghylch y ffi weinyddol sy'n gysylltiedig â ffioedd parcio, nodwyd y byddai angen edrych ar hyn gan fod trwyddedau parcio wedi'u tynnu o'r angorfeydd.
- Yn ystod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda chynllun amddiffyn arfordir Aberaeron, nid oedd darpariaeth parcio am ddim wedi'i threfnu ar gyfer defnyddwyr yr harbwr.
- Mynegwyd pryderon y byddai deiliaid angorfeydd yn ceisio trwco o angorfa hamdden i angorfa fasnachol - at ddibenion etifeddu - fodd bynnag, nodwyd bod camau ar waith i atal hyn.

Esboniodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon gan Gymdeithas Angorfeydd Masnachol Ceredigion, ac roedd Aelodau a Swyddogion wedi ei weld eisoes. Nododd yr Aelodau'r llythyr gan gydnabod y pryderon a fynegwyd ynddo parthed cael gwared ar drosglwyddo angorfeydd masnachol ac effaith hyn ar fusnesau a dilyniant busnes.

Yn unol â phrotocol Trosolwg a Chraffu ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, roedd Mr Seal yn bresennol yn y cyfarfod i annerch y Pwyllgor ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau sef grŵp ar wahân i Gyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau a drefnir gan yr awdurdod lleol. Cyfeiriwyd at y pryderon a fynegwyd yn y cofnodion a'r llythyr agored a anfonwyd gan Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau i'r awdurdod lleol yn dilyn eu cyfarfod i drafod y Polisi Rheoli Harbyrau.

Esboniodd Gerwyn Jones fod y Gwasanaeth Harbyrau yn rhan o Wasanaeth ehangach Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'i fod yn gweithredu o dan Gyfansoddiad y Cyngor fel y gwna gwasanaethau eraill y Cyngor.

Gofynnwyd i'r polisi a gyflwynwyd i'r Cabinet gynnwys y newidiadau wedi'u marcio, er hwylustod.

Argymhelliad / Argymhellion:

Cytunodd y pwyllgor i argymhell i'r Cabinet bod y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi drafft Rheoli Harbyrau Ceredigion, sy'n ymgorffori'r newidiadau a wnaed yn dilyn y broses ymgynghori, yn cael ei chymeradwyo er mwyn ei gweithredu wedi hynny, a bod pob cwch masnachol, gan gynnwys cychod pysgota a chychod cludo teithwyr, yn cael gwerthu eu cychod gyda'u hangorfeydd os oes angen, a bod yr hawliau olynu yn cael eu cynnal.

Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**Adroddiad i'r:** Cabinet**Dyddiad y cyfarfod:** 20 Chwefror 2024**Teitl:** Caffael Contract Trin Gwastraff Gweddilliol**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu canlyniad yr ymarfer caffael**Er:** Penderfyniad**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:****Y Cyngorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon****Cyflwyniad**

Yn 2019, ymrwymodd Cyngor Sir Ceredigion i gytundeb ar gyfer gwaredu ei wastraff gweddilliol (bag du) a'i wastraff swmpus am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Mae'r contract hwnnw'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024, ac o ganlyniad roedd angen cynnal ymarfer caffael pellach, a fyddai'n canolbwyntio ar waredu gwastraff gweddilliol (bag du) yn unig.

Ymarfer Caffael:

Mae'r contract ar gyfer trin gwastraff gweddilliol y sir am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 2 flynedd. Nod y contract yw dargyfeirio cymaint o'r gwastraff hwn o safleoedd tirlenwi â phosibl, gydag isafswm gofyniad o 90% o ddargyfeirio tirlenwi.

Mae'r contract yn cynnwys cludo'r gwastraff contract o Orsafoedd Trosglwyddo Gwastraff presennol y sir, a Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff posibl yn y dyfodol, i'r cyfleusterau(au) trin arfaethedig.

Cychwynnwyd yr ymarfer caffael ar 6 Tachwedd 2023 gyda dyddiad cau ar 7 Rhagfyr 2023. Cawsom gais gan un Cwmni ar 16 Tachwedd am estyniad i'r dyddiad cyflwyno. Ar ôl ystyried a chyda cynigydd posibl i gynyddu cystadleuaeth, gwnaethom ymestyn y dyddiad cau i 14 Rhagfyr 2023. Defnyddiwyd y broses gaffael agored a hysbysebwyd y contract drwy UKFTS (UK Find a Tender Service).

37 diwrnod oedd hyd y cyfnod tendro.

Roedd 3 cham i'r broses dendro, set o gwestiynau cymhwyster pasio/methu, 5 cwestiwn technegol (ansawdd) a sgoriwyd a'r cais masnachol.

Roedd y cwestiynau a'r sgoriau technegol fel a ganlyn:

Cwestiwn	Cwestiwn Technegol	Sgôr (Isafswm/ Uchafswm)
C1	Datganiad Dull Gwasanaethau	0/120

Tudalen 172

C2	Cyrchfannau Deunyddiau a Lleoliadau Terfyn	0/100
C3	Dibynadwyedd a Chynnal a Chadw	0/40
C4	Trefniadau Wrth Gefn	0/30
C5	Buddion Cymunedol	0/10

Mynegodd 24 o sefydliadau ddiddordeb yn y contract. Ar y dyddiad cau o 14 Rhagfyr, derbyniwyd tri thendr. Aeth pob un ymlaen trwy'r cam cymhwyso i'r cam gwerthuso dechnegol trwy amlen.

Cymhwyswyd trothwy sgôr isafswm ar gyfer pob cwestiwn technegol a dim ond y tendrau hynny sy'n bodloni'r safonau gofynnol hyn ym mhob cwestiwn a aeth ymlaen i'r cam fasnachol trwy amlen.

Cafodd un tendr ei eithrio yn ystod cam technegol y broses, gan arwain at agor dim ond dwy amlen fasnachol.

Roedd y meini prawf ar gyfer penderfynu'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd fel a ganlyn:

Ansawdd 30%; Pris 70%.

Mae canlyniadau'r ymarfer caffael wedi'u cynnwys yn Atodiad A (EITHRIEDIG).

O ganlyniad i'r ymarfer caffael a chanlyniad y dadansoddiad ariannol o'r costau amcangyfrifedig, mae'r canlyniad £300k yn well na'r amcangyfrifon ariannol a gynhwyswyd yn adroddiad y Gyllideb i'r Cabinet ar 23/01/24. Felly, bydd y Gyllideb ddrafft 24/25 a sefyllfa ddrafft y Dreth Gyngor yn cael eu haddasu i gymryd hyn i ystyriaeth.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.

Ni chaiff ei ystyried yn angenrheidiol oherwydd nad oes unrhyw newid yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor: AMH

Cydweithio: AMH

Cynnwys: AMH

Atal: AMH

Integreiddio: AMH

Argymhelliad(au):

Argymhellir bod y Cabinet yn cytuno i ddyfarnu'r contract i'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 diwrnod.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Sicrhau bod gwastraff gweddilliol y sir yn cael ei waredu yn barhaus yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

Trosolwg a Chraffu:

Cymunedau Ffyniannus

Fframwaith Polisi:

Strategaeth Rheoli Gwastraff

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd a chysylltiedig

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Gweler Atodiad A (EITHRIEDIG)

Goblygiadau cyfreithiol:

AMH

Goblygiadau staffio:

AMH

Goblygiadau eiddo / asedau:

AMH

Risg(au):

AMH

Pwerau Statudol:

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Papurau Cefndir:

AMH

Atodiadau:

Atodiad A- Canlyniadau'r Ymarfer Caffael (EITHRIEDIG)

Atodiad B- Canlyniad Gwerthuso Tendr Ynni o Wastraff (EITHRIEDIG)

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Dyddiad:

28 Ionawr 2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

By virtue of paragraph(s) 14 of Part 1 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Tudalen 177

By virtue of paragraph(s) 14 of Part 1 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Argymhelliad gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar y gyllideb ddrafft 2024/2025

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cymunedau 1 Chwefror 2024

Cefndir:

Ystyriodd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y gyllideb ddrafft 2024/25 yn y cyfarfod ar 1 Chwefror 2024.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, gyflwyno'r adroddiad ar gyllideb ddrafft 2024/2025. Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa ariannol hon sy'n wynebu'r Cyngor yn eithriadol o anodd gyda phwysau ariannol sylweddol. Dywedodd nad yw erioed wedi gweld sefyllfa ariannol mor heriol yn ystod ei gyfnod yn Gynghorydd gan mai dim ond cynnydd o 2.6% a gafodd Ceredigion yn setliad drafft Llywodraeth Cymru 24/25. Dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi cyfarfod â rhai Cynghorau Tref a Chymuned i drafod y sefyllfa ariannol a bod mwy o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos oedd i ddod.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, wedi cyflwyno'r wybodaeth sy'n weddill yn yr adroddiad. Adleisiodd y Cynghorydd Gareth Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf, o bell ffordd, y mae wedi ei hwynebu fel Cynghorydd ar adeg pennu'r gyllideb.

Rhodddwyd gwybod mai dyma'r meysydd y gallai'r pwyllgor hwn fod am eu hystyried o blith Atodiad A ym mhapurau'r agenda:

- a) Adran 3 – Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceredigion yn 24/25.
- b) Adran 4 – Ystyriaethau lefel uchel o ran y Gyllideb gan gynnwys:
 - Adran 4b) – Y Gyllideb Refeniw - Cyfanswm y Pwysau o ran Costau
 - Adran 4d) – Y Gyllideb Refeniw – Cynigion o ran Gwneud Arbedion
 - Adran 4f) – Cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor
 - Adran 4g) – Y sefyllfa bosibl o ran Treth y Cyngor
- c) Adran 5 – Y gofyniad o ran y Gyllideb Ddrafft
- d) Adran 6 – Risgiau i'r Gyllideb
- e) Adran 7 – Y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn arfaethedig
- f) Adran 8 – Cydnerthedd ariannol (gan gynnwys Cronfeydd wrth gefn a Balansau Cyffredinol)
- g) Adran 9 – Rhagolygon Ariannol y Tymor Canolig
- h) Yr 11 o argymhellion a gytunwyd gan y Cabinet ar 23/01/24.
- i) Unrhyw faterion eraill ynghylch y Gyllideb y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried sy'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn agored mai ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 24/25 yw'r "un fwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli". Cynnydd ariannol o 2.6% yn unig y mae Ceredigion wedi'i dderbyn (y 14eg o'r 22ain Awdurdod Lleol). Ceredigion hefyd sydd wedi derbyn y cynnydd isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru gyfan. Dyma felly yw Cyllideb fwyaf cyfyng Cyngor Sir Ceredigion ac mae'n waeth nag a ragwelwyd yn flaenorol, ac yn llai na'r 3.1% o gynnydd y cyfeiriodd Llywodraeth Cymru ato yn yr hydref.

Y pennawd o Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol yn Lloegr oedd bod cynnydd cyffredinol o 6.5% mewn cyllid gyda £1 biliwn o gyllid grant ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol o'i gymharu â 23/24. Gan fod Llywodraeth Cymru yn weinyddiaeth ddatganoledig, mae ganddi'r rhyddid i ddefnyddio ei harian fel y mynn. O ganlyniad mae nifer o benderfyniadau polisi gwahanol yn bodoli yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

Mae canlyniad Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Leol, ynghyd ag amryw o grantiau unigol penodol yn cael eu torri, yn ogystal â phwysau costau sylweddol iawn ar wasanaethau, nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o leihau, yn golygu nad yw hi bellach yn bosibl parhau i ddiogelu Gwasanaethau. Bellach mae penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud o ran y gyllideb fel rhan o'r pwysu a mesur ynghylch sut a lle i leihau costau gwasanaethau'r Cyngor, ochr yn ochr ag ystyried y lefel briodol o gyllid i'w godi drwy'r Dreth Gyngor.

Dyma'r pwyntiau allweddol yn yr adroddiad hwn:

- Amcangyfrifir bod y pwysau o ran y costau refeniw diweddaraf y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn £18.1m, sy'n ddigynsail ac yn cyfateb i ffactor chwyddiant penodol o 10.1% ar gyfer Ceredigion. Mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa lle y mae chwyddiant yn gyffredinol yn rhedeg ar 3.9% (ffigwr y CPI, Tachwedd 2023). Felly mae angen gwneud yn iawn am ddiffyg o £14.6m yn y gyllideb drwy gyfuniad o Ostyngiadau yn y Gyllideb a chodi'r Dreth Gyngor.
- Mae gofynion cystadleuol ar y Rhaglen Gyfalaf yn gwaethygu oherwydd gostyngiad yn y cyllid cyfalaf Craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae lefel bresennol y cyllid cyfalaf craidd (£5.8m) yn dal yn is na'r hyn a dderbyniwyd dros 15 mlynedd yn ôl ac mae'n cynrychioli toriad mewn termau real o £5.1m (neu bron i 50%) dros y cyfnod hwnnw.
- Bydd y gost o barhau i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y Cyflog Byw Gwirioneddol (cynnydd o 10.1%) yn cael ei dalu i staff Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn costio £0.9m ychwanegol i Geredigion ar gyfer 24/25. Dyma'r gost ychwanegol y tu hwnt i ariannu cynnydd sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac mae'n rhan o gyfanswm pwysau costau amcangyfrifedig o £2.7m i ariannu chwyddiant sylfaenol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol a gomisiynwyd yn allanol (e.e. Gofal Cartref, Taliadau Uniongyrchol a lleoliadau preswyl i Bobl Hŷn).
- Mae'r galwadau a'r pwysau ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i gynyddu - cyfanswm o tua £6.2m ar ben dyfarniadau cyflog gweithwyr a darpariaethau o ran chwyddiant sylfaenol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol.
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (cynnydd o 9.7%) ond mae hefyd yn parhau i beidio â darparu unrhyw gyllid ar gyfer hyn. Felly mae disgwyl i ddyfarniadau cyflog gweithwyr ar

gyfer 24/25, nad ydynt yn cael eu pennu gan Gyngor Sir Ceredigion, barhau i gynyddu. Gyda phwysau costau amcangyfrifedig o tua £4.8m, mae hwn yn newidyn sylweddol iawn o ran y gyllideb. Mae'r dull tuag at Gyflog i'r gwrthwyneb i'r hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod cyni blaenorol, pan mai dull George Osborne oedd gorfodi cyflogau, am sawl blwyddyn, i gael eu rhewi / gosod capiau cyflog o 1% arnynt, fel modd o reoli costau.

- Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae cynnydd sylweddol wedi'i gynnig gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer yr ardoll Tân sy'n rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. Byddai'r cynnig presennol yn arwain at gynnydd o 12% yng nghost ardoll tân presennol y Cyngor o £4.9m a byddai'n cyfateb i dros 1% ar Dreth y Cyngor.
- Mae effaith gudd ar y Gyllideb yn sgil gostyngiad yng nghyllid grantiau penodol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft - mae'r toriad arfaethedig o dros 20% yng nghyllid y Gweithlu Gofal Cymdeithasol (colled ddangosol o £250k) yn peri dryswch ar adeg pan fo her sylweddol o ran recriwtio a chadw staff yn y sector Gofal Cymdeithasol.
- Er gwaethaf y setliad is na'r disgwyl, mae'r Cabinet yn dal i gynnig cynyddu Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion gan 3.1%, sef y senario a gyflwynwyd i Benaethiaid a Llywodraethwyr ddiwedd mis Medi diwethaf.
- Mae'r Gofyniad drafft cyfredol ar y Gyllideb ar gyfer 24/25 yn gynnydd is (6.9%) na'r cynnydd yn y Gofyniad ar Gyllideb 23/24 (8.6%). Serch hynny, cynnydd o 2.6% yn unig a geir yn setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25, o gymharu â 8.1% yn 23/24.
- Lefel y Dreth Gyngor Band D bresennol yng Ngheredigion (i bob cydran) ar gyfer 23/24 yw £1,908, sydd ychydig yn uwch na'r Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Band D yng Nghymru, sef £1,879. Mae lefelau cyfartalog Treth Gyngor yng Nghymru dal yn is na'r cyfartaledd cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Unedol yn Lloegr (£2,139 ar gyfer 23/24). Mae elfen bresennol y Cyngor Sir o Dreth Gyngor Band D 23/24 yn werth £1,553.60.
- Cytunodd y Cyngor yn ddiweddar i gynyddu'r premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag hirdymor, yn weithredol o fis Ebrill 2024. Mae gan y penderfyniad hwn y potensial i gynorthwyo gyda Her y Gyllideb drwy osgoi cynnydd uwch eto yn Nhreth y Cyngor, os bydd yr Aelodau o'r un farn.
- Mae'r Cabinet yn ymwybodol bod tua 85% o'r holl anheddau trethadwy yng Ngheredigion yn perthyn i Fandiau A i E. Mae ffigurau cyfredol Cyllideb ddrafft 24/25 yn nodi cynnydd posibl yn Nhreth y Cyngor (ar gyfer elfen Cyngor Sir Ceredigion) o ychydig yn fwy na £4 yr wythnos (neu £18 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
- Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i weld ymhle/ os gellir gwneud gostyngiadau pellach yn y gyllideb i wella'r sefyllfa ymhellach.

Mae'r broses Graffu ar y Gyllideb a chyfranogiad yr holl Aelodau yn rhan o'r broses hon. Mae'n amlwg iawn o'r uchod nad yw cynnydd o 2.6% yng nghyllid craidd Llywodraeth Cymru, ynghyd â thoriadau mewn cyllid grant penodol gan Lywodraeth Cymru, yn darparu agos ddigon o gyllid i allu delio â rhannau sylweddol o gyllideb y Cyngor sy'n amodol ar chwyddiant ymhell uwchlaw lefelau CPI, ac mewn sawl maes yn cyrraedd lefelau digid dwbl. Golyga hyn fod her anferthol o ran y gyllideb ac na ellir canolbwyntio yn unig bellach ar wneud pethau'n wahanol ac mewn ffordd arloesol. Mae angen i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol yn y Gyllideb a fydd yn gorfod cynnwys lleihau ac, mewn rhai achosion, dileu gwasanaethau'n llwyr.

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o gael ei chyfyngu i'r flwyddyn ariannol nesaf yn unig, oherwydd mae'r rhagolygon o ran cyllid cyhoeddus yn y tymor canolig bellach yn edrych hyd yn oed yn fwy llwm, er y ffaith bod Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig i'w gynnal erbyn diwedd Ionawr 2025. Wrth symud ymlaen, mae angen i Gyngor Sir Ceredigion ail-werthuso ei bwrpas a'i berthynas sylfaenol â'i drigolion i gynnwys dull gweithredu sylfaenol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau statudol craidd, wedi'u seilio ar lefelau priodol o ymyrraeth. Oni bai bod cyfnod newydd o rewi cyflogau a'r pwysau lleiaf posibl o ran costau Gofal Cymdeithasol, ac yn absenoldeb ail-werthuso ei bwrpas a'i ddull gweithredu, mae Cyngor Sir Ceredigion yn debygol iawn o fod yn anghynladwy yn ariannol yn y tymor canolig.

Gofynnwyd i'r Aelodau godi pryderon am wasanaethau penodol yn y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Wedyn rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, ddiweddiariad ar lafar ynghylch sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb, fel a ganlyn:

- Yn sgil y £600m a gyhoeddwyd ar 24/01/24 ar gyfer Awdurdodau Lleol Lloegr, deellir y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid canlyniadol drwy fformiwla Barnett o oddeutu £25m. Gallai hyn fod yn werth tua £600k i Geredigion - i'w gadarnhau. Yn ogystal, mae'r gwaith newydd ddod i ben ar y broses gaffael ar gyfer contract gwastraff gweddilliol newydd y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 20/02/24 gan broffwydo, am y tro, y daw mantais ariannol o £300k. Mae'r cyfuniad o'r ddau ffactor, os cân nhw eu cadarnhau, yn werth tua 2% yn nhermau Treth y Cyngor.
- Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Pwyllgor fod Arweinydd y Cyngor wedi anfon llythyr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys 12 pwynt lobïo. Mae'r llythyr hwn bellach wedi'i rannu ymhlith holl Aelodau'r Cyngor.
- Pwysleisiodd DH faint yr her ariannol tymor canolig os caiff cyllid y sector cyhoeddus ei gyfyngu i ddim mwy na chynnydd blynyddol o 1%, neu waeth o bosib, o 25/26 ymlaen.

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol yn ystyried, ar 08/02/24 a 09/02/24, yr effaith ar y Gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith nhw.

Wedyn rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Arweinydd, yr Aelod o'r Cabinet neu'r Swyddog perthnasol. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad yw'n anghyfreithlon defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ond ei fod yn cael ei gydnabod yn arfer gwael os nad archwiliwyd ac ystyriwyd llwybrau eraill yn y lle cyntaf. Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet a'r Swyddog Adran 151 eglurhad ar y polisi presennol ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac atgoffodd yr Aelodau mai dim ond unwaith y gallwch ddefnyddio arian wrth gefn.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod modd cyflawni cyllideb gytbwys a chadarn.
- Dywedodd Aelod y bydd angen ymgynghori ar lawer o gynigion. O ystyried yr amserlen ar gyfer y gyllideb hon, gofynnodd pa mor hyderus oedd y Swyddog Adran 151 y bydd y rhain yn cael eu cyflawni? Mewn ymateb, dywedwyd na fydd modd cyflawni pob arbediad cyllideb yn 100%, ond bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r

tebygolrwydd o gyflawni a'r cwantwm fydd ynghlwm. Dywedwyd y bydd angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol sy'n gyfrifol am yr arbedion arfaethedig gael mandad gwleidyddol cyn gynted â phosib oherwydd ni all yr Awdurdod fforddio aros.

- Mynegodd Aelod siom nad oedd yr opsiynau arfaethedig wedi cael eu hystyried yn gynharach. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod 4 Gweithdy Cyllideb wedi'u cynnal ar gyfer yr Aelodau ers mis Medi 2023 a bod ymgysylltu parhaus wedi digwydd gyda'r Cynghorwyr, yn fwy felly nag ym mhrosesau cyllidebol y blynyddoedd diwethaf.
- Cadarnhawyd y byddai gan bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol ragor o wybodaeth i'r Aelodau am y cynigion o ran arbedion, a hynny yn y Pwyllgorau Craffu unigol.
- Dywedodd yr Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor ei fod wedi cyhoeddi llythyr ysgrifenedig at drigolion Ceredigion sy'n rhoi gwybod am y sefyllfa ariannol bresennol.
- Rhoddwyd gwybod, os na chaiff y Dreth Gyngor arfaethedig ei chymeradwyo, y bydd angen edrych yn fanylach ar Wasanaethau unigol ac efallai y bydd rhai yn cael eu cwtogi/dileu.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch praesept Cynghorau Tref a Chymuned, dywedwyd bod llawer wedi pennu eu praesept eisoes a bod y cyfarfodydd yn rhy hwyr o bosib. Cadarnhawyd bod rhai yn ailystyried eu praesept yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd a bod ganddynt bythefnos o hyd i gyflwyno, tan ddiwedd dydd ar 14/02/24.
- Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi herio ffigurau diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol parthed y boblogaeth, gan fod ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad yn dangos bod poblogaeth Ceredigion yn uwch, ac os felly dylai setliad y gyllideb adlewyrchu'r data cywir.
- Amlygwyd bod cost cludiant o'r cartref i'r ysgol yn bryder.
- Mewn ymateb i gwestiwn yn cwestiynu'r ffigurwr am chwyddiant cyflog a bod yn rhan o drafodaethau'r cyflog cenedlaethol, rhoddwyd esboniad manwl am y sefyllfa gyfreithiol, gan gynnwys cyngor y Prif Weithredwr, parthed tâl Athrawon a thâl i'r staff cyffredinol.
- Cafwyd trafodaeth hirfaith ynghylch cynnig y Cabinet parthed Premiwm Treth y Cyngor a oedd i'w weld ar dudalennau 15 ac 16 o becyn yr agenda. Cododd llawer o Aelodau bryderon cryf ynghylch newid posib yn y polisi a gwnaethant ofyn am esboniad cyn cytuno. Esboniwyd yr egwyddor o gapio'r gronfa Tai Cymunedol ar uchafswm o £2.0m a rhyddhau 75% o'r cyllid i gefnogi'r gyllideb gyffredinol (gwerth tua 3.5% yn nhermau Treth y Cyngor).
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod llythyrau wedi'u hanfon at bob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yng Ngheredigion gan roi'r dewis i Benaethiaid a Llywodraethwyr wahodd staff (os bydd Ysgol yn ystyried hynny'n briodol) i gyflwyno datganiad o ddiddordeb, mewn egwyddor, i ystyried yr opsiwn o ddiswyddo gwirfoddol.

Argymhellion:

Ar ôl trafod, **CYTUNODD** yr Aelodau i nodi'r argymhellion canlynol:

- 1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad am y gyllideb yn Atodiad A.**
- 2. Nodi y bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol yn ystyried, ar 08/02/24 a 09/02/24, yr effaith ar y gwasanaethau sydd yn eu cylchoedd gwaith nhw.**

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o baratoi cyllideb gytbwys a sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol.

Yn ogystal, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am y wybodaeth ganlynol:

1. Gwybodaeth yn ymwneud ag arbedion posib, er enghraifft pe bai perchnogaeth y Gwasanaethau Hamdden yn cael ei throsglwyddo i Ymddiriedolaethau yn y dyfodol (y tu hwnt i Broses Gyllidebol 24/25).
2. Esboniad llawnach ynghylch yr argymhelliad sy'n ymwneud â defnyddio'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi a'r effaith ar y polisi presennol.
3. Rhagor o wybodaeth am y gymhareb staff-preswylwyr o'i chymharu ag Awdurdodau Lleol eraill.

Diolchodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Swyddogion am eu gwaith caled wrth baratoi'r papurau ar gyfer yr agenda.

Y Cyngorydd Keith Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

Cefndir:

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gyfarfod ar Chwefror yr 8^{fed} 2024 am 9:30am.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddiad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, D1-D4 fel a ganlyn:

D1 - Porth Cynnal

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £123k

Y gyllideb bresennol: £33.7m

D2 - Porth Gofal

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £996k

Y gyllideb bresennol: £15.5m

D3 - Porth Cymorth Cynnar

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

• Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant

• Y Cynghorydd Catrin MS Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

- Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £222k
Y gyllideb bresennol: £4.1m

D4 – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Yr elfen Diogelu'r Cyhoedd)

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £64k (allan o £70k ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Y gyllideb bresennol: £2.5m

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, tudalennau 1-49 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

Argymhellion:

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
 - a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
 - b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
 - c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
 - d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
 - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
 - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
 - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

Rheswm dros yr argymhellion:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymhell bod y Cabinet yn:

1. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Meysydd Parcio Ysgolion ar gyfer defnyddwyr y Canolfannau Lles, yn enwedig yn Llanbedr Pont Steffan, gan fod lleoedd parcio yn gyfyngedig iawn ac yn broblemus iawn. Mae defnyddwyr wedi dweud eu bod, oherwydd y broblem hon, wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyfleusterau.

Y Cyngorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

Cefndir:

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod ar Chwefror yr 8^{fed} 2024 am 1:30pm.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

- Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £1.539m o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion

£696k o'r gyllideb sy'n cael ei chadw ar gyfer y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Y gyllideb bresennol: £56.8m (gan gynnwys £47.5m a ddirprwyir i ysgolion)

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, tudalennau 15-16 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

Argymhellion:

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
 - a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
 - b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
 - c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
 - d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
 - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
 - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
 - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

Rheswm dros yr argymhellion:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno y byddai cynigion a nodwyd yn y dyfodol o ran arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen yn cael eu rhoi ar y flaenraglen graffu pan fo'n briodol.

Y Cynghorydd Endaf Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

Cefndir:

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod ar Chwefror y 9^{fed} 2024 am 9:30am.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl am Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £1.576m

Y gyllideb bresennol: £19.4m

D2 – Economi ac Adfywio

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £255k (rhan o'r £419k o ostyngiadau arfaethedig ar gyfer Gwasanaeth yr Economi ac Adfywio)

Y gyllideb bresennol: £4.0m

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, tudalennau 17-42 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

Argymhellion:

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
 - a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
 - b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
 - c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
 - d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
 - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
 - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
 - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

Rheswm dros yr argymhellion:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymhell bod y Cabinet yn:

1. Nid yw'r cynnig i gael gwared ar gasgliad ar wahân/penodedig Cynhyrchion Hylendid Amsugol yn cael ei ystyried fel rhan o'r arbedion arfaethedig;
2. Cynhelir Aseidiadau Effaith Integredig o ran y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau / arbedion;
3. Rhoddir rhagor o fanylion am y cynigion a nodwyd ar gyfer lleihau costau/arbedion e.e. cynnig y cyfleusterau cyhoeddus a'r cynnig i gyfyngu ar nifer y bagiau du a gesglir o bob aelwyd.

Y Cyngorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24

Cefndir:

Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol gyfarfod ar Chwefror y 9^{fed} 2024 am 1:30pm.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddiad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna ystyriwyd Atodiadau B ac C.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch y cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, (D1-D7) fel a ganlyn:

D1 – Cyswllt Cwsmeriaid TGCh a Digidol

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £283k

Y gyllideb bresennol: £6.5m

D2 – Gwasanaethau Democrataidd

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cynghorydd Bryan Davies, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £15k

Y gyllideb bresennol: £5.0m (gan gynnwys Lwfansau Aelodau)

D3 – Economi ac Adfywio

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £164k (rhan o £419k o gyfanswm y gostyngiadau a gynigiwyd gan Economi ac Adfywio)

Y gyllideb bresennol: £4.0m

D4 – Cyllid a Chaffael

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £0.666m

Y gyllideb bresennol: £19.0m

D5 – Pobl a Threfniadaeth

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Bryan Davies, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £20k

Y gyllideb bresennol: £2.3m

D6 – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Elfen Polisi a Pherfformiad)

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Bryan Davies, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £6k (allan o £70k ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

Y gyllideb bresennol: £2.5m

D7 – Cyfreithiol a Llywodraethu

Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:

Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25: £19k

Y gyllideb bresennol: £1.7m

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, tudalennau 1-49 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad F, cynnig y Cabinet o ran Premiymau Treth y Cyngor ac Atodiad G, elfennau perthnasol y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

Argymhellion:

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:

- a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
- b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
- c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.

- d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
 - e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
 - f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
 - g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

Rheswm dros yr argymhellion:

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno i argymhell bod y Cabinet yn:

- *Clustnodi'r 25% presennol ar Ail Gartrefi a Phremiymau Gwag Hirdymor i'r Cynllun Tai Cymunedol, heb gyflwyno cap.*

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

<u>Adroddiad i'r:</u>	Cabinet
<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>	20/02/24
<u>Teitl:</u>	Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 24/25.
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw ddrafft 24/25 a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 29/02/24.

Er Penderfyniad**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:****Y Cyngorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor****Y Cyngorydd Gareth Davies Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael****1. Cefndir**

Ystyriodd y Cabinet Gyllideb ddrafft 2024/25 ar 23/01/24 a cheisiodd farn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Gyllideb. Cyfarfu'r Pwyllgorau wedyn ar 01/02/24, 08/02/24 a 09/02/24. Mae adborth gan bob Pwyllgor yn cael ei adrodd i'r cyfarfod Cabinet hwn.

2. Y Sefyllfa Ddiweddaraf o ran y Gyllideb

Mae'r broses o ran y gyllideb eleni wedi bod yn llawer mwy ansicr na'r arfer oherwydd yr heriau eithriadol sy'n cael eu hwynebu. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf a'r newidiadau o'r sefyllfa flaenorol a adroddwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 wedi'u crynhoi isod:

a) Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyfarfu'r Awdurdod Tân ar 12/02/24 i bennu ei Gyllideb a'r ardoll Tân i awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 24/25. Mae'r ardoll tân yn rhan o Gyllideb Cyngor Sir Ceredigion ac am yr ail flwyddyn yn olynol mae hi wedi cynyddu'n sylweddol.

£584k yw'r cynnydd ar gyfer 24/25 - gyda'r ardoll Tân yn cynyddu o £4.856m i £5.440m (12%). Ni wnaed unrhyw lwfans am gyllid ar gyfer cost uwch Cyfraniadau'r Cyflogwr i Bensiynau Diffoddwyr Tân. Disgwylir i hyn fod yn £87k ar gyfer Ceredigion, os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (ac yn ei thro, Llywodraeth Cymru) yn darparu cyllid o 100% ar gyfer hyn. Felly, bydd angen i'r Cyngor gyllidebu ar gyfer y gost dybiedig hon. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau o ran costau o £584k i £497k - **mae hyn yn dal i fod yn gyfwerth â 1.10% ar Dreth Gyngor Band D.**

b) Cyllid Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

Ar 24/01/24, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gefnogaeth pellach o £600m i Awdurdodau Lleol Lloegr gan gynnwys £500m ychwanegol i alluogi Cynghorau i ddarparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol hanfodol.

[Government announces a further £600 million boost for councils - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/government-announces-a-further-600-million-boost-for-councils)

Ar 07/02/24, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod swm o £25m ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru o ganlyniad i'r dyraniad canlyniadol disgwyliedig ar gyfer Cymru.

[Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid Ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Leol 2024-25 \(7 Chwefror 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r £25m ychwanegol o gyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys dwy elfen:

- Gwrthdroi'r toriad cenedlaethol arfaethedig o £10.6m (o £45m i £35m) yn y grant ar gyfer Gweithlu Gofal Cymdeithasol. **Mae'r elfen hon yn lleihau'r pwysau o ran costau i'r Cyngor o £253k.**
- Bydd y £14.4m sy'n weddill, i'w ddyrannu drwy Setliad Terfynol Cyllid Llywodraeth Leol ar 27/02/24. **£343k yw'r dyraniad dangosol ar gyfer Ceredigion.** Mae hyn yn golygu cynnydd ariannol craidd o 2.9% yn hytrach na 2.6%.

c) Grantiau penodol i'w trosglwyddo i Setliad Terfynol 24/25

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau **bod disgwyl i'r 4 elfen ganlynol gael eu trosglwyddo i'r Setliad Terfynol** sydd i'w ddisgwyl ar 27/02/24. Grantiau penodol yw'r rhain i gyd ar hyn o bryd, a delir gan Lywodraeth Cymru drwy lythyron yn cynnig grantiau unigol.

	£'000
Menter Benthycia Llywodraeth Leol: Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron	1,944
Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol	225
Claddu ac Amlosgi Plant	19
Fframwaith Perfformiad a Gwella Gofal Cymdeithasol	40
CYFANSWM	2,228

d) Ffioedd a Thaliadau

Mae'r Ffioedd a'r Taliadau arfaethedig sydd i fod yn weithredol o 01/04/24 wedi'u cynnwys yn adroddiad y Gyllideb a aeth i'r Cabinet ar 23/01/24 ac yna eu cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgorau Craffu. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r papurau hynny gan y Cabinet a gwelir y rhain yn Atodiad 1 i Atodiad 4.

Fodd bynnag, mae'r ffioedd a godir ar gyfer Cartrefi Gofal y Cyngor a'r rhai sy'n cael eu talu i gartrefi Gofal y Sector Preifat yn dal i gael eu trafod gyda'r

darparwyr perthnasol. Felly, bydd y Ffioedd hyn yn destun adroddiad ar wahân i gyfarfod nesaf y Cabinet.

e) Cynigion i Gwtogi ar y Gyllideb

Mae 3 chynnig arall i Gwtogi ar y Gyllideb, gwerth cyfanswm o £714k, wedi'u hychwanegu at y rhestr flaenorol a welir yn Atodiad 5 o adroddiad y Gyllideb a aeth i'r Cabinet 23/01/24.

Mae hyn yn cynnwys canlyniad dros dro'r Contract Gwastraff Gweddilliol newydd arfaethedig (£300k) sy'n cael ei ystyried ar wahân ar agenda'r Cabinet heddiw.

Yn ogystal, mae grŵp Gorchwyl a Gorffen, ar hyn o bryd, yn cynnal adolygiad trylwyr o'r Lleoliadau Plant mwyaf costus - gan gwmpasu'r lleoliadau presennol y tu allan i'r sir a'r ystyriaethau trosiannol ar gyfer cyfleusterau newydd i blant y tu mewn i'r sir. Mae'r gwaith cynnar gan y grŵp hwn bellach yn targedu arbediad o £395k yn y gyllideb sylfaenol, o'i gymharu â'r pwysau o ran costau cyllidebol amcangyfrifedig, a gynhwysir yn adroddiad y gyllideb a aeth i'r Cabinet ar 23/01/24. Yr ethos sylfaenol yw lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, y lle gorau i blentyn sydd wedi'i fagu yng Ngheredigion ddylai fod yn ôl yng Ngheredigion ac nid mewn lleoliad y tu allan i'r sir.

Gyda chyfanswm gwariant amcangyfrifedig o £7.159m ar gyfer 24/25 (sy'n cynnwys £1.709m ar gyfer cyfleusterau y tu mewn i'r sir a £5.450m ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir), mae'r eitem hon yn y gyllideb yn gostus ac yn gyfnewidiol, oherwydd y gall 1 lleoliad newydd gostio mwy na £250k. Mae risgiau cyllidebol sylweddol yn gysylltiedig â'r ffrwd waith hon. Felly, mae cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir ar yr elfen o leoliadau y tu allan i'r sir bellach yn cael ei ddiwygio a'i ostwng gan £395k i £5.055m er mwyn adlewyrchu'r camau sy'n cael eu targedu.

Y Gwasanaeth	Cynigion i Gwtogi ar y Gyllideb	£'000
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Contract Gwastraff Gweddilliol - Canlyniad dros dro o gaffael contract newydd	300
Yr Economi ac Adfywio	Arbediad ar Ardrethi Busnes - Rhyddhad Gwres ar 2 gyfleuster Biomas	19
Y Grŵp Arweiniol	Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir – Gostyngiad wedi'i dargedu	395
CYFANSWM		714

Er mwyn cael y wybodaeth gyflawn, mae rhestr lawn wedi'i diweddarau o'r cynigion i Gwtogi ar Gyllideb 24/25 yn Atodiad 5 – sydd bellach yn gyfanswm o £5.819m.

f) Premiymau Treth y Cyngor a godir ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor

Nid yw sefyllfa'r Cabinet wedi newid ac o ystyried yr her gyllidebol anferthol, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd i glustnodi holl bremiymau Treth y Cyngor gyda'r angen i ystyried sefyllfa'r Gyllideb yn ehangach a hefyd

gyda'r wybodaeth bod gan y Gronfa Tai Cymunedol newydd falans oedd ar gael o £1.8m ar 31/03/23, a fydd yn cynyddu ymhellach erbyn 31/03/24.

Felly, mae'r Cabinet yn dal i gynnig y canlynol:

- Parhau i glustnodi 25% o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24, ond na ddylai cyfanswm y cyllid a ddelir fod yn fwy na'r uchafswm o £2.0m. Byddai hyn yn dal i ganiatáu i arian gael ei ddefnyddio ac yna byddai'r swm a ddelir yn cael ei ychwanegu ato drwy ddefnyddio 25% o arian premiymau Treth y Cyngor. Byddai unrhyw gyllid ychwanegol dros £2.0m mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei roi yn ôl i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
- Byddai'r 75% arall o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24 yn cefnogi'r gyllideb gyffredinol er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.

g) Materion eraill – Y Gwasanaeth Gwastraff

Yn ystod y cyfarfod Craffu Cymunedau Ffyniannus pan graffwyd ar y Gyllideb, fel rhan o'r drafodaeth ynghylch y cynnig i wneud arbedion arfaethedig i gyllideb Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol o ran y Gwasanaeth Gwastraff (cyfyngu ar nifer y bagiau du a gesglir o bob aelwyd), gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu am fwy o eglurder ar y cynnig penodol.

Felly, mae'r Cabinet yn cadarnhau mai'r cynnig i'w gyflwyno fyddai cyfyngu i 3 bag du (ddim mwy na 60 litr yr un) fesul aelwyd breswyl fesul casgliad bob 3 wythnos (yn fras y nifer mwyaf a fyddai'n ffitio mewn bin olwyn 180 neu 240 litr).

Byddai gwastraff Cynhyrchion Hylendid Amsugol (AHP) yn cael ei gasglu drwy'r trefniadau o ran Gwastraff Gweddilliol, ond dal mewn bagiau porffor ar wahân. Ni fyddai'r bagiau porffor hyn yn ffurfio rhan o'r cyfyngu arfaethedig ar y bagiau du. Byddai'r newidiadau i gasgliadau'r Cynhyrchion Hylendid Amsugol yn cael eu hadolygu am gyfnod cychwynnol, i sicrhau bod y model newydd yn gweithio'n effeithiol.

3. Casgliadau

Mae angen i'r Cabinet yn awr wneud ei argymhelliad terfynol i'r Cyngor Llawn, fel y gellir paratoi papurau'r gyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhelir ar 29/02/24. Mae'r tablau canlynol yn tynnu ynghyd bob agwedd ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Gyllideb:

	<u>23/01/24</u> <u>£'000</u>	<u>20/02/24</u> <u>£'000</u>	<u>Newid</u> <u>£'000</u>
<u>Adnoddau</u>			
Cynnydd yn Setliad Cyllid Allanol Cyfun LIC (2.6% i 2.9%)	132,715	133,058	343
Grantiau Penodol i'w trosglwyddo i'r Setliad Terfynol	-	2,228	2,228
Treth y Cyngor (13.9% i 11.05%)	59,755	58,260	(1,495)
Adnoddau ar gael	192,470	193,546	1,076

Tudalen 201

	<u>23/01/24</u> <u>£'000</u>	<u>20/02/24</u> <u>£'000</u>	<u>Newid</u> <u>£'000</u>
<u>Cyllideb</u>			
Cyllideb Sylfaenol a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	180,101	180,101	-
Trosglwyddiadau grant Setliad Terfynol wedi'u trosglwyddo	-	2,228	2,228
Pwysau Costau'r Gyllideb	18,103	17,850	(253)
Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb	(5,105)	(5,819)	(714)
Cyllideb Ysgolion Ddirprwyedig wedi'i chapio ar gynnydd o 3.1%	(1,539)	(1,539)	-
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	910	725	(185)
Gofyniad Arfaethedig y Gyllideb 24/25	192,470	193,546	1,076

Mae'r sefyllfa hon yn arwain at Ofyniad arfaethedig o £193.546m ar gyfer y Gyllideb. Ar gyfer Gwasanaethau craidd y Cyngor byddai hyn yn arwain at gynnydd arfaethedig o 9.95% yn Nhreth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ariannol sylweddol yn sgil ardoll y Gwasanaeth Tân, bydd angen ychwanegu cynnydd pellach o 1.1% yn Nhreth y Cyngor er mwyn gallu ariannu'r agwedd hon yn llawn. O ganlyniad, cyfanswm y cynnydd cyffredinol arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yw 11.05%.

Byddai'r cynnydd cyffredinol arfaethedig yn Nhreth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys yr ardoll Tân) yn golygu bod eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,725.27 am wasanaethau'r Cyngor – sef cynnydd o £171.67 o'r £1,553.60 presennol. Byddai hyn gyfwerth â £14.31 y mis / £3.30 yr wythnos yn ychwanegol.

Argymhellion:

1. Nodi mai Ardoll Tân 24/25 cymeradwy Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw £5.440m, sef cynnydd o £584k (12%). Ar ôl darparu ar gyfer cyllid costau Pensiwn tybiedig gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.1% yn Nhreth y Cyngor i drigolion Ceredigion.
2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r rhestr o Ffioedd a Chostau i fod yn effeithiol o 01/04/24 fel yr amlinellir yn:
 - a) Atodiad 1
 - b) Atodiad 2
 - c) Atodiad 3
 - d) Atodiad 4
3. I argymhell i'r Cyngor Llawn, mewn perthynas â Phremiymau Treth y Cyngor o 01/04/24:
 - a) O 01/04/24, dylai 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) gael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod drwy'r amser na fydd cyfanswm y cyllid a ddelir yn y Cynllun Tai Cymunedol yn fwy na £2.0m ac y bydd unrhyw gyllid y tu hwnt i'r lefel hon mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol.
 - b) O 01/04/24, bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net o ad-daliadau / costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi sefyllfa'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
4. I argymhell i'r Cyngor Llawn, ar gyfer y Gyllideb 24/25:
 - a) Gofyniad y Gyllideb ar gyfer 24/25 yw £193.546m, sy'n cynnwys yr holl gynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb a amlinellir yn Atodiad 5.
 - b) Mae lefel Treth y Cyngor arfaethedig 24/25 at ddibenion y Cyngor Sir yn gynnydd o 11.05% (sef 1.1% mewn perthynas â chynnydd Ardoll yr Awdurdod Tân a 9.95% ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor)
 - c) Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd Band D o £171.67 (sef £14.31 y mis / £3.30 yr wythnos).
5. Bod y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn mai'r terfyn i'w gyflwyno ar gyfer gwastraff gweddilliol o 01/04/24 ymlaen fyddai 3 bag du (dim mwy na 60 litr yr un) fesul aelwyd breswyl fesul casgliad bob 3 wythnos.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Galluogi'r gwaith o baratoi Cyllideb 2024/25 i barhau, fel y gellir paratoi papurau'r Gyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn ar 29/02/24.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.

Bydd y rhain yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o gyfarfod y Cyngor Llawn ar 29/02/24 - fel a lle bo'n briodol.

Trosolwg a Chraffu:

Mae Cynigion y Gyllideb wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol.

Fframwaith Polisi:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Fe'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Goblygiadau Cyfreithiol:

Rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i bennu Cyllideb cyn Mawrth 11^{eg}.

Goblygiadau staffio:

Rhan o'r broses o bennu'r gyllideb

Goblygiadau eiddo / asedau:

Rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

Risg(iau):

Amlinellwyd yn adroddiad y Gyllideb ddrafft.

Pwerau Statudol:

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Papurau Cefndir:

Adroddiad y gyllideb ddrafft i'r Cabinet – 23/01/24

Atodiadau:

- Atodiad 1 - Cynigion Ffioedd a Chostau (o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach)
- Atodiad 2 - Cynigion Ffioedd a Chostau (o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu)
- Atodiad 3 - Cynigion Ffioedd a Chostau (o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus)
- Atodiad 4 - Cynigion Ffioedd a Chostau (o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol)
- Atodiad 5 - Rhestr lawn o'r Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog(ion) Adrodd:

Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Dyddiad:

14/02/24

Ffioedd gosod y Cyngor (Mae'r Ffioedd Arfaethedig o 01/04/2024)

PWYLLGOR TROSOLWGW A CHRAFFU: Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Gofal Cymdeithasol

Cyllid A Chaffael

Mae taliadau gofal a chymorth preswyl yn amodol ar asesiad ariannol	Ffi Weinyddol (y sawl sy'n hunan-ariannu a thaliadau a ohiriwyd)	Ffi y flwyddyn	£710.00	£750.00	£40.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Prisiad Eiddo	Gwir Gost + Ffi gweinyddol (£50)				Dim newidiad

Tai Fforddiadwy

Economi Ac Adfywio

Cyngor gan y Gwasanaeth Tai Fforddiadwy	Tâl bob awr heb gynnwys costau teithio		£77.00	£82.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
---	--	--	--------	--------	-------	-------------------------

Angladdau Iechyd y Cyhoedd

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Ymchwiliadau sy'n llwyddo i ddod o hyd i'r sawl sy'n perthyn yn agosaf yn gyfreithiol, neu fel arall ganfod ysgutor yr ewyllys a fydd yna'n mynd ati i drefnu'r angladd.			£306.00	£327.00	£21.00	Chwyddiant cysylltiedig
Ymchwiliadau i geisio dod o hyd i'r sawl sy'n perthyn yn agosaf yn gyfreithiol, neu ysgutor yr ewyllys, costau trefnu'r angladd a phob cyfathrebiad a gohebiaeth wrth gyfeirio achosion at Gyfreithiwr y Trysorlys (bona vacantia).	Nid yw'r ffi'n cynnwys gwir gost yr angladd nac unrhyw ffioedd cysylltiedig a godir gan y trefnwr angladdau.		£1,230.00	£1,316.00	£86.00	Chwyddiant cysylltiedig

Cofrestr Safleoedd Bwyd

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Copi llawn			£1,134.00	£1,213.00	£79.00	Chwyddiant cysylltiedig
Copi o gofnod o unrhyw gategori			£242.00	£259.00	£17.00	Chwyddiant cysylltiedig
Copi o gofnod unigol			£9.00	£10.00	£1.00	Ffi Ailgyfrifo

Safonau Masnach

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Partneriaethau Prif Awdurdod	Ffi gychwynnol	Mae prisiau ar gael ar gais wedi'u seilio ar adennill costau				Dim newidiad
	Gwasanaethau ychwanegol	Adroddiadau Tŷ Prawf / Adroddiadau Dadansodol - Mae prisiau ar gael ar gais wedi'u seilio ar adennill costau				Dim newidiad
		Ymweliadau Cyngori (O leiaf ddwy awr)	£103.25	£110.48	£7.23	Chwyddiant cysylltiedig
Gweithgareddau Pwysau a Mesurau: Ffioedd cyffredinol	Tâl fesul awr am staff cymorth		£63.50	£67.95	£4.45	Chwyddiant cysylltiedig

Partneriaethau Prif Awdurdod yn bartneriaeth a gydnabyddir yn gyfreithiol rhwng awdurdod lleol a busnes. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cyngor sicr, dibynadwy i'r busnes y mae'n rhaid i awdurdodau eraill ei ystyried cyn unrhyw gyfathrebu â'r busnes. Mae'n gyfle i fusnes dderbyn cyngor wedi'i deilwra ar eu harferion a'u gweithdrefnau. Gallwn gynnig PA i fusnesau ar faterion rheoleiddio gan gynnwys safonau masnach, hylendid a safonau bwyd (gan gynnwys alergenau a labelu), trwyddedu a hawliau defnyddwyr. Cytunir ar union gynnwys y bartneriaeth i weddu i ofynion busnesau unigol a bydd yn wahanol ar gyfer pob partneriaeth. Mae opsiynau talu hyblyg ar gael.

Tir a Halogwyd

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Ffi chwilio ar gyfer gwybodaeth a gedwir parthed tir a halogwyd yn y gorffennol.	£ yr awr (yn ogystal â £69.33 am bob awr ychwanegol neu ran o awr a gymerwyd ar gyfer ymgyrdd â chwiliadau mwy eang)		£131.70	£140.90	£9.20	Chwyddiant cysylltiedig
--	--	--	---------	---------	-------	-------------------------

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Tir a Halogwyd

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Trwyddedu – Cyffredinol

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unig			£66.00	£66.00	£0.00	Dim newidiad
Deddf Anifeiliaid Perfformio			£168.00	£180.00	£12.00	Chwyddiant cysylltiedig
Trosglwyddo Unrhyw Drwydded Sŵ			£179.00	£192.00	£13.00	Chwyddiant cysylltiedig
Copi o unrhyw ganiatâd am drwydded			£21.00	£22.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
Cerbyd Hacni	Cerbyd Hacni Newydd		£226.00	£226.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Cerbyd Hacni		£171.00	£171.00	£0.00	Dim newidiad
Cerbyd Hurio Preifat	Cerbyd Hurio Preifat Newydd		£183.00	£183.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Cerbyd Hurio Preifat		£166.00	£166.00	£0.00	Dim newidiad
	Gweithredwr Hurio Preifat Newydd 3 blynedd		£341.00	£341.00	£0.00	Dim newidiad
	Gweithredwr Hurio Preifat Newydd 5 mlynedd		£436.00	£436.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Gweithredwr Hurio Preifat 3 blynedd		£317.00	£317.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Gweithredwr Hurio Preifat 5 mlynedd		£396.00	£396.00	£0.00	Dim newidiad
Bathodyn Deuol Trwydded Tacsi/Gyrru	Gyrrwr Deuol newydd 1 flwyddyn		£321.00	£321.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Gyrrwr Deuol 1 flwyddyn		£166.00	£166.00	£0.00	Dim newidiad
	Gyrrwr Deuol newydd 3 blynedd		£374.00	£374.00	£0.00	Dim newidiad
	Adnewyddu Gyrrwr Deuol 3 blynedd		£219.00	£219.00	£0.00	Dim newidiad
	Trosglwyddo Rhif Dethol		£84.00	£84.00	£0.00	Dim newidiad
	Ailargraffu trwydded		£22.00	£22.00	£0.00	Dim newidiad
	Arwyddion drws newydd		£9.00	£9.00	£0.00	Dim newidiad
	Amnewid bathodyn gyrrwr		£12.00	£12.00	£0.00	Dim newidiad
Gweithred arbennig - Aciwbigo, Tyllu corff, electrolysis a thatwio	Safle		£286.20	£306.20	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Unigolyn		£131.76	£140.98	£9.22	Chwyddiant cysylltiedig
	Amrywiad		£60.00	£64.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig
Llety i Anifeiliaid (Codir ffioedd milfeddygon ar ben hynny, yn ôl yr angen)	Ffi gychwynnol i safleoedd sy'n rhoi llety i naill ai cathod neu gŵn, ond nid y ddau.		£458.00	£490.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu i safleoedd sy'n rhoi llety i naill ai cathod neu gŵn, ond nid y ddau.		£387.00	£414.00	£27.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol i safleoedd sy'n rhoi llety i gathod a chŵn.		£522.00	£559.00	£37.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu i safleoedd sy'n rhoi llety i gathod a chŵn.		£458.00	£490.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
Lletya yn y cartref - Cŵn	Ffi gychwynnol		£249.00	£266.00	£17.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu		£222.00	£238.00	£16.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sefydliadau Magu Cŵn (Ffioedd milfeddyg ychwanegol ar gyfer y cais cychwynnol)	Ffi gychwynnol (Hyd at 10 o eist magu)		£487.00	£521.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (Hyd at 10 o eist magu)		£459.00	£491.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (11-25 o eist magu)		£563.00	£602.00	£39.00	Chwyddiant cysylltiedig

Tudalen 206

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Trwyddedu – Cyffredinol

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Sefydliadau Magu Cŵn (Ffioedd milfeddyg ychwanegol ar gyfer y cais cychwynnol)	Ffi adnewyddu (11-25 o eist magu)		£561.00	£600.00	£39.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (26-50 o eist magu)		£857.00	£917.00	£60.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (26-50 o eist magu)		£854.00	£914.00	£60.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (51-80 o eist magu)		£1,290.00	£1,380.00	£90.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (51-80 o eist magu)		£1,287.00	£1,377.00	£90.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol Dros 80		£1,513.00	£1,619.00	£106.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu Dros 80		£1,505.00	£1,610.00	£105.00	Chwyddiant cysylltiedig
Bridio Gartref (Ffioedd milfeddyg ychwanegol ar gyfer y cais cychwynnol)	Ffi gychwynnol (Hyd at 10 o eist magu)		£407.00	£435.00	£28.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (Hyd at 10 o eist magu)		£346.00	£370.00	£24.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sefydliadau Magu Cŵn neu Bridio Gartref (Ffioedd milfeddyg ychwanegol ar gyfer y cais cychwynnol)	Ffi ailymweld (Hyd at 10 o eist magu)		£154.00	£165.00	£11.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi ailymweld (11-25 o eist magu)		£171.00	£183.00	£12.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi ailymweld(26-50 o eist magu)		£263.00	£281.00	£18.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi ailymweld (51-80 o eist magu)		£292.00	£312.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi ailymweld (Dros 80 o eist magu)		£323.00	£346.00	£23.00	Chwyddiant cysylltiedig
Marchogaeth Ceffylau (Codir ffioedd milfeddygon ar ben hyn yn ôl yr angen)	Ffi gychwynnol (hyd at 5 anifail)		£213.00	£228.00	£15.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (hyd at 5 anifail)		£198.00	£212.00	£14.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (6-15 o anifeiliaid)		£326.00	£349.00	£23.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (6-15 o anifeiliaid)		£312.00	£334.00	£22.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (16-25 o anifeiliaid)		£468.00	£501.00	£33.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (16-25 o anifeiliaid)		£454.00	£486.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gychwynnol (26+ o anifeiliaid)		£595.00	£637.00	£42.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu (26+ o anifeiliaid)		£581.00	£622.00	£41.00	Chwyddiant cysylltiedig
Metel Sgrap (Trwydded Casglwyr)	Ffi gychwynnol		£688.00	£736.00	£48.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu		£525.00	£562.00	£37.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi amrywio		£118.00	£126.00	£8.00	Chwyddiant cysylltiedig
Metel Sgrap (Trwydded Safle)	Ffi gychwynnol		£766.00	£820.00	£54.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu		£525.00	£562.00	£37.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi amrywio		£118.00	£126.00	£8.00	Chwyddiant cysylltiedig
Anifeiliaid a werthwyd fel anifeiliaid anwes	Trwydded Newydd cyflawn (Bach)	Gwerthiannau hobi - 10 anifeiliaid neu lai (200 pysgod) ar werth ar un pryd	£491.00	£525.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Trwydded Newydd cyflawn (Canolig)	Gwerthiannau hobi - Mwy na 10 anifeiliaid, ac eiddo masnachol bach	£589.00	£630.00	£41.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Trwydded Newydd cyflawn (Mawr)	Eiddo Masnachol Mawr	£697.00	£746.00	£49.00	Chwyddiant cysylltiedig

Tudalen 207

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Trwyddedu – Cyffredinol

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Anifeiliaid a werthwyd fel anifeiliaid anwes	Adnewyddu trwydded (Bach)	Gwerthiannau hobi - 10 anifeiliaid neu lai (200 pysgod) ar werth ar un pryd	£437.00	£468.00	£31.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded (Canolig)	Gwerthiannau hobi - Mwy na 10 anifeiliaid, ac eiddo masnachol bach	£486.00	£520.00	£34.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded (Mawr)	Eiddo Masnachol Mawr	£540.00	£578.00	£38.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi gorfodi (Yn berthnasol i bob trwydded)		£49.00	£52.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ymweliadau Cyngori - Swyddog (Yr awr)		£49.00	£52.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ymweliadau Cyngor - Milfeddyg (Ar gost)					Dim newidiad
Anifeiliaid Peryglus a Gwyllt (Codir ffioedd milfeddygon ar ben hyn)	Ffi gychwynnol		£458.00	£490.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ffi adnewyddu		£453.00	£485.00	£32.00	Chwyddiant cysylltiedig
Tai gloynnod byw, acwaria bychain, adardai bychain mewn parciau, milodfâu o'r math a gaiff eu harddangos mewn amgueddfeydd, a chanolfannau heboga bychain.	Cais Newydd		£1,238.00	£1,325.00	£87.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Gyda gollyngiad o dan Adran 14 (boed yn SS1 neu SS2)		£788.00	£843.00	£55.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14 (boed yn SS1 neu SS2)		£997.00	£1,067.00	£70.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sŵau bach a chymysg, acwaria canolig eu maint, arddangosfeydd arbenigol o ymlusgiaid.	Cais Newydd		£1,470.00	£1,573.00	£103.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14.		£1,205.00	£1,289.00	£84.00	Chwyddiant cysylltiedig
Acwaria mawr a pharciau adar bychain.	Cais Newydd		£1,470.00	£1,573.00	£103.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14.		£1,205.00	£1,289.00	£84.00	Chwyddiant cysylltiedig
Parciau adar mawrion.	Cais Newydd		£1,711.00	£1,831.00	£120.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14.		£1,469.00	£1,572.00	£103.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sŵau canolig eu maint (Codir ffioedd milfeddygon a ffioedd ychwanegol ar ben hyn)	Cais Newydd		£2,809.00	£3,006.00	£197.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14.		£2,300.00	£2,461.00	£161.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sŵau mawrion (Codir ffioedd milfeddygon a ffioedd ychwanegol ar ben hyn)	Cais Newydd		£4,899.00	£5,242.00	£343.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu trwydded. Heb ollyngiad o dan Adran 14.		£3,969.00	£4,247.00	£278.00	Chwyddiant cysylltiedig
Sefydliadau rhyw	Ceisiadau newydd		£2,886.00	£3,088.00	£202.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Adnewyddu		£583.00	£624.00	£41.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Trosglwyddo		£583.00	£624.00	£41.00	Chwyddiant cysylltiedig
Ffioedd Cartrefi Symudol	Ffi am y cais		£605.00	£647.00	£42.00	Chwyddiant cysylltiedig
	A ffi fesul safle		£18.00	£19.65	£1.65	Chwyddiant cysylltiedig
	Trwydded arall		£35.00	£37.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig

Tudalen 208

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol **Ffi arfaethedig** **Newid (yn £)** **Math o newidiad**

Trwyddedu – Cyffredinol

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Ffioedd Cartrefi Symudol	Rheolau safle lletya		£63.00	£67.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Rhybudd Cydymffurfio (o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2014) Mae costau ychwanegol swyddogion yn cynnwys cyngor oddi wrth arbenigwyr a chostau eraill sy'n ymwneud yn benodol ag achos gan hefyd fod yn daladwy ar sail bob achos yn unigol. Amlinellir manylion y treuliau perthnasol yn y bil fydd yn rhan o'r taliad.		£355.00	£380.00	£25.00	Chwyddiant cysylltiedig

*Ffi ailymweld (fesul ymweliad) mewn achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded. Mae'r ffioedd yn berthnasol i Sefydliadau Magu Cŵn neu Bridio Gartref, ceisidau newydd neu presennol).
Codir ffioedd milfeddygon a ffioedd ychwanegol ar ben hyn

Sŵau -

Trwyddedu – Deddf Hapchwarae 2005

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Copi o Drwydded Safle			£23.00	£25.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig
Newid mewn amgylchiadau (newid cyfeiriad y cartref neu'r busnes)			£44.00	£47.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
Trwydded mangreoedd bingo	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd sydd â datganiad dros dro		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd eraill		£3,325.00	£3,500.00	£175.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi flynyddol		£955.00	£1,000.00	£45.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i amrywio trwydded		£1,660.00	£1,750.00	£90.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i drosglwyddo trwydded / Cais i adfer trwydded		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais am ddatganiad dros dro		£3,325.00	£3,500.00	£175.00	Ffi Ailgyfrifo
Trwydded mangreoedd canolfan hapchwarae oedolion	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd sydd â datganiad dros dro		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd eraill		£1,900.00	£2,000.00	£100.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi flynyddol		£955.00	£1,000.00	£45.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i amrywio trwydded		£955.00	£1,000.00	£45.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i drosglwyddo trwydded/Cais i adfer trwydded		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais am ddatganiad dros dro		£1,900.00	£2,000.00	£100.00	Ffi Ailgyfrifo
Trwydded mangreoedd betio (trac)	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd sydd â datganiad dros dro		£900.00	£950.00	£50.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd eraill		£2,380.00	£2,500.00	£120.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi flynyddol		£955.00	£1,000.00	£45.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i amrywio trwydded		£1,190.00	£1,250.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i drosglwyddo trwydded/Cais i adfer trwydded		£900.00	£950.00	£50.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais am ddatganiad dros dro		£2,380.00	£2,500.00	£120.00	Ffi Ailgyfrifo
Trwydded mangreoedd canolfan adloniant teuluol	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd sydd â datganiad dros dro		£900.00	£950.00	£50.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd eraill		£1,900.00	£2,000.00	£100.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi flynyddol		£710.00	£750.00	£40.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i amrywio trwydded		£955.00	£1,000.00	£45.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i drosglwyddo trwydded/Cais i adfer trwydded		£900.00	£950.00	£50.00	Ffi Ailgyfrifo

Tudalen 209

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Trwyddedu – Deddf Hapchwarae 2005

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Trwydded mangreoedd canolfan adloniant teuluol	Cais am ddatganiad dros dro		£1,900.00	£2,000.00	£100.00	Ffi Ailgyfrifo
Trwydded mangreoedd betio (arall)	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd sydd â datganiad dros dro		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi cais heblaw am addasu ar gyfer mangreoedd eraill		£2,850.00	£3,000.00	£150.00	Ffi Ailgyfrifo
	Ffi flynyddol		£570.00	£600.00	£30.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i amrywio trwydded		£1,425.00	£1,500.00	£75.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais i drosglwyddo trwydded/Cais i adfer trwydded		£1,140.00	£1,200.00	£60.00	Ffi Ailgyfrifo
	Cais am ddatganiad dros dro		£2,850.00	£3,000.00	£150.00	Ffi Ailgyfrifo

Tystysgrif Allforio Bwyd

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Tystysgrif Allforio Bwyd	Dychweliad mewn 7 diwrnod		£151.00	£162.00	£11.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Fast Track' 2 - 6 diwrnod		£151.00	£222.49	£71.49	Ffi Ailgyfrifo
	Gwasanaeth diwrnod nesaf (Tystysgrif wedi'i phrosesu ar y diwrnod, dosbarthu diwrnod nesaf gan Bost Brenhinol os derbyniwyd cyn 12)		£151.00	£266.61	£115.61	Ffi Ailgyfrifo

Warden Cymunedol

Polisi, Pherfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Tâl gweinyddu ar gyfer cŵn crwydr (Nid yw'r tâl yn cynnwys costau milfeddyg)	Diwrnod cyntaf neu ran o ddiwrnod		£98.00	£105.00	£7.00	Chwyddiant cysylltiedig
	2 ddiwrnod		£127.00	£136.00	£9.00	Chwyddiant cysylltiedig
	3 diwrnod		£153.00	£164.00	£11.00	Chwyddiant cysylltiedig
	4 diwrnod		£181.00	£194.00	£13.00	Chwyddiant cysylltiedig
	5 diwrnod		£208.00	£223.00	£15.00	Chwyddiant cysylltiedig
	6 diwrnod		£231.00	£247.00	£16.00	Chwyddiant cysylltiedig
	7 diwrnod		£261.00	£279.00	£18.00	Chwyddiant cysylltiedig
	8 diwrnod		£289.00	£309.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
	9 diwrnod		£316.00	£338.00	£22.00	Chwyddiant cysylltiedig

Canolfannau Lies

Porth Cymorth Cynnar

Plascrug yn unig - Partion Chwarae Meddal			£55.00	£60.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
Plascrug yn unig - Chwarae Meddal Antur Aber (y plentyn)			£4.00	£4.00	£0.00	Dim newidiad
Neuadd Chwaraeon - Aberaeron, Aberteifi a Plascrug	Neuadd Chwaraeon Llawn - Defnyddiwr Achlysurol (1 awr)		£50.00	£55.00	£5.00	Ffi Ailgyfrifo
	Neuadd Chwaraeon Llawn - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr)		£45.00	£47.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Hanner Neuadd Chwaraeon - Defnyddiwr Achlysurol (1 awr)		£30.00	£33.00	£3.00	Ffi Ailgyfrifo
	Neuadd Chwaraeon Llawn - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr) Gweithgareddau iau			£35.00	£35.00	Ffi Newydd

Tudalen 210

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol **Ffi arfaethedig** **Newid (yn £)** **Math o newidiad**

Canolfannau Lles

Porth Cymorth Cynnar

Neuadd Chwaraeon - Aberaeron, Aberteifi a Plascrug	Hanner Neuadd Chwaraeon - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr)		£25.00	£26.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Hanner Neuadd Chwaraeon (Plascrug yn unig) - Campfa (1 awr)		£30.00	£33.00	£3.00	Ffi Ailgyfrifo
	Hanner Neuadd Chwaraeon (Plascrug yn unig) - Archebu bloc campfa (1 awr)		£25.00	£26.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Hanner Neuadd Chwaraeon - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr) Gweithgareddau iau			£22.00	£22.00	Ffi Newydd
Neuadd Chwaraeon - Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Plascrug	Gweithgareddau Neuadd - Cwrt Badminton (55 munud)	Oedolion	£7.00	£8.00	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
		Plant Iau	£5.50	£6.50	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
	Gweithgareddau Neuadd - Tennis Bwrdd	Oedolion fesul bwrdd	£7.00	£8.00	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
		Plant Iau fesul bwrdd	£5.50	£6.50	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
	Gweithgareddau Neuadd - Tennis Byr (55 munud)	Oedolion	£7.00	£8.00	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
		Plant Iau	£5.50	£6.50	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
	Gweithgareddau Neuadd - Pêl-fasged ar draws y Cwrt		£15.00	£16.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Gweithgareddau Neuadd - Sesiynau Castell Bownsio/Chwarae Meddal yr awr		£4.00	£4.00	£0.00	Dim newidiad
	Gweithgareddau Neuadd - Partïon Plant (yn cynnwys Ystafell Barti)		£55.00	£60.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Gweithgareddau Neuadd - Crefftiau Ymladd (1/4 y neuadd am 1 awr)		£15.00	£16.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
Neuadd Chwaraeon - Llanbedr Pont Steffan	Neuadd Chwaraeon Llawn - Defnyddiwr Achlysurol (1 awr)		£40.00	£44.00	£4.00	Ffi Ailgyfrifo
	Neuadd Chwaraeon Llawn - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr)		£35.00	£36.50	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Neuadd Chwaraeon Llawn - Archebu bloc (10 wythnos+) (1 awr) Gweithgareddau iau			£30.00	£30.00	Ffi Newydd
Dosbarth Ymarfer Corff - Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Plascrug	Oedolion 60 munud		£6.50	£6.80	£0.30	Chwyddiant cysylltiedig
	Oedolion 45 munud		£5.50	£5.80	£0.30	Chwyddiant cysylltiedig
	Oedolion 30 munud		£4.50	£4.80	£0.30	Chwyddiant cysylltiedig
	Plant Iau		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Dosbarthiadau Iechyd		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Ystafell - Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Plascrug	Ystafell Gyfarfod/Ystafell Gweithgareddau - Yr Awr		£17.00	£18.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ystafell Gyfarfod/Ystafell Gweithgareddau - Diwrnod Llawn		£85.00	£90.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Ystafell - Llanbedr Pont Steffan yn unig	Ystafell ymgynghori - Yr Awr		£11.00	£11.50	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Ystafell ymgynghori - Diwrnod Llawn		£55.00	£58.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig

Tudalen 211

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Canolfannau Lles

Porth Cymorth Cynnar

Ystafell Ffitrwydd - Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Plascrug	Unigolyn		£6.50	£6.80	£0.30	Chwyddiant cysylltiedig
	11-16 oed		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Myfyrwyr/Pensiynwyr/Di-waith/Anabl		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Cyflwyniad		£18.00	£18.00	£0.00	Dim newidiad
Sboncen - Plascrug yn unig	Hurio Cwrt Oedolion - 40 muned		£7.10	£8.00	£0.90	Ffi Ailgyfrifo
	Gostyngiad i Oedolion (12 am 10)		£71.00	£75.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Hurio Cwrt Chwaraewr Iau - 40 muned		£5.50	£6.50	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
	Gostyngiad i Blant Iau (12 am 10)		£55.00	£60.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
Bowlio Mat Byr (Aberaeron, Aberteifi & Llanbedr Pont Steffan)	Fesul Mat (yr awr) - Oedolion		£10.00	£11.00	£1.00	Ffi Ailgyfrifo
Cyfleusterau Awyr Agored (Llanbedr Pont Steffan yn unig)	Tennis (fesul cwrt) - Oedolion		£8.00	£8.00	£0.00	Dim newidiad
	Tennis (fesul cwrt) - Plant Iau		£6.00	£6.50	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Tennis (fesul cwrt) - Henoed		£6.00	£6.50	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Tennis fesul cwrt (gyda goleuadau) - Oedolion		£11.00	£11.00	£0.00	Dim newidiad
	Tennis fesul cwrt (gyda goleuadau) - Plant Iau		£8.00	£8.00	£0.00	Dim newidiad
	Pel Basged Cwrt tu allan (MUGA) 1 awr			£16.50	£16.50	Ffi Newydd
	Pel Basged Cwrt tu allan (MUGA) 1 awr Archebu Bloc (10 wythnos +)			£13.00	£13.00	Ffi Newydd
Cyfleusterau Awyr Agored (Aberteifi & Llanbedr Pont Steffan)	Maes Artiffisial - Llawn - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr		£50.00	£55.00	£5.00	Ffi Ailgyfrifo
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)		£45.00	£47.50	£2.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+) Gweithgareddau Iau			£35.00	£35.00	Ffi Newydd
	Maes Artiffisial - Llawn - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr yn yr Haf (Mis Mehefin i Awst)			£30.00	£30.00	Ffi Newydd
	Maes Artiffisial - Hanner - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr		£30.00	£32.50	£2.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Maes Artiffisial - Hanner - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)		£27.50	£29.00	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Maes Artiffisial - Llawn - Gemau		£70.00	£80.00	£10.00	Ffi Ailgyfrifo
Cyfleusterau Awyr Agored (Synodd Inn)	Maes Artiffisial - Llawn - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr		£30.00	£35.00	£5.00	Ffi Ailgyfrifo
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)		£27.50	£30.00	£2.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+) Gweithgareddau Iau			£27.50	£27.50	Ffi Newydd
Cyfleusterau Awyr Agored (Plascrug)	Maes Artiffisial - Llawn - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr			£40.00	£40.00	Ffi Newydd
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)			£36.00	£36.00	Ffi Newydd
	Maes Artiffisial - Llawn - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+) Gweithgareddau Iau			£30.00	£30.00	Ffi Newydd
	Maes Artiffisial - Hanner - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr			£25.00	£25.00	Ffi Newydd

Tudalen 212

Atodiad 1: Cymunedau Iachach

Ffi gyfredol Ffi arfaethedig Newid (yn £) Math o newidiad

Canolfannau Lles

Porth Cymorth Cynnar

Cyfleusterau Awyr Agored (Llanbedr Pont Steffan & Plascrug)	Pêl-rwyd awyr agored - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr		£15.00	£16.50	£1.50	Ffi Ailgyfrifo
	Pêl-rwyd awyr agored - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)		£12.50	£13.00	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig
Nofio (Llanbedr Pont Steffan, Plascrug)	Nofio Oedolion		£4.80	£5.00	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Nofio Plant Iau		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Plant o dan 5	Am Ddim			£0.00	Dim newidiad
	Gwersi nofio i blant iau		£6.00	£6.50	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Nofio i'r di-waith, y sawl sydd wedi ymddeol, wedi cofrestru'n anabl / myfyrwyr		£3.30	£3.50	£0.20	Chwyddiant cysylltiedig
	Tocyn Teulu (2 oedolyn + 2 blentyn neu 1 oedolyn+ 3 phlentyn)		£13.00	£14.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Aerobeg Dŵr i Oedolion		£6.50	£6.80	£0.30	Chwyddiant cysylltiedig
Llogi Pwll Nofio (Llanbedr Pont Steffan, Plascrug)	Llogi Pwll - Defnyddiwr Achlysurol 1 awr		£60.00	£66.00	£6.00	Ffi Ailgyfrifo
	Llogi Pwll - Archebu bloc 1 awr (10 wythnos+)		£55.00	£57.50	£2.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Llogi Gala		£65.00	£69.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Llogi Iôn		£18.00	£19.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Partïon Pwll Pen-blwydd		£55.00	£60.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Sesiynau pwll pwmpiadwy		£4.00	£4.00	£0.00	Dim newidiad
	Sesiwn 'Bubbles' (Oedolyn a phlant)		£6.00	£6.50	£0.50	Chwyddiant cysylltiedig

Canolfannau Lles - Pecynnau Aelodaeth Ceredigion Actif

Porth Cymorth Cynnar

Ystafell Ffitrwydd, nofio a dosbarthiadau ffitrwydd	Oedolion - Diderfyn	Ffi fisol	£30.00	£31.50	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
	Oedolion - Diderfyn Talu ar y pryd	Ffi fisol		£34.50	£34.50	Ffi Newydd
	Oedolion - Diderfyn Consesiynau/Corfforaethol Myfyrwyr/Pensiynwyr/Gofalwyr Corfforaethol – Grwpiau o 3 oedolyn neu fwy	Ffi fisol	£27.00	£28.50	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
		Talu wrth fynd		£30.00	£30.00	Ffi Newydd
	Oedolion - Pasbort Diderfyn (Rhaid bod yn derbyn budd-daliad prawf modd.	Ffi fisol	£16.00	£18.00	£2.00	Ffi Ailgyfrifo
	Plant Iau - Diderfyn (12-18 oed)	Ffi fisol	£11.00	£13.00	£2.00	Ffi Ailgyfrifo
		Talu wrth fynd		£15.00	£15.00	Ffi Newydd
Ystafell Ffitrwydd a dosbarthiadau ffitrwydd	Oedolion - Sesiynau Sych Diderfyn	Ffi fisol	£25.00	£26.50	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
		Talu wrth fynd		£28.00	£28.00	Ffi Newydd
Nofio a dosbarthiadau dyfrol	Oedolion - Dyfrol Sesiynau Diderfyn	Ffi fisol	£25.00	£26.50	£1.50	Chwyddiant cysylltiedig
		Talu wrth fynd		£28.00	£28.00	Ffi Newydd

Tudalen 213

 - HSBC
 - Cymdeithas Adeiladu Nationwide
 - Santander UK
 - Royal Bank of Scotland
 - Cymdeithas Adeiladu Coventry
 - Cymdeithas Adeiladu Leeds
 - Cymdeithas Adeiladu Yorkshire
 - Cymdeithas Adeiladu Skipton
 - Banc Standard Chartered
 - Banc Rhyngwladol Goldman Sachs
 - Grŵp Bank of Scotland
 - Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) Llywodraeth y DU.

Gan roi ystyriaeth lawn i'r blaenoriaethau o ran buddsoddi sef diogelwch, hylifedd ac arenillion, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad am wrthbartïon buddsoddi a chynhyrchion buddsoddi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r gymdeithas. Ar hyn o bryd, ceir nifer o anghysonderau wrth asesu rhinweddau gwrthbartïon o ran yr amgylchedd, materion cymdeithasol a threfniadau llywodraethu ac nid oes yna system safonol i bwysu a mesur y rhinweddau hyn. Serch hynny, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'n hymgyngorwyr i nodi gwrthbartïon a chynhyrchion buddsoddi priodol.

9.4 Strategaeth Arfaethedig 2023/24

Wrth wneud buddsoddiadau, cyfeirir at y balans craidd a'r gofynion o ran llif arian a fydd, yn gyffredinol, yn bolisi gweithredol o fuddsoddi am gyfnodau hyd at 3 mis. Fodd bynnag, os bydd cyllid dros ben, yna gellid gwneud buddsoddiadau am gyfnodau hyd at flwyddyn. Gwneir hynny drwy gymryd cyngor gan ymgynghorwyr allanol y Cyngor yn ôl y gofyn, ystyried amgylchiadau cyfredol y farchnad, a sicrhau bod pob gwrthbarti a ddefnyddir yn ymddangos ar y Rhestr o Wrthbartïon Cymeradwy sydd yn Atodiad B (Anecs 1) ac yn cyflawni'r meini prawf sydd wedi eu pennu o ran statws credyd.

Mae rhestr gyflawn o offerynnau buddsoddi arfaethedig 2024/25 yn Atodiad B. Caiff terfynau'r gwrthbartïon eu hadolygu'n rheolaidd ac fe gaiff unrhyw newidiadau eu hawdurdodi gan y Swyddog Adran 151. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wrthbartïon arfaethedig i'w gweld yn Anecs 1 Atodiad B. Hefyd ni ragwelir y byddwn yn defnyddio Rheolwr Cronfa Allanol, ac eithrio i brynu Giltiau'r Llywodraeth a/neu Filiau'r Trysorlys.

10. CONTRACT BANCIO

Oherwydd bod y contract bancio gyda Barclays yn dod i ben ar Chwefror y 29^{ain} 2024, cynhaliodd y Cyngor ymarfer tendro llawn yn ystod hydref 2023 yn gwahodd darparwyr gwasanaeth bancio i dendro am gontract gwasanaethau bancio corfforaethol y Cyngor.

Ar ôl ymarfer gwerthuso cadarn, dyfarnwyd y contract i Barclays am gyfnod o saith mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol.

11. POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Mae Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2024/25 i'w weld yn Atodiad C ac mae'n nodi bod y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw presennol yn parhau.

12. GWYBODAETH A SGILIAU

Mae Côt CIPFA yn mynnu bod swyddog adran 151 yn sicrhau bod Aelodau yn cael hyfforddiant digonol ynghylch rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Mynychodd yr Aelodau ddigwyddiad 'Rheoli'r Trysorlys – Hyfforddiant i Aelodau' ar 8 Tachwedd 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant yma gan ein ymgynghorwyr ar reoli'r trysorlys, Link Treasury Solutions Ltd.

Mae anghenion hyfforddiant y swyddogion sy'n rheoli'r trysorlys hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr Gwybodaeth a Sgiliau sy'n nodi pob rôl sy'n gysylltiedig â swyddogaeth y Trysorlys gan nodi'r cymwyseddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob rôl, cofnodi unrhyw hyfforddiant a fynychwyd gan swyddogion ynghyd â'u gofynion hyfforddi at y dyfodol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.

Oes

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei arian parod, buddsoddiadau a dyledion yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.
Cydweithio:	Gyda'n Cyflenwyr Bancio Corfforaethol (Barclays), ein Hymgyngorwyr Trysorlys a'r rhestr partion i gontract a nodir yn y Strategaeth.
Cynnwys:	Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig
Atal:	Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn rheoli ei adnoddau o ran arian parod mewn modd rhagweithiol.
Integreiddio:	Ddim yn berthnasol – Gwybodaeth yn unig

Argymhelliad/argymhellion:

Argymhellir bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad ac:

yn argymhell i'r Cyngor Llawn:

- a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycyca a Buddsoddiadau ar gyfer 2024/25**
- b) cymeradwyo Polisi y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25; a**
- c) bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, i ddiwygio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a'r Rhaglen Fuddsoddi, yn ystod y flwyddyn.**

Rhesymau dros y penderfyniad:

Pennu Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25

Trosolwg a Chraffu:

I'w ystyried

Fframwaith Polisi:

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella i ddiwallu anghenion ein dinasyddion.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Cyllid: Incwm Buddsoddi/Llog allanol a dalwyd

Goblygiadau Cyfreithiol:

Dim

Goblygiadau Staffio:

Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:

Pennu'r strategaeth ar gyfer sut mae'r Cyngor yn rheoli ei falans buddsoddi a'i anghenion benthyca.

Risg(iau):

Dim

Pwerau Statudol:

Deddf Llywodraeth Leol 2003

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Atodiad A: Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys

Atodiad B: Atodlen Buddsoddi

Atodiad C: Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Dyddiad:

12 Chwefror 2024

Dangosyddion Darbodus o ran Rheoli'r Trysorlys**Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

I sicrhau bod dyled yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfalaf yn unig yn y tymor canolig, dylai awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r ddyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Yn ôl y Swyddog Adran 151, ni chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster o ran bodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23 ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd.

Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	134	158	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	10	10	10
Cyfanswm	141	168	173	178

Terfyn gweithredol ar gyfer dyled allanol

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£m	£m	£m	£m
Benthyca	128	152	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	9	9	9
Cyfanswm	134	161	166	171

Dyled allanol wirioneddol

Dyled allanol wirioneddol y Cyngor ar 31/03/2023 oedd £113.7m (a oedd yn cynnwys Benthyca Allanol o £107.8m a Rhwymedigaethau Hirdymor o £5.9m).

Strwythur aeddfedu benthycia		
	Terfyn uchaf	Terfyn isaf
Llai na 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a throsodd	95%	25%
<u>Is-gategori 10 mlynedd a throsodd</u>		
50 mlynedd a throsodd	20%	0%

Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifysymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn			
2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
£2.5m	£2.5m	£2.5m	£2.5m


Meincnod Dyledion

I bob pwrpas, y Meincnod Dyledion yw Benthyciadau Net Gofynnol yr awdurdod lleol ynghyd â lwfans ar gyfer hylifedd arian. Ar ei ffurf symlaf, fe'i cyfrifir drwy dynnu swm yr adnoddau buddsoddiadwy sydd ar gael ar y fantolen (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn weddill, ac yna adio isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen i reoli'r llif arian parod o ddydd i ddydd.

Mae pedair elfen i'r Meincnod Dyledion: -

- Y ddyled bresennol sy'n weddill o ran benthyciadau: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd yn parhau yn weddill yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- CFR (Gofyniad Cyllido Cyfalaf) y benthyciadau: fe'i cyfrifir yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Côd Darbodus ac fe'i defnyddir i wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a gynllunnir.
- Y Gofyniad o ran benthyciadau net: bydd hwn yn dangos dyled gros yr Awdurdod o ran benthyciadau, namyn y buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan wneud amcanestyniad at y dyfodol ar sail y benthycia darbodus cymeradwy, yr MRP a gynllunnir ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.
- Meincnod Dyledion (y gofyniad gros o ran benthyciadau): mae hyn y gyfystyr â'r gofyniad net o ran benthyciadau ac ychwanegu lwfans ar gyfer hylifedd tymor byr.

Tudalen 273



ATODLEN BUDDSODDI

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd 'uchel'	Diogelwch / Sgôr Gredyd 'Uchel' Isaf (Fitch neu gyfatebol)	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf
--------------------	--	--	---------------------------------	--	---------------------------------------	--------------------------------------	------------------------

BUDDSODDIADAU PENODEDIG (Rhaid i'r holl fuddsoddiadau a restrir isod fod mewn sterling a rhaid nad ydynt yn gyfalaf benthyciad na chyfranddaliad)

Swyddfa Rheoli Dyledion Llywodraeth y DU – Cyfleuster Adneuo'r Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF)	Diderfyn	Diderfyn	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol	6 mis (Polisi DMO Presennol)
Banciau sydd wedi'u gwladoli'n llwyr neu'n rhannol gan Lywodraeth y DU (e.e. Northern Rock)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Lliw glas ym mandiau cyfnodol <i>Link</i>	Tymor byr F2	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda Llywodraeth y DU neu gydag awdurdodau lleol (fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003)	Diderfyn ar gyfer Llyw. y DU, 1m fesul ALI	Diderfyn	Amherthnasol	Diogelwch uchel, ond nid oes gan yr Awdurdodau Lleol sgôr gredyd.	Ydyn	Mewnol	Llywodraeth y DU : blwyddyn Awdurdodau Lleol: 90 diwrnod gydag isafswm o 180 o ddiwrnodau rhwng bob buddsoddiad
Adneuron cyfnod penodol neu adneuron galw gyda sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu)	Gweler Atodiad 1	Gweler Atodiad 1	Melyn, Porffor, Oren, Coch neu Wyrdd ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol	1 flwyddyn ar gyfer Melyn, Porffor ac Oren 6 mis ar gyfer Coch 100 diwrnod ar gyfer Gwyrdd
Tystysgrifau Adneuron a roddir gan sefydliadau sy'n derbyn adneuron a chanddynt sgôr gredyd (banciau a chymdeithasau adeiladu) (Anghen trefniant gwarchodol cyn prynu)	£2.5m	£2.5m	Melyn, Porffor, Oren neu Goch ym mandiau cyfnodol <i>Link *</i>	Tymor hir Tymor byr A-F1	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
Giltiau Llywodraeth y DU (Anghen trefniant gwarchodol cyn prynu)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn
Biliau'r Trysorlys (Anghen trefniant gwarchodol cyn prynu)	£2.5m	£2.5m	Amherthnasol	Fe'u cefnogir gan Lywodraeth y DU	Ydyn	Mewnol a rheolw(y)r cronfeydd allanol	1 flwyddyn

Categori buddsoddi	Terfyn penodedig ar gyfer buddsoddiad unigol	Terfyn penodedig ar gyfer y categori buddsoddi	Ad-daladwy/ Adbrynadwy o fewn 12 mis?	Amgylchiadau defnyddio'r buddsoddiad	Cyfnod buddsoddi mwyaf		
					Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd
Cronfeydd Hylifedd / Marchnad Arian y Llywodraeth – Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu a gellir cael mynediad atynt ar yr un diwrnod neu drwy roi diwrnod o rybudd fel rheol	£2m	£2m	AAA	Sgôr gredyd uchaf	Ydyn	Mewnol, yn amodol ar y canllawiau a'r terfynau y cytunwyd arnynt	Ni chaiff y cyfnod buddsoddi ei bennu ar y cychwyn, ond bydd yn dibynnu ar y gofynion llif arian a hylifedd

* Troednodyn – Cyn unrhyw droshaenu byrdymor

BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG							
Cronfeydd Eiddo	£2.5m	£2.5m	Na	Ystyrir y cronfeydd yma'n wariant cyfalaf. Cymerir diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys cyngor oddi wrth ymgynghorwyr Trysorlys Allanol y Cyngor cyn ymgymryd â buddsoddiad o'r fath .	Mae'n bosib na phenderfynir ar y cyfnod buddsoddi ar y cychwyn fodd bynnag bydd yn ddibynnol ar lif arian a gofynion hylifedd		

Terfyn penodedig buddsoddiad unigol fesul Grŵp Bancio	Terfyn penodedig y categori buddsoddi	Meini prawf sgôr gredyd (Ar sail bandiau cyfnodol Link)	Rhestr sefydlog o wrthbartïon penodol (caiff ei diweddarau'n gyson yng ngoleuni newidiadau i sgoriau credyd ac o ran bodloni'r meini prawf sgoriau credyd)
£7m	£7m	GLAS neu GOCH	<u>Wedi'u gwladoli'n rhannol neu'n llwyr gan Lywodraeth y DU</u> Natwest Group plc gan gynnwys; National Westminster Bank plc (gan gynnwys cyfrif ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Royal Bank of Scotland Plc NatWest Markets Plc (NRFB)
£6m	£25m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH	<u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU(1):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio y DU / Cymdeithas Adeiladu (2) os yw eu statws yn newid o WYRDD i GOCH neu OREN neu PORFFOR neu FELYN plws HSBC Bank Plc Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd') Cymdeithas Adeiladu Nationwide Cymdeithas Adeiladu Coventry Cymdeithas Adeiladu Skipton Lloyds Banking Group, gan gynnwys; Lloyds Bank Plc Lloyds Bank Corporate Markets (NRFB) Bank of Scotland Plc (gan gynnwys cyfrifon ar alw 'Mynediad yn syth/ gyda rhybudd')
£4m	£10m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<u>Grŵp Bancio â rhiant-gwmni tramor:</u> Santander UK plc (Gan gynnwys cyfrifon galw mynediad uniongyrchol) Standard Chartered Bank Banc Rhyngwladol Goldman Sachs
£3m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	<u>Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (2):</u> Unrhyw un o'r banciau neu'r cymdeithasau adeiladu yng nghategori Grŵp Bancio / Cymdeithas Adeiladu yn y DU (1) os bydd ei statws yn newid o GOCH i WYRDD, yn ogystal â Cymdeithas Adeiladu Yorkshire Cymdeithas Adeiladu Leeds
£9m	£6m	MELYN neu BORFFOR neu OREN neu GOCH neu WYRDD	Barclays Bank Plc * – Terfyn ar gyfer balansau dros nos ar gyfrifon banc corfforaethol
	£3m		Barclays Bank Plc * –Terfyn ar gyfer adneuon tymor penodol a mynediad uniongyrchol (gan gynnwys Cyfrifon Cadw Gwyrdd) Terfyn Cyfrifon Galw ar gyfer balansau cyfrifon galw.

• Troednodyn – Barclays sy'n darparu gwasanaethau bancio i'r Cyngor ar hyn o bryd

Datganiad Polisi ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25**1. Egwyddorion cyffredinol**

- a) Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gan ddefnyddio un o'r opsiynau a amlinellir yn y canllawiau, yn ogystal â chyflwyno opsiwn arall a ategir gan yr egwyddor darpariaeth ddarbodus.
- b) Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig oni bai fod Llywodraeth Cymru'n mynnu neu'n penderfynu fel arall. I'r graddau nad yw'r gwariant yn creu ased a'i fod yn wariant y mae cyfnodau oes amcangyfrifedig y cyfeirir atynt yn y canllawiau'n berthnasol iddo, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes defnyddiol ac isafswm darpariaeth refeniw ddarbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.
- c) Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor ag ased unigol, caiff oes ased ei hasesu ar y sail sy'n adlewyrchu cyfnod disgwylidig y budd sy'n deillio o'r gwariant yn y modd mwyaf rhesymol. Hefyd, pa fath bynnag o wariant sydd o dan sylw, bydd yn cael ei grwpio mewn modd sy'n adlewyrchu natur y brif elfen o wariant ac ni fydd ond yn cael ei wahanu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes ddefnyddiol economaidd wahanol iawn i'w gilydd.

2. Dulliau o gyfrifo isafswm darpariaeth refeniw (MRP)

- a) Bydd y gyfran fwyaf o MRP ar gyfer 2024/25 yn gysylltiedig â rhwymedigaethau dyledion mwy hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008 yn achos Benthycyca â Chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Darperir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n gysylltiedig â dyledion cyn 2008 a Benthycyca â Chymorth ar ôl 2008 a ariennir gan LIC drwy'r Grant Cynnal Refeniw drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau LIC 2018 a chymhwyso Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfartaledd cyfradd benthycyca y benthycyadau sy'n weddill ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 blynedd, gan gychwyn ar 01/04/2021.
- b) Gan fod Benthycyca â Chymorth newydd pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth MRP pob cyfran newydd o Benthycyca â Chymorth drwy ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru ac chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- c) Bydd cyfran sylweddol o'r MRP ar gyfer 2024/25 yn ymwneud â Benthycyca Darbodus Digymorth ers 2008 a ddangosir o fewn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Darperir rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud â Benthycyca Digymorth wedi 2008, gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau 2018 Llywodraeth Cymru a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfradd llog gyfartalog bwysedig y benthyciad dan sylw) dros gyfnod o 39 o flynyddoedd, gan ddechrau ar 01/04/2021.
- d) Wrth ddefnyddio mwy o'r Benthyciad Darbodus Digymorth yn Rhaglen Gyfalaf, bydd y rhwymedigaeth MRP a ddangosir yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn cael ei godi dros gyfnod sy'n gyfwerth ag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 (dull oes ased) canllawiau Llywodraeth Cymru 2018 a chymhwyso'r Dull Blwydd-dal.
- e) Pan fyddwn yn ymgymryd â Benthycyca Dros Dro yn lle derbyniadau cyfalaf a fydd yn dod i law yn y dyfodol (e.e. benthycyadau cyllid ad-daladwy LIC neu Benthycyca Darbodus Digymorth dros dro) byddwn yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi MRP e.e. pan fyddwn yn aros i dderbyniadau cyfalaf ddod i law ar ôl gwerthu asedau diangen.
- f) Pan fydd ased yn cael ei hadeiladu, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â chodi MRP hyd nes y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r gwariant cyfalaf yn cael ei wneud ac, yn achos ased newydd, pan fo'r ased yn dechrau cael ei ddefnyddio.

Tudalen 278

- g) Codir MRP ar drefniadau credyd PFI dros gyfnod sy'n cyfateb i amcangyfrif oes ddefnyddiol a gymhwysir i'r ased gan ddefnyddio Dull Blwydd-dal.
- h) Pan fydd MRP yn gysylltiedig â phroffil a bennwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â threfniant credyd (e.e. Prydles Gyllidol) bydd y cyfrifiad MRP yn cydweddu â'r proffil ad-dalu pwrpasol perthnasol.
- i) Gall y Cyngor ddewis gwneud cyfraniadau MRP gwirfoddol yn ychwanegol at y cyfrifiadau MRP uchod ar unrhyw adeg. E.e. Gall y Cyngor ymdrin â chyfraniadau MRP gwirfoddol fel darpariaeth 'ymlaen llaw' (sy'n cael effaith debyg i ad-dalu dyled yn gynnar) a gall ailgyfrifo taliadau MRP yn y dyfodol yn unol â hynny.

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Comins Coch

Pwrpas yr adroddiad: Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a chymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 15 Medi 2023 a 17 Tachwedd 2023 ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser.

Derbyniwyd cyfanswm o 14 ymateb yn ystod yr ymgynghoriad, ac roedd 6 o'r rhain yn cefnogi'r cynnig.

Yn dilyn cyhoeddi'r dogfennau statudol, mae adroddiad yr ymgynghoriad ynghlwm sy'n cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol ar ffurf eglurhad o'r pryderon a godwyd gyda rhesymau ategol.
- Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol i adroddiad Estyn.

Atodiad A

Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol

Atodiad B

Ymateb Estyn i'r cynnig

Atodiad C

Hysbysiad Statudol

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, yna mae'n rhaid ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid i bawb sydd eisiau gwrthwynebu cynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion gael cyfle i wneud hynny, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu mewn e-bost a'u hanfon i'r Awdurdod Lleol cyn pen cyfnod o 28 diwrnod a fydd yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.

Atodiad D

Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.

Cwblhawyd Asesiadau Effaith ar y Gymuned, yr Iaith Gymraeg, a Chydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad statudol- [asesiadau-effaith-statudol-comins-coch.pdf](https://www.ceredigion.gov.uk/asesiadau-effaith-statudol-comins-coch.pdf) ([ceredigion.gov.uk](https://www.ceredigion.gov.uk))

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg yn y gymuned a sicrhau bod gan y gymuned ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Rhoi cyfle i ddisgyblion gyfrannu tuag at y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Cydweithio: Cynhaliwyd trafodaethau â'r Corff Llywodraethol wrth ddatblygu'r cynnig. Gwneir y penderfyniad terfynol gan y Cabinet. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys llawer o ymgysylltu a chyswllt gyda disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned.

Cynnwys: Bu'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol a oedd yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.

Atal: Ymatebir i bryderon a godir drwy ymgysylltu clir a pharhaus â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy gydol y cyfnod cynllunio ac ymgynghori.

Integreiddio: Mae'r Gymraeg yn ganolog i waith Cyngor Sir Ceredigion a'i amcanion strategol. Mae integreiddio cymunedol yn ganolog i bob ysgol, gan greu amgylchedd sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Rhagwelir na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol.

Argymhelliad / Argymhellion:

Gofynnir i'r Aelodau ystyried y canlynol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018

Trosolwg a Chraffu:

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu – 30 Mawrth 2023

Fframwaith Polisi:

Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru – 011/2018
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2022 -2032

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Bydd angen cyllid ar gyfer athro meithrin 0.5 FTE ychwanegol

Goblygiadau Cyfreithiol:

Amherthnasol

Goblygiadau Staffio:

Athro meithrin 0.5 FTE ychwanegol

Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:

Amherthnasol

Risg(iau):

Methu â chyflawni canlyniadau CYSGA 2022-32 os na chaiff y cynnig ei gymeradwyo.

Pwerau Statudol:

Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru– 011/2018

Papurau Cefndir:

Amherthnasol

Atodiadau:

Atodiad A – Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol

Atodiad B – Ymateb Estyn i'r cynnig

Atodiad C – Hysbysiad Statudol

Atodiad D – Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

Swyddog Adrodd:

Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

Dyddiad:

9 Ionawr 2024

Atodiad A

Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys y sylwadau a fynegwyd gan y Cyngor Ysgol

Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Ymgynghoriad Ysgol Comins Coch.

Sylwadau o blaid

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
Bydd y newid yn cynyddu medrau dwyieithog disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd ehangach iddynt yn y dyfodol.	Nodwyd y sylw cefnogol
Bydd yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis, a fydd yn caniatáu i ddisgyblion gyfrannu at Gymru amlieithog.	Yn cytuno – mae bod yn gwbl ddwyieithog yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis.
Trochi yw'r unig ffordd o ddod yn rhugl ac mi fydd yn darparu cyfleoedd a sgiliau.	Nodwyd y sylw cefnogol
Mae hyn yn cefnogi diwylliant lleol ac yn annog dysgwyr i aros yn yr ardal.	Mae cadw pobl ifanc yn yr ardal yn flaenoriaeth sirol ac mae'n cydfynd â Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
Mae hyn yn cefnogi'r nodau o ran y Gymraeg.	Nodwyd y sylw cefnogol
Angen cyllid priodol er mwyn llwyddo.	Bydd cyllid ar ffurf grant y Gymraeg a chymorth wedi'i ddarparu gan Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei neilltuo i gefnogi'r cynnig.
Cymorth i rieni.	Bydd y gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni'n parhau fel rhan o'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd adnoddau'n dal i gael eu rhannu â rhieni drwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol.
Defnydd o ddulliau addysgu cyfoes ac eang, e.e. celfyddydau creadigol a mynegiannol.	Nodwyd y sylw
Dylai'r Cyngor ystyried llwybr dysgu Cymraeg o oedran cyn-ysgol i'r 6ed dosbarth gyda dysgu galwedigaethol.	Nodwyd y sylw
Ail-eirio ar gyfer pob plentyn meithrin / tair oed	Nodwyd y sylw
Cynnig ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mhenglais ac uned drochi hwyr yno.	Nodwyd yr awgrym
Cymorth ar gyfer yr ysgolion pontio hyn.	Bydd y cymorth yn barhaus a chyson yn unol â'r cynlluniau datblygu.
Cefnogaeth lwyr i'r cynllun.	Nodwyd y sylw cefnogol.

<p>Ffigurau cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio trwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio trwy'r Gymraeg, a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiddorol a nodwyd y ffeithiau.</p>
<p>Mae'r cynllun yn sicrhau tegwch ieithyddol</p>	<p>Nodwyd y sylw</p>
<p>Cam cychwynnol ddylai hwn fod a dylid ystyried symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm</p>	<p>Bydd dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.</p>
<p>Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn</p>	<p>Nodwyd y sylw cefnogol.</p>
<p>Fel un o'r ysgolion cryfaf yn ardal Aberystwyth mae'r ysgol yn arweinydd o ran addysg gynradd o ansawdd da. Cytuno gydag ymestyn y ddarpariaeth i ddisgyblion tair oed yn rhan amser am fod angen cynyddu nifer y disgyblion i sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa iach.</p>	<p>Nodwyd y sylw cefnogol.</p>
<p>Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddsbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddom o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfywedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod staff cynorthwyol at fuddiannau'r cynlluniau yn ogystal?</p>	<p>Diolch am eich sylwadau adeiladol.</p> <p>Mae 0.5 o gyllideb athro o fewn y cynnig a bydd hyblygrwydd gan yr ysgol i ddefnyddio'r arian craidd hwn fel sydd orau.</p>

Sylwadau yn erbyn y cynnig

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
<p>Effaith ar recriwtio proffesiynol yn yr ardal. Recriwtio staff GIG a gofal iechyd. Pa gymorth ac addasiadau y gellir eu gwneud i sicrhau bod darparwyr yn gallu parhau i ddenu staff gyda chymwysterau addas i'r ardal mewn perthynas ag ysgolion addas, ac iaith sy'n addas ar gyfer eu teuluoedd.</p> <p>Niferoedd isel o blant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith, a nifer fawr o blant sydd â rhieni yn y proffesiwn meddygol neu'n staff prifysgol, gyda rhai ohonynt yn dod i'r ardal am gyfnod byr. Mae'r rhain i gyd yn hanfodol i'r economi leol ac i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Os bydd yna newidiadau, gall hyn eu rhwystro'n ddifrifol rhag symud i'r ardal. Mae dewis sylfaenol yn parhau i fod yn elfen o addysg gynradd ac uwchradd. Mae angen mwy o gysylltiad â'r byd ehangach, nid llai.</p> <p>Er mwyn i'r gymuned leol ffynnu, dylai pobl o dramor sy'n gweithio yn yr ardal gael o leiaf un opsiwn o ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer eu plant. Heb ddarpariaeth o'r fath, mae'n anodd recriwtio (a chadw) pobl o dramor, ac mae perygl o ddatblygu meddylfryd mewnblyg.</p>	<p>Nid ydym yn cytuno bod unrhyw symudiad graddol tuag at fod yn gwbl ddwyieithog h.y. yn gallu i siarad Cymraeg a Saesneg yn mynd i atal unrhyw un rhag symud i Geredigion. Does dim rheidrwyd ar oedolion sy'n dod i fyw a gweithio yng Ngheredigion i siarad Cymraeg. Rydym yn gobeithio bod pobl yn gweld y budd a'r gwerth o allu siarad Cymraeg a Saesneg, os ydyn nhw'n penderfynu dod yma i fyw. Does dim angen i unrhyw iaith greu amheuaeth. Mae siarad dwy iaith (neu ragor) yn norm yn y rhan fwyaf o wledydd y byd. Yn ddiamau, byddai'r mwyafrif helaeth o bobl yn gweld gwerth yn y gymdeithas ddwyieithog ac amlieithog eithriadol sy'n bodoli yng Ngheredigion. Rydym yn derbyn nad yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol ond mae hynny'n wir am y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Nid ydym yn gweld pam y dylai'r ffactor honno fod yn rhwystr i ddisgyblion yng Ngheredigion a Chymru rhag datblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Nid y bwriad yw creu siaradwyr neu gymdeithas uniaith Gymraeg. Y nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu siarad Cymraeg a Saesneg.</p>
<p>Addysgwch yn Gymraeg ond nid ar draul cael gwared â Saesneg o ysgolion cynradd.</p> <p>Hefyd, mae'n mynd yn groes i bolisi'r llywodraeth a'r polisi Dyfodol Dwyieithog o hyrwyddo dwyieithrwydd ac yn hytrach yn gorfodi unieithrwydd.</p> <p>Os ydy plant am gael eu haddysgu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, a wnaed asesiad effaith ar y dysgu wrth drosglwyddo</p>	<p>O fewn y Cwricwlwm i Gymru mae Saesneg yn bwnc gorfodol ac ni fydd yn cael ei ddiddymu yn unrhyw ysgol gynradd yng Ngheredigion. Nod y cynnig hwn yw cyflwyno'r Gymraeg ar oedran iau fel bod disgyblion yn dod yn rhugl yn y ddwy iaith.</p>

i addysg uwchradd ac yn nes ymlaen i addysg brifysgol.

Mae gorfodi pob ysgol i fod yn un cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn golygu nad oes gan rieni ddewis, sy'n gam anemocrataidd.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael effaith gyfreithiol uniongyrchol ar gyfraith y DU mewn perthynas â hawliau dynol sydd wedi'u hamddiffyn dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Nid yw'r hawl i addysg yn Erthygl P1-2 yn cynnwys yr hawl i gael eich addysgu yn yr iaith a ddewisir gennych, dim hyd yn oed os mai'r iaith a ffeirir yw iaith gyntaf y plentyn. Mae'r hawl i addysg yn mynd cyn belled â sicrhau yr hawl i gael eich addysgu yn "un o'r ieithoedd cenedlaethol" yn unig, gyda'r Wladwriaeth â'r hawl i ddefnyddio'i disgresiwn yn gyffredinol os bernir bod yna fwy nag un "iaith genedlaethol" i ddewis ohonynt. Fel yr unig iaith gyda statws cenedlaethol yng Nghymru, mae'r Gymraeg, yn ddiamau, yn "iaith genedlaethol" yma yng Nghymru at y diben hwn. Felly, pan fydd gwlad, fel Cymru, yn darparu addysg, mae gan ddysgwyr yr hawl i gael eu haddysgu yn o leiaf un o ieithoedd cenedlaethol y wlad honno, ond does dim hawl cyfreithiol i fynnu addysg mewn iaith genedlaethol benodol. Lle bernir bod yna fwy nag un iaith genedlaethol, mae gan awdurdodau cyhoeddus, megis Ceredigion, ddisgresiwn cyffredinol o ran penderfynu pa un o'r ieithoedd cenedlaethol fydd y cyfrwng addysg o fewn rhanbarth neu ardal benodol. Nid yw dewisiadau ieithyddol, waeth pa mor gryf yw'r arddeliad, yn "argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol" at ddibenion Erthygl P1-2. Nid yw'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol yn Erthygl 8 o'r ECHR yn gynnwys yr hawl i gael addysg yn eich iaith gyntaf.

Mae'r awdurdod yn cydnabod yr angen am agwedd eang, amlweddog tuag at ddysgu Cymraeg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n

	canolbwyntio ar hanes a diwylliant Cymru, ochr yn ochr â dimensiynau rhyngwladol.
<p>Sut ellir sicrhau rhieni sydd ddim yn siarad Cymraeg na fyddant dan anfantais wrth helpu eu plant gyda'u gwaith cartref, sydd fel arall wedi'i gynllunio i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn yr ysgol, gan olygu bod perygl y bydd rhai unigolion ar eu hôl hi.</p> <p>Cymorth i deuluoedd gyda'r Gymraeg</p>	<p>Ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid fod yn bryderus os na allant siarad Cymraeg gyda'u plant. Does dim angen iddyn nhw allu siarad Cymraeg er mwyn gallu anfon eu plant i addysg drochi/ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gall rhieni/gwarcheidwaid helpu eu plant i siarad a defnyddio'r iaith. Yr ysgol fydd eu pwynt cyswllt cyntaf o hyd mewn perthynas ag addysg barhaus eu plant.</p> <p>Dylai'r ysgol allu cynorthwyo neu gynghori'r rhieni/gwarcheidwaid ar y ffordd orau o helpu'u plant i gadw'u sgiliau Cymraeg. Os bydd rhieni/gwarcheidwaid yn annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ffrindiau, brodyr neu chwirydd, neu aelodau eraill o'r teulu sy'n siarad Cymraeg, mi fydd hynny'n eu helpu i gadw'u sgiliau. Gall rhieni/gwarcheidwaid hefyd helpu eu plant drwy eu hannog i fynd i weithgareddau cyfrwng Cymraeg a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg, gwrandao ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg, a gall plant hŷn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter yn Gymraeg. Y peth pwysig yw bod plant yn cael cysylltiad â'r iaith mor aml â phosib. Mae amryw o daflenni gwybodaeth, fideos ac adnoddau eraill ar gael i helpu disgyblion a rhieni. Gall rhieni/gwarcheidwaid gael mwy o wybodaeth a dolenni cyswllt i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn Gymraeg ar Hwb (Llywodraeth Cymru) ac ar wefan Cyngor Ceredigion. Hefyd, yng Ngheredigion mae yna dîm o staff penodol ac arbenigol yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda'r gwaith o gyflenwi adnoddau o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith.</p>
<p>Yn drist bod popeth fel petai wedi'i benderfynu'n barod ac nad yw'r ymgynghoriad yn ystyried unrhyw sylwadau fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>	<p>Yn ôl y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol, yn amodol ar benderfyniad y Cabinet ar yr ymgynghoriad.</p>

<p>Byddai'r ddarpariaeth feithrin newydd yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth feithrin gymunedol ar safle'r ysgol ac yn effeithio ar swyddi a'r gymuned ehangach. Os yn darparu gofal cofleidiol, beth fyddai'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r adnodd cymunedol gwerthfawr hwn, sy'n bwydo Ysgol Comins Coch?</p> <p>Nid yw addysg gynnar yn cael ei darparu ar hyn o bryd yn Mes Bach ond mae'r lleoliad yn ymateb yn bositif i argymhellion adroddiad yr archwiliad. Mae pryderon ynghylch diddymu'n barhaol y posibilrwydd o ddarparu addysg gynnar yn golygu heriau parhaus i'r lleoliad yn ariannol. Pontio gyda'r ysgol yn arwain at ofynion ychwanegol wrth osod lefel staffio.</p>	<p>Ni fydd y dosbarth meithrin yn yr ysgol yn darparu gofal cofleidiol ar ôl cyflenwi oriau addysg gynnar, ac felly ni fydd yn effeithio ar y ddarpariaeth gofal plant bresennol.</p> <p>Nid yw lleoliad y ddarpariaeth feithrin bresennol yn darparu addysg ar gyfer plant 3 oed. Fodd bynnag mae'r cyllid ar gyfer gofal cofleidiol yn dal i gael ei ariannu gan Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd yr ysgol yn derbyn cyllid ar gyfer aelod staff ychwanegol (athro 0.5) all roi cymorth corfforol i drosglwyddo disgyblion sydd angen gofal cofleidiol i'r lleoliad gofal plant.</p>
<p>Ffynonellau ariannu ar gyfer staff newydd.</p>	<p>Bydd cyllid ychwanegol ar gyfer 0.5 aelod staff yn cael ei ddyrannu i'r ysgol i gefnogi'r cynnig hwn.</p>
<p>Annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau, ochr yn ochr â'r CSCA, bod yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) ac egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC), a chynaliadwyedd gofal plant yng Ngheredigion oll yn cael eu hystyried yn deg wrth wneud unrhyw benderfyniad.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Rhannwyd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chynrychiolwyr ac aelodau o'r fforwm sy'n monitro cynnydd Cynllun Gweithredu'r CSCA.</p>
<p>Cyflwyno addysg i blant 3 oed yn yr ysgol, ymholiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymwysterau staff ac o ble fydd y staff yn dod? • Beth fydd y cwricwlwm? • Beth fydd y fframwaith? • Maint yr adeilad a thoiledau digonol 	<p>Rhaid i'r holl staff addysgu feddu ar Statws Athro Cymwysedig a bod wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.</p> <p>Bydd yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel CSC ar gyfer unrhyw benodiadau. Mae gan y Cwricwlwm i Gymru gwricwlwm ar wahân ar gyfer plant cyn oed ysgol. 'Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin wedi'u hariannu nas cynhelir' sy'n eu paratoi ar gyfer symud ymlaen yn ddi-dor i Cwricwlwm i Gymru.</p> <p>Darparwyd digon o le a thoiledau digonol ar gyfer yr ysgol fel rhan o'r estyniad diweddar.</p>
<p>A ddylai'r cynnig hwn ddod ar draul lleoliad sydd eisoes wedi'i sefydlu, neu a ddylid rhoi</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae'r ALI yn parhau i gefnogi'r elfen gofal o fewn y lleoliad.</p>

<p>mwy o ystyriaeth i ddatblygu'r lleoliadau presennol ac ychwanegu at eu hadnoddau? O ganlyniad, mi fyddai'r Cyngor hefyd yn cyflawni'i ddiben o gefnogi datblygiad a defnydd o'r Gymraeg o fewn adnodd cymunedol hanfodol.</p>	
--	--

Ymateb Estyn

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Sir
<p>Eglurhad pellach ar effaith y cynllun o fewn meysydd megis addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.</p>	<p>Bydd yr effaith ar y meysydd a nodir yn cael ei fonitro fel rhan o brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae parhau i ddatblygu darpariaeth a safonau Cymraeg yr ysgol wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol.</p>
<p>Hyfforddiant staff</p>	<p>Mae cydweithio positif a chyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r CSCA gyda'r Cynllun Cymraeg Sabothol wedi golygu bod mwy o leoedd ar gael ar gyrsiau addas/gofynnol. Gwnaed defnydd effeithiol hefyd o grant Trochi LIC i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff cymorth.</p>
<p>Nid yw'r Cyngor yn nodi a oes yna leoliadau nas cynhelir yn yr ardal leol ai peidio, a ph'un ai y gallai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.</p>	<p>Ychwanegwyd atodiad at yr ymgynghoriad a oedd yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn a chafodd yr ymgynghoriad ei ymestyn am gyfnod o bythefnos.</p>
<p>Mae'r adroddiad yn nodi nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael yn un o'r ddwy ysgol a allai gael ei heffeithio gan y cynnig, ond nid y llall.</p>	<p>Does dim darpariaeth feithrin yn yr ail ysgol a nodwyd.</p>
<p>Nid yw'r cynnig yn nodi faint o leoedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn ysgol Comins Coch, p'un ai oes lle i'r disgyblion hyn, a sut allai hyn effeithio ar yr ysgol gyfan.</p>	<p>Mae CYBLD 2023 yn nodi bod 144 o ddisgyblion ar y gofrestr, a bod capasiti'r ysgol, o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6, yn 202. Felly mae digon o le ar gyfer disgyblion meithrin posib. Byddai'r ysgol yn derbyn cyllid craidd ychwanegol ar gyfer 0.5 athro o fewn y gyllideb ddynodedig, yn ogystal â chyllid LIG fesul disgybl rhan-amser.</p>

<p>Sut fydd y cymorth ychwanegol posib ar gyfer disgyblion gydag ADY yn cael ei ddarparu pan fydd Cymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran y ddarpariaeth.</p>	<p>Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY.</p> <p>-Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog. - Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad. - Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen. - Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen.
--	---

Cyngor Ysgol Comins Coch (10)

1. Pawb yn deall y cynnig. Dim cwestiynau
2. 9/10 yn cytuno ei fod yn bwysig (y disgybl arall ddim yn cyfrannu at y drafodaeth).
3. Gwersi Cymraeg yn wythnosol, siarad Gymraeg o amgylch yr ysgol - sticeri Cymraeg yn y CS am ddefnyddio'r Gymraeg, gwasanaethau yn Gymraeg gan y Criw Cymraeg , diwrnodau penodol e.e Diwrnod Shwmae Sumae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen
4. Byddai hanner ohonynt yn hoffi aros yng Ngheredigion. Pwysig dysgu Cymraeg e.e. ym maes busnes a gofal iechyd- mae'n well gan lawer siarad yn eu mamiaith neu iaith gyntaf. Dechrau sgysiau yn Gymraeg - mae'n gwneud gwahaniaeth.
5. Gwaith cartref yn Gymraeg - sut ellir helpu rhieni - gwersi i rieni a digon o gymorth i rieni e.e. adnoddau'n cael eu rhannu gan yr ysgol i gynorthwyo rhieni i helpu'u plant.

Bron pawb yn hapus gyda'r cynnig ac yn cytuno bod dysgu Cymraeg ar oedran iau yn arwain at fwy o gyfleoedd - mwy o ddewisiadau wrth symud ymlaen i oedran uwchradd a thu hwnt.

Atodiad B

Ymateb Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed yn rhan amser i Ysgol Gynradd Comins Coch

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i roi sylwadau ar effaith y cynllun heb fwy o eglurhad mewn meysydd, fel effaith y cynnig ar addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi cynnig rhesymeg addas ar gyfer yr ymgynghoriad, gan amlinellu'r rhesymau i'r cynnig ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Comins Coch yn rhan-amser. Maent hefyd wedi cyflwyno rhesymeg briodol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Nod yr amserlen yw galluogi staff yn Ysgol Gynradd Comins Coch i adeiladu'n systematig ar gaffaeliad disgyblion o ran y Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu ystod o fanteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Prif fantais y cynnig hwn yw sicrhau mwy o degwch a chysondeb ieithyddol ledled y sir. Mae hefyd yn bodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fel bod disgyblion yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly greu dinasyddion dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn nodi p'un a oes lleoliadau nas cynhelir yn yr awdurdod lleol, a ph'un a allai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi rhywfaint o sylw i sut bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. Mae llawer o blant yn mynychu 'Mes Bach' ar hyn o bryd, sef darpariaeth cylch chwarae ar safle'r ysgol a ddarperir gan Blynnyddoedd Cynnar Cymru. Bydd y plant hyn fel arfer yn trosglwyddo'n naturiol i Ysgol Gynradd Comins Coch. Nid yw'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth dda i'r effeithiau posibl ar ddarparwyd lleol, fel Mes Bach.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu nifer o risgiau ynghylch goblygiadau hyfforddi aelodau staff i safon a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent wedi mynegi pryder na fydd y cynllun Cymraeg sabothol efallai yn bodloni'r galw. Maent wedi nodi y bydd set medrau staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cyflwyno camau lliniaru addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n nodi y bydd yn ceisio sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â sut i ddiwallu'r angen posibl am gymorth ychwanegol fydd ei angen ar ddisgyblion ag ADY, efallai, pan fydd y Gymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran darpariaeth.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg na fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried sut bydd derbyn plant tair blwydd oed yn rhan-amser yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal. Mae'r adroddiad yn datgan bod 27 o leoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Rhydypennau ac nad yw'r data hwn ar gael ar gyfer Ysgol Gynradd Penrhyn-coch. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi faint o leoedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Comins Coch, p'un a oes lle ar gyfer y disgyblion hyn a sut gallai hyn effeithio ar yr ysgol yn gyffredinol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hyd at saith mlwydd oed. Maent wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cyn yr ymgynghoriad.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid i 0.5 athrawes feithrin CALI ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer cynlluniau sabothol a hyfforddiant penodol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau a darpariaeth yn rhannol. Mae wedi cynnwys datganiadau ar safonau yn y Gymraeg o arolygiad diweddar Estyn ym mis Mehefin 2023. Mae'r adran hon yn fanwl ac yn amlinellu safonau cyrhaeddiad presennol yn y Gymraeg yn glir. Fodd bynnag, prin y mae'n cyfeirio at effaith bosibl y cynnig ar safonau yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod dysgu sylfaen. Mae wedi nodi na ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi p'un a oes digon o ofod a darpariaeth awyr agored yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion plant tair blwydd oed.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi amlinellu gweithgareddau cydweithio rhwng

partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles.

Atodiad C

Rhybydd Statudol

Hysbysiad Statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin

Gan

**Gyngor Sir Ceredigion,
Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ceredigion, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid **Ysgol Gynradd Comins Coch, Comins Coch, Aberystwyth, SY23 3BQ** fel y bydd cyfrwng y cyfarwyddid yn y Dysgu Sylfaen yn Gymraeg a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk).

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2024**.

Bydd 28 o leoedd meithrin o fis Medi 2024. Byddai cynnig mynediad rhan

Statutory Notice to make a regulated alteration to a maintained community, foundation, voluntary or nursery school

By

**Ceredigion County Council,
Schools Service, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Bydd yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis, a fydd yn caniatáu i ddisgyblion gyfrannu at Gymru amlieithog.	Yn cytuno – mae bod yn gwbl ddwyieithog yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis.
Trochi yw'r unig ffordd o ddod yn rhugl ac mi fydd yn darparu cyfleoedd a sgiliau.	Nodwyd y sylw cefnogol
Mae hyn yn cefnogi diwylliant lleol ac yn annog dysgwyr i aros yn yr ardal.	Mae cadw pobl ifanc yn yr ardal yn flaenoriaeth sirol ac mae'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
Mae hyn yn cefnogi'r nodau o ran y Gymraeg.	Nodwyd y sylw cefnogol
Angen cyllid priodol er mwyn llwyddo.	Bydd cyllid ar ffurf grant y Gymraeg a chymorth wedi'i ddarparu gan Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei neilltuo i gefnogi'r cynnig.
Cymorth i rieni.	Bydd y gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni'n parhau fel rhan o'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd adnoddau'n dal i gael eu rhannu â rhieni drwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol.
Defnydd o ddulliau addysgu cyfoes ac eang, e.e. celfyddydau creadigol a mynegiannol.	Nodwyd y sylw
Dylai'r Cyngor ystyried llwybr dysgu Cymraeg o oedran cyn-ysgol i'r 6ed dosbarth gyda dysgu galwedigaethol.	Nodwyd y sylw
Ail-eirio ar gyfer pob plentyn meithrin / tair oed	Nodwyd y sylw
Cynnig ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mhenglais ac uned drochi hwyr yno.	Nodwyd yr awgrym
Cymorth ar gyfer yr ysgolion pontio hyn.	Bydd y cymorth yn barhaus a chyson yn unol â'r cynlluniau datblygu.
Cefnogaeth lwyr i'r cynllun.	Nodwyd y sylw cefnogol.
Ffigurau cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn dangos bod myfyrwyr sy'n	Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiddorol a nodwyd y ffeithiau.

medru'r Gymraeg ac wedi astudio trwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio trwy'r Gymraeg, a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg.	
Mae'r cynllun yn sicrhau tegwch ieithyddol	Nodwyd y sylw
Cam cychwynnol ddylai hwn fod a dylid ystyried symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm	Bydd dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.
Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn	Nodwyd y sylw cefnogol.
Mae llywodraethwyr Ysgol Gatholig Padarn Sant yn cefnogi'r cynnig i newid categori iaith y Cyfnod Sylfaen a chyflwyno darpariaeth feithrin ar gyfer plant 3 oed. Mi fyddai'r feithrinfa'n ased mawr ar gyfer ein hysgolion ac mi fyddai'n caniatáu i rai tair oed ddechrau cael eu trochi yn y Gymraeg ar oedran ifanc, a fyddai o fudd mawr o ran datblygu dwyieithrwydd ein disgyblion.	Nodwyd y sylw cefnogol

Sylwadau yn erbyn y cynnig.

Sylw a dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
<p>Pryderon am yr effaith negyddol ar hyfywedd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal plant sydd yn ei lle ac sy'n gwasanaethu teuluoedd a'r gymuned yn dda.</p> <p>Ni fydd y grŵp chwarae'n ariannol hyfyw bellach.</p> <p>Bydd angen addasu a chynyddu'r cymarebau staffio os bydd angen cludo plant rhwng y gofal dydd llawn, ond heb wybod pwy fydd yn cwrdd â'r costau ychwanegol hyn ein prif bryder yw bod bodolaeth y lleoliad gofal plant mewn perygl yn sgil y cynnig hwn.</p> <p>Mi allai rhoi gwasanaethau gofal plant ehangach dan bwysau er mwyn newid statws yr ysgol i un T2 arwain yn y pen draw</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod yna rai heriau o ran hyfywedd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal plant breifat bresennol. Byddwn yn cynnal gwaith dichonoldeb pellach i nodi'r opsiynau mwyaf effeithiol.</p>

<p>at ddiffyg gofal plant llwyr yn sgil model busnes anghynaliadwy.</p> <p>Effaith ar y gymuned – mae'n debygol iawn y bydd y grŵp chwarae'n cau, gan effeithio'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth gofal plant fforddiadwy sydd ar gael o 2 oed ar gyfer y gymuned leol, a golygu bod swyddi'n cael eu colli'n lleol. Heb blant 3 oed nid yw'r grŵp chwarae'n ariannol hyfyw.</p> <p>Sut fydd rhieni'n cael mynediad at ofal plant amgen? Mae nifer o'n rhieni heb drafnidiaeth ac ni fyddant yn gallu derbyn gofal plant amgen oherwydd y goblygiadau o ran cyllid a theithio.</p> <p>Fel elusen, mae Padarn Sant yn grŵp chwarae fforddiadwy ar gyfer plant o 2 oed i fyny, sy'n darparu ar gyfer rhieni sy'n methu fforddio busnesau gofal plant eraill yn y gymuned efallai.</p> <p>Mae grŵp chwarae Padarn Sant yn rhedeg clwb ar ôl ysgol ar safle'r ysgol. Mi fydd hwn yn cau mae'n siŵr os bydd y grŵp chwarae'n cau.</p>	
<p>Mae grŵp chwarae dwyieithog Padarn Sant yn gweithio tuag at wobwr Arian yr Addewid Cymraeg, sy'n cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg fel arwydd o ansawdd mewn perthynas â defnydd o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau gofal plant.</p>	<p>Mae'r sylw wedi'i gydnabod.</p>
<p>Gellid sicrhau dwyieithrwydd mewn partneriaeth â'r grŵp chwarae dwyieithog, a fyddai'n parhau i gynnig y ddarpariaeth addysg gynnar. Ac nid dyma'r unig ffordd y gall yr ysgol sicrhau statws T2.</p> <p>Awgrymir parhau i ganiatáu i grŵp chwarae dwyieithog Padarn Sant gynnig y ddarpariaeth addysg gynnar, a bod modd, gyda chymorth Blynyddoedd Cynnar Cymru, datblygu'r lleoliad a'i wydroi'n llwyr yn</p>	<p>Mae'r sylw wedi'i gydnabod.</p> <p>Mae'r categoreiddio wedi'i gymeradwyo'n llawn gan y penaethiaid a'r corff llywodraethu, a throchi hyd at 7 oed a ffafrir fel yr opsiwn mwyaf effeithiol.</p>

<p>wasanaeth Cymraeg os mai dyna yw dymuniad y gymuned a rhanddeiliaid y lleoliad. Byddai cymorth ar gael gan dîm Blynyddoedd Cynnar Cymru, a gellid gwneud yr un peth mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, megis gofal plant tu allan i oriau ysgol. Mae gennym dystiolaeth o'r dull hwn mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin o fewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, yn helpu lleoliadau i bontio o wasanaeth dwyieithog i wasanaeth trochi yn y Gymraeg. Byddai hyn yn lleihau'r pwysau ar gynaliadwyedd y lleoliad, yn sicrhau bod gwasanaethau cofleidiol ar gael o hyd i gynorthwyo teuluoedd gyda phlant o fewn blynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol gynradd, a gellid sicrhau o hyd bod yr ysgol yn ennill statws T2.</p>	
<p>Costau ychwanegol swyddi addysgu FTE 0.5 ar adeg o bwysau cynyddol ar gyllidebau awdurdodau lleol - ymddengys nad yw'r gost hon wedi cael ystyriaeth lawn yn y cynnig.</p>	<p>Bydd cost swydd 0.5 yn cael ei hystyried wrth bennu'r gyllideb ddirprwyedig yn unol â'r holl ysgolion eraill sy'n darparu addysg feithrin.</p>
<p>Mae'r effaith negyddol ar ofal cofleidiol a gwasanaethau gofal plant hŷn, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau i ymestyn Dechrau'n Deg oll yn gysylltiedig â chael gweithlu cynaliadwy a darparwyr gofal plant gwerthfawr.</p>	<p>Byddai'r cyllid ar gyfer gofal cofleidiol yn dal i gael ei ariannu gan Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Mi allai'r lleoliad elwa o ymestyn cynnig gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer rhai dwy oed, yn dibynnu ble maent yn byw.</p>
<p>Nid yw'n cyd-fynd ag egwyddorion ECPLC (Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar) ond mae'n cael gwared ag un trosglwyddiad ychwanegol yn ystod profiad dyddiol y plentyn, os bydd yn cael ei ddarparu yn yr ysgol dros y tymor hirach.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Prinder lle ar dir yr ysgol ac roeddem dan yr argraff y byddai hwn yn adeilad newydd. Nid yw'r grŵp chwarae yn rhan o'r ysgol, mae'n cael ei rentu'n annibynnol oddi ar landlord preifat ac felly ni fyddai'n gartref priodol ar gyfer y feithrinfa. Ymddengys bod y Cyngor Sir dan yr argraff ei fod yn rhan o'r ysgol.</p>	<p>Mae'r grŵp chwarae yn rhannu'r un safle â'r ysgol a chydabyddir ei fod yn ddarparwr annibynnol ac yn rhan o'r ysgol.</p>
<p>Mae'r Asesiad Effaith Statudol yn dweud bod Grŵp Chwarae Padarn Sant ar safle'r ysgol – nid yw hyn yn ffeithiol gywir</p>	<p>Gweler uchod.</p>

<p>oherwydd mae'r grŵp chwarae drws nesaf i'r ysgol, ond nid yw'n rhan o'r adeilad, ac mae ganddo gytundeb tenantiaeth â landlord preifat.</p> <p>Hygyrchedd ac ymarferoldeb adeilad ac ardal yr ysgol.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod rhai heriau'n gysylltiedig ag adeilad yr ysgol mewn perthynas ag ymestyn i gynnig darpariaeth feithrin. Byddwn yn ymgymryd â gwaith dichonoldeb pellach i nodi'r opsiynau mwyaf effeithiol.</p>
<p>Mae'r llywodraethwyr a minnau o'r farn ei bod hi'n hanfodol bod cyfleusterau meithrin digonol yn cael eu darparu, a bod arian yn cael ei ddyrannu i'r gyllideb i gyflogi lefel staffio rhesymol, sef athro 0.5 yn ogystal â chynorthwydd addysgu 0.5.</p>	<p>Byddai'r gyllideb ddirprwyedig yn cynnwys cyllid ar gyfer athro 0.5 yn ogystal â chyllid ar gyfer disgyblion meithrin sy'n mynychu'r lleoliad, yn unol â'r holl ysgolion eraill sy'n darparu addysg feithrin.</p>
<p>Ni fydd darparu athro meithrin 0.5 rhan-amser yn ddigonol i addysgu disgyblion meithrin – gyda'r gymhareb staffio, mi fydd angen cynorthwydd addysgu hefyd. Nid yw'r gost ychwanegol hon wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Ni ddylai'r gost yma ddod allan o gyllideb yr ysgol.</p>	<p>Gweler uchod. O fewn ystafell ddosbarth oedran cymysg, bydd ariannu swydd athro 0.5 FTE yn cynyddu capasiti, ac mae wedi'i nodi o fewn y cynnig fel cyllideb ddirprwyedig.</p>
<p>Sgiliau ieithyddol personol staff – mae'r athro dosbarth derbyn yn rhugl, ond byddai angen mwy o hyder a chymorth ar y gweddill. Efallai na fyddai hyd yn oed y posibilrwydd o gwrs Sabothol am un tymor yn golygu bod staff addysgu'n ddigon rhugl i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Staff cymorth ddim yn siarad Cymraeg a fawr ddim help gyda'r Gymraeg ar gael – dim ond gwersi hanner tymor heb gyllid digonol, un prynhawn yr wythnos. Mae'r ddwyawr yr wythnos bresennol ar gyfer athro blwyddyn 1/2 yn cyflenwi ar gyfer dwyawr o CALU yn unig. Nid yw'r cwrs Sabothol wedi'i ariannu a gynigir gan Lywodraeth Cymru'n cwrdd â chostau llawn athro profiadol, ac yn bendant ddim yn cwrdd â chostau CADY/Pennaeth</p>	<p>Yn unol â safonau proffesiynol mae'n ofynnol bod staff ysgol yn datblygu eu sgiliau ieithyddol eu hunain. Bydd cymorth drwy gyfrwng y cynllun Sabothol, a gwersi ychwanegol yn defnyddio'r arian grant sydd ar gael, yn parhau, i sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu'u hyder a'u hyfedredd i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Gweler uchod.</p>

Cynorthwyol, gan olygu y bydd yn rhaid i'r cyllid ddod o gyllideb ysgol dynn iawn.	
Mae'r holl adnoddau'n rhai cyfrwng Saesneg felly mi fyddai angen arian i brynu adnoddau newydd megis cynlluniau darllen.	Yn unol â'r categoraiddio, mae cyllid wedi'i ddarparu trwy gyfrwng y Grant Cymraeg mewn Addysg i brynu adnoddau. Bydd Tîm Datblygu'r Gymraeg yn cefnogi ymarferwyr ac yn darparu adnoddau o safon uchel, fel sydd wedi'i dreialu'n llwyddiannus a'i roi ar waith mewn lleoliad arall o fewn yr awdurdod.
Byddai safon yr addysg yn disgyn am na fyddai mwyafrif ein rhieni'n gallu helpu eu plant i gaffael sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg.	Ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid fod yn bryderus os na allant siarad Cymraeg gyda'u plant. Does dim angen iddyn nhw allu siarad Cymraeg er mwyn gallu anfon eu plant i addysg drochi/ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gall rhieni/gwarcheidwaid helpu eu plant i siarad a defnyddio'r iaith. Yr ysgol fydd eu pwynt cyswllt cyntaf o hyd mewn perthynas ag addysg barhaus eu plant. Dylai'r ysgol allu cynorthwyo neu gynghori'r rhieni/gwarcheidwaid ar y ffordd orau o helpu'u plant i gadw'u sgiliau Cymraeg. Os bydd rhieni/gwarcheidwaid yn annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ffrindiau, brodyr neu chwiorydd, neu aelodau eraill o'r teulu sy'n siarad Cymraeg, mi fydd hynny'n eu helpu i gadw'u sgiliau. Gall rhieni/gwarcheidwaid hefyd helpu eu plant drwy eu hannog i fynd i weithgareddau cyfrwng Cymraeg a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg, gwranddo ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg, a gall plant hŷn ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter yn Gymraeg. Y peth pwysig yw bod plant yn cael cysylltiad â'r iaith mor aml â phosib. Mae amryw o daflenni gwybodaeth, fideos ac adnoddau eraill ar gael i helpu disgyblion a rhieni. Gall rhieni/gwarcheidwaid gael mwy o wybodaeth a dolenni cyswllt i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn Gymraeg ar Hwb (Llywodraeth Cymru) ac ar wefan Cyngor Ceredigion. Hefyd, yng Ngheredigion mae yna dîm o staff penodol ac arbenigol yn

	cynorthwyo arweinwyr ysgolion, athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda'r gwaith o gyflenwi adnoddau o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith.
Rydym yn Ysgol Gatholig a byddem yn disgwyl bod Addysg Grefyddol yn cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg bob amser. A fyddai hynny'n dderbyniol?	Gyda'r model trochi, byddai cyfrwng yr addysgu yn Gymraeg yn bennaf. Fodd bynnag, byddai mynediad at wasanaethau ysgol cyfrwng Saesneg a chynnydd yn CA2 yn briodol trwy gyfrwng y Saesneg.
Lles staff – gorfodi nhw i ddysgu Cymraeg (mi all fod yna staff sydd ddim yn gallu dysgu ac felly ddim yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm yn Gymraeg). Beth yw'r cynlluniau ar gyfer yr aelodau staff hyn – a fyddan nhw'n cael eu diswyddo, gyda chost fawr? Byddai'n ddoeth i'r staff hyn drafod y mater gyda'u hundeb.	Nodwyd y sylwadau. Cyfrifoldeb yr unigolyn yw datblygu ei sgiliau Cymraeg, fel yr amlinellir yn y safonau proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi ymrwymo, trwy amryw o gynlluniau gwahanol, i gynorthwyo staff ar eu siwrnai tuag at ddwyieithrwydd.
<p>Dewis rhieni</p> <p>Cael gwared â'r opsiynau iddyn nhw gael eu haddysgu yn eu dewis iaith – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 30 – Diwylliant Lleiafrifol, iaith a Chrefydd "Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio'u hiaith, diwylliant a chrefydd eu hunain – hyd yn oed os nad ydy'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif bobl y wlad maent yn byw ynddi."</p> <p>Mae hawliau'r plentyn yn dweud bod gan blant yr hawl i gael eu haddysgu yn eu dewis iaith – beth oes mai Saesneg yw'r iaith honno?</p>	<p>Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael effaith gyfreithiol uniongyrchol ar gyfraith y DU mewn perthynas â hawliau dynol sydd wedi'u hamddiffyn dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Nid yw'r hawl i addysg yn Erthygl P1-2 yn cynnwys yr hawl i gael eich addysgu yn yr iaith a ddewisir gennych, dim hyd yn oed os mai'r iaith a ffefrir yw iaith gyntaf y plentyn. Mae'r hawl i addysg yn mynd cyn belled â sicrhau yr hawl i gael eich addysgu yn "un o'r ieithoedd cenedlaethol" yn unig, gyda'r Wladwriaeth â'r hawl i ddefnyddio'i disgresiwn yn gyffredinol os bernir bod yna fwy nag un "iaith genedlaethol" i ddewis ohonynt. Fel yr unig iaith gyda statws cenedlaethol yng Nghymru, mae'r Gymraeg, yn ddiamau, yn "iaith genedlaethol" yma yng Nghymru at y diben hwn. Felly, pan fydd gwlad, fel Cymru, yn darparu addysg, mae gan ddysgwyr yr hawl i gael eu haddysgu yn o leiaf un o ieithoedd cenedlaethol y wlad honno, ond does dim hawl cyfreithiol i fynnu addysg mewn iaith genedlaethol benodol. Lle bernir bod yna fwy nag un iaith genedlaethol, mae gan awdurdodau cyhoeddus, megis Ceredigion, ddisgresiwn cyffredinol o ran penderfynu pa un o'r ieithoedd cenedlaethol fydd y cyfrwng addysg o fewn rhanbarth neu ardal</p>

	<p>benodol. Nid yw dewisiadau ieithyddol, waeth pa mor gryf yw'r arddeliad, yn "argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol" at ddibenion Erthygl P1-2. Nid yw'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol yn Erthygl 8 o'r ECHR yn gynnwys yr hawl i gael addysg yn eich iaith gyntaf.</p>
<p>Effaith ar y gymuned leol ac ar y rhieni hynny sydd ar gytundebau tymor byr gyda'r ysbyty neu'r brifysgol – bydd hyn yn effeithio ar ffigurau CYBLD, gan arwain at ddiswyddo staff efallai.</p>	<p>Nid ydym yn cytuno bod unrhyw symudiad graddol tuag at fod yn gwbl ddwyieithog h.y. yn gallu i siarad Cymraeg a Saesneg yn mynd i atal unrhyw un rhag symud i Geredigion. Does dim rheidrwydd ar oedolion sy'n dod i fyw a gweithio yng Ngheredigion i siarad Cymraeg. Rydym yn gobeithio bod pobl yn gweld y budd a'r gwerth o allu siarad Cymraeg a Saesneg, os ydyn nhw'n penderfynu dod yma i fyw. Mae siarad dwy iaith (neu ragor) yn norm yn y rhan fwyaf o wledydd y byd. Yn ddiamau, byddai'r mwyafrif helaeth o bobl yn gweld gwerth yn y gymdeithas ddwyieithog ac amlieithog eithriadol sy'n bodoli yng Ngheredigion. Rydym yn derbyn nad yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol ond mae hynny'n wir am y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Nid ydym yn gweld pam y dylai'r ffactor honno fod yn rhwystr i ddisgyblion yng Ngheredigion a Chymru rhag datblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Nid y bwriad yw creu siaradwyr neu gymdeithas uniaith Gymraeg. Y nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu siarad Cymraeg a Saesneg.</p>
<p>Disgyblion gydag ADY</p>	<p>Does dim sail i'r honiad bod dysgu iaith yn cyfrannu at broblemau dysgu neu at ddyfodol sy'n brinnach o gyfleoedd. Mae tystiolaeth ryngwladol eang yn dangos bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion. Fodd bynnag, bydd pob dysgwr yn cael ei gynorthwyo'n unol â'i allu a'i anghenion.</p> <p>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi egwyddorion y Cod ADY ar waith fel y nodir isod, i sicrhau bod cymorth arbenigol yn</p>

	<p>cael ei gynllunio a'i ddarparu'n briodol i gwrdd ag anghenion y plentyn.</p> <p>Dyma egwyddorion sylfaenol y system ADY:</p> <p>(a) Gweithredu ar sail hawliau, gyda safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu berson ifanc yn ganolog wrth gynllunio a darparu cymorth; a chyda'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu berson ifanc yn cael eu galluogi i gyfrannu cymaint â phosibl i'r broses o wneud penderfyniadau, ac yn cael hawliau effeithiol i herio penderfyniadau ADY, y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a materion cysylltiedig.</p> <p>(b) Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar pan nodir anghenion, a sefydlu darpariaeth ar y cyfle cyntaf, a phryd bynnag y bo modd, gan roi ymyriadau ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.</p> <p>(c) Cydweithio ac integreiddio, gyda gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod ADY yn cael eu nodi'n gynnar, a bod cymorth priodol a chydlynol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu disgwyliadau a chael profiadau a deilliannau positif.</p> <p>d) Addysg gynhwysol, gyda mwyafrif y plant a phobl ifanc gydag ADY yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn mewn addysg prif ffrwd, gan ddefnyddio dulliau lleoliad cyfan i fodloni anghenion dysgwyr ADY.</p> <p>(e) System ddwyieithog gyda phob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gyflenwi DDdY yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth cyfrwng Cymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynnydd yn y DDdY cyfrwng Cymraeg dros amser.</p>
<p>Mae dosbarthiadau oedran cymysg a'r amserlen yn dangos y bydd un grŵp blwyddyn ar y tro yn dod yn rhan o'r cynllun hwn. Sut fyddwn ni'n addysgu disgyblion blwyddyn 1 sydd yn y dosbarth derbyn? Rydym wedi seilio'r cynllun ar ysgol fel Plascrug, heb ystyried yr ysgolion</p>	<p>Bwriad y cyllid dirprwyedig ar gyfer swydd 0.5 yw caniatáu hyblygrwydd i ysgolion i ddarparu grwpiau dysgu priodol o fewn dosbarthiadau oedran cymysg.</p>

<p>llai (sef y rhan fwyaf yn y grŵp T2 hwn) sydd â dosbarthiadau oedran cymysg.</p>	
<p>Cymuned amrywiol</p> <p>Mae nifer o'n teuluoedd ni'n ddwyieithog yn barod, ond nid gyda Chymraeg yn ail iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor Sir o'r farn y bydd hyn yn cael effaith positif ar amrywiaeth ac amlddiwylliannaeth. Ni fydd iaith yr addysgu'n cael unrhyw effaith negyddol ar ddathlu amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth ond yn hytrach, mi fydd yn atgyfnerthu ethos croesawgar cryf yr ysgol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Cydnabyddir bod dysgu dwy iaith yn gwneud hi'n haws dysgu mwy o ieithoedd. O fewn y Maes Dysgu ar gyfer ieithoedd o fewn y cwricwlwm, mae yna ffocws ar ieithoedd, a sut maen nhw'n ein cysylltu ni. Mae bod yn amlieithog o fudd gwybyddol a chymdeithasol.</p>

Ymateb Estyn

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Sir
<p>Eglurhad pellach ar effaith y cynllun o fewn meysydd megis addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.</p>	<p>Bydd yr effaith ar y meysydd a nodir yn cael ei fonitro fel rhan o brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae parhau i ddatblygu darpariaeth a safonau Cymraeg yr ysgol wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol.</p>
<p>Nid yw'r Cyngor yn nodi a oes yna leoliadau nas cynhelir yn yr ardal leol ai peidio, a ph'un ai y gallai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.</p>	<p>Ychwanegwyd atodiad at yr ymgynghoriad a oedd yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn a chafodd yr ymgynghoriad ei ymestyn am gyfnod o bythefnos.</p>
<p>Hyfforddiant staff</p>	<p>Mae cydweithio positif a chyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r CSCA gyda'r Cynllun Cymraeg Sabothol wedi golygu bod mwy o leoedd ar gael ar gyrsiau addas/gofynnol. Gwnaed defnydd effeithiol hefyd o grant Trochi LIC i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff cymorth.</p>
<p>Sut fydd y cymorth ychwanegol posib ar gyfer disgyblion gydag ADY yn cael ei ddarparu pan fydd Cymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran y ddarpariaeth.</p>	<p>Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY.</p> <p>-Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn</p>

	<p>oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog. - Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad. - Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen. - Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen.
<p>Nid yw'r cynnig wedi rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y grŵp chwarae sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, wrth i'r plant drosglwyddo i Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant ar gyfer eu haddysg gynnar.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod yna rai heriau gyda'r safle yn Ysgol Padarn Sant o ran ehangu i gynnig darpariaeth feithrin. Byddwn yn ymgymryd â gwaith dichonoldeb pellach i nodi'r opsiynau mwyaf effeithiol.</p>
<p>Nid yw'r cynnig yn nodi faint o leodedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant, p'un ai oes lle i'r disgyblion hyn, a sut allai hyn effeithio ar yr ysgol gyfan.</p>	<p>Gweler uchod. Fodd bynnag, bydd derbyn disgyblion oedran meithrin yn cynnal yr addysg yn yr ysgol ac yn sicrhau niferoedd disgyblion hyfyw. Mae hyn yn unol â nod Egwyddor Graidd 1.2.4 y ddogfen Egwyddorion Sicrhau Seilwaith Addysg Gynaliadwy (Cabinet, Mai 2023) sef 'parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai 3 oed mewn ysgolion fel bo'n briodol'. Bydd hyn, yn unol â'r ddogfen uchod, yn helpu i sicrhau dyfodol y ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal.</p>
<p>Does dim ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol i ryddhau staff ar gyfer cynlluniau Sabothol a hyfforddiant penodol.</p>	<p>Mae grant Cymraeg mewn Addysg wedi'i ddyrannu i bob ysgol T2, ochr yn ochr â defnydd o'r Grant Trochi i ryddhau staff a darparu hyfforddiant priodol. Telir y costau cyflenwi gan gynllun Sabothol LIC a darperir</p>

	cymorth dilynol gan Dîm Datblygu'r Gymraeg.
Nid yw'r cynnig yn nodi a oes gan yr ysgol ddigon o le a darpariaeth awyr agored i gwrdd ag anghenion disgyblion 3 oed.	Nodwyd y sylw. Mae'r ysgol eisoes yn amserlennu'r ardal awyr agored sydd ar gael ar gyfer amseroedd chwarae, ac yn gwneud y mwyaf o'r ardal sydd ar gael i helpu'r disgyblion ieuengaf i ddysgu yn yr awyr agored.

Cyngor Ysgol Padarn Sant (7)

1. Pawb yn deall y cynnig. Gofynnwyd ble byddai'r feithrinfa - trafodaeth ynghylch defnydd posib o'r Grŵp Chwarae, ond esboniwyd bod y grŵp chwarae ar wahân i'r ysgol. Arweinwyr ysgol i gytuno ar leoliad.
2. Dysgu Cymraeg yn beth da - ei defnyddio'n nes ymlaen mewn bywyd e.e. ar lefel TGAU ac ar gyfer gwaith. Os ydych chi'n symud i wledydd eraill, mae angen dysgu'r iaith, pwysig iawn dysgu'r iaith ble bynnag rydych chi'n byw. Haws dysgu iaith ar oedran cynnar, yna gallwch ddewis rhwng Penglais a Phenweddig. Mae dysgu Cymraeg yn rhoi mwy o ddewis ichi.
3. Gwersi Cymraeg a gwersi 10 munud bob dydd - Patrwm yr wythnos, Criw Cymraeg, Gwasanaeth Ysgol Cymraeg, cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - enillwyr cenedlaethol, dathlu Cymreictod drwy ddiwrnodau penodol, Diwrnod Shwmae Sumae, trefnu siop ffrwythau defnyddio'r Gymraeg. Tystysgrifau'r Gymraeg bob wythnos - yna cael mynd â Dewi'r Ddraig adre am yr wythnos.
4. Pawb yn cytuno ei bod hi'n fantais siarad Cymraeg e.e. cyfathrebu â chlaf yn ei iaith gyntaf os yn gweithio mewn ysbyty, deall pwysigrwydd dechrau sgwrs yn Gymraeg, e.e mewn siopau yn y dref.
5. Pawb yn cytuno ei fod yn gynnig da iawn a'i fod yn dda dysgu Cymraeg er mwyn cael mwy o ddewisiadau. Saesneg, Ffrangeg yn ieithoedd byd-eang, pwysig dysgu ieithoedd eraill fel Cymraeg.
Athrawon - beth am yr athrawon, cyrsiau i athrawon fagu hyder. Cyrsiau i helpu rhieni a staff i ddysgu Cymraeg.

Atodiad B

Ymateb Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed yn rhan-amser i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i roi sylwadau ar effaith y cynllun heb fwy o eglurhad mewn meysydd, fel effaith y cynnig ar addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi cynnig rhesymeg addas ar gyfer yr ymgynghoriad, gan amlinellu'r rhesymau i'r cynnig ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn yn rhan-amser. Maent hefyd wedi cyflwyno rhesymeg briodol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Nod yr amserlen yw galluogi staff yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn i adeiladu'n systematig ar gaffaeliad disgyblion o ran y Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu ystod o fanteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Prif fantais y cynnig hwn yw sicrhau mwy o degwch a chysondeb ieithyddol ledled y sir. Mae hefyd yn bodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fel bod disgyblion yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly greu dinasyddion dwyieithog. Mae darpariaeth Grŵp Chwarae Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant ar safle'r ysgol a ddarperir gan Blynnyddoedd Cynnar Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn nodi p'un a oes lleoliadau nas cynhelir yn yr awdurdod lleol, a ph'un a allai'r lleoliadau hyn gael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

Mae'r cynigydd wedi rhoi sylw addas i fanteision ac anfanteision y cynnig hwn a sut y bydd hyn yn effeithio ar y cyd-destun presennol. Maent wedi nodi y bydd yr ysgol yn gwneud defnydd llawn o gallu'r staff sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu nifer o risgiau ynghylch goblygiadau hyfforddi aelodau staff i safon a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent wedi mynegi pryder na fydd y cynllun Cymraeg sabothol efallai yn bodloni'r galw. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cyflwyno camau lliniaru addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n nodi y bydd yn ceisio sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â sut i ddiwallu'r angen posibl am gymorth ychwanegol fydd ei angen ar ddisgyblion ag ADY, efallai, pan fydd y Gymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran darpariaeth.

Nid yw'r cynigydd wedi cyfeirio at effaith ar ddarpariaeth y cylch chwarae a leolir yn yr ysgol wrth i blant drosglwyddo i Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant ar gyfer eu haddysg gynnar.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg na fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut bydd derbyn plant 3 blwydd oed yn rhan-amser yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal. Mae'r adroddiad yn datgan bod 52 o leoedd meithrin yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi faint o leoedd meithrin fydd yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padarn, p'un a oes lle ar gyfer y disgyblion hyn, a sut gallai hyn effeithio ar yr ysgol yn gyffredinol. Mae ffigurau CYBLD ym mis Ionawr 2023 yn nodi bod 138 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda chapasiti ar gyfer 135 o ddisgyblion. Bydd derbyn plant 3 blwydd oed hefyd yn mynd y tu hwnt i'r capasiti yn sylweddol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hyd at saith mlwydd oed. Maent wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cyn yr ymgynghoriad.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid i 0.5 athrawes feithrin CALI ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer cynlluniau sabothol a hyfforddiant penodol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau a darpariaeth yn rhannol. Mae wedi cynnwys datganiadau ar safonau yn y Gymraeg o arolygiad diweddar Estyn ym mis Mehefin 2023. Mae'r adran hon yn fanwl ac yn amlinellu safonau cyrhaeddiad presennol yn y Gymraeg yn glir. Fodd bynnag, prin y mae'n cyfeirio at effaith bosibl y cynnig ar safonau yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod dysgu sylfaen. Mae wedi nodi na ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi p'un a oes

digon o ofod a darpariaeth awyr agored yn yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion plant tair blwydd oed.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi amlinellu gweithgareddau cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles.

Atodiad C

Rhybydd Statudol

Hysbysiad Statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin

Gan

**Gyngor Sir Ceredigion,
Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Gyngor Sir Ceredigion, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid **Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant, Aberystwyth, SY23 1EZ** fel y bydd cyfrwng y cyfarwyddid yn y *Dysgu Sylfaen yn Gymraeg a derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser*. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynhaliodd Gyngor Sir Ceredigion gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Gyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk).

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2024**.

Statutory Notice to make a regulated alteration to a maintained community, foundation, voluntary or nursery school

By

**Ceredigion County Council,
Schools Service, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Notice is given in accordance with section 42 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Ceredigion County Council, having consulted such persons as required, proposes to alter **St Padarn's Catholic Primary School, Aberystwyth, SY23 1EZ** so that the language medium in the foundation learning is Welsh and to admit 3-year old pupils on a part time basis. The school is currently maintained by Ceredigion County Council.

Ceredigion County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response is available on Ceredigion County Council website (www.Ceredigion.gov.uk).

It is proposed to implement the proposal on **1 September 2024**

There will be 9 nursery places from September 2024. Offering access to education at 3 years of age on a part-

Bydd 9 o leoedd meithrin o fis Medi 2024. Byddai cynnig mynediad rhan amser i addysg yn 3 oed yn ehangu cyfleoedd caffael iaith disgyblion ac yn cyflwyno ecwiti darpariaeth mwy cyson o fewn yr ysgolion hynny sydd wedi eu pennu yn y categori Trosiannol 2.*

Prif nod y cynnig yw adeiladu ar y dilyniant ieithyddol cyfredol. Mae'r datblygiad yn golygu, erbyn Medi 2024, y byddai polisi addysg cyfrwng Cymraeg ar waith ar draws y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gatholig Padarn Sant.

Dyma'r amserlen weithredu:

Start date	School Year
Medi 2024	Derbyn disgyblion Meithrin rhan amser am y tro cyntaf
Medi 2025	Derbyn
Medi 2026	Blwyddyn 1
Medi 2027	Blwyddyn 2

Erbyn Medi 2028, byddai'r disgyblion Blwyddyn 3 yr ysgol â sail gadarn yn arbennig ar lafar a byddant yn medru adeiladu ar y sgiliau hynny tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **29 Mawrth 2024**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion,

time basis expands pupils' language attainment opportunities and provides a more equal and consistent provision within schools that have been placed in the T2 category. *

The main aim of the proposal is to build on the current linguistic progression. The development means that, by September 2024, there would be a Welsh medium education policy in place across the Foundation Learning at St Padarn's Catholic School.

The implementation timetable will be as follows:

Start date	School Year
Sept 2024	Admitting part time Nursery pupils for the first time
Sept 2025	Reception
Sept 2026	Year 1
Sept 2027	Year 2

By September 2028, the school's Year 3 pupils will have a sound foundation, especially orally, and will be able to build on those skills whilst also developing their skills and education through the medium of English.

Within a period of one 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say by **29 March 2024** any person may object to the proposals.

Objections should be sent to:
Corporate Lead Officer for Schools,
Ceredigion County Council, Schools Service, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23

<p>Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu ebostio: cysgapadarnsant@ceredigion.llyw.cymru</p> <p>Llofnodwyd:</p> <p>Clive Williams Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion Ar ran Cyngor Sir Ceredigion Dyddiad: 1 Mawrth 2024</p> <p>*https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf</p>	<p>3UE or email: wesppadarnsant@ceredigion.gov.uk</p> <p>Signed:</p> <p>Clive Williams Corporate Lead Officer for Schools For Ceredigion County Council Date: 1 March 2024</p> <p>9*https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf</p>
---	---

Atodiad D

Ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

From: [REDACTED]
Sent: 27 October 2023 13:13
To: Ceredigion language provision St Padarn
Subject: Consultation Response St Padarn's

Re: Consultation response for St Padarn's

[REDACTED] has read the consultation proposal to move early education into the school at St Padarn's Roman Catholic Primary School. We are concerned that this proposal will, over time if not immediately, have a negative impact on the viability and sustainability of the childcare provision that is in place and serves the families and communities well.

As noted in the consultation, and in the impact assessment, there is evidence to demonstrate that in addition to the Active Offer for Welsh language, St Padarn's bilingual playgroup are proactively engaged in developing increased use of Welsh. This is underpinned by the setting already achieving the Bronze Award in the Welsh Promise and embarking upon their journey towards achieving the Silver Award. The Welsh Promise has been endorsed by the Welsh Language Commissioner as a quality indicator for the use of Welsh throughout the childcare services.

Noting the current situation as outlined in section 5 of the consultation process, it is agreed that there is currently no nursery provision in the school. However, it is not agreed that creating this is the only way to teach Welsh language during early education, and 'ensuring bilingualism'. We believe this could be achieved in partnership with the bilingual playgroup remaining as the provider of the early education entitlement. Nor is it the only way the school can achieve T2 status.

The negative impact on the bilingual playgroup is already noted on page 5 of the supplementary information, where the sustainability of the setting is aligned to the funding received for early education. Given this point, and the point that staffing ratios will need to be adjusted upwards should children need to transition between the full daycare but with no indication of who will meet the additional costs for this, our primary concern is that the very existence of the childcare setting is compromised by this proposal.

Additional costs for education will be incurred by the creation of a 0.5 FTE teaching post. At a time when there are increased budgetary pressures on all local authority budgets this cost does not seem to have been considered in fullness in the proposal. If the early education service is removed from St Padarn's Bilingual Playgroup, staffing levels will be reviewed, and this may ultimately mean there are no available staff to provide any transition from school to the setting to provide the wraparound care that families need. The option to run both services in parallel providing additional choice seems surplus to the needs of the community, based on the 19 places being deemed sufficient to meet the needs of the local community. Placing wider childcare services under pressure to advantage the school's transition to T2 status could ultimately lead to the removal of any childcare due to an unsustainable business model. This would negatively impact the wider family community in Ceredigion, as wraparound and older childcare services, plus any expansion plans for Flying Start are all linked to having a sustainable and valued workforce and providers of childcare.

In line with the Welsh Government's Early Childhood Play, Learning, and Care (ECPLC) principles, our alternative suggestion would be to continue to allow St Padarn's bilingual playgroup to offer the early education entitlement. Building on the good progress demonstrated in the use of Welsh (outlined above), and the engagement of the staff team to embed Welsh language skills in practice, we suggest that with the support of Early Years Wales, and wider partners, the setting has the potential to transition towards Welsh language for the early education session. This could be developed to a full transition to Welsh services should this be a direction of travel the community and stakeholders in the setting desire. This would be supported by Early Years Wales' Welsh language team and can be mirrored in other parts of the service such as out of school hours childcare. We have evidence of successfully

Tudalen 350

working with this approach in partnership with Mudiad Meithrin in other local authority areas; helping settings transition from bilingual to immersive Welsh practice.


This approach limits the pressures on the setting's sustainability, ensures the continued availability of wraparound services to support the families with children in both early years, and in the primary school, and can still ensure that the school can achieve T2 status. This is not only in line with ECPLC principles but removes one additional transition in the daily experience of the child should all early education be provided within the school in the longer term. It supports an existing workforce in their own development of Welsh and their individual contributions to the 1 million Welsh speakers in Wales and avoids double funding the early education phase that is outlined in the plan.

Finally, just for clarity, St Padarn's are members of Early Years Wales. As such, they have the full support of the organisation, and the access to all resources and support staff. Prior to 2020, this would have been by purchase of a membership. However, since 2020, no fee has been charged to the setting in support of the sustainability of a vulnerable sector during both Covid-19 and the 'cost of living' challenges that arose from 2023/24. The fee for 2023/24 has been covered by our internal reserves providing some sustainability support to all our members.

Any views expressed in this email are those of the sender and may not be those of [REDACTED]. If you are not the intended recipient of this message, please advise the sender and delete.

Mae unrhyw safbwyntiau a fynegir yn yr e-bost hwn yn dod gan yr anfonwr ac nid o reidrwydd gan [REDACTED]. Os nad chi yw derbynnydd bwriadedig y negis hon, yna rhowch wybod I'r anfonwr a'i dileu.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Cyngor Sir Ceredigion

ar y

Cynnig i ddiwygio cyfrwng Iaith Dysgu Sylfaen y 5 ysgol a ganlyn; Ysgol Gynradd Cei Newydd, Ysgol Gynradd Comins Coch, Ysgol Gynradd Plascrug, Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant a newid oed derbyn disgyblion i gynnwys disgyblion 3 oed rhan amser mewn 3 o'r ysgolion hynny, sef Ysgol Cei Newydd, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Gatholig Padarn Sant.

15 Tachwedd 2023

1. Dymuna [redacted] diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Cyngor Sir Ceredigion.

Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru..

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi

"Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd."

(Tudalen3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>)

2. Sylweddolwn faint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr G21ain ac yn wir y mae Sir fel Ceredigion yn cynnig her ychwanegol gyda'i natur ddaearyddol faith a gwledig. Y mae [redacted] wedi ein calonogi gan awydd y Sir i drawsnewid addysg yn y blynyddoedd cynnar i gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Ceredigion i fwy o blant a da yw gweld bod y sir wedi cychwyn gweithredu yn

gynnar yn y cylch newydd er mwyn sicrhau gwreiddu'r uchelgais hon cyn gynted ag y bo modd.

3. Yn hytrach nag ymateb i ymgynghoriad pob ysgol yn unigol, cyfeirir ein hymateb at bob ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan fod pob un wedi eu nodi fel ysgolion Categori Trosiannol 2, gyda bwriad i gyfrwng dysgu bob un symud y dysgu Sylfaen i'r Gymraeg yn raddol fesul blwyddyn.
4. Mae sicrhau profiad trochi ieithyddol gyflawn i ddisgyblion yn hanfodol wrth iddynt gaffael iaith sydd nid o reidrwydd yn iaith y cartref. Mae bod mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu a'r hamdden, yn cynyddu'r cyfleoedd hynny'n sylweddol i sicrhau profiad trochi llawn a dwy iaith o leiaf o oedran cynnar iawn. Mae'r cynnig hwn felly'n gam allweddol i sicrhau gwell cyfleoedd i fwy o blant y sir gaffael y Gymraeg a'r Saesneg o oed cynnar.
5. Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddsbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddwn o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfywedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod o staff cynorthwyol i fuddion y cynlluniau hefyd?
6. Mae gan y weithred o ymgynghori'r cyfrifoldeb i fesur yr effaith ar nifer o wahanol agweddau yn cynnwys y Gymraeg a hyn ar gychwyn y broses o ymgynghori. Rhaid i Awdurdod Lleol ddangos eu bod yn llwyr ymwybodol o'r effeithiau o weithredu cynllun a fydd yn cael effaith ar gynlluniau addysg Gymraeg ac yn wir ar y gymuned ehangach. Yr ydym yn gweld bod y sir wedi creu astudiaethau effaith gofalus a thrwyadl. Tybed a fyddai cyfeiriad wedi gallu bod at fewnfudwyr a'r gefnogaeth ieithyddol ar eu cyfer hwy yn rhan o'r asesu effaith hwn fel bod cynllun clir ar sut y gellid cefnogi pawb a ddaw i fyw i'r cymunedau hyn yn y strwythurau newydd.
7. Rhaid i ni bwysleisio bod newid wedi bod yn ysbryd y CSCAU ers y weithdrefn newydd. Nid system o ymateb i'r galw am addysg Gymraeg dylai fod mwyach ond creu'r galw a symbylu twf. Rhaid i hyn ddigwydd mewn modd rhagweithiol gyda chynllunio bwriadus yn amlwg. Yn achos Ceredigion, rydych yn gwneud gosodiad cadarn am gyfrwng iaith addysg y sir yn yr ysgolion hyn ac ar y daith i wireddu'ch dyhead i bob plentyn gael y cyfle gorau i gaffael dwy iaith o leiaf. Mae hyn i'w ganmol yn fawr.
8. Byddai wedi bod o fudd i weld pa ddarpariaethau gofal plant neu gylchoedd meithrin a'u cyfrwng sydd yn nalgylch pob ysgol. Gwyddwn fod darpariaeth gofal cyn ysgol a'r gallu i deuluoedd dderbyn gofal coffleidiol yn hanfodol i ddewis rhieni. Mae hygyrchedd darpariaeth Gymraeg di-dor, a'r llwybr yr un mor glir i addysg Gymraeg yn hanfodol.

9. Byddai wedi bod yn dda hefyd i weld y cyfleoedd sydd ar gael i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg petai rhieni'n dymuno hynny. Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer trochwyr hwyr neu fewnfudwyr?
10. Pa gefnogaeth a roddir i ddisgyblion Cymraeg fel iaith ychwanegol (WAL) sydd yn dod i'r gymuned heb y Gymraeg a'r Saesneg?
11. Nodir yn adran 2.1 Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru:

Yr egwyddor o beidio a symud yn ôl


Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'n dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Pa gefnogaeth fydd ar gael i ysgolion i sicrhau hyn, i gynnal hyn ac yn fwy na hynny i gefnogi symud pellach ar hyn y continwwm i ysgolion petai corff llyworaethol yn dymuno hyn i'r ysgol? Wrth sefydlu sail ieithyddol gadarn i ysgol, y mae'r momentwm i ddysgu mwy yn debygol o ddatblygu'n naturiol. Pa gymorth ffurfiol fydd ar gael i'r ysgolion hyn fwrw ati felly?

Cytunwn felly gyda'r cynnig i'r newid hwn ym mhob un o'r ysgolion a ymgynghorir arnynt gan edrych ymlaen at sicrhau bod y daith drosiannol yn un sydd yn y pendraw yn sicrhau deilliannau ieithyddol cwbl ddwyieithog o leiaf i blant yr ysgolion hyn ac yn wir i holl blant Ceredigion yn y pendraw.

Byddwn yn barod i drafod ein hymateb gyda swyddogion a chynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion ar unrhyw amser cyfleus fel arfer.

Yn ddiffuant,

- Yn ogystal, yn ôl polisïau Llywodraeth Cymru mae angen newid darpariaeth addysg i fod yn gyfrwng Cymraeg fel rhan o gyfraniad y sir at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Er bod Ceredigion ymhlith y siroedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg mae'r tri Chyfrifiad diwethaf wedi dangos cwymp yn niferoedd a chanran siaradwyr y sir.
- Gan mai 3% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Plascrug sy'n siarad Cymraeg gartref, yr ysgol fydd unig gyswllt nifer o blant yr ardal a'u rhieni â'r Gymraeg. Mae addysg Gymraeg yn hanfodol yn yr ardal er mwyn creu siaradwyr Cymraeg.
- Byddai newid iaith y ddarpariaeth hyd at flwyddyn 2 yn gam cychwynnol pwysig tuag at hyn gyrraedd polisïau Llywodraeth Cymru a rhoi'r Gymraeg i holl blant y sir.
- Er hynny, mae'n bwysig nodi mai cam cychwynnol ddylai hyn fod a'n bod yn disgwyl symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwrm hefyd.
- Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau bod ein bod ifanc yn gadael yr ysgol yn siarad y Gymraeg yn hyderus. Bydd addysg cyfrwng Gymraeg hyd at flwyddyn 2 yn sail dda i adeiladu arno felly, ond er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg mae angen i blant barhau i dderbyn addysg Gymraeg.
- Mae angen newid cyfrwng addysg yr holl ysgol er mwyn galluogi disgyblion i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae Ysgol Gynradd Plascrug yn un o dair ysgol Saesneg sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd. Mae ardal Aberystwyth yn eithriad o fewn Ceredigion am fod cymaint o ddisgyblion yn cael eu hamddifadu o addysg cyfrwng Cymraeg.

- Nid yn unig y byddai newid iaith Ysgol Gynradd Plascrug ac ysgolion cynradd Saesneg eraill yn eu cyfanrwydd yn rhoi'r Gymraeg i ragor o blant y sir, byddai hefyd o fudd i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nes ymlaen yn y system addysg. Mae cynnal dwy ysgol uwchradd yn yr un dref mewn sir sy'n lleihau mewn poblogaeth yn anghynnaladwy.
- Ffocws y mae, mae nifer y disgyblion yn creu her ariannol a gweithredol i Ysgol Penweddig ac yn golygu bod llai o ystod o bynciau ar gael i ddisgyblion Ysgol Penweddig nag sydd ar gael i ddisgyblion Ysgol Penglais.

Felly mae [REDACTED] yn cefnogi'r cynigion yn gryf ac am weld polisiau'n cael eu llunio'n fuan i gefnogi dilyniant a sicrhau bod disgyblion yn hyderus i barhau a'u haddysg trwy'r Gymraeg hyd at 18 oed. Yn benodol, dylid sicrhau bod blynyddyn 3-6 Ysgol Plascrug yn gyfrwng Cymraeg o fewn 3 blynedd o gyflwyno'r newidiadau a newid Ysgol Penglais yn gyfrwng Cymraeg, tra'n gwella'r cynnig Cymraeg yn Ysgol Penweddig, o fewn 7 mlynedd o gyflwyno'r newidiadau am y bydd pob ysgol sy'n eu bwydo yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

[REDACTED]
1achwedd 2023

Z

[REDACTED]

From: [REDACTED]
Sent: 16 November 2023 11:26
To: Ceredigion language provision Plascrug
Subject: Ymateb i'r Ymgynghoriad

[REDACTED]

Annwyl Gyfeillion,
Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Carwn ddatgan fy mod yn aelod o Fforwm CSCA Ceredigion ac yn mynychu'r Fforwm fel cynrychiolydd o Brifysgol Aberystwyth. Nid yw'r ymateb hwn yn ddatganiad ar ran y Brifysgol.

Rwy'n gefnogol dros ben i'r cynnig.

Mae dogfennau'r ymgynghoriad wedi eu gosod allan yn glir ac maent yn delio'n dda gyda materion ymarferol sydd ynghlwm â newid o'r fath.

Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn. Cadarn iawn hefyd yw'r rhesymeg o ran y cynnig fel rhan o amcanion CSCA Ceredigion sydd ei hun yn cefnogi nodau Llwyodaeth Cymru wrth gyflwyno'r Cwricwlwm newydd a Strategaeth Cymraeg 2050.


Yn gywir,

[REDACTED]

Y Brifysgol orau yn y DU am Ansawdd ei Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr
Best University in the UK for Teaching Quality and Student Experience
(The Times and Sunday Times, Good University Guide 2021)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.



**Ymateb Rhieni Dros Addysg Gymraeg i ymgynghoriad
Cyngor Sir Ceredigion**

ar y

Cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith Dysgu Sylfaen y 5 ysgol a ganlyn; Ysgol Gynradd Cei Newydd, Ysgol Gynradd Comins Coch, Ysgol Gynradd Plascrug, Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant a newid oed derbyn disgyblion i gynnwys disgyblion 3 oed rhan amser mewn 3 o'r ysgolion hynny, sef Ysgol Cei Newydd, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Gatholig Padarn Sant.

15 Tachwedd 2023

1. Dymuna [REDACTED] ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Cyngor Sir Ceredigion.

Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru..

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi

"Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd."

(Tudalen3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>)

2. Sylweddolwn faint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr G21ain ac yn wir y mae Sir fel Ceredigion yn cynnig her ychwanegol gyda'i natur ddaearyddol faith a gwledig. Y mae [REDACTED] wedi ein calonogi gan awydd y Sir i drawsnewid addysg yn y blynyddoedd cynnar i gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Ceredigion i fwy o blant a da yw gweld bod y sir wedi cychwyn gweithredu yn

- gynnar yn y cylch newydd er mwyn sicrhau gwirddu'r uchelgais hon cyn gynted ag y bo modd.
3. Yn hytrach nag ymateb i ymgynghoriad pob ysgol yn unigol, cyfeirir ein hymateb at bob ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan fod pob un wedi eu nodi fel ysgolion Categori Trosiannol 2, gyda'r bwriad i gyfrwng dysgu bob un symud y dysgu Sylfaen i'r Gymraeg yn raddol fesul blwyddyn.
 4. Mae sicrhau profiad trochi ieithyddol gyflawn i ddisgyblion yn hanfodol wrth iddynt gaffael iaith sydd nid o reidrwydd yn iaith y cartref. Mae bod mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu a'r hamdden, yn cynyddu'r cyfleoedd hynny'n sylweddol i sicrhau profiad trochi llawn a dwy iaith o leiaf o oedran cynnar iawn. Mae'r cynnig hwn felly'n gam allweddol i sicrhau gwell cyfleoedd i fwy o blant y sir gaffael y Gymraeg a'r Saesneg o oed cynnar.
 5. Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddosbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddwn o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfwedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod o staff cynorthwyol i fuddion y cynlluniau hefyd?
 6. Mae gan y weithred o ymgynghori'r cyfrifoldeb i fesur yr effaith ar nifer o wahanol agweddau yn cynnwys y Gymraeg a hyn ar gychwyn y broses o ymgynghori. Rhaid i Awdurdod Lleol ddangos eu bod yn llwyr ymwybodol o'r effeithiau o weithredu cynllun a fydd yn cael effaith ar gynlluniau addysg Gymraeg ac yn wir ar y gymuned ehangach. Yr ydym yn gweld bod y sir wedi creu astudiaethau effaith gofalus a thrwyadl. Tybed a fyddai cyfeiriad wedi gallu bod at fewnfudwyr a'r gefnogaeth ieithyddol ar eu cyfer hwy yn rhan o'r asesu effaith hwn fel bod cynllun clir ar sut y gellid cefnogi pawb a ddaw i fyw i'r cymunedau hyn yn y strwythurau newydd.
 7. Rhaid i ni bwysleisio bod newid wedi bod yn ysbryd y CSCAU ers y weithdrefn newydd. Nid system o ymateb i'r galw am addysg Gymraeg dylai fod mwyach ond creu'r galw a symblu twf. Rhaid i hyn ddigwydd mewn modd rhagweithiol gyda chynllunio bwriadus yn amlwg. Yn achos Ceredigion, rydych yn gwneud gosodiad cadarn am gyfrwng iaith addysg y sir yn yr ysgolion hyn ac ar y daith i wireddu'ch dyhead i bob plentyn gael y cyfle gorau i gaffael dwy iaith o leiaf. Mae hyn i'w ganmol yn fawr.
 8. Byddai wedi bod o fudd i weld pa ddarpariaethau gofal plant neu gylchoedd meithrin a'u cyfrwng sydd yn nalgylch pob ysgol. Gwyddwn fod darpariaeth gofal cyn ysgol a'r gallu i deuluoedd dderbyn gofal cofleidiol yn hanfodol i ddewis rhieni. Mae hygyrchedd darpariaeth Gymraeg di-dor, a'r llwybr yr un mor glir i addysg Gymraeg yn hanfodol.

9. Byddai wedi bod yn dda hefyd i weld y cyfleoedd sydd ar gael i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg petai rhieni'n dymuno hynny. Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer trochwyr hwyr neu fewnfudwyr?
10. Pa gefnogaeth a roddir i ddisgyblion Cymraeg fel iaith ychwanegol (WAL) sydd yn dod i'r gymuned heb y Gymraeg a'r Saesneg?
11. Nodir yn adran 2.1 Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru:

Yr egwyddor o beidio a symud yn ôl


Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'n dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Pa gefnogaeth fydd ar gael i ysgolion i sicrhau hyn, i gynnal hyn ac yn fwy na hynny i gefnogi symud pellach ar hyn y continwwm i ysgolion petai corff llyworaethol yn dymuno hyn i'r ysgol? Wrth sefydlu sail ieithyddol gadarn i ysgol, y mae'r momentwm i ddysgu mwy yn debygol o ddatblygu'n naturiol. Pa gymorth ffurfiol fydd ar gael i'r ysgolion hyn fwrw ati felly?

Cytunwn felly gyda'r cynnig i'r newid hwn ym mhob un o'r ysgolion a ymgynghorir arnynt gan edrych ymlaen at sicrhau bod y daith drosiannol yn un sydd yn y pendraw yn sicrhau deilliannau ieithyddol cwbl ddwyieithog o leiaf i blant yr ysgolion hyn ac yn wir i holl blant Ceredigion yn y pendraw.

Byddwn yn barod i drafod ein hymateb gyda swyddogion a chynghorwyr Cyngor Sir Ceredigion ar unrhyw amser cyfleus fel arfer.

Yn ddiffuant,



**Ymateb [REDACTED] i'r
ymgyngoriad ynglyn a chyfrwng iaith
Plas Crug, Padarn Sant a Llwyn yr Eos**

Mae [REDACTED] yn croesawu'r
cynllun ar sail y canlynol.

- Trochi i blant dan 7 oed yw'r unig ffordd i sicrhau rhuglder, a bydd yn rhoi'r cyfleoedd, y sgiliau a'r hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.
- Bydd yn cefnogi'r diwylliant lleol
- Bydd yn rhoi'r cychwyn gorau i blant a bydd yn caniatáu iddynt aros yn yr ardal
- Bydd yn cefnogi nodau iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru

Codwyd cwestiynau ynghylch darpariaeth fwy cyfyngedig y cynllun y tu hwnt i saith oed a gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Mae angen ariannu'r cynllun yn iawn i gefnogi athrawon ac ysgolion
- Dylai rhieni a disgyblion gael eu cefnogi trwy fentrau fel clybiau gwaith cartref ac ati
- Mae angen i'r addysgu fod yn gyfoes gan ddefnyddio pob cyfrwng gan gynnwys y celfyddydau creadigol.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol mae'n hanfodol bod llwybr dysgu Cymraeg gwarantedig yn ymestyn o'r sylfaen i'r chweched dosbarth a dysgu galwedigaethol ar draws y sir.

Argymhellir bod Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysg uwch a hyfforddiant athrawon, megis Prifysgol Aberystwyth a PCYDDS i:

- **lobïo Llywodraeth Cymru i gymell astudio cyrsiau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- gweithio gyda phrifysgolion i gymell myfyrwyr i fyw ac addysgu yn y sir.

Canlyniad 1: cryfhau'r geiriad fel bod pob plentyn meithrin/tair oed ...

Canlyniad 2: cryfhau'r geiriad fel bod pob derbyniad ...

**[REDACTED] response to
the consultation regarding the language
medium of Plas Crug, St Padarn and
Llwyn yr Eos**

The [REDACTED] comes the plan based on the following:

- Immersion for under 7s is the only way to achieve fluency, and it will provide them with the opportunities, skills and confidence to use Welsh.
- It will support the local culture
- It will give children the best start and will allow them to stay in the area
- It will support Welsh Government's Welsh language goals

Questions were raised about the plan's more limited provision beyond the age of seven and the following observations were made:

- The plan needs to be properly funded to support teachers and schools
- Parents and pupils should be supported via initiatives such as homework clubs etc
- Teaching needs to be contemporary using all mediums including the creative arts.

As we look to the future it is essential that there is a guaranteed Welsh language learning pathway extending from foundation through to sixth form and vocational learning across the county.

It is recommended that Ceredigion County Council work closely with higher education and teacher training institutions, such as Prifysgol Aberystwyth and UWTSD to:

- lobby the Welsh government to incentivise the study of teaching courses through the medium of Welsh.
- work with universities to incentivise students to live and teach in the county.

Outcome 1: strengthen the wording so that all nursery/three-year-old ...

Outcome 2: strengthen the wording so that all reception ...

Mae trochi llawn yn ifanc yn ffactor allweddol wrth ddatblygu hyder a rhuglder dwyieithog.

Wrth i'r cyfnodau meithrin symud ymlaen ar y llwybr, dylai cyfleoedd dysgu Cymraeg cael eu gwarantu a'u hannog yn frwd. Gellir annog canu a sesiynau diwylliannol eraill hefyd.

Canlyniad 4: rhaid i Gyngor Sir Ceredigion edrych yn ofalus ar argaeledd llwybrau dysgu Cymraeg i fyfyrwyr. Mae angen buddsoddiad rhagweladwy parhaus a chadarn ac ymrwymiad i lwybr yr iaith Gymraeg i sicrhau bod ysgolion a'r ALI yn gallu cydweithredu'n effeithiol i ddatblygu'r llwybrau Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr.

Canlyniad 5: Partneriaeth rhwng ysgolion i alluogi rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac athrawon. Gall hyn wella bywyd ysgol i bawb sy'n gysylltiedig a galluogi datblygiad mwy o ddefnydd iaith y tu allan i'r dosbarth. Byddai datblygu'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â nodau Canlyniad 5 yn ddymunol.

Gallai datblygiad partneriaeth rhwng ysgolion gael ei gydlynu gan swyddog dynodedig a all ddod yn gyfrwng ar gyfer cynllunio strategol ymhlith ysgolion. Gellir annog sesiynau canu a diwylliannol hefyd i gyflawni Canlyniad 5. Gall cydweithredu rhwng ysgolion ddyfnhau dros amser i ddatblygu canolfannau dysgu sy'n addysgu sgiliau megis celf, drama, cerddoriaeth, coginio, ac ati fel ffurf o drochi iaith.

Canlyniad 6: Mae datblygiad strategol sgiliau staff yn hollbwysig yma; mae angen ystyried a gweithredu'r haen ddwbl o hyfedredd Cymraeg, a deall yr heriau o addysgu myfyrwyr ag ADY, yn ofalus. Gall defnyddio ymchwil a thechnegau cyfredol alluogi addysg fwy cadarn i fyfyrwyr ag ADY.

Canlyniad 7: yn hanfodol i lwyddiant y cyfnod pontio. Dylid nodi bod cyllid a chefnogaeth yn hanfodol i ddarparu lefelau staffio digonol. Mae'n hysbys bod staff cymwys yn gadael y sector oherwydd diffyg cefnogaeth a rhaid ystyried hyn o ddirif. Mae camau wedi eu hamlinellu uchod hefyd i gyflawni canlyniad 7.

Full immersion at an early age is a key factor in developing bi-lingual confidence and fluency.

As nursery stages progress on the pathway, Welsh language learning opportunities are guaranteed and actively encouraged. Singing and other cultural sessions can also be encouraged.

Outcome 4: Ceredigion CC must look closely at the availability of Welsh language learning pathways for students. Continued and concrete predictable investment and commitment to the Welsh language pathway is required to ensure schools and the LA can cooperate effectively to develop the Welsh language pathways available to students.

Outcome 5: Partnership between schools to enable interactions of students and teachers. This can improve school life for all involved and enable greater development of out-of-class language use. Development of the new curriculum in tandem with the goals of outcome 5 is desired.

Inter-school partnership development could be co-ordinated by a designated officer who can become a conduit for strategic planning among schools. Singing and cultural sessions can also be encouraged to achieve Outcome 5. Inter-school co-operation can deepen over time to develop centres of learning that teach skills such as art, drama, music, cookery, etc. as a form of language immersion.

Outcome 6: Strategic development of staff skills is crucial here; the double layer of Welsh proficiency, and understanding the challenges of teaching students with ALN, requires careful consideration and implementation. Utilising current research and techniques can enable a more robust education for students with ALN.

Outcome 7: is vital to the success of the transition. It should be noted that funding and support is essential to provide adequate staffing levels. It is known that staff who are qualified are leaving the sector due to lack of support and this must be seriously considered. There are also

	steps outlined above to achieving outcome 7.
--	---

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Adroddiad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos

Pwrpas yr adroddiad: Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a chymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 15 Medi 2023 a 17 Tachwedd 2023 ynghylch y cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y Dysgu Sylfaen.

Derbyniwyd cyfanswm o 6 ymateb yn ystod yr ymgynghoriad, ac roedd pob un o'r rhain yn cefnogi'r cynnig.

Yn dilyn cyhoeddi'r dogfennau statudol, mae adroddiad yr ymgynghoriad ynghlwm sy'n cynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol ar ffurf eglurhad o'r pryderon a godwyd gyda rhesymau ategol.
- Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad.
- Ymateb yr Awdurdod Lleol i adroddiad Estyn.

Atodiad A

Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol

Atodiad B

Ymateb Estyn i'r cynnig

Atodiad C

Hysbysiad Statudol

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, yna mae'n rhaid ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac mae'n rhaid i bawb sydd eisiau gwrthwynebu cynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion gael cyfle i wneud hynny, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu mewn e-bost a'u hanfon i'r Awdurdod Lleol cyn pen cyfnod o 28 diwrnod a fydd yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.

Atodiad D

Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.

Cwblhawyd Asesiadau Effaith ar y Gymuned, yr Iaith Gymraeg, a Chydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad statudol- [asesiadau-effaith-statudol-llwyn-yr-eos.pdf](https://www.ceredigion.gov.uk/asesiadau-effaith-statudol-llwyn-yr-eos.pdf) ([ceredigion.gov.uk](https://www.ceredigion.gov.uk))

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg yn y gymuned a sicrhau bod gan y gymuned ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Rhoi cyfle i ddisgyblion gyfrannu tuag at y targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Cydweithio: Cynhaliwyd trafodaethau â'r Corff Llywodraethol wrth ddatblygu'r cynnig. Gwneir y penderfyniad terfynol gan y Cabinet. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys llawer o ymgysylltu a chyswllt gyda disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned.

Cynnwys: Bu'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol a oedd yn cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.

Atal: Ymatebir i bryderon a godir drwy ymgysylltu clir a pharhaus â rhanddeiliaid a phartneriaid drwy gydol y cyfnod cynllunio ac ymgynghori.

Integreiddio: Mae'r Gymraeg yn ganolog i waith Cyngor Sir Ceredigion a'i amcanion strategol. Mae integreiddio cymunedol yn ganolog i bob ysgol, gan greu amgylchedd sy'n cefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Rhagwelir na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol.

Argymhelliad / Argymhellion:

Gofynnir i'r Aelodau ystyried y canlynol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.
2. Cymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Er mwyn cymeradwyo'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a chyhoeddi'r hysbysiad statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion – 011/2018

Trosolwg a Chraffu:

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu – 30 Mawrth 2023

Fframwaith Polisi:

Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru – 011/2018

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2022 -2032

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Amherthnasol

Goblygiadau Cyfreithiol:

Amherthnasol

Goblygiadau Staffio:

Amherthnasol

Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:

Amherthnasol

Risg(iau):

Methu â chyflawni canlyniadau CYSGA 2022-32 os na chaiff y cynnig ei gymeradwyo.

Pwerau Statudol:

Cod Trefniadaeth Ysgolion – Cod Statudol Llywodraeth Cymru– 011/2018

Papurau Cefndir:

Amherthnasol

Atodiadau:

Atodiad A – Adroddiad yr ymgynghoriad gan gynnwys safbwyntiau'r Cyngor Ysgol

Atodiad B – Ymateb Estyn i'r cynnig

Atodiad C – Hysbysiad Statudol

Atodiad D – Yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

Swyddog Adrodd:

Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

Dyddiad:

9 Ionawr 2024

Atodiad A

Adroddiad Ymgynghori sy'n cynnwys y sylwadau a fynegwyd gan y Cyngor Ysgol

Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Ymgynghoriad Ysgol Llwyn yr Eos.

Sylwadau o blaid

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor Sir
Bydd y newid yn cynyddu medrau dwyieithog disgyblion ac yn sicrhau cyfleoedd ehangach iddynt yn y dyfodol.	Nodwyd y sylw cefnogol
Bydd yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis, a fydd yn caniatáu i ddisgyblion gyfrannu at Gymru amlieithog.	Yn cytuno – mae bod yn gwbl ddwyieithog yn cynyddu dewis yn hytrach na lleihau dewis.
Trochi yw'r unig ffordd o ddod yn rhugl ac mi fydd yn darparu cyfleoedd a sgiliau.	Nodwyd y sylw cefnogol
Mae hyn yn cefnogi diwylliant lleol ac yn annog dysgwyr i aros yn yr ardal.	Mae cadw pobl ifanc yn yr ardal yn flaenoriaeth sirol ac mae'n cydfynd â Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-2027 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.
Mae hyn yn cefnogi'r nodau o ran y Gymraeg.	Nodwyd y sylw cefnogol
Angen cyllid priodol er mwyn llwyddo.	Bydd cyllid ar ffurf grant y Gymraeg a chymorth wedi'i ddarparu gan Athrawon Datblygu'r Gymraeg yn cael ei neilltuo i gefnogi'r cynnig.
Cymorth i rieni.	Bydd y gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni'n parhau fel rhan o'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd adnoddau'n dal i gael eu rhannu â rhieni drwy blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan yr ysgol.
Defnydd o ddulliau addysgu cyfoes ac eang, e.e. celfyddydau creadigol a mynegiannol.	Nodwyd y sylw
Dylai'r Cyngor ystyried llwybr dysgu Cymraeg o oedran cyn-ysgol i'r 6ed dosbarth gyda dysgu galwedigaethol.	Nodwyd y sylw
Ail-eirio ar gyfer pob plentyn meithrin / tair oed	Nodwyd y sylw
Cynnig ffrwd cyfrwng Cymraeg ym Mhenglais ac uned drochi hwyr yno.	Nodwyd yr awgrym
Cymorth ar gyfer yr ysgolion pontio hyn.	Bydd y cymorth yn barhaus a chyson yn unol â'r cynlluniau datblygu.
Cefnogaeth lwyr i'r cynllun.	Nodwyd y sylw cefnogol.

Ffigurau cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio trwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio trwy'r Gymraeg, a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg.	Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiddorol a nodwyd y ffeithiau.
Mae'r cynllun yn sicrhau tegwch ieithyddol	Nodwyd y sylw
Cam cychwynnol ddylai hwn fod a dylid ystyried symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm	Bydd dilyniant ieithyddol yn flaenoriaeth wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.
Mae'r achos o safbwynt cefnogi datblygiad ieithyddol ac addysgiadol disgyblion y dyfodol yn un hollol gadarn	Nodwyd y sylw cefnogol.

Sylwadau yn erbyn y cynnig – ni dderbyniwyd unrhyw rai

Ymateb Estyn

Sylw a Dderbyniwyd	Ymateb y Sir
Eglurhad pellach ar effaith y cynllun o fewn meysydd megis addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.	Bydd yr effaith ar y meysydd a nodir yn cael ei fonitro fel rhan o brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol. Mae parhau i ddatblygu darpariaeth a safonau Cymraeg yr ysgol wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol.
Hyfforddiant staff	Mae cydweithio positif a chyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r CSCA gyda'r Cynllun Cymraeg Sabothol wedi golygu bod mwy o leoedd ar gael ar gyrsiau addas/gofynnol. Gwnaed defnydd effeithiol hefyd o grant Trochi LIC i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff cymorth.
Sut fydd y cymorth ychwanegol posib ar gyfer disgyblion gydag ADY yn cael ei ddarparu pan fydd Cymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran y ddarpariaeth.	Mae'r sir wedi ymrwymo i sicrhau na fydd hyn yn broblem drwy ei chynllun datblygu ADY. -Cynllunio plentyn-ganolog ar waith a byddwn yn cynllunio i gwrdd ag anghenion y disgybl unigol. Mae gweithredu ADY o 0-

	<p>25 yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar, cyn oed ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynllunio darpariaeth ac ymyrraeth briodol cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol. Bydd modd hyfforddi ac uwch-sgilio staff cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none">- Pob adnodd cefnogi ADY yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog (Canolfan Athrawon, hyfforddiant, rhaglenni ymyrraeth, llawlyfr, templedi, ac adnoddau cyfathrebu). Felly bydd pob adnodd cefnogi ar gael yn ddwyieithog.- Mi fydd ALTE lefel 3 ac uwch yn ofynnol ar gyfer pob penodiad newydd. Os nad yw hyn yn bosibl mi fydd yn rhaid cael ymrwymiad i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o'r penodiad.- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob aelod staff yn dilyn eu penodiad, yn ôl yr angen.- Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant gloywi iaith pellach i fireinio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol yn ôl yr angen.
--	--

Nodiadau sgyrsiau efo Cyngorau Ysgol am y cynnig newid cyfrwng Iaith x 5 a derbyn disgyblion 3 oed mewn 3 ysgol.

Llwyn yr Eos (10)

1. Esboniodd LIJ a MS pam fod y cynnig wedi'i wneud - fel bod plant yn gallu dod yn ddwyieithog - fwy o siawns o allu siarad Cymraeg - helpu i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, esboniwyd beth yw trochi - pawb yn deall y cynnig.
2. Bron pawb - 8/10 yn cytuno ei fod yn bwysig.
3. Cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg - yn cael eu hannog i siarad Cymraeg yn ystod y dydd. Siaradwyr Cymraeg yr wythnos, dathlu diwrnodau Cymraeg, e.e. shwmae sumae, dysgu Cymraeg mewn gwersi.
4. Dywedodd 7/10 y byddent yn hoffi parhau i fyw yng Ngheredigion. Yn fantais gallu siarad Cymraeg i gael swydd e.e. ym maes gofal iechyd - gallu siarad â'r cleifion yn eu mamiaith.
5. Bron pawb yn hapus gyda'r cynnig. Pam miliwn o siaradwyr Cymraeg? - LIC am gael mwy o siaradwyr Cymraeg a phobl ddwyieithog .

Atodiad B

Ymateb Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Llwyn Yr Eos

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o wybodaeth i roi sylwadau ar effaith y cynllun heb fwy o eglurhad mewn meysydd, fel effaith y cynnig ar addysgu, safonau disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi cynnig rhesymeg addas ar gyfer yr ymgynghoriad, gan amlinellu'r rhesymau i'r cynnig ddiwygio cyfrwng iaith dysgu sylfaen a derbyn plant 3 blwydd oed i Ysgol Gynradd Llwyn Yr Eos yn rhan-amser. Maent hefyd wedi cyflwyno rhesymeg briodol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu disgrifiad priodol o fanwl o'r cynnig ac amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Nod yr amserlen yw galluogi staff yn Ysgol Gynradd Llwyn yr eos i adeiladu'n systematig ar gaffaeliad disgyblion o ran y Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu ystod o fanteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Prif fantais y cynnig hwn yw sicrhau mwy o degwch a chysondeb ieithyddol ledled y sir. Mae hefyd yn bodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru fel bod disgyblion yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan felly greu dinasyddion dwyieithog.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi sylw i sut bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y sefyllfa bresennol. Mae wedi nodi y bydd set medrau llawer o staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio'n llawn. Mae Ysgol Gynradd Llwyn Yr Eos yn rhan o gampws integredig lle darperir gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg gan 'Ffrindiau Bach yr Eos'.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu nifer o risgiau ynghylch goblygiadau hyfforddi aelodau staff i safon a fydd yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent wedi mynegi pryder na fydd y cynllun Cymraeg sabothol efallai yn

bodloni'r galw. Maent wedi nodi y bydd set medrau staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio'n llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cyflwyno camau lliniaru addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod yn fwy heriol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n nodi y bydd yn ceisio sicrhau bod pob cam ymarferol yn cael ei gymryd i sicrhau cyn lleied o darfu ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â sut i ddiwallu'r angen posibl am gymorth ychwanegol fydd ei angen ar ddisgyblion ag ADY, efallai, pan fydd y Gymraeg yn dod yn iaith gyfartal o ran darpariaeth.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n deg na fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion hyd at saith mlwydd oed. Maent wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cyn yr ymgynghoriad. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid i 0.5 athrawes feithrin CALI ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes ymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer cynlluniau sabothol a hyfforddiant penodol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd a safonau a darpariaeth yn rhannol. Mae wedi cynnwys datganiadau ar safonau yn y Gymraeg o arolygiad diweddar Estyn ym mis Mehefin 2023. Mae'r adran hon yn fanwl ac yn amlinellu safonau cyrhaeddiad presennol yn y Gymraeg yn glir. Fodd bynnag, prin y mae'n cyfeirio at effaith bosibl y cynnig ar safonau yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod dysgu sylfaen. Mae wedi nodi na ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu gallu i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth glir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi amlinellu gweithgareddau cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid ac wedi tanlinellu pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles.

Atodiad C

Rhybydd Statudol

Hysbysiad Statudol i wneud newid a reoleiddir i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin

Gan

**Gyngor Sir Ceredigion,
Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ceredigion, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid **Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos, Penparcau, Abersywyth, SY23 1SH** fel y bydd cyfrwng y cyfarwyddid yn y *Dysgu Sylfaen yn Gymraeg*. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk).

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2024**.

Bydd y cynnig yn ehangu cyfleoedd caffael Iaith disgyblion ac yn cyflwyno ecwiti darpariaeth mwy cyson o fewn yr

Statutory Notice to make a regulated alteration to a maintained community, foundation, voluntary or nursery school

By

**Ceredigion County Council,
Schools Service, Canolfan
Rheidol, Rhodfa Padarn,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23
3UE**

Notice is given in accordance with section 42 of the School Standards and Organisation Act 2013 and the School Organisation Code that Ceredigion County Council, having consulted such persons as required, proposes to alter **Llwyn yr Eos Primary School, Penparcau, Aberystwyth, SY23 1SH** so that the language medium in the foundation learning is Welsh. The school is currently maintained by Ceredigion County Council.

Ceredigion County Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and Estyn's full response is available on Ceredigion County Council website (www.Ceredigion.gov.uk).

It is proposed to implement the proposal on **1 September 2024**.

The proposal will expand pupils' language attainment opportunities and provides a more equal and consistent

ysgolion hynny sydd wedi eu pennu yn y categori Trosiannol 2*.

Prif nod y cynnig yw adeiladu ar y dilyniant ieithyddol cyfredol. Mae'r datblygiad yn golygu, erbyn Medi 2024, y byddai polisi addysg cyfrwng Cymraeg ar waith ar draws y Dysgu Sylfaen yn Ysgol Llwyn yr Eos.

Dyma'r amserlen weithredu:

Dyddiad cychwyn	Blwyddyn Ysgol
Medi 2024	Meithrin
Medi 2025	Derbyn
Medi 2026	Blwyddyn 1
Medi 2027	Blwyddyn 2

Erbyn Medi 2028, byddai'r disgyblion Blwyddyn 3 yr ysgol â sail gadarn yn arbennig ar lafar a byddant yn medru adeiladu ar y sgiliau hynny tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **29 Mawrth 2024**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion, Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Ysgolion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE neu ebostio: cysgallwynyreos@ceredigion.llyw.cymru

Llofnodwyd:

Clive Williams

provision within schools that have been placed in the T2 category*.

The main aim of the proposal is to build on the current linguistic progression. The development means that, by September 2024, there would be a Welsh medium education policy in place across the Foundation Learning at Llwyn yr Eos School.

The implementation timetable will be as follows:

Start date	School Year
September 2024	Nursery
September 2025	Reception
September 2026	Year 1
September 2027	Year 2

By September 2028, the school's Year 3 pupils will have a sound foundation, especially orally, and will be able to build on those skills whilst also developing their skills and education through the medium of English.

Within a period of one 28 days of the date on which the proposal was published, that is to say by **29 March 2024** any person may object to the proposals.

Objections should be sent to: Corporate Lead Officer for Schools, Ceredigion County Council, Schools Service, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE or email: wesplwynyreos@ceredigion.gov.uk

Signed:

Clive Williams

<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion Ar ran Cyngor Sir Ceredigion Dyddiad: 1 Mawrth 2024</p> <p>*https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf</p>	<p>Corporate Lead Officer for Schools For Ceredigion County Council Date: 1 March 2024</p> <p>*https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf</p>
--	--

Atodiad D

Ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

From: [Redacted]
Sent: 17 November 2023 15:15
To: Ceredigion language provision Llwyny-Yr-Eos
Subject: Ymgynghoriad ar ad-drefnu addysg yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos

CONTACT: 01234 567890 Dydych chi ddim yn cael negeseuon e-bost g [Redacted] [ysgu pam bod hyn yn bwysig](#)

Annwyl Syr / Madam

Carwn i nodi fy mod i'n cefnogi'r cynlluniau i gynnig addysg Gymraeg i ddisgyblion 3-7 oed yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos. Mae'n ddatblygiad pwysig a fydd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Drwy gydweithio â'r Coleg Gymraeg, mae Prifysgol Aberystwyth wedi ehangu ei darpariaeth Gymraeg yn helaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau cyflogadwyedd yn dangos bod myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ac wedi astudio yn Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn gwaith lefel raddedig neu astudiaethau ôl-raddedig 6 mis ar ôl graddio na myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond heb astudio drwy'r Gymraeg a myfyrwyr sydd ddim yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydym ni wedi gweld datblygiadau tebyg mewn addysg Gymraeg yn y sector addysg orfodol yn lleol ac nid oes modd i ganran sylweddol o fyfyrwyr sy'n dod inni o ysgolion Ceredigion fanteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r datblygiad hwn yn gam yn y cyfeiriad iawn wrth sicrhau bod bob person ifanc yng Ngheredigion yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Gymraeg o'r cyfnod meithrin i'r brifysgol a thu hwnt.

Cofion gorau,


[Redacted]


[Redacted]

[Redacted] 


[Redacted]

[Redacted]

 Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg

 Please write to me in Welsh or English

[Redacted]



Yn [redacted] gyngoriad ar ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaen a derbyn yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos

Mae [redacted] yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

Mae [redacted] croesawu'r cynnig i newid cyfrwng iaith lefel 1 Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos i'r Gymraeg. Mae hyn yn bwysig iawn am y rhesymau canlynol:


Mae [redacted] yn croesawu'r cynnig i newid cyfrwng iaith lefel 1 i'r Gymraeg. Mae hyn yn bwysig iawn am y rhesymau canlynol:

- Addysg Gymraeg yw'r unig ffordd o greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar hyn o bryd mae plant yn Ysgol Gynradd Placrug yn colli cyfleoedd o beidio derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mater o degwch yw hyn.
- Yn ogystal, yn ôl polisiau Llywodraeth Cymru mae angen newid darpariaeth addysg i fod yn gyfrwng Cymraeg fel rhan o gyfraniad y sir at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Er bod Ceredigion ymhlith y siroedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg mae'r tri Chyfrifiad diwethaf wedi dangos cwmp yn niferoedd a chanran siaradwyr y sir.
- Gan mai 3% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Cei Newydd sy'n siarad Cymraeg gartref, yr ysgol fydd unig gyswllt nifer o blant yr ardal a'u rhieni â'r Gymraeg. Mae addysg Gymraeg yn hanfodol yn yr ardal er mwyn creu siaradwyr Cymraeg.
- Byddai newid iaith y ddarpariaeth hyd at flwyddyn 2 yn gam cychwynnol pwysig tuag at hyn gyrraedd polisiau Llywodraeth Cymru a rhoi'r Gymraeg i holl blant y sir.
- Er hynny, mae'n bwysig nodi mai cam cychwynnol ddylai hyn fod a'n bod yn disgwyl symud gweddill yr ysgol ar hyd y continwwm hefyd.
- Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau bod ein bod ifanc yn gadael yr ysgol yn siarad y Gymraeg yn hyderus. Bydd addysg cyfrwng Gymraeg hyd at flwyddyn 2 yn sail dda i adeiladu arno felly, ond er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg mae angen i blant barhau i dderbyn addysg Gymraeg.
- Mae angen newid cyfrwng addysg yr holl ysgol er mwyn galluogi disgyblion i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos yn un o dair ysgol Saesneg sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd. Mae ardal Aberystwyth yn eithriad o fewn Ceredigion am fod cymaint o ddisgyblion yn cael eu hamddifadu o addysg cyfrwng Cymraeg.

- Nid yn unig y byddai newid iaith Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac ysgolion cynradd Sâesneg eraill yn eu cyfanrwydd yn rhoi'r Gymraeg i ragor o blant y sir, byddai hefyd o fudd i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nes ymlaen yn y system addysg. Mae cynnal dwy ysgol uwchradd yn yr un dref mewn sir sy'n lleihau mewn poblogaeth yn anghynaliadwy.
- Fel ag y mae, mae nifer y disgyblion yn creu her ariannol a gweithredol i Ysgol Penweddig ac yn golygu bod llai o ystod o bynciau ar gael i ddisgyblion Ysgol Penweddig nag sydd ar gael i ddisgyblion Ysgol Penglais.

Felly mae [REDACTED] yn cefnogi'r cynnigion yn gryf ac am weld polisiau'n cael eu llunio'n fuan i gefnogi dilyniant a sicrhau bod disgyblion yn hyderus i barhau a'u haddysg trwy'r Gymraeg hyd at 18 oed. Yn benodol, dylid sicrhau bod blwyddyn 3-6 Ysgo Llwyn yr Eos yn gyfrwng Cymraeg o fewn 3 blynedd o gyflwyno'r newidiadau a newid Ysgol Penglais yn gyfrwng Cymraeg, tra'n gwella'r cynnig Cymraeg yn Ysgol Penweddig, o fewn 7 mlynedd o gyflwyno'r newidiadau am y bydd pob ysgol sy'n eu bwydo yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

[REDACTED]
Tachwedd 2023



Cyngor Sir Ceredigion

ar y

Cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith Dysgu Sylfaen y 5 ysgol a ganlyn; Ysgol Gynradd Cei Newydd, Ysgol Gynradd Comins Coch, Ysgol Gynradd Plascrug, Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos ac Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant a newid oed derbyn disgyblion i gynnwys disgyblion 3 oed rhan amser mewn 3 o'r ysgolion hynny, sef Ysgol Cei Newydd, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Gatholig Padarn Sant.

15 Tachwedd 2023

1. Dymuna [redacted] diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Cyngor Sir Ceredigion.

Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru..

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi

"Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd."

(Tudalen3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>)

2. Sylweddolwn faint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr G21ain ac yn wir y mae Sir fel Ceredigion yn cynnig her ychwanegol gyda'i natur ddaearyddol faith a gwledig. Y mae [redacted] wedi ein calonogi gan awydd y Sir i drawsnewid addysg yn y blynyddoedd cynnar i gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Ceredigion i fwy o blant a da yw gweld bod y sir wedi cychwyn gweithredu yn

gynnar yn y cylch newydd er mwyn sicrhau gwireddu'r uchelgais hon cyn gynted ag y bo modd.

3. Yn hytrach nag ymateb i ymgynghoriad pob ysgol yn unigol, cyfeirir ein hymateb at bob ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan fod pob un wedi eu nodi fel ysgolion Categori Trosiannol 2, gyda'r bwriad i gyfrwng dysgu bob un symud y dysgu Sylfaen i'r Gymraeg yn raddol fesul blwyddyn.
4. Mae sicrhau profiad trochi ieithyddol gyflawn i ddisgyblion yn hanfodol wrth iddynt gaffael iaith sydd nid o reidrwydd yn iaith y cartref. Mae bod mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu a'r hamdden, yn cynyddu'r cyfleoedd hynny'n sylweddol i sicrhau profiad trochi llawn a dwy iaith o leiaf o oedran cynnar iawn. Mae'r cynnig hwn felly'n gam allweddol i sicrhau gwell cyfleoedd i fwy o blant y sir gaffael y Gymraeg a'r Saesneg o oed cynnar.
5. Yn yr ysgolion hynny lle cynigir ychwanegiad o ddosbarth meithrin, gallwn ond canmol y cam hwn. Gwyddwn o brofiad ar draws Cymru bod cychwyn ein plant yn gynnar yn yr ysgol yn rhoi'r sail ieithyddol orau iddynt ac y mae taith at ddwyieithrwydd, ac i nifer, amlieithrwydd, tipyn yn haws yn ifanc iawn. Y mae ychwanegu dosbarth meithrin hefyd yn cynorthwyo hyfywedd y dosbarth derbyn ac yn ei sgil yr ysgol gyfan, gan fod y dosbarth meithrin yn bwydo'r derbyn yn naturiol. Yn ieithyddol, dyma yw cryfder mwyaf cychwyn yn y dosbarth meithrin, mae'r dilyniant yn naturiol i'r plentyn ac yn wir o fantais i rieni/gofalwyr i ymgartrefu mewn cymuned ysgol yn gynharach. Tybed a oes angen ffactora cynorthwydd dysgu i'r gyllideb ar gyfer yr ysgolion hyn ond ffactora hefyd yr un aelod o staff cynorthwyol i fuddion y cynlluniau hefyd?
6. Mae gan y weithred o ymgynghori'r cyfrifoldeb i fesur yr effaith ar nifer o wahanol agweddau yn cynnwys y Gymraeg a hyn ar gychwyn y broses o ymgynghori. Rhaid i Awdurdod Lleol ddangos eu bod yn llwyr ymwybodol o'r effeithiau o weithredu cynllun a fydd yn cael effaith ar gynlluniau addysg Gymraeg ac yn wir ar y gymuned ehangach. Yr ydym yn gweld bod y sir wedi creu astudiaethau effaith gofalus a thrwyadl. Tybed a fyddai cyfeiriad wedi gallu bod at fewnfudwyr a'r gefnogaeth ieithyddol ar eu cyfer hwy yn rhan o'r asesu effaith hwn fel bod cynllun dir ar sut y gellid cefnogi pawb a ddaw i fyw i'r cymunedau hyn yn y strwythurau newydd.
7. Rhaid i ni bwysleisio bod newid wedi bod yn ysbryd y CSCAu ers y weithdrefn newydd. Nid system o ymateb i'r galw am addysg Gymraeg dylai fod mwyach ond creu'r galw a symbylu twf. Rhaid i hyn ddigwydd mewn modd rhagweithiol gyda chynllunio bwriadus yn amlwg. Yn achos Ceredigion, rydych yn gwneud gosodiad cadarn am gyfrwng iaith addysg y sir yn yr ysgolion hyn ac ar y daith i wireddu'ch dyhead i bob plentyn gael y cyfle gorau i gaffael dwy iaith o leiaf. Mae hyn i'w ganmol yn fawr.
8. Byddai wedi bod o fudd i weld pa ddarpariaethau gofal plant neu gylchoedd meithrin a'u cyfrwng sydd yn nalgylch pob ysgol. Gwyddwn fod darpariaeth gofal cyn ysgol a'r gallu i deuluoedd dderbyn gofal cofleidiol yn hanfodol i ddewis rhieni. Mae hygyrchedd darpariaeth Gymraeg di-dor, a'r llwybr yr un mor glir i addysg Gymraeg yn hanfodol.

9. Byddai wedi bod yn dda hefyd i weld y cyfleoedd sydd ar gael i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg petai rhieni'n dymuno hynny. Pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer trochwyr hwyr neu fewnfudwyr?
<p>RHEOLWR CORFFORAETHOL PARTNERIAETHAU A RHEOLWR PERFFORMIAD, RHEOLWR PERFFORMIAD AC YMCHWIL A SWYDDOG PERFFORMIAD A GWELLA CORFFORAETHOL</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydlynu gweithgareddau rheoli risg ar draws y Cyngor. • Adrodd ar weithgaredd rheoli risg i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Perfformiad Polisi a Gwarchod y Cyhoedd. • Cynnal cofrestr risg corfforaethol a chysylltu â Swyddogion Arweiniol Corfforaethol mewn perthynas â risgiau gwasanaeth. • Trefnu hyfforddiant rheoli risg i swyddogion ac aelodau, sy'n briodol i'w hanghenion a'u cyfrifoldebau. • Darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen. • Adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg yn ôl yr angen.

Tudalen 494

<p>SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yn gyfrifol am reoli risgiau o fewn eu rheolaeth er mwyn diogelu eu gweithwyr a chleientiaid, diogelu asedau a chadw a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion trwy sicrhau bod amcanion datganedig y Cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. • Sicrhau bod rheoli risg a pharhad busnes yn cael eu gwreiddio ar bob lefel o fewn eu maes cyfrifoldeb. • Sefydlu a chynnal Cofrestr Risg Gwasanaeth ar gyfer Teifi. • Datblygu cynlluniau gweithredu mewn perthynas â risgiau strategol corfforaethol fel y maent yn berthnasol i'w maes a chofnodi'r rhain yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth perthnasol. • Adolygu addasrwydd cynlluniau a mentrau Rheoli Risg a gwneud argymhellion ar y rhain i'r Grŵp Arweiniol. • Sicrhau bod risgiau sy'n cael eu hadnabod fel rhai o bwys i'r Cyngor cyfan yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol. • Annog argaeledd a rhannu gwybodaeth risg ar draws y Cyngor. • Rhannu profiad ar risg, rheoli risg a gweithredu strategaeth rheoli risg ar draws y Cyngor. • Yn gyfrifol am dderbyn Risg o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu o Gofrestr Risg Tîm. • Yn gyfrifol am argymhell uwchgyfeirio Risg i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu ddad-ddwysáu neu gymeradwyo archifo risg. • Adolygu risgiau gwasanaeth mewn cyfarfodydd Rheolwr Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn rheolaidd. • Rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cyllid am unrhyw newidiadau sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth sy'n debygol o godi os daw risg i'r amlwg i'w alluogi i sicrhau bod yswiriant a mesurau ariannu priodol a digonol yn eu lle.
<p>RHEOLWYR CORFFORAETHOL</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol ar bob lefel ym mhob maes gwasanaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth penodol. • Parhau i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Tîm a'u diweddarau'n rheolaidd (o leiaf bob chwarter). • Sicrhau bod risgiau sy'n cael eu hadnabod fel rhai arwyddocaol i'r Gwasanaeth / Cyngor cyfan yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol. • Sicrhau bod rheoli risg yn gysylltiedig â Chynlluniau Gwasanaeth, prosiectau ayb. a chymhwysio rheolaeth risg i'r risgiau hynny y mae angen gweithredu pellach arnynt, yn enwedig datblygiadau newydd a gwaith "prosiect". • Deall a chynnal ymwybyddiaeth o reoli risg, egwyddorion a chymryd cyfrifoldeb am reoli risg yn eu hamgylchedd gwaith eu hunain. • Bod yn ymwybodol o asesiadau risg presennol sy'n ymwneud â'u maes gwaith a gweithdrefnau neu fesurau rheoli perthnasol i'w mabwysiadu er mwyn lleihau risgiau a nodwyd.
<p>GWEITHWYR</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dwyn i sylw eu rheolwr llinell unrhyw faterion y maent yn credu eu bod yn risg i gyflenwi gwasanaethau'n llwyddiannus neu i

Tudalen 495

	<p>gyflawni amcanion y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyfrannu at nodi, asesu a rheoli risgiau lle bynnag y bo modd.
ARCHWILIAD MEWNOL	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol ar berfformiad y sefydliad i'r Fframwaith Rheoli Risg, digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli risg a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
ARCHWILIAD ALLANOL	<ul style="list-style-type: none">• Archwilio Cymru yw Archwilwyr Allanol y Cyngor ac maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn cyfrannu at y sicrwydd ar Reoli Risg a ddarperir.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cyngor Sir Ceredigion: Fframwaith Rheoli Risg



Tachwedd 2023

TUDALEN:

- 01** CYFLWYNIAD
- 01** CEFNDIR
- 01** DULL RHEOLI RISG
- 02** METHODOLEG
- 03** ADNABOD RISG
- 05** DADANSODDIAD RISG
- 09** TRINIAETH RISG
- 10** CWBLHAU Y GOFRESTR
- 14** ADOLYGU, MONITRO AC ADRODD RISG
- 16** ATODIAD 1: MEINI PRAWF ASESU AR GYFER
CATEGORïAU PESTLE
- 17** ATODIAD 2: MEINI PRAWF ASESU RISG AR GYFER
TEBYGOLIAETH DIGWYDDIAD YN
DIGWYDD
- 18** ATODIAD 3: MEINI PRAWF ASESU RISG AR GYFER YR
EFFAITH Y FYDDAI DIGWYDDIAD YN EI
GAEL
- 20** ATODIAD 4: LEFELAU RISG
- 21** ATODIAD 5: TEMPLED CYNNIG RISG

RHEOLI'R DOGFEN:

Awdur:	Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad) Alison Hodgson (Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol)
Dyddiad:	20/12/2023
Fersiwn:	3.0 Terfynol
Cymeradwywyd gan:	Cabinet
Dyddiad Cymeradwyo:	Heb ei gymeradwyo eto
Dyddiad Adolygu Nesaf:	2025/26

1 Fframwaith Rheoli Risg

Rhagymadrodd

1.1 Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn sail i'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg i sicrhau bod amcanion Polisi Rheoli Risg y Cyngor yn cael eu gwireddu.

Cefndir

1.2 Mae rheoli risg yn dda yn arf allweddol i gynorthwyo'r sefydliad i reoli ansicrwydd er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni canlyniad ei amcanion yn well. Bwriedir i reoli risg fod yn ddull cynlluniedig a systematig o nodi, asesu a rheoli'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i reoli'r risgiau hynny'n effeithiol. Mae rheoli risg yn cefnogi datrysiadau arloesol gan ei fod yn ystyried yn ofalus y manteision, ochr yn ochr â'r risgiau, a all godi.

1.3 Mae pob sefydliad yn bodoli i gyflawni eu hamcanion. Diben rheoli risg yw rheoli'r rhwystrau i gyflawni'r amcanion hyn trwy gydgyssylltu'r gwaith o nodi, asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau.

1.4 Y dull traddodiadol o warchod rhag y risgiau mwy amlwg ydy trwy yswiriant. Fodd bynnag, mae llawer o risgiau na ellir yswirio yn eu herbyn ac y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn gwahanol ffyrdd. Hyd yn oed yn achos y risgiau hynny sy'n yswiriadwy, gellir cymryd camau i leihau'r risgiau posibl gan arwain at arbedion o ran premiymau ac amharu ar waith.

1.5 Nod y fframwaith rheoli risg yw:

- Egluro cyfrifoldebau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau.
- Sicrhau bod lefel briodol o reoli risg yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o reoli risg fel elfen arferol o reoli a gwella gwasanaethau.
- Hwyluso rhannu profiad ac arfer da ar draws y Cyngor a chyda chyrrff eraill.

Dull Rheoli Risg

1.6 Mae angen datblygu dull cyson, corfforaethol o reoli risg mewn ffordd drefnus a chymesur er mwyn osgoi creu baich biwrocraidd hunanorchfygol.

1.7 Er mwyn sicrhau bod rheoli risg yn cael ei drin yn y modd mwyaf effeithlon o fewn y Cyngor, cynhwysir risg fel:


- Rhan ofynnol o'r broses Cynllunio Busnes a Chynllunio Gwasanaeth

- Eitem agenda ar bob cyfarfod gwasanaeth i nodi risgiau a newidiadau sy'n dod i'r amlwg.
- Rhan ofynnol o brosesau Rheoli Prosiect Corfforaethol
- Rhan o brosesau caffael
- Eitem agenda ym mhob cyfarfod Grŵp Arweiniol
- Eitem agenda yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

1.8 Ceir tystiolaeth o effeithiolrwydd y dull risg drwy'r ffaith bod risgiau newydd yn cael eu nodi drwy'r cyfarfodydd a amlinellir uchod, bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio/dad-ddwysáu lle bo'n briodol, a thrwy dull cydgysylltiedig y Cyngor o gynllunio corfforaethol. Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor hefyd wedi datblygu'r broses Mapio Sicrwydd i ymgorffori'r 'Model Tair Llinell Amddiffyn', gan gael sicrwydd gan reolwyr, IA a ffynonellau allanol o sicrwydd e.e. rheoleiddwyr ac arolygiaethau. Trafodir Mapio Sicrwydd mewn cyfarfodydd tîm wythnosol.

Methodoleg

1.9 Mae methodoleg ar gyfer adnabod, asesu a rheoli risg o fewn y Cyngor wedi'i datblygu. Mantais y fethodoleg hon yw ei bod yn gymharol syml i'w defnyddio a gellir ei chymhwyso i risgiau strategol y Cyngor ac fel rhan o'r prosesau gwasanaeth arferol, trefniadau partneriaeth, cynllunio prosiectau a rheoli newid.




- Mae **Adnabod Risg** yn ymdrin â'r mecanweithiau ar gyfer adnabod risg gan unrhyw un o fewn y sefydliad.
- Mae **Dadansoddiad Risg** yn ymdrin â sut rydym yn asesu risg.
- Mae **Triniaeth Risg** yn ymdrin â sut rydym yn ymateb i'r risg.
- Mae **cwblhau'r Gofrestr Risg** yn ymwneud â chofnodi'r risg.

- Mae **perchnogaeth Risg, Adolygu, Monitro ac Adrodd ar Risgiau** yn nodi sut rydym yn rheoli ein risg.

1.10 Mae cam cyntaf y cylch rheoli risg yn cynnwys nodi bygythiadau a chyfleoedd presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Gwneir hyn ym mhob maes o fusnes y cyngor, a chânt eu dosbarthu fel Corfforaethol, Gwasanaeth, Tîm, Prosiect Partneriaeth neu Gymuned.

Adnabod Risg



1.11 Dylai Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor bob amser fod yn brif ffocws wrth nodi risgiau. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022 i 2027. Mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol ac yn arbennig ei heffeithiolrwydd sefydliadol. Dylid ystyried beth yw'r rhwystrau neu fygythiadau allweddol a fydd yn atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion a pham fod y rhwystrau hynny'n bodoli? Beth allai fod yn gyfle posibl i gael effaith gadarnhaol ar gyflawni amcanion? Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel yr amlinellir yn y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg paragraff 3.9.

1.12 Mae risgiau a phroblemau yn aml yn mynd yn ddryslyd a ffordd ddefnyddiol o gofio'r gwahaniaeth yw:

- Mae risgiau yn bethau a allai ddigwydd ac sy'n ein hatal rhag cyflawni amcanion, neu fel arall yn effeithio ar lwyddiant y sefydliad.
- Materion yw pethau sydd eisoes wedi digwydd ac sydd angen gweithredu gan reolwyr.

1.13 Gall unrhyw un nodi risgiau ac mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

Yn fewnol trwy:

- Hunanasesiadau
- Asesiad Risg yn cael ei gynnal yn flynyddol ar y cyd ag Archwilio Cymru
- Lefelau perfformiad presennol
- Monitro'r Bwrdd Perfformiad
- Boddhad defnyddwyr
- Cwynion

Tudalen 501

- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Cyfarfodydd Tîm / awgrymiadau staff ac adborth

Yn allanol trwy:


- Adroddiadau Archwilio Cymru
- Adroddiadau Rheoleiddwyr Eraill
- Ein darparwr yswiriant Zurich
- Y wasg / cyfryngau
- Ymgynghori ac Ymgysylltu â Dinasyddion

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Craffu ac yswirwyr y Cyngor, rôl i'w chwarae wrth nodi risgiau. Craffu trwy fonitro lefelau perfformiad gwasanaethau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio trwy adolygiad parhaus o'r gofrestr risg ac yswirwyr y Cyngor Zurich trwy ddarparu eu proffil risg sector cyhoeddus a ddefnyddir wrth gynnal dadansoddiadau bylchau gyda'r sector.



- 1.14 Unwaith y bydd wedi'i nodi, mae'n hanfodol bod y risg yn cael ei ddisgrifio'n glir er mwyn sicrhau bod pob darpar gynulleidfa yn ei deall. Dylid defnyddio'r tabl canlynol i helpu i nodi effaith y risg ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor ac ar ddinasyddion Ceredigion.

RISG		
DISGRIFIAD RISG		EFFAITH BOSIBL
Achos	Digwyddiad	Canlyniad
Sefyllfa neu ddigwyddiad (go iawn neu ganfyddedig), sy'n ein gwneud yn agored i risg(iau)	Cynhwyswch y digwyddiad a allai neu sydd wedi digwydd sy'n arwain at effaith negyddol ar yr amcanion a gyflawnir	Yr effaith negyddol Pa mor fawr? Pa mor ddrwg? Faint? Ystyriwch y senario GORAU gwaethaf tebygol
Sut a Pam?	Beth a Ble?	Pa mor fawr, Pa mor ddrwg?

Dadansoddiad Risg



1.15 Mae Dadansoddi Risg yn cynnwys categorieiddio, gan asesu pa mor debygol yw hi y gallai digwyddiad ddigwydd a beth fydd yr effaith os bydd yn digwydd. Mae awydd y Cyngor i ymdrin â'r risg yn cael ei bennu gan ddefnyddio matrices Graddio Risg y Cyngor.



Categoreiddio

1.16 Gellir categoreiddio risgiau fel Strategol neu Weithredol.

1.17 Bydd **Risgiau Strategol** yn effeithio ar nodau ac amcanion tymor canolig i hir y Cyngor a byddant yn aml yn cynnwys ffactorau allanol a allai effeithio ar benderfyniadau a wneir o fewn yr Awdurdod. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r categorïau PESTLE allanol y dylid eu hystyried. Mae Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau pellach o'r ffactorau a allai gyfrannu at bob categori.

Strategol	Gwleidyddol:	Y rhai sy'n gysylltiedig â methiant i gyflawni naill ai polisi llywodraeth leol neu ganolog, neu fodloni ymrwymïadau maniffesto'r weinyddiaeth leol.
	Economaidd:	Y rhai sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymïadau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau cyllidebol mewnol, methiant i brynu yswiriant digonol, newidiadau economaidd lefel macro allanol neu ganlyniadau penderfyniadau buddsoddi arfaethedig.
	Cymdeithasol	Y rhai sy'n ymwneud ag effaith newidiadau mewn tueddiadau demograffig, preswyl neu economaidd-gymdeithasol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion
	Technolegol	Y rhai sy'n gysylltiedig â gallu'r cyngor i ddelio â chyflymder/graddfa newid technolegol, neu ei allu i ddefnyddio technoleg i fynd i'r afael â gofynion newidiol. Gallant hefyd gynnwys canlyniadau methiannau technolegol mewnol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion.
	Deddfwriaethol:	Y rhai sy'n gysylltiedig â newidiadau posib cyfredol neu yn y Gyfraith (e.e. rheoliadau TUPE).
	Amgylcheddol:	Y rhai sy'n ymwneud â chanlyniadau amgylcheddol o bwrw ymlaen ag amcanion strategol y Cyngor (e.e. o ran effeithlonrwydd ynni, llygredd, ailgylchu, gofynion tirlenwi, allyriadau ac ati)

1.18 Risgiau Gweithredol yw'r rhai y bydd rheolwyr a staff yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith bob dydd. Gellir ystyried y rhain fel a ganlyn.

	Proffesiynol:	Y rhai sy'n gysylltiedig â natur benodol pob proffesiwn (e.e. pryderon y gwasanaeth tai, ynghylch lles tenantiaid).
	Ariannol:	Y rhai sy'n gysylltiedig â chynllunio a rheolaeth ariannol a digonolrwydd yswiriant.
	Cyfreithiol:	Y rhai sy'n ymwneud â thoriadau deddfwriaeth posibl.

Tudalen 504

Gweithredol	Corfforol:	Y rhai sy'n ymwneud â thân, diogelwch, atal damweiniau, ac iechyd a diogelwch (e.e. peryglon, risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer, ac ati).
	Cytundebol:	Y rhai sy'n gysylltiedig â methiant contractwyr i ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchion i'r gost a'r fanyleb y cytunwyd arnynt.
	TGCh (Gweithredol):	Y rhai sy'n ymwneud â dibyniaeth ar offer gweithredol (e.e. systemau neu offer TG a peiriannau)
	Cwsmer / Cleient:	Y rhai sy'n ymwneud â nodi anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid / cleient.

Asesu Tebygolrwydd

1.19 Mae hyn yn gofyn am asesu'r siawns neu'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd. Dylid seilio tebygolrwydd cyn belled ag y bo modd ar asesiad gwrthrychol o:

- y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd
- cryfder mesurau (fel cynlluniau wrth gefn) i atal neu ragweld digwyddiad o'r fath
- a oes cyfleoedd i wneud gwelliannau ac a oes unrhyw rwystrau yn y ffordd?

1.20 Dylid sgorio'r tebygolrwydd neu'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad yn digwydd ar raddfa o un i bump lle mae un yn brin a phump bron yn sicr. Mae Atodiad 2 yn nodi'r meini prawf y dylid eu defnyddio wrth asesu pa mor debygol yw digwyddiad.

Asesu Effaith

1.21 Mae Asesu Effaith neu ddifrifoldeb yn edrych ar y canlyniadau i'r Awdurdod, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill, pe bai'n digwydd.

1.22 Dylid sgorio effaith unrhyw ddigwyddiad os yw'n digwydd ar raddfa o un i bump, lle mae un yn ddibwys a phump yn ddifrifol. Mae Atodiad 3 yn darparu'r meini prawf asesu y dylid eu defnyddio i asesu'r effaith y gallai digwyddiad ei chael ar yr Awdurdod.

Lefel Risg

1.23 Pennir y Lefel Risg trwy ddewis graddfa ar gyfer tebygolrwydd ac effaith a'u llusoi i gynhyrchu'r Lefel Risg:



Tudalen 505

1.24 Mae'r Matrics Risg isod yn dangos Lefel Risg ac yn pennu awydd y Cyngor i ymateb i'r risg.

	Dibwys (1)	Mân (2)	Cymedrol (3)	Difrifol (4)	Difrifol iawn (5)
Bron yn Sicr (5)	5 Risg Canolig	10 Risg Canolig	15 Risg uchel	20 Risg Uchel	25 Risg Critigol
Tebygol (4)	4 Risg Isel	8 Risg Canolig	12 Risg Canolig	16 Risg Uchel	20 Risg Uchel
Posibl (3)	3 Risg Isel	6 Risg Canolig	9 Risg Canolig	12 Risg Canolig	15 Risg Uchel
Annhebyg (2)	2 Risg Isel	4 Risg Isel	6 Risg Canolig	8 Risg Canolig	10 Risg Canolig
Prin (1)	1 Risg Isel	2 Risg Isel	3 Risg Isel	4 Risg Isel	5 Risg Canolig

Archwaeth Risg

1.25 Gellir crynhoi archwaeth y Cyngor i ymateb i risg fel a ganlyn. Ceir disgrifiad manwl o'r lefelau Risg yn Atodiad 4.

Lefel Risg	Achlysur tebygolrwydd	Math o Risg	Rheolaeth
Risg Isel (1-4)	Naill ai anghysbell neu tebygolrwydd posibl o ddigwydd	Risg Tîm/ Gwasanaeth/ Prosiect	Derbyn neu reoli gyda gweithdrefnau arferol
Risg Canolig (5-12)	Naill ai anghysbell, posibl neu siawns debygol o ddigwydd	Risg Corfforaethol/ Gwasanaeth/ Prosiect	Rheoli gyda gweithdrefnau monitro neu ymateb penodol
Risg Uchel (15-20)	Yn debygol o ddigwydd	Risg Corfforaethol	Uwchgyfeirio ar gyfer ystyriaeth bellach / cynllunio
Risg Critigol (25)	Bron yn sicr o ddigwydd	Risg Corfforaethol	Wedi'i uwchgyfeirio gyda chynlluniau wrth gefn manwl

1.26 Gellir diffinio archwaeth risg fel faint o risg y mae'r Cyngor yn fodlon ei gymryd er mwyn cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi adeiladu ar y

tebygolrwydd risg a'r effaith a ddefnyddiwyd i bennu ei flaenoriaethau risg er mwyn sefydlu'r defnydd o archwaeth risg ymhellach. Er enghraifft, mae pob Cofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi sgôr archwaeth risg y mae'r awdurdod yn fodlon ei oddef. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod y broses rheoli risg yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn unol â'r archwaeth risg ynghyd â llai o ansicrwydd a gwell cysondeb.

Triniaeth Risg



- 1.27 Bydd Triniaeth Risg yn gofyn am asesiad o'r awydd am risg, gweler yr adran flaenorol a phenderfynu ar y driniaeth risg briodol. Triniaeth Risg sy'n pennu sut yr ymatebir i'r risg neu sut y caiff ei rheoli.
- 1.28 Triniaeth risg yw'r broses o asesu sut i ymateb i'r risg neu sut i'w rheoli.
- 1.29 Mae angen i hyn gynnwys ystyriaeth o'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o liniaru'r risg ac a fydd y camau a gymerir yn lleihau'r risg yn effeithiol i lefel dderbyniol o fewn cyfnod amser rhesymol yn seiliedig ar ddifrifoldeb y risg. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi gwahanol ddulliau'r Cyngor o reoli risg.

Triniaeth	Gweithred
Derbyn / goddef	Rheoli'r risg o fewn arferion rheoli presennol. Ni ddylid derbyn risgiau oni bai bod swyddogion yn credu bod y risg weddilliol yn oddefadwy ac nad yw'n cael unrhyw effaith ar amcanion (h.y. lle maent ym mharth gwyrdd y matrices).
Cadw (derbyn a chyllideb)	Derbynnir y risg a dyrennir cyllideb briodol i gwrdd â chostau sy'n deillio o'r risg. Derbynnir y risg gan y Grŵp Arweiniol ac maent yn argymhell dyrannu'r gyllideb i'r Cabinet, sydd fel Aelodau etholedig, yn cymeradwyo'r gyllideb yn y pen draw.
Lleihau (optimeiddio - lliniaru)	Nodi cam(au) ychwanegol i'w cymryd a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd a / neu'r effaith pe bai'r achos yn digwydd. <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen cynllun gweithredu clir, yn nodi beth fydd yn cael ei wneud, gan bwy ac erbyn pryd. • Dylid darparu Graddfa Risg darged (h.y. i ba raddfa y dylid lleihau'r risg trwy gymryd y camau a nodwyd). • Bydd angen nodi adnoddau a chynnwys dadansoddiad cost/budd.

Tudalen 507

<p>Rhannu (trosglwyddo – allanoli neu yswirio)</p>	<p>Trosglwyddo risg drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio yswiriwr neu drydydd parti arall i dalu'r gost neu'r colledion pe bai risg yn codi. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus i nodi'n gywir y risgiau i'w cwmpasu. • Gallai gwneud trefniadau gydag eraill megis gweithio ar y cyd, partneriaethau neu contractio allan i ddarparu gwasanaethau gael eu defnyddio hefyd i drosglwyddo risgiau. Fodd bynnag, gall risgiau eraill godi o'r trefniadau hyn a gallai'r cyfrifoldeb o ddarparu'r gwasanaeth aros gyda'r Cyngor. Wrth drosglwyddo risgiau i bartïon eraill, sicrhewch fod cofrestrau risg yn rhoi manylion ynghylch lle mae atebolrwydd ac atebolrwydd rhwng y partïon dan sylw.
<p>Osgoi (dileu, tynnu'n ôl o neu beidio â chymryd rhan)</p>	<p>Ni fyddai rhoi'r gorau i gyflawni'r gweithgaredd oherwydd ei addasu neu ei reoli yn lleihau'r risg i lefel dderbyniol. Dylid dogfennu'r canlyniadau i gyflawni'r Amcanion yr effeithir arnynt yn llwyddiannus a'u hadrodd i'r rhai perthnasol</p> <p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Grŵp Arweiniol cyn gweithredu'r cam hwn.</p>
<p>Yn manteisio</p>	<p>Lle nodir cyfle, manteisio'n weithredol ar risg trwy wireddu, gwella a manteisio i gael budd.</p>

Cwblhau'r Gofrestr Risg



- 1.30 Rhaid cofnodi pob risg ar Gofrestr Risg. Bydd y Cofrestrau Risg Corfforaethol a lefel Gwasanaeth yn cael eu cadw ar Berfformiad Teifi, System Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor. Bydd risgiau tîm, contract a phartneriaeth yn parhau i gael eu cynnal a'u monitro ar lefel leol ond byddant yn hyrwyddo risgiau lefel gwasanaeth os ystyrir bod hynny'n briodol yn yr adolygiad monitro perthnasol. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal y cofrestrau risg ar bob lefel briodol o'r Awdurdod.

Cofrestrau Risg

1.31 Bydd y Cyngor yn cynnal nifer o Fathau o Gofrestr Risg. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi diffiniad o'r mathau o risg presennol a'r berchnogaeth ofynnol.

Lefel Risg	Diffiniad	Perchennog
Risgiau Corfforaethol	Risgiau a allai gael effaith ar gyflawniad llwyddiannus ein gweledigaeth, blaenoriaethau a chanlyniadau hirdymor. Mae rhain yn: <ul style="list-style-type: none"> Risgiau a allai gael effaith ar y cyngor cyfan a/neu Risgiau na ellir eu rheoli mewn busnes yn unig lefel uned oherwydd bod angen cymorth lefel uwch. 	Grŵp Arweiniol
Risgiau Gwasanaeth	Risgiau ar lefel maes gwasanaeth a allai gael effaith ar gyflawniad llwyddiannus canlyniadau / amcanion y grŵp a'r uned fusnes. Mae'n bosibl y gallai'r risgiau hyn gael effaith ariannol sylweddol, enw da a/neu gyflenwi gwasanaethau ar y cyngor cyfan os na chaiff y risg ei rheoli'n dda.	Swyddog Arweiniol Corfforaet hol
Risgiau Tîm	Risgiau ar lefel Tîm a allai gael effaith ar cyflawni canlyniadau / amcanion y tîm yn llwyddiannus.	Rheolwr Corfforaet hol
Risgiau contract	Risgiau a allai gael effaith ar gyflawniad llwyddiannus canlyniadau / amcanion y contract o ran cyflawni, canlyniadau a gwerth am arian. Rheolir risgiau contract drwy gydol y broses contractio gan gynnwys rheoli contractau/busnes fel arfer.	Rheolwr Corfforaet hol
Risgiau Rhaglen/ Prosiect/ Partneriaeth	Risgiau a allai gael effaith ar gyflawniad llwyddiannus canlyniadau / amcanion y rhaglen, prosiect neu bartneriaeth o ran darparu gwasanaeth, gwireddu buddion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol (defnyddwyr gwasanaeth, trydydd partïon, partneriaid ac ati).	Rheolwr Prosiect

1.32 Wrth nodi ac asesu risg a chwblhau cynnig risg, rhaid i perchennog gael ei aseinio a rhaid i'r Grŵp Arweiniol gydnabod a chymeradwyo'r risg cyn ei gofnodi ar y Gofrestr Risg briodol.

1.33 Ar ôl ei dderbyn, rhaid anfon copi wedi'i lofnodi o'r Cynnig Risg (Atodiad 5) i TeifiPerformanceSupport@ceredigion.gov.uk er mwyn iddo a'r tasgau lliniaru gael eu lawrlwytho i'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol, Perfformiad Teifi.

1.34 Unwaith y caiff ei lawrlwytho i'r gofrestr risg, bydd perchennog y risg yn gyfrifol am asesu a diweddarau'r sgôr risg o leiaf bob chwarter yn unol â nodiadau Canllaw Perfformiad Teifi.

Cynyddu Risg

1.35 Mae hon yn broses allweddol lle gellir codi risgiau a nodir ac a reolir o fewn un lefel o'r Cyngor i'r lefel nesaf os ystyrir bod hynny'n briodol neu'n angenrheidiol.

1.36 Dylid cynyddu risgiau: naill ai

- I'r Gofrestr Risg Gorfforaethol os yw'r risg yn cael ei graddio fel 15 neu uwch a'r rhagolygon ar gyfer lleihau ar unwaith yn wael neu
- I'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer risg trawswasanaeth neu'r Gofrestr Risg Gwasanaeth briodol os yw'r risg wedi'i graddio'n 5 neu'n uwch a bod y rhagolygon ar gyfer lleihau ar unwaith yn wael.

A/neu os

- Rheolaeth ar y risg wedi methu/colli (h.y. mae lefel y risg yn parhau i godi er bod rheolaethau wedi'u rhoi ar waith)
- Mae'r risg a adnabuwyd y tu hwnt i sgôp/cylch gorchwyl y Gwasanaeth/Tîm
- Mae digwyddiad/nifer o ddigwyddiadau o risg wedi digwydd.

Dad-gynyddu Risg

1.37 Dylid lleihau risg naill ai:

- O'r Gofrestr Risg Gorfforaethol os yw'r Raddfa Risg wedi gostwng i 14 neu lai a'r risg yn un risg gwasanaeth neu
- O'r Gofrestr Risg Gwasanaeth os yw'r Sgôr Risg wedi gostwng i 4 neu lai

A/neu os

- Nid yw'r Risg bellach yn cael ei ystyried mor bellgyrhaeddol ag y tybiwyd yn flaenorol.

Risgiau Ymgeisydd

1.38 Bob chwarter, unwaith y bydd y risgiau wedi'u diweddarau ar system Rheoli Perfformiad Teifi, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Arweiniol yn amlygu unrhyw risgiau sydd angen eu hadolygu i naill ai uwchgyfeirio neu ddad-ddwysáu rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaeth. Gelwir y rhain yn 'Risgiau Ymgeisydd'.

1.39 Mae'r Grŵp Arweiniol yn gyfrifol am benderfynu a ddylai risgiau gael eu huwchgyfeirio neu eu dad-ddwysáu.

1.40 Mae yna achosion lle mae sgorau risg yn uwch na 15 ac yn parhau i fod yn risg gwasanaeth, ac i'r gwrthwyneb lle mae sgorau yn is na 15 ond yn parhau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Yn yr achosion hyn, y Grŵp Arweiniol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch uwchgyfeirio a dad-ddwysáu. Mae rhai enghreifftiau o'r achosion hyn yn cynnwys:

- Risg sy'n sgorio 15 neu uwch ond y bernir ei bod yn cael ei rheoli orau ar lefel gwasanaeth oherwydd bod y risg yn cael ei deall yn dda, bod digon o adnoddau ar ei chyfer a bod ganddo gamau lliniaru cryf ar waith sy'n cael eu cyflawni.
- Risg sy'n sgorio 15 neu uwch sy'n amlwg o fewn y diffiniad o risgiau gweithredol, h.y. y risgiau hynny y bydd rheolwyr a staff yn dod ar eu traws yn ystod eu gwaith bob dydd.
- Gallai risg yr ystyrir bod angen lefel uwch o oruchwyliaeth ei sgorio o dan 15 ond yn parhau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Unwaith y bydd risg wedi'i ychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol bydd yn cael mwy o graffu a monitro gan y Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Archwilio Mewnol a Pherfformiad. Er enghraifft, gallai hyn fod pan fo materion y tu allan i reolaeth y gwasanaeth sy'n ei gwneud yn anodd i'r gwasanaeth liniaru'r risg a lleihau ei effaith a/neu'r tebygolrwydd o ddigwydd.
- Gellid hefyd uwchgyfeirio risg i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael i ymateb yn effeithiol i'r risg, a'i liniaru, megis adnoddau ariannol neu bobl.
- Gallai rhai risgiau aros ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol os ydynt yn sgorio'n is na 15, megis risg corfforaethol sydd wedi'i ostwng yn ddiweddar, ond lle mae angen monitro ychwanegol i sicrhau ei fod yn parhau i fod o dan y trothwy o 15.

Archifo Risg


1.41 Gellir archifo risg os:

- Mae'r Sgôr Risg wedi gostwng i 4 neu lai ac
- Nid yw'r Risg bellach yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i'r Cyngor neu'r gwasanaeth

1.42 Gellir dod â risg wedi'i harchifo yn ôl i gofrestr risg briodol os bydd y risg yn dod i'r amlwg eto fel blaenoriaeth yn y dyfodol.

1.43 Eto, bob chwarter, unwaith y bydd y risgiau wedi'u diweddarau ar system Rheoli Perfformiad Teifi, bydd risgiau gwasanaeth sy'n 4 neu'n is yn ymddangos ar fwrdd gwaith perthnasol yr SAC yn Teifi a fydd yn gofyn iddynt naill ai archifo neu gadw'r risg gwasanaeth.

Adolygu, Monitro ac Adrodd Risg



1.44 Defnyddir Perfformiad Teifi fel y mecanwaith ar gyfer:

- Cofnodi'r holl risgiau corfforaethol a gwasanaeth
- Adolygu'r risgiau corfforaethol a gwasanaeth a nodwyd
- Adolygu'r tasgau lliniaru
- Monitro effaith tasgau lliniaru ar risgiau corfforaethol a gwasanaeth
- Adrodd ar Risgiau corfforaethol a gwasanaeth i'r fforwm priodol

Adolygu Risg

1.45 Dylai sgorau risg, rheolaethau a thasgau gael eu hadolygu'n rheolaidd gan berchnogion risg, i sicrhau eu bod yn gyfredol a bod atebolrwydd llawn.

1.46 Os nad yw risg bellach yn gyfredol, dylid ei thynnu oddi ar y gofrestr risg.

1.47 Dylid mynd â chofrestrau risg yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Grŵp Arweiniol a'r Timau Rheoli i'w hadolygu ac i sganio'r gorwel am unrhyw risgiau newydd.


Monitro Risg

1.48 Mae monitro risg yn gam allweddol yn y broses rheoli risg. Mae angen asesiad parhaus a rheolaidd o effeithiolrwydd y tasgau a roddir ar waith i leihau'r tebygolrwydd/effaith y bydd digwyddiadau risg andwyol yn digwydd.

1.49 Dylid monitro risgiau hefyd yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gwasanaeth, tîm neu grŵp fel rhan o reoli perfformiad pob gwasanaeth. Anogir trafodaeth grŵp ac adolygiad o risgiau i helpu nid yn unig i fonitro risgiau, ond hefyd i nodi risgiau newydd. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r camau lliniaru yn dal yn ddigonol neu a oes angen eu hadolygu a/neu eu disodli.

Adrodd Risg

1.50 Dylai adrodd am risg fod yn broses gyfathrebu ddwy ffordd bob amser, er mwyn sicrhau bod rheoli risg yn cael ei ymgorffori'n llawn fel arf rheoli o ddydd i ddydd. Dangosir y strwythur adrodd risg isod.



Gwerthusiad / Sicrwydd

1.51 Bydd Archwilio Mewnol yn asesu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y camau sydd ar waith i liniaru risg ac yn rhoi sicrwydd gwrthrychol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn ogystal, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ar gadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risg trwy gynnwys adolygiadau cyfnodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cofrestr Risg Gwasanaeth a gweithdrefnau Rheoli Risg Corfforaethol.

Atodiad 1: Meini Prawf Asesu ar gyfer Categoriâu PESTLE

GWLEIDYDDOL	ECONOMAIDD	CYMDEITHASOL	TECHNOLEGOL	CYFREITHIOL	AMGYLCHEDDOL
<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlogrwydd y llywodraeth. • Rhyddid i lefaru, llygredd, y blaid sy'n rheoli • Tueddiadau rheoleiddio. • Polisi treth, a rheolaethau masnach. • Rhyfel • Polisi'r Llywodraeth • Etholiadau • Terfysgaeth • Newidiadau tebygol i'r amgylchedd gwleidyddol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnod y cylch busnes. • Twf economaidd presennol a rhagamcanol. • Tueddiadau rhyngwladol • Twf swyddi • Chwyddiant a chyfraddau llog • Diweithdra a chyflenwad llafur. • Lefelau incwm gwario ar draws yr economi a dosbarthiad incwm. • Globaleiddio. • Newidiadau tebygol i'r amgylchedd economaidd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Twf poblogaeth a demograffeg. • Iechyd, addysg a symudedd cymdeithasol y boblogaeth • Agweddau defnyddwyr • Hysbysebu a'r cyfryngau • Diwylliant cenedlaethol a rhanbarthol • Dewisiadau ffordd o fyw ac agweddau tuag at y rhain. • Lefelau iechyd ac addysg • Digwyddiadau mawr • Newidiadau cymdeithasol-ddiwylliannol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith technolegau newydd. • Dyfeisiadau ac arloesiadau • Y rhyngwrwyd a sut mae'n effeithio ar waith a busnes. • Trwyddedu a phatentau • Ariannu a Datblygu Ymchwil. 	<ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth cartref • Deddfwriaeth ryngwladol • Cyfraith cyflogaeth • Deddfau newydd • Cyrff rheoleiddio • Rheoleiddio amgylcheddol • Rheoliadau sy'n benodol i'r diwydiant • Diogelu defnyddwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ecoleg • Materion amgylcheddol rhyngwladol • Materion amgylcheddol cenedlaethol • Materion amgylcheddol lleol • Rheoliadau amgylcheddol • Diwylliant sefydliadol • Morâl ac agweddau staff.

Atodiad 2: Meini Prawf Asesu Risg ar gyfer Tebygolrwydd o Ddigwyddiad yn Digwydd

SGÔR 1: ANGHYFFREDIN	SGÔR 2: ANHYSBYS	SGÔR 3: POSIBL	SGÔR 4: TEBYGOL	SGÔR 5: BRON YN SICR
Mae profiad blaenorol yn y cyngor hwn a chynghorau tebyg eraill yn golygu bod y canlyniad hwn yn annhebygol iawn o ddigwydd.	Mae profiad blaenorol yn diystyru'r risg hon fel un sy'n debygol o ddigwydd, ond mae cynghorau eraill wedi cael problemau yn y maes hwn.	Yn y gorffennol mae'r cyngor wedi profi problemau yn y maes hwn ond nid yn y tair blynedd diwethaf.	Mae'r cyngor wedi cael problemau yn y maes hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf.	Mae'r cyngor yn cael problemau yn y maes hwn neu'n disgwyl gwneud hynny yn ystod y 12 mis nesaf.
Mae rheolaethau effeithiol, wedi'u profi, a gwiriadwy ar waith sy'n atal y risg hon rhag digwydd.	Mae rheolaethau ar waith sy'n ymddangos yn effeithiol er nad ydynt wedi'u profi.	Mae rhai rheolaethau yn eu lle ac yn gweithio ar y cyfan ond bu adegau pan fyddant wedi methu a phroblemau wedi codi.	Gall rheolaethau fod yn eu lle ond yn gyffredinol cânt eu hanwybyddu neu maent yn aneffeithiol.	Nid oes unrhyw reolaethau yn eu lle.

Lle mae'r sgôr tebygolrwydd ac amseriad yn wahanol, dylid penderfynu ar y sgôr tebygolrwydd cywir.

Atodiad 3: Meini Prawf Asesu Risg ar gyfer yr Effaith y Byddai Digwyddiad yn ei Gael

AGWEDD	SGÔR 1: DIBWYS	SGÔR 2: MÂN	SGÔR 3: CYMEDROL	SGÔR 4: DIFRIFOL	SGÔR 5: DIFRIFOL IAWN
Ariannol	Ychydig neu ddim effaith ariannol (llai na £5,000)	Yr effaith ariannol fyddai colledion neu golli incwm o ddim mwy na £25,000	Byddai'r effaith ariannol yn arwain at golledion neu golli incwm o ddim mwy na £100,000.	Byddai'r effaith ariannol yn arwain at golledion neu golli incwm o ddim mwy na £500,000	Byddai'r effaith ariannol yn fwy na £500,000.
Gwasanaeth	Ni amharir ar Wasanaethau'r Cyngor	Rhywfaint o aflonyddwch dros dro i weithgareddau un gwasanaeth cyngor ond nid y tu hwnt i hyn.	Amhariad cyson ar weithgareddau un neu fwy o wasanaethau'r cyngor.	Amhariad difrifol ar wasanaethau ar lefel adrannol neu amhariad rheolaidd yn effeithio ar fwy nag un adran.	Amhariad difrifol ar weithgareddau holl adrannau'r cyngor. Ataliad tymor hir o wasanaeth neu ddyletswyddau statudol heb eu cyflawni
Prosiect	Prosiectau yn profi oedi bach (dyddiau)	Colli ychydig o gerrig milltir prosiect	Colli cerrig milltir prosiect sylweddol	Colli cerrig milltir Prosiect mawr	Nid yw'r prosiect yn cyflawni amcanion ac mae'n methu mwyafrif y cerrig milltir
Iechyd a Diogelwch	Un anaf neu salwch sydd angen Triniaeth Cymorth Cyntaf Dim amser a gollwyd diwrnodau anafiadau	Anaf neu salwch sydd angen triniaeth feddygol Amser anaf a gollwyd <10 diwrnod	Anaf neu salwch difrifol Amser anaf a gollwyd >10 diwrnod	Anaf neu salwch sylweddol/helaeth Anabledd parhaol neu rannol	Colli Bywyd Lluosog / Salwch mawr ar raddfa fawr Cyfanswm anabledd parhaol
Cyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol	Dim effaith ar darpariaeth y Cyngor o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.	Gall gostio mwy neu efallai y bydd oedi wrth cyflawni un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor	Byddai nifer o amcanion Llesiant Corfforaethol yn cael eu gohirio neu ddim yn cael eu cyflawni	Mae llawer o amcanion corfforaethol wedi'u hoedi neu heb ei ddanfôn.	Methu cyflawni'r rhan fwyaf o'r amcanion.

AGWEDD	SGÔR 1: DIBWYS	SGÔR 2: MÂN	SGÔR 3: CYMEDROL	SGÔR 4: DIFRIFOL	SGÔR 5: DIFRIFOL IAWN
	Morâl: Dim effaith	Morâl: Rhai perthnasoedd gelyniaethus a mân ddiffyg cydweithredu	Morâl: Perthnasoedd gelyniaethus a diffyg cydweithredu mawr ar draws y sefydliad	Morâl: Gweithredu Diwydiannol	Morâl: Torfol Staff yn gadael / methu denu staff
Enw da	Dim sylw gan y cyfryngau / mân lythyrau	Arweinydd cyfryngau lleol anffafriol	Amlygiad unigryw yn y cyfryngau cenedlaethol	Enw da: Amlygiad Cenedlaethol Niweidiol Hirfaith	Sylw helaeth yn y Wasg Genedlaethol ac ar y teledu. Angen ymddiswyddiad Uwch Swyddog / Aelod
Amcanion y Llywodraeth	Dim effaith	Asesiad(au) gwael	Gwasanaeth wedi ei gymryd drosodd dros dro	Gwasanaeth wedi ei gymryd drosodd dros dro	Gwasanaeth wedi ei gymryd drosodd yn barhaol
Ymrwymïadau Statudol / Cyfreithiol	Dim effaith / ffraid	Derbyniwyd rhybudd	Ffraid Hysbysiad Gwella Heriol	Camau Gorfodi Hysbysiad Gwella	Erlyniad lawn
Risg Cymunedol	Effaith ansylweddol ar iechyd, pobl wedi'u dadleoli amhariad i wasanaethau cymunedol, yr economi a'r amgylchedd	Mân effaith ar iechyd, pobl wedi'u dadleoli amhariad i wasanaethau cymunedol, yr economi a'r amgylchedd	Difrod i leoliad penodol neu nifer o leoliadau, marwolaethau a rhai achosion, dadleoli > 100 o bobl am 1 – 3 diwrnod, Effaith gyfyngedig ar	Difrod sylweddol, dadleoli 100 i 500 o bobl am fwy nag 1 wythnos, effaith sylweddol ar wasanaethau cymunedol a'r amgylchedd	Nifer sylweddol o farwolaethau ac anafiadau, difrod helaeth i eiddo, dadleoli >500 o bobl am gyfnod hir, difrod difrifol i
Hyder	Dim colli hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor	Teimlwyd rhywfaint o golli hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor gan grŵp penodol neu o fewn grŵp bach	Colled cyffredinol o hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor o fewn y gymuned leol.	Colled fawr o hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor o fewn y gymuned leol.	Colled trychinebus o hyder ac ymddiriedaeth yn y cyngor yn lleol ac yn genedlaethol.

Nodi'r effaith sydd fwyaf perthnasol i'r risg sy'n cael ei gwerthuso (nid oes angen i bob pwynt ym mhob categori fod yn berthnasol.

Atodiad 4: Lefelau Risg

Risg Isel (1-4)	<p>Naill ai tebygolrwydd anghysbell neu bosibilrwydd o ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ychydig o anhwlustod/anhawster ym mherfformiad gweithredol y swyddogaeth/maes gweithgaredd. • Rhai goblygiadau atebolrwydd ar gyfer y swyddogaeth/maes gweithgaredd, ond ni fyddai'n effeithio ar allu'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm i fodloni gofynion adrodd allweddol. • Byddai adferiad o ganlyniadau o'r fath yn cael ei drin yn gyflym heb yr angen i ddargyfeirio adnoddau o feysydd gweithgaredd craidd. • Rhai mân effeithiau ar allu rhanddeiliaid i fynd ar drywydd hawliau. Er enghraifft, byddai ffynonellau neu lwybrau eraill ar gael i randdeiliaid. • Byddai canfyddiadau'r cyhoedd o'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn newid ychydig, ond nid oes unrhyw ddifrod nac aflonyddwch sylweddol yn digwydd. 	Risg Tîm / Gwasanaeth Derbyn neu reoli trwy weithdrefnau arferol
Risg Canolig (5-12)	<p>Naill ai tebygolrwydd anghysbell, tebygolrwydd posibl o ddigwydd neu'n debygol o ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai perfformiad gweithredol yr Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn cael ei beryglu i'r graddau y byddai angen cynllunio diwygiedig i oresgyn anawsterau a brofir gan faes swyddogaeth/gweithgaredd. • Byddai'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn cael anhawster i gydymffurfio â gofynion adrodd allweddol, a fyddai'n peryglu rhai o fuddiannau'r Cyngor. • Byddai adferiad yn fwy graddol a byddai angen cynllunio corfforaethol manwl gydag adnoddau'n cael eu dargyfeirio o feysydd gweithgaredd craidd. • Byddai rhanddeiliaid yn cael cryn anhawster wrth fynd ar drywydd hawliau. • Byddai adwaith andwyol sylweddol gan y cyhoedd yn arwain at ryw faint o ddifrod ac aflonyddwch i'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm 	Risg Corfforaethol neu Wasanaeth Rheoli trwy weithdrefnau monitro neu ymateb penodol, gyda chyfrifoldebau wedi'u nodi
Risg Uchel (15-20)	<p>Yn debygol o ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai perfformiad gweithredol yn cael ei beryglu i'r graddau nad yw'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn gallu bodloni rhwymedigaethau a rhwymedigaethau mewn meysydd gweithgarwch craidd. • Byddai goblygiadau atebolrwydd difrifol yn golygu na fyddai'r sefydliad yn gallu bodloni gofynion adrodd allweddol. • Byddai'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn wynebu colledion ariannol sylweddol. • Byddai ôl-ffeithiau andwyol mawr yn effeithio ar sectorau mawr o'r Cyngor a'i gleientiaid, gan gynnwys y cyhoedd. • Gallai rhanddeiliaid wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd. • Byddai'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn cael anhawster i ddod dros y canlyniadau. 	Risg Corfforaethol Rhaid ei ystyried ar gyfer uwchgyfeirio ar gyfer adolygu, cynllunio a rheoli pellach

Risg Critigol (25)	<ul style="list-style-type: none">• Ni fyddai'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn gallu adennill o ganlyniadau o'r fath.• Byddai rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd.• Byddai ôl-ffeithiau andwyol difrifol yn effeithio ar sectorau mawr o'r Cyngor a'i gleientiaid, gan gynnwys y cyhoedd• Byddai'r Awdurdod/Gwasanaeth/Tîm yn peidio â gweithredu.	Risg Corfforaethol Fel uchod ac mae angen cynllun gweithredu wrth gefn manwl.
------------------------------	---	--

Atodiad 5: Templed Cynnig Risg

CYFEIRNOD RISG: RISK ID:	<i>Cynhyrchwyd gan y System System Generated</i>	TEITL TITLE	<i>Teitl Byr Short Title</i>		
PERCHENNOG/SWYDDOG DIWEDDARU OWNER/UDATING OFFICER			SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL SY'N GYFRIFOL RESPONSIBLE CLO		
RHANDDEILIAID STAKEHOLDERS	<i>Enwch eraill a all fod â diddordeb/ a all gael effaith ar y risg Name others who may have an interest/impact on the risk</i>				
DISGRIFIAD O'R RISG RISK DESCRIPTION	<i>Beth yw'r Risg What is the Risk Mae yna risg o X, oherwydd Y, There's a risk of X, due to Y,</i>				
CANLYNIADAU POSIBL I'r Gwasanaeth ac I'r Cyngor POTENTIAL CONSEQUENCES To Service and To Council	<i>Gwnewch yn glir Make clear a allai arwain at Z ac a fydd yn effeithio ar y Gwasanaeth/Cyngor drwy... which may result in Z' and will impact on the Service/Council by...</i>				
TYSTIOLAETH O RISG Engbreiffiau o'r Risg yn digwydd dros amser EVIDENCE OF RISK Incidences of the Risk Occurring overtime	<i>Rhowch enghreifftiau a/neu wybodaeth i ddarlunio'r risg. Cyfeiriwch at y matrices tebygolrwydd Provide examples and/or information to illustrate the risk. Relate to the likelihood matrix</i>				
Dadansoddiad RISG RISK Analysis	Math o risg	Risk Type	Prif GATEGORI	Main CATEGORY	
	Dewiswch eitem.	Choose an item.	Dewiswch eitem.	Choose an item.	
Asesiad Risg Cychwynnol	Posibilirwydd Dewiswch eitem.	EFFAITH Dewiswch eitem.	SGÔR (Tebygolrwydd x Effaith)Dewiswch eitem.		
Initial Risk Assessment	Probability Choose an item.	IMPACT Choose an item.	SCORE (Probability x Impact) Choose an item.		
Mesur Measure <i>Cofiwch gynnwys mesur ar gyfer y risg Include a measure for the risk</i>	Disgrifiad Description		Lefel Bresennol Current Level	Lefel Darged Target Level	
Sut y bwriedir trin y risg Risk Treatment	Dewiswch eitem.				
	Choose an item.				

Parhad trosodd

Tudalen 520

CAMAU I LLINIARU'R RISG ACTIONS TO MITIGATE RISK <i>Teitl byr</i> <i>Brief Title</i>	CAM I'W GYMRYD ACTION <i>Disgrifiwch y cam a gymerir i</i> <i>liniaru'r risg</i>	EFFAITH DDISGWYLIEDIG Y CAM EXPECTED IMPACT OF THE ACTION <i>Sut bydd y cam gweithredu hwn yn</i> <i>lleihau/lliniaru'r risg</i> <i>How will this action</i> <i>reduce/mitigate the risk or exploit</i> <i>the risk.</i>	
1			
2			
ADNODDAU ANGENRHEIDIOL AR GYFER LLINIARU'R RISG RESOURCES REQUIRED TO MITIGATE THE RISK	<i>Amlinellwch yr adnoddau y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r camau</i> <i>gweithredu uchod, gan gynnwys unrhyw adnoddau ariannol y bydd eu</i> <i>hangen</i> <i>Outline the resources that are required to deliver the actions above</i> <i>include any financial resources that may be required</i>		
ASESIAD RISG NEWYDD NEW RISK ASSESSMENT			
Asesiad Risg newydd gyda chamau gweithredu lliniarol yn eu lle	Posibilirwydd Dewiswch eitem.	EFFAITH Dewiswch eitem.	SGÔR (TebygolrwyddxEffaith) Dewiswch eitem.
New Risk Assessment with mitigating actions in place	Probability <i>Choose an item.</i>	IMPACT <i>Choose an item.</i>	SCORE (Probability x Impact) <i>Choose an item.</i>
DYDDIAD CYCHWYN START DATE		DYDDIAD GORFFEN END DATE	
Risg yn cael ei dderbyn gan Acceptance of Risk By	Reolwr y Tîm/Swyddog Arweiniol Corfforaethol/Grŵp Arweiniol/Gadeirydd y Bartneriaeth/Y Gymuned Team Manager / CLO / Leadership Group / Partnership Chair / Community		
Llofnodwyd Signed		Dyddiad Date	
Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu	Dyddiau Date	Pwyllgor Craffu Scrutiny Committee	
Referred to Scrutiny			

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r:</u>	Cabinet
<u>Dyddiad y Cyfarfod:</u>	20 Chwefror 2024
<u>Teitl:</u>	Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Codi ymwybyddiaeth am waith a rôl y Fforwm Mynediad Lleol
<u>Er:</u>	Gwybodaeth

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cyngorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio

Cyflwyniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynghori'r Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad. Corff statudol yw'r Fforwm sy'n cael ei annog i osod ei agenda ei hun.

Mae Fforymau Mynediad Lleol yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau ac mae'r aelodau yn chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad amrywiol ac atyniadol y sir. Penodir aelodau i'r Fforymau am dymor o dair blynedd.

I'r sawl sydd â diddordeb mewn datblygu mynediad cyhoeddus a'r gweithgareddau hamdden sy'n gysylltiedig â hynny, gall y Fforwm fod yn fodd effeithiol o gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion, asiantaethau'r Llywodraeth a mudiadau eraill sydd â chyfrifoldebau neu fuddiannau yn y meysydd hyn.

Penodir aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol am dair blynedd; penodwyd y Fforwm presennol gan Gyngor Sir Ceredigion, sef yr Awdurdod Penodi, yn 2022 a bydd yr aelodau'n eistedd ar y fforwm tan 2025.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Naddo – adroddiad yw hwn ynghylch cynnydd y Fforwm yn unig.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Amherthnasol
Cydweithio:	Amherthnasol
Cynnwys:	Amherthnasol
Atal:	Amherthnasol
Integreiddio:	Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:

Er gwybodaeth yn unig; er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Fforwm Mynediad Lleol a'r Adroddiad Blynyddol a baratowyd.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Er gwybodaeth yn unig

Trosolwg a Chraffu:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus- 18 Rhagfyr 2023

Fframwaith Polisi:

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Amherthnasol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Dim

Goblygiadau cyfreithiol:

Dim

Goblygiadau staffio:

Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:

Dim

Risq(iau):

Dim

Pwerau Statudol:

Dim

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Atodiad 1- Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol 22-23

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

Swyddog Adrodd:

Eifion Jones, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Dyddiad:

18 Ionawr 2024



**FFORWM MYNEDIAD LLEOL
CEREDIGION**

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron
Ceredigion, SA46 0PA

FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Lluniwyd adroddiad blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Mae'r adroddiad yn edrych ar waith y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2022-2023 ac mae'n nodi'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y tymor.

SWYDDOGION Y FFORWM

Cadeirydd:	Peter White
Is-gadeirydd:	Dic Evans
Ysgrifennydd:	Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion)

CYNNWYS

1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION
2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL.....
3. GWEITHGAREDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL, 2022-2023.....
4. Y RHAGLEN WAITH.....

ATODIADAU

- A Cynllun o Geredigion
- B Swyddogaethau Fforymau Mynediad Lleol: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- C Aelodaeth Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, a elwir wedi hyn yn 'Fforwm', ym mis Ebrill 2002 o dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Fforwm yn cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella mynediad cyhoeddus i dir at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhad o'r ardal¹ (Atodiad B).

Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, dylai'r Fforwm ystyried y canlynol²:

- Yr anghenion o ran rheoli tir;
- Pa mor ddymunol fyddai gwarchod harddwch naturiol yr ardal, gan gynnwys y bywyd gwylt, nodweddion daearegol a'r tirffurf; a'r
- Cyfarwyddyd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Daeth cyfnod tair blynedd y Fforwm blaenorol i ben ym mis Mawrth 2021 a phenodwyd Fforwm newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2025 yn unol â'r Rheoliadau³.

Cyfarfu'r Fforwm bedair gwaith yn ystod 2022 - 2023:

30 Mehefin 2022
29 Medi 2022
19 Ionawr 2023
20 Ebrill 2023

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 30 Mehefin yn rhithiol oherwydd roedd y protocolau COVID yn parhau. Cyfarfod hybrid oedd y cyfarfod ar 29 Medi, a dyma oedd y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf yn dilyn COVID. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn neuadd bentref Llanddewi Brefi. Cyfarfod rhithiol oedd y cyfarfod ar 19 Ionawr oherwydd tywydd garw. Cyfarfod hybrid oedd y cyfarfod ar 20 Ebrill gyda'r elfen wyneb yn wyneb yn cael ei chynnal ym Mhenmorfa, Aberaeron. Rhoddwyd gwybod am gyfarfodydd y Fforwm, gan gynnwys yr agendâu a gwybodaeth arall, ar dudalen we'r Fforwm ar wefan Cyngor Sir Ceredigion⁴.

Cyfarfu is-bwyllgor y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i ystyried cynnydd y Cynllun ac i adolygu'r Prif Rwydwaith Llwybrau bob 6 mis. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn rhithiol ar:

23 Awst 2022
2 Rhagfyr 2022

¹ Adran 94(4), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

² Adran 94(6), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

³ Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

⁴ www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=11843

Etholwyd Richard Price yn Gadeirydd yr is-bwyllgor yn y cyfarfod ar 23 Awst ac etholwyd Felicity Wills yn Is-gadeirydd yn yr un cyfarfod.

2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Y Cyngor Sir (fel yr 'awdurdod penodi') sy'n gyfrifol am ddewis aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd, a rhwng 10 ac 20 o aelodau eraill. Mae'n rhaid i'r awdurdod benodi aelodau sy'n gynrychioliadol o ddefnyddwyr yr hawliau tramwy cyhoeddus neu'r tir mynediad, perchnogion / meddianwyr y tir mynediad neu'r tir lle mae hawliau tramwy cyhoeddus, ac eraill sydd â buddiannau perthnasol i'r sir. Mae'r awdurdod wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddwyr y tiroedd mynediad a'r hawliau tramwy a'r sawl sy'n berchen / meddiannu'r tiroedd hyn wrth benodi aelodau'r Fforwm.

Mae'r aelodau yn eistedd ar y Fforwm am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad penodi (oni therfynir yr aelodaeth). Yn 2022 penododd y Cyngor Sir aelodau i eistedd ar y pwyllgor am y cyfnod rhwng 2022 a 2025. Gweler aelodaeth y Fforwm yn Atodiad C.

Gall sylwedyddion statudol o Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Fforwm. Mae cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd wedi'u gwahodd i'r cyfarfodydd yn ystod y cyfnod rhwng 2022 a 2025 a hynny fel sylwedyddion a chynghorwyr; mae'n bosib y bydd sefydliadau eraill yn cael eu gwahodd o dro i dro yn ystod y tymor os bydd yr aelodau'n credu y byddai'n ychwanegu gwerth a buddiant i waith y fforwm.

3. GWEITHGAREDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2022-2023

Mae'r adran hon yn amlygu prif feysydd o waith y Fforwm yn 2022-2023. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm yn darparu cofnod manylach o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

i) Prosesau Fforwm Mynediad Lleol:

Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol

Penodwyd Mr Peter White yn Gadeirydd y Fforwm ar 30 Mehefin 2022.
Penodwyd Mr Dic Evans yn Is-gadeirydd ar 29 Medi 2022.

Swyddogaethau'r Fforwm Mynediad Lleol

Ar wefan y Cyngor gellir gweld dogfen sy'n rhoi manylion ynghylch swyddogaethau'r Fforwm gan ystyried y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, rheoliadau Llywodraeth Cymru a chanllawiau Cyfoeth Naturiol

Cymru, ynghyd â rheolau sefydlog a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Fforwm.

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/fforwm-mynediad-lleol/>

ii) Hawliau Tramwy a Mynediad:

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion.

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli Hawliau Tramwy a mynediad yng Ngheredigion am gyfnod o 10 mlynedd. Mae'n ddogfen allweddol ar gyfer y Fforwm oherwydd mae'n nodi'r cyd-destun ar gyfer rhaglen waith y Fforwm a ffordd o asesu'r cynnydd a wnaed o ran gwella hawliau tramwy a mynediad.

Mae is-bwyllgor sefydlog yn cadw golwg ar gynnydd y cynllun ac yn adolygu'r Prif Rwydwaith Llwybrau bob 6 mis.

Adborth o gyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yn Y Drenewydd ar 26 Hydref 2022

Adroddodd y Cadeirydd am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod, gan nodi y bu llawer o drafodaeth am rai o'r materion ymarferol yn ymwneud â ffermio cynaliadwy, creu coetiroedd, newid yn yr hinsawdd, cŵn yng nghefn gwlad, a'r gwaith a wnaed fel rhan o'r rhaglen diwygio mynediad.

Rhaglenni / Gweithgareddau Hawliau Tramwy a Mynediad

Darparodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau rheolaidd am faterion yn ymwneud â hawliau tramwy a mynediad gan gynnwys y gwaith a wnaed o dan Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru a grantiau datblygu / cynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Fforwm am nifer o fentrau a oedd yn digwydd ar draws y sir, gan gynnwys Menter Mynyddoedd y Cambria, Gwyliau Cerdded Tyfu Canolbarth Cymru, Grŵp Ymgynghorol Diwygio Mynediad, Llwybrau i Lesiant, Croeso Cymru a Llwybr Teifi.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Fforwm fod 2023 yn dynodi 15 mlynedd ers agor Llwybr yr Arfordir yng Ngheredigion. Bydd rhaglen o deithiau cerdded tywysiedig a deunydd ynghylch llwybrau cylchol ar hyd llwybr yr arfordir yn cael eu paratoi fel rhan o'r dathlu.

ii) Sesiynau Briffio / Cyflwyniadau a Materion Eraill:

Prosiect Ystrad Fflur

Rhoddodd yr Athro David Austin o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant drosolwg o brosiect archeolegol Ystrad Fflur.

Teithio Llesol

Rhoddodd Gari Jones, Peiriannydd gyda Chyngor Sir Ceredigion sydd â chyfrifoldeb dros Deithio Llesol, drosolwg o gyfrifoldebau'r Cyngor (o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013) a nododd y gwaith a gwblhawyd / a gynlluniwyd o ran gwella teithio llesol.

Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Esboniodd Lorna Brazell sut roedd Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria yn ceisio hyrwyddo a diogelu Mynyddoedd y Cambria a'r ymgyrch i ddynodi'r ardal yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Tîm Troseddau Gwledig Ceredigion

Daeth Billy Dunne, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, i'r Fforwm i roi trosolwg o waith y swyddogion, yn benodol eu gwaith o ran cŵn yn tarfu ar dda byw a cherbydau oddi ar y ffordd.

Llwybr Teifi

Rhoddodd James Williams (sydd hefyd yn aelod o'r Fforwm) drosolwg o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i ddatblygu Llwybr Teifi, sef Llwybr cerdded pellter hir.

4. Y RHAGLEN WAITH, 2022 – 2025

Mae rhaglen waith arfaethedig y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer 2022-25 wedi'i nodi isod (cytunwyd ar y rhaglen yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023).

Datblygwyd y rhaglen waith yn wreiddiol ar ddechrau tymor newydd y Fforwm yn 2022 ac mae'n cynnwys yr eitemau fydd yn cael eu hystyried dros gyfnod hwy o amser. Nid yw'r rhaglen yn cynnwys y materion tymor byr sydd fel arfer yn codi i'w cynnwys ar agendâu. Mae croeso i aelodau'r Fforwm awgrymu eitemau ar gyfer agenda unrhyw gyfarfod.

Eitem
Llwybr Teifi
Prosiect Pen Dinas
Adroddiad gan y Rheolwr Lleol o Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y camau gweithredu a'r cynlluniau yng Ngheredigion o ran mynediad a chyfleusterau hamdden.
Diweddariad Diwygio Mynediad. Cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru.
Menter Mynyddoedd y Cambria – Statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Menter Mynyddoedd y Cambria (adroddiad am fynediad / hamddena)
Prosiect Llwybrau i Lesiant – diweddariad gan Gymdeithas y Cerddwyr
Prosiect Portalis
Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ceredigion
Coed y Bont – Pontrhydfendigaid
Coedwig Cymunedol Longwood


Tudalen 530

Addysg ynghylch defnyddio llwybrau amldefnydd yn ddiogel
Cyllid ar gyfer prosiectau mynediad
Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Ystad Hafod

ATODIAD

Atodiad A

CEREDIGION: ARDAL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL



*Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to
prosecution or civil proceedings. Cyngor Sir Ceredigion Lce No 100024419, 2012*

Atodiad B

(Noder: Mae'r Ddeddf hon wedi'i chyhoeddi yn Saesneg yn unig.)

ACCESS FORUM FUNCTIONS: COUNTRYSIDE & RIGHTS OF WAY ACT 2000

94(4) It is the function of a local access forum, as respects the area for which it is established to advise –

- (a) the appointing authority
- (b) any body exercising functions under Part I in relation to land in that area,
- (c) if the appointing authority is a National Park authority, the local highway authority for any part of that land, and
- (d) such other bodies as may be prescribed.

as to the improvement of public access to land in that area for the purposes of open-air recreation and the enjoyment of the area.

94(5) The bodies mentioned in paragraphs (a) to (d) of subsection (4) shall have regard, in carrying out their functions, to any relevant advice given to them by a local access forum under this subsection or any other provision of this Act.

94(6) In carrying out its functions, a local access forum shall have regard to –

- (a) the needs of land management,
- (b) the desirability of conserving the natural beauty of the area for which it is established, including the flora, fauna and geological and physiographical features of the area, and
- (c) guidance given from time to time by the Secretary of State (as respects England) or the National Assembly for Wales (as respects Wales).

Atodiad C

AELODAETH FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION (2022- 2025)

Enw	A oedd yn Aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol blaenorol?
Aeron Jenkins	Oedd
Chris Thomas (Mrs)	Nac oedd
David Beale	Nac oedd
Dic Evans (Is-gadeirydd)	Oedd
Emma Davies	Nac oedd
Felicity Wills	Oedd
Glyn Davies	Oedd
James Williams	Nac oedd
Mari Davies	Nac oedd
Maurice Kyle	Nac oedd
Peter White (Cadeirydd)	Nac oedd
Raymond Ricketts	Nac oedd
Richard Price	Nac oedd
Robert Griffiths	Oedd
Robin Young	Nac oedd

Tudalen 534

William Bobbett	Nac oedd
Helen Donnan	Nac oedd
Y Cynghorydd Clive Davies (Cyngor Sir Ceredigion)	Nac oedd
David Hart Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Sylwedydd / Cynghorwr)	Nac oedd
Michael Smith Cyfoeth Naturiol Cymru (Sylwedydd / Cynghorwr)	Oedd

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 20 Chwefror 2024

Teitl: Argymhelliad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 18 Rhagfyr 2023

Cefndir:

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023.

Roedd Eifion Jones, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol, wedi rhoi trosolwg o Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol ac o waith a rôl y Fforwm. Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynghori'r Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad. Roedd Fforymau Mynediad Lleol yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau ac roedd yr aelodau yn chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad amrywiol ac atyniadol y sir

Penodwyd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol am dair blynedd; penodwyd y Fforwm presennol gan Gyngor Sir Ceredigion, sef yr Awdurdod Penodi, yn 2022 a bydd yr aelodau'n eistedd ar y fforwm tan 2025. Nid yn unig yr oedd y Fforwm yn gorff statudol a anogir i osod ei agenda ei hun, yr oedd yn allweddol ar gyfer denu grantiau a oedd yn werth dros £100,000 y flwyddyn. Hefyd roedd yn bartner wrth reoli Hawliau Tramwy a Mynediad. Lluniwyd yr adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Estynnodd y Cyngorydd Clive Davies (Aelod o'r Cabinet dros yr Economi ac Adfywio) ei ddiolch i Eifion Jones am lunio'r adroddiad. Fel aelod o'r Fforwm, dywedodd fod y gwaith a'r cyflwyniadau a wneir gan gyrff allanol yn ddiddorol iawn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r wybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Fforwm Mynediad Lleol a'r Adroddiad Blynyddol a baratowyd.

Y Cyngorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

Manylion y Cynnig

Teitl y Polisi / Cynnig / Menter	
Cynnydd arfaethedig Ffioedd a Thaliadau i ddod i rym ar 1 Ebrill 2024 fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25.	
Maes Gwasanaeth	Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI
Pob Gwasanaeth	Grŵp Arweiniol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Cyfarwyddwr Strategol
Duncan Hall	Barry Rees
Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig	
Cynnydd arfaethedig Ffioedd a Thaliadau fel rhan o broses gosod cyllideb y Cyngor 2024/25. Bydd y Ffioedd a Thaliadau diwygiedig yn cyfrannu tuag at ddarparu cyllideb gytbwys gan y Cyngor ac mae'n unol â Pholisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau Gwasanaeth y Cyngor lle mae disgwyl i wasanaethau anelu at adennill costau llawn lle bynnag y bo modd.	
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? AWGRYM	
Mae Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu felly bydd y cynnydd yn effeithio i raddau ar y cyhoedd yn gyffredinol.	
A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?	
Na. Fodd bynnag, mae'r cynigion wedi'u hystyried gan y pwyllgorau Craffu'r Cyllideb perthnasol.	

Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb lle bynnag y bo modd.

Rhif y Fersiwn	Awdur	Cam yn y broses benderfynu <u>AWGRYM</u>	Dyddiad yr Ystyriwyd	Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed <u>AWGRYM</u>
1.0	Mark Bridges	Cabinet	20/02/24	AMH

Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n [Strategaeth Gorfforaethol 2022-27](#)

Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	Nid yw'r cynigion o reidrwydd yn mynd i'r afael ag Amcanion Llesiant Corfforaethol penodol, ond mae adennill costau drwy Ffioedd a Thaliadau yn cyfrannu at allu'r Cyngor i llunio cyllideb gytbwys a thrwy hynny allu cynnig gwasanaethau cynaliadwy wrth fynd yn ei flaen. Mae hyn yn ei dro yn ategu holl amcanion y Cyngor.
Creu cymunedau gofalgwr ac iach	Gweler uchod
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu	Gweler uchod
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	Gweler uchod

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tloidi.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Cyllideb Gytbwys / Gwasanaethau Cynaliadwy

Mae newidiadau i ffioedd a thaliadau yn caniatáu i'r Cyngor barhau i ddarparu llawer o'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig, sy'n cyfrannu at sir/gwlad lewyrchus, drwy ganiatáu i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys. Heb adennill costau byddai llawer o'r gwasanaethau yn anghynaliadwy gyda'r adnoddau presennol ac o bosibl gallent ddod i ben.

Mae cydbwysu rhwng y gallu i ddarparu gwasanaethau gyda'r cyfyngiadau ar adnoddau cyfredol i'r gwasanaeth, a pheidio â gwneud y gwasanaeth mor ddrud fel ei fod yn anfforddiadwy i breswylwyr, yn un anodd.

Positif

Parcio

Gall cynnydd mewn taliadau parcio ceir annog mwy o ddefnydd o ddulliau trafniadaeth amgen gan gynnwys trafniadaeth gyhoeddus a allai gyfrannu at leihau allyriadau carbon yn y sir. Mae'r defnydd o feysydd parcio yn gwbl ddewisol.

Negyddol

Parcio

Ar y llaw arall, gall cynyddu'r taliadau parcio gael effaith negyddol ar ymweliadau â chanolfannau masnach yn y sir a allai niweidio busnesau presennol a'r posibiladau ar gyfer creu busnesau newydd, er mae astudiaethau cenedlaethol wedi dangos bod argaeledd llefydd parcio a pha mor debygol y mae'r meysydd parcio o fod yn brysur yn aml yn ffactorau all fod yn fwy pwysig na'r gost yn eu penderfyniad i ymweld.

Trwyddedu, Rheoliadau Adeiladu a Thrwyddedu Tai Aml-feddiannol (HMO)

Mae costau'r Cyngor yn codi gyda chwyddiant, felly mae angen i'r taliadau adlewyrchu hyn. Ar gyfer rhai gwasanaethau fel Trwyddedu a Rheoli Adeiladu, mae deddfwriaeth yn datgan y dylai ffioedd weithredu ar sail adennill costau llawn. Felly, er bod costau uwch yn rhoi baich ychwanegol posibl ar fusnes, mae rheoliadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu ar sail adennill costau llawn fel nad yw'r costau hyn yn derbyn sybsidi gan dreth-dalwyr y Cyngor.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

O ran yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, nid yw'r cyllid cyfredol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Setliad Refeniw blynyddol yn cynyddu yn unol â chwyddiant costau'r Cyngor ei hun, fel y profir gan yr angen i gynyddu'r Dreth Gyngor yn sylweddol. Dewis arall yn lle codi Ffioedd a Thaliadau fyddai naill ai codi Treth y Cyngor hyd yn oed yn uwch na'r hyn a gynigiwyd neu gyflwyno mwy o gynigion Lleihau'r Gyllideb – gallai'r ddau ohonynt fod yn fwy niweidiol.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?

Ar y cyfan mae ffioedd a thaliadau yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant costau ac maent yn gyson â Pholisi Rheoli Incwm a Adennill Chostau gwasanaethau'r Cyngor. Lle mae'n uwch na chwyddiant yn gyffredinol, mae'n cael ei ystyried trwy lens adennill costau wrth geisio cadw taliadau mor isel â phosibl ag y bo modd er mwyn bod yn gynaliadwy.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am Gymru gydnerth.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Ar y cyfan, nid yw ffioedd a thaliadau yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau Cymru, er bod nifer fach o ffioedd yn ymwneud ag Arfordir a Chefn Gwlad - mae unrhyw gynnydd yn adlewyrchu'r cynnydd mewn chwyddiant sy'n wynebu'r gwasanaeth cysylltiedig (e.e. cynnydd costau cyflog, gwasanaeth a chyflenwadau)

Mae'n bosibl y bydd y gostyngiad posibl yn y defnydd o geir a ddisgrifir uchod yn cael rhywfaint o effaith ond mae'n debygol o fod yn fach iawn.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Ar y cyfan, nid yw ffioedd a thaliadau yn berthnasol i'r adran hon.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?

AMH

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am Gymru Iachach.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Positif

Mae unrhyw gynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau yn cyfrannu at allu parhau i gynnig gwasanaethau mewn modd cynaliadwy yn ariannol.

Positif

Canolfannau Llesiant

Heb yr incwm ychwanegol a gynhyrchir mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir ddod i ben neu gael eu lleihau o ran sgôp. Mae'n annhebygol y byddai'r sector preifat yn camu i mewn i gynnig gwasanaeth tebyg am gost is oherwydd poblogaeth brin a lleoliad daearyddol gwledig Ceredigion. Hyd yn oed gyda'r cynnydd mewn Ffioedd, mae darparu Canolfannau Lles dal angen sybsidi gan y Cyngor i'w rhedeg.

Ffioedd Harbwr

Fel gweithgaredd hamdden dewisol a phenodol iawn, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i allu parhau i sybsideiddio costau gweithredu ei Harbyrau. Felly, mae'r ffioedd ar gyfer Angorfeydd ac ati yn cael eu cynyddu gan anelu at sefyllfa lle gellir adennill costau'n llawn, fel nad yw talwyr Treth y Cyngor cyffredinol yng Ngheredigion yn sybsideiddio'r elfen hon.

Negyddol

Canolfannau Llesiant

Mae'r ffioedd am logi cyfleusterau Lles fel caeau artiffisial, pyllau nofio, ac ystafelloedd ffitrwydd yn cynyddu. Bydd pris dosbarthiadau ac aelodaeth yn cynyddu'n gyffredinol yn unol â chwyddiant. Dros amser, gallai'r cyfleusterau/gwasanaethau hyn fod yn llai fforddiadwy i ddefnyddwyr gyda'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr. Nid yw'n wybodus os bydd y taliadau yn arwain at ostyngiad gwirioneddol yn y defnydd nac i ba raddau chwaith. Mae'r defnydd o'r cyfleusterau hyn yn gwbl ddewisol, fodd bynnag, mae nifer o'r cyfleusterau wedi derbyn buddsoddiad cyfalaf yn ddiweddar sydd wedi cynyddu safon yr hyn sydd ar gael.

Ffioedd Harbwr

Er na fydd defnyddwyr yr harbwr yn croesawu cynnydd mewn ffioedd, fel y nodir uchod, mae'r gwasanaethau a ddarperir yn ddewisol ac mae rhestrau aros ar gyfer angorfeydd yn yr harbryau, sy'n golygu nad oes prinder pobl sydd eisiau defnyddio'r Harbyrau.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Nid ydym yn gwybod beth fydd yr effaith ar ddefnydd y Canolfannau Lles o ganlyniad i'r newidiadau, ond fe all fod rhywfaint o effaith.

Mae rhestrau aros ar gyfer angorfeydd yn Harbyrau'r Cyngor.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?

Ar y cyfan mae ffioedd ar gyfer adnoddau'r Canolfannau Lles yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant, gyda'r cynnydd gwirioneddol mewn gwerth arian parod fesul gwasanaeth yn gymharol fach felly rhagwelir y bydd yr effaith yn gymharol isel.

- Gellir cael consesiynau myfyrwyr/pensiynwyr/anabl ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n eu gwneud yn fwy fforddiadwy.
- Gellir cael Aelodaeth Teulu/Aelwyd sy'n gwneud gwasanaethau'n fwy fforddiadwy i deuluoedd.
- Mae aelodaeth 'Talu fesul tro' newydd i'w gael ar gyfer defnyddio'r ystafelloedd ffitrwydd, dosbarthiadau ffitrwydd a dosbarthiadau nofio/acwa. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid i ddewis peidio â bod yn ymrwymedig i aelodaeth fisol barhaus.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n Fwy Cyfartal

Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed	Dim/Fawr Ddim
Pobl 18-50	Dim/Fawr Ddim
Pobl hŷn 50+	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

Ni fyddai newidiadau i ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn effeithio'n anghymesur ar un grŵp oedran o'i gymharu ag un arall.

Mae rhai taliadau gofal cymdeithasol a chymorth a fydd yn cynyddu yn fwy penodol i breswylwyr hŷn ond mae'r rhain yn destun uchafswm ffi wythnosol, fel y pennir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn destun asesiad ariannol yn unol â rheoliadau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

Bydd asesiad ariannol ac uchafswm ffi wythnosol gan Lywodraeth Cymru yn lliniaru rhai o'r effeithiau posibl i breswylwyr hŷn rhag y cynnydd i ofal cymdeithasol a thaliadau cymorth.

Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol i grwpiau oedran eraill.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Amhariad ar y clyw	Dim/Fawr Ddim
Amhariad corfforol	Dim/Fawr Ddim
Amhariad ar y golwg	Dim/Fawr Ddim
Anabledd Dysgu	Dim/Fawr Ddim
Salwch hirdymor	Dim/Fawr Ddim
Iechyd Meddwl	Dim/Fawr Ddim
Arall	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddolToiledau Cyhoeddus

Bydd pris allweddi radar sy'n galluogi pobl sydd ag anghenion ychwanegol i gael mynediad at gyfleusterau cyhoeddus, yn codi o £6.50 i £7.00. Mae'r cynnydd mewn pris yn gymharol fach felly rydym yn disgwyl i'r effaith fod yn fach iawn, ond ystyriwyd y gall gael effaith ar rai unigolion.

Mae'r ffioedd defnyddio cyfleustra cyhoeddus cyffredinol yn codi o 30c i 40c. Unwaith eto, gall hyn effeithio ar ddefnyddwyr â phroblemau iechyd sy'n dewis peidio â defnyddio'r toiledau neu sy'n methu fforddio'r pris uwch. Mae dewisiadau amgen mewn rhai lleoliadau er enghraifft mewn archfarchnadoedd a chaffis.

Yn ystod 2023/24 cynyddwyd ffioedd o 20c i 30c ac ni phrofwyd gostyngiad yn y galw felly disgwylir y bydd y cynnydd arfaethedig presennol yn cael cyn lleied â phosibl o effaith.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Prawf o newidiadau i'r galw yn y gorffennol o gynnydd pris tebyg.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

Disgwylir i'r effaith fod yn fach iawn gan fod y cynnydd mewn gwerth ariannol yn gymharol isel i unigolion sy'n ymweld. Mae trafodaethau yn mynd yn eu blaen gyda nifer o Gyngorau Tref a Chymuned i drosglwyddo'r gwaith o gynnal toiledau cyhoeddus iddyn nhw oherwydd mae'n bosib y byddant yn gallu gweithredu nhw ar gost is na Chyngor Sir Ceredigion.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Menywod Traws	Dim/Fawr Ddim
Dynion Traws	Dim/Fawr Ddim
Pobl Anneuaidd	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

AMH

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Tudalen 545

Pobl Ddeurywiol	Dim/Fawr Ddim
Dynion hoyw	Dim/Fawr Ddim
Menywod hoyw / lesbiaid	Dim/Fawr Ddim
Pobl Heterorywiol	Dim/Fawr Ddim
Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol	
AMH	
Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	
AMH	
Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	
A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?	
AMH	

Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil? (Cliciwch yma am wybodaeth)	
Pobl sy'n briod	Dim/Fawr Ddim
Pobl mewn partneriaeth sifil	Dim/Fawr Ddim
Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol	
AMH	
Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	
AMH	
Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	
A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?	
AMH	

A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth? ([Cliciwch yma](#) am wybodaeth)

Beichiogrwydd

Dim/Fawr Ddim

Mamolaeth

Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

AMH

A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig? ([Cliciwch yma](#) am wybodaeth)

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

Dim/Fawr Ddim

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig

Dim/Fawr Ddim

Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig

Dim/Fawr Ddim

Gwyn

Dim/Fawr Ddim

Grwpiau ethnig eraill

Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

AMH

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? ([Cliciwch yma](#) am wybodaeth)

Bwdhaidd	Dim/Fawr Ddim
Cristion	Dim/Fawr Ddim
Hindŵaidd	Dim/Fawr Ddim
Dyneiddiwr	Dim/Fawr Ddim
Iddewig	Dim/Fawr Ddim
Mwslim	Dim/Fawr Ddim
Sikh	Dim/Fawr Ddim
Pobl heb gred	Dim/Fawr Ddim
Eraill	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

AMH

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod? ([Cliciwch yma](#) am wybodaeth)

Dynion	Dim/Fawr Ddim
Menywod	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

AMH

A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Aelodau o'r Lluoedd Arfog

Dim/Fawr Ddim

Cyn-filwyr

Dim/Fawr Ddim

Gwŷr/gwragedd

Dim/Fawr Ddim

Plant

Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

AMH

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

AMH

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na plentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Negyddol

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

Mae rhai Ffioedd a Thaliadau a fydd yn costio mwy yn gwneud rhai gwasanaethau yn llai hygyrch i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Parcio Ceir – Bydd y taliadau'n effeithio ar fwyafrif y bobl sydd a char sy'n ymweld â chanolfannau masnachol o gwmpas y sir. Er y gallai'r cynnydd fod yn gymharol fach o ran gwerth arian parod, gall yr effaith gael ei deimlo fwy gan y rhai sydd â llai o arian i'w wario. Fodd bynnag, mae'r defnydd o feysydd parcio yn gwbl ddewisol, a pharcio am ddim ar strydoedd ac oddi ar prif-strydoedd ar gael yn gymharol rhwydd yng nghanol ein trefi.

Canolfannau lles – Gall cyfleusterau ddod yn llai hygyrch i'r rhai sydd a llai o arian i'w wario.

Diwylliant – Mae ffioedd llogi offerynnau a gwersi cerdd yn cynyddu. Mae mynediad i'r amgueddfa bellach yn costio £2 y person lle roedd yn rhad ac am ddim o'r blaen. Gallai hyn gael effaith negyddol ar y rhai sydd â llai o arian i'w wario rhag ymweld.

Toiledau Cyhoeddus – Mae'r ffioedd ar gyfer ymweld â thoiledau cyhoeddus yn cynyddu 10c ac mae pris yr allwedd radar a ddefnyddir gan unigolion gydag anghenion arbennig yn cynyddu 50c. Oherwydd fod gwerth ariannol y cynnydd yn gymharol fach, nid ydyn yn rhagweld effaith sylweddol ond fe fydd y gost ychwanegol yn cael ei deimlo'n fwy cryf gan unigolion sydd a llai o arian parod i'w wario.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Mae'n anodd rhagweld yr effaith wirioneddol, ond mae'n rhesymegol y gallai'r gost gynyddol ar gyfer y gwasanaethau hyn gael effaith anghymesur ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2024 mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi 9.7% i £11.44 ac mae'r Cyflog Byw Go lawn ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn codi 10.1% i £12.00.

O safbwynt toiledau cyhoeddus lle gwelwyd cynnydd mewn pris yn y gorffennol, ni welwyd lleihad yn y defnydd ohonynt.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r Cyngor yn argymhell sicrhau arian digonol o'r cynnydd i'r ffioedd blynyddol i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol allu sicrhau bod cynnydd o 10.1% i'r Cyflog Byw Go lawn yn cael ei ariannu.

Yr Amgueddfa – cynigir opsiwn Aelodaeth blynyddol sy'n costio £24, a ddylai fod yn ddeniadol i ymwelwyr mynych ac ni fydd tâl am blant.

Toiledau Cyhoeddus – Disgwylir i'r effaith fod yn fach iawn gan fod y cynnydd mewn gwerth ariannol yn gymharol isel i unigolion sy'n ymweld. Mae trafodaethau yn mynd yn eu blaen gyda nifer o Gynghorau Tref a Chymuned i drosglwyddo'r gwaith o gynnal toiledau cyhoeddus iddyn nhw oherwydd mae'n bosib y byddant yn gallu gweithredu nhw ar gost is na Chyngor Sir Ceredigion.

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

Mae gwersi cerdd am ddim i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a hefyd disgyblion sy'n astudio cerddoriaeth TGAU/Safon Uwch.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da

Cliciwch [yma](#) i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM

Ni ddylai newidiadau i ffioedd a thaliadau gael effaith benodol ar gymunedau cydlynol

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

AMH

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?

AMH

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

Fel y nodwyd eisoes mewn adrannau blaenorol, bydd y newidiadau i'r Ffioedd a'r Taliadau yn cyfrannu at allu'r Cyngor e weithredu gyda chyllideb gytbwys a pharhau i gynnig y gwasanaethau mae'n eu darparu sy'n cefnogi diwylliant bywiog o ganlyniad i hynny. Heb gyllideb gytbwys byddai llawer o'r gwasanaethau hyn yn anghynnaladwy ac efallai y byddant yn dod i ben yn gyfan gwbl.

Mae'n weithred gydbwyso anodd ond gallai cyflwyno taliadau am ymweliadau ag amgueddfeydd, a chynyddu taliadau mewn Canolfannau Llesiant eu gwneud yn llai hygyrch i'r rhai sydd a llai o arian i'w wario ac felly gallai gael effaith negyddol.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Mae setliad cyllid y Cyngor yn dystiolaeth o gyfyngiadau i'w gyllid. Mae hefyd yn rhesymegol y gallai cynyddu prisiau leihau'r galw am wasanaeth penodol, o safbwynt elastigedd prisiau, er bod y cynnydd wedi'i gadw mor isel â phosibl ac mae'n anodd rhagweld y newid gwirioneddol i'r galw, os o gwbl.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

Mae'n anodd lliniaru'r effeithiau negyddol yn llwyr er bod consesiynau ar gael ar gyfer rhai gwasanaethau yn y Canolfannau Lles ac er bod ffi mynediad yn cael ei chyflwyno yn yr amgueddfa mae wedi cael ei gosod ar £2 sy'n isel o'i gymharu ag atyniadau/cyfleusterau eraill.

Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

Dim / Fawr Ddim

Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg

Dim / Fawr Ddim

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?

Nid oes gwahaniaeth rhwng ieithoedd o fewn y polisi hwn ac nid yw'n cael effaith chwaith ar y defnydd o'r Gymraeg.

Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?

AMH

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. <u>AWGRYM</u>
Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar Gymru sy'n Gyfrifol r lefel fyd-eang
Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?
AMH
Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?
AMH

Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam. (Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)			
Mae'n anodd rhagweld beth fydd lefel yr effeithiau negyddol a nodwyd uchod a disgwylir iddynt fod yn gymharol fach.			
Lle mae mesurau lliniaru cynnydd mewn prisiau i'w cael, maent wedi'u gweithredu. Fel y dangosir gan gonsesiynau/tocynnau teulu yn y canolfannau Llesiant.			

Rhaid cofio bod y Cyngor yn gwneud y newidiadau hyn i'r Ffioedd a'r Taliadau er mwyn gallu darparu cyllideb gytbwys i ddarparu'r gwasanaethau cynaliadwy. Heb hyn, gall llawer o'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig ddod i ben neu leihau'n sylweddol. Byddai hyn yn cael effaith llawer mwy negyddol ar Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor na'r cynigion hyn. Ar y cyfan, mae'r cynigion hyn i godi Ffioedd a Thaliadau yn unol â chwyddiant costau.

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Bydd gweithgaredd ac incwm yn cael eu monitro drwy'r broses monitro'r gyllideb a fydd yn a) monitro a yw targedau incwm yn cael eu cyrraedd i dalu am wasanaethau'r Cyngor a b) a yw unrhyw gynnydd mewn prisiau wedi cael effaith andwyol sylweddol ar y galw.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




<p>Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Bydd y Cyngor yn parhau i gadw at yr egwyddorion a nodir yn y Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau gwasanaeth i anelu at adennill costau i'w alluogi i gynnig gwasanaethau cynaliadwy.</p> <p>Bydd angen i'r Cyngor werthuso'n barhaus pa wasanaethau y mae'n parhau i'w cynnig yn y tymor hir. Efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd pan fydd gwasanaeth penodol yn mynd yn anfforddiadwy.</p>
<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Efallai y bydd cyfleoedd lle gall y trydydd sector, fel elusennau, grwpiau cymunedol a chynghorau tref a chymunedgynorthwyo neu ddarparu rhai o'r gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r un peth yn berthnasol i'r sector breifat ac mae'r Cyngor yn chwilio'n barhaus am bartneriaid yn y maes hwn, gan gynnwys rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd.</p>
<p>Cynnwys Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Mae'r cynigion wedi'u hystyried gan y Pwyllgorau Craffu'r Gyllideb perthnasol.</p>
<p>Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Mae'r angen i weithredu'r newidiadau i'r Ffioedd a'r Taliadau yn sylfaenol, oherwydd chwyddiant costau ynghyd â setliadau cyllid cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gan y Cyngor lawer o ysgogiadau o reolaeth yn y maes hwn ac eithrio gostyngi gwasanaethau sef yr hyn sy'n ceisio cael ei osgoi drwy gynyddu'r ffioedd.</p>
<p>Integreiddio Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Mae'r Cyngor yn chwilio'n barhaus am welliant a phartneriaid lle bo hynny'n bosibl. Enghraifft o hyn, yw bod y Cyngor yn y broses o gytuno gyda rhai Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd drosodd y gwaith o redeg cyfleusterau cyhoeddus, cynnal a chadw tiroedd manau cyhoeddus a glanhau strydoedd tymhorol. Gall hyn gynnig ateb amgen a allai fod yn fwy lleol a hyfyw na'r hyn y gall y Cyngor ei fforddio.</p>

Risg

Crynowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

	1	2	3	4	5
Meini prawf asesu effaith	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	Annhebygol o ddigwydd	Llai tebygol o ddigwydd	Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd	Mwy tebygol o ddigwydd	Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)	Sgôr (Effaith x Tebygolrwydd)	
Cyngor yn methu â darparu cyllideb gytbwys	5		2 (nawr bod y Gyllideb yn ei gamau olaf)	10	
Mae cynnydd mewn ffioedd a thaliadau yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y galw am wasanaethau sy'n arwain at fethu targedau incwm	3		2	6	
Mae Ffioedd a Thaliadau Cynyddol yn arwain at Wasanaethau yn mynd yn anfforddiadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth	3		2	6	

Cymeradwyo

Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr Corfforaethol		x _____	Cliciwch yma i fewnosod dyddiad
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Duncan Hall		19/02/2024
Cyfarwyddwr Corfforaethol	Barry Rees		19/02/2024
Deiliad y Portffolio	Gareth Davies		19/02/2024

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol